

Canllawiau Mynediad - Fersiwn 2



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Dysgu
Learn

Cwrs Mynediad – Canllaw i'r Tiwtor

Croeso i'r Cwrs Mynediad. Dyma'r Canllawiau sy'n cyd-fynd â chwrs Mynediad 2021 (Fersiwn 2).

Y mae'r Canllawiau hyn yn addas ar gyfer dosbarthiadau sy'n cwrdd wyneb yn wyneb ac yn rhithiol. Lle bo angen gwahaniaethu, defnyddir y symbolau hyn i ddynodi'r gwahaniaeth:

Eicon dosbarth wyneb yn wyneb



Eicon dosbarth rhithiol



Os byddwch yn dysgu dosbarth cyfunol, ceir blychau ychwanegol mewn ffont melyn tywyll – bydd y rhain yn dweud lle y dylid dechrau yn y dosbarth cyfunol a sut y dylid atgyfnerthu'r gwaith yn yr uned ar-lein. Ond o'r pwynt hwnnw ymlaen, bydd y cyfarwyddiadau yr un peth. Dylai tiwtoriaid ddosbarthiadau cyfunol hepgor popeth hyd at y pwynt hwnnw, ac eithrio'r Banc Cwestiynau.

Ceir 29 o unedau – 28 o unedau arferol ac uned yn cyflwyno elfennau arholiad Mynediad. Dylai dosbarthiadau sy'n cwrdd am ddwy awr yr wythnos anelu at gwblhau hanner y cwrs mewn tua 60 awr a dylai dosbarthiadau dwys anelu at gwblhau'r lefel mewn tua 120 awr. Mae'r cyrsiau cyfunol yn anelu at gwblhau uned bob wythnos. Dylid pwysleisio nad yw pob uned yn unffurf o ran hyd ond amcangyfrifir y bydd y rhan fwyaf o'r unedau yn cymryd tua phedair awr i'w cwblhau mewn dosbarth. Bydd dysgwyr yn gallu sefyll arholiad Defnyddio'r Gymraeg ar ôl cwblhau'r lefel.

Y Safle Rhyngweithiol

Ceir adnoddau i gyd-fynd â phob uned ar y Safle Rhyngweithiol – www.dysgucymraeg.cymru. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys yr holl ddeunyddiau sain a fideo i'r dysgwr a'r tiwtor, ynghyd ag ymarferion ychwanegol i'r dysgwyr eu hunain. Mae'r deunyddiau sain a fideo hefyd ar gael mewn *dropbox* ar gyfer tiwtoriaid yn unig. Mae gwybodaeth am y *dropbox* ar gael gan eich darparwr neu gan y Ganolfan Genedlaethol.

Ceir adran 'Adolygu', sef adrannau adolygu'r cwrs cyfunol sy'n cynnwys llawer o adnoddau rhyngweithiol. Mae'r adrannau hyn yn agored i bawb a dylid arwain y dysgwyr at yr adnoddau hyn o'r cychwyn cyntaf.

Blwch Adnoddau

Pan gyfeirir at Atodiadau yn y canllawiau, y mae'r cardiau hyn ar gael yn y Blwch Adnoddau, ac maent ar gael ar ffurf pdf a chyflwyniad PowerPoint yn adran y tiwtoriaid ar y Safle Rhyngweithiol. Gellir defnyddio'r cardiau (copi caled) i ddysgu ar-lein os yn briodol. Y mae defnyddio'r cardiau yn hytrach na chyflwyniad PowerPoint neu dull electronig arall yn gallu dod ag amrywiaeth i'r dosbarth rhithiol ac yn caniatáu i'r tiwtor osod y tempo.

Elfennau gwahanol yn y cwrs:


Geirfa

Daw geirfa pob uned ar ddechrau'r uned a dylid annog y dysgwyr i ymgysgu â'r eirfa cyn y wers. Yn y cwrs cyfan, ceir yr holl eirfa a ystyrir yn eirfa graidd ar gyfer Mynediad, a rhagor. Mae'r 100 gair mwyaf cyffredin yn y Gymraeg (CorcenCC) yn y cwrs. Rhennir yr eirfa'n enwau gwrywaidd, enwau benywaidd, berfenwau, ansoddeiriau ac arall. Ceir allwedd i'r dysgwyr yn y tair uned gyntaf. Yn ddiaw, bydd y dysgwyr eu hunain yn gofyn am eirfa sy ddim yn y cwrs. Ceir lle iddynt nodi'r geiriau hyn yn eu llyfrau ond argymhellir hefyd fod tiwtoriaid yn creu cardiau fflach er mwyn ymarfer y geiriau hyn.

Awgrymir profi geirfa yn gyson. Gellir gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd – prawf confensiynol, nearpod, kahoot, chwilaer, quizlet, Bingo ac ati.

Patrymau

Mae'r cwrs wedi'i seilio ar batrymau'r Gymraeg yn cael eu hadeiladu'n rhesymegol. Ceir blociau o iaith i'w dysgu. Dylid amrywio'r dull cyflwyno yn ôl y patrwm dan sylw a cheir canllawiau ym mhob uned, e.e. ailadrodd, defnydd o luniau a gwrthrychau, disodli. Mae cyfres o gyflwyniadau PowerPoint ar gael i gyd-fynd â'r unedau ond rhaid pwysleisio bod angen amrywiaeth, yn enwedig yn y dosbarth wyneb yn wyneb. Wrth ddefnyddio llun neu wrthrych, mae'r holl sylw ar y tiwtor yn hytrach nag ar sgrin. Mae'n bwysig iawn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer gyda'i gilydd ac mae hefyd yn bwysig iawn rhoi'r cyfle i ddysgwyr bersonoli mor fuan â phosib fel bod yr iaith yn dod yn ystyrion i'w sefyllfa nhw. Ceir ymarfer yn seiliedig ar bob patrwm naill ai yn Llyfr y Dysgwyr neu yn y Canllawiau i'w wneud cyn symud ymlaen at y bloc iaith nesaf.

Gellid gofyn i'r dysgwyr eu tawelu eu hunain ar gyfer y drilio dosbarth cyfan. 

Mae Uned 5 yn torri'r rheol o gyflwyno'r patrymau'n rhesymegol trwy gyflwyno'r amser gorffennol yng nghanol unedau sy'n cyflwyno'r presennol. Mae hynny'n gwbl fwriadus er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn gallu adrodd eu newyddion ar ddechrau gwersi a sgwrsio yn y gorffennol. Dylid egluro wrth y dysgwyr y rheswm dros gyflwyno'r uned hon.

Ynganu

Ceir ymarfer ynganu ym mhob uned – geiriau unigol i ddechrau, yna brawddegau ac yna deialogau o gyn-bapurau arholiad Mynediad. Gellir gwneud yr ymarferion hyn ar unrhyw adeg yn ystod y wers – efallai yng nghanol y gwaith cyflwyno patrymau os yw'r gwaith yn mynd yn drwm.

Sgwrs

Mae pob un o'r deialogau wedi'u recordio ac fel cam cyntaf dylid bob amser chwarae'r sgwrs gan annog y dysgwyr i beidio ag edrych ar y sgript. Mae'r deialogau hyn yn canolbwyntio ar y patrymau a ddysgwyd eisoes felly dylent fod yn ddealladwy. Ar ddiwedd y gwrandawriad cyntaf, gellid gofyn i'r dysgwyr am unrhyw air a ddeallwyd a'i nodi. Ceir syniadau am ymdrin â'r deialogau unigol yn y canllawiau.

Ceir ymarfer ad-drefnu pob deialog ar y Safle Rhyngweithiol.

Robin Radio

Yn ogystal â'r deialogau cyffredinol ym mhob uned, ceir hefyd ddeialog Robin Radio sydd wedi'i recordio. Pwrpas y ddeialog hon yw meithrin y sgil o fras-ddeall ac ymgyfarwyddo â rhai ymadroddion sydd y tu hwnt yn ramadegol i'r patrymau dan sylw yn y cwrs. Ceir tair adran i'r dysgwyr: i) ateb cwestiynau sy'n meithrin eu sgiliau gwrandawrio am fanylion pwysig, ii) gwrandawrio am ymadroddion newydd, iii) cyfieithu. Gofynnir i'r tiwtor ddychwelyd yn gyflym at yr ymadroddion newydd yn yr uned nesaf er mwyn atgoffa'r dysgwyr ohonynt. Mae'r brawddegau i'w cyfieithu'n canolbwyntio ar ailgylchu patrymau mae'r dysgwyr wedi'u dysgu yn y cwrs felly mae'n ffordd o adolygu. Mae hwn yn weithgaredd ymestynnol a gellid ei osod fel Gwaith Cartref ychwanegol os na fydd amser yn ystod y wers.

Help Llaw a Chrynodeb o'r Gramadeg

Ceir adran ar ddiwedd pob uned yn crynhoi'r gwaith newydd sy'n ymddangos yn yr uned. Ceir crynodeb o'r holl ramadeg yng ngefn y llyfr.

Unedau Adolygu ac Ymestyn

Mae gêm gardiau'n adolygu'r holl batrymau a ddysgwyd ar ddechrau pob uned adolygu. Os yn bosib, gwahoddwch siaradwyr rhugl i gymryd rhan yn y gêm hon gyda'r dysgwyr. Dylid meithrin yr arfer o wahodd siaradwyr rhugl i'r dosbarth mor aml â phosibl. Gellid gofyn i diwtor(iaid) y tro cyntaf gan y byddant yn gwybod yn union sut i siarad â'r dysgwyr. Mae'r fformat ychydig yn wahanol yn yr unedau adolygu. Cychwynnir gyda deialog, yn hytrach na phatrwm, gan ddod â'r patrymau a ddysgwyd ynghyd. Mae'r deialogau hyn wedi'u recordio a cheir awgrymiadau gwahanol i gyd-fynd â phob deialog. Mae rhai elfennau ieithyddol newydd yn codi yn y deialogau (e.e. Ga i yn Uned 8 a'r amser perffaith – wedi – yn Uned 15) ac felly ceir blociau dril neu ymarferion eraill i dynnu sylw at y patrwm hwn.

Gwaith Cartref

Ceir ymarferion gwahanol bob tro. Mae'n bwysig gosod Gwaith Cartref yn dilyn pob gwers, nid ar ddiwedd pob uned. Y mae'r Gwaith Cartref yng nghefn y llyfr i'r dysgwyr a cheir fersiynau Word a pdf ar y Safle Rhyngweithiol.

Ailgylchu Iaith ac Adolygu

Pan fo cwrs yn canolbwyntio ar adeiladu patrymau, rhaid bod yn ofalus iawn i ailgylchu'r patrymau a ddysgwyd yn flaenorol yn gyson. Daw hyn gyda sgwrsio personol ar ddechrau gwers, trwy gyfrwng y deialogau ond hefyd trwy'r Banc Cwestiynau y gall y dysgwyr eu defnyddio ar ddechrau pob gwers. Mae'r cwestiynau hyn yn y Blwch Adnoddau ac ar y Safle Rhyngweithiol. Ni neilltuir amser penodol ar gyfer sgwrsio personol yn y canllawiau ond mae'n rhywbeth mae angen ei gynnwys ym mhob gwers, unwaith y bydd yr adnoddau ieithyddol gan y dysgwyr. Mae'r gwaith hwn yn sicrhau bod y dysgwyr yn gallu defnyddio iaith sy'n berthnasol iddyn nhw.

Os dymunwch rannu'r dysgwyr yn grwpiau bach ar gyfer y Banc Cwestiynau, gellid ehostio'r cwestiynau at y dysgwyr ymlaen llaw, rhoi dolen yn y 'chat' neu eu gosod yn ffeil y dosbarth ymlaen llaw. Neu gellir rhoi'r cwestiynau mewn gweithgaredd tebyg i Wordwall, rhoi'r ddolen i'r dysgwyr sydd wedyn yn gallu rhannu'r sgrin gyda dysgwyr eraill. Ond rhaid sicrhau bod eich darparwr chi yn caniatáu rhannu sgrin.



Ceir un syniad ar gyfer adolygu patrwm yr uned flaenorol yn y Canllawiau bob tro.

Asesu ar gyfer Dysgu

Mae'n bwysig iawn asesu yn ystod y wers ac ar ddiwedd pob gwers a yw'r dysgwyr yn deall yr hyn sy'n cael ei gyflwyno. Dyma rai syniadau:

Gofyn ar ddiwedd gwers beth a ddysgwyd. Gellir nodi'r pethau hyn a llenwi unrhyw fylchau.

Gofyn i bob dysgwr nodi tri pheth a ddysgwyd yn ystod y wers. Gellir gwneud nodyn o'r pethau hyn a dychwelyd atynt ar gyfer atgyfnerthu ar ddechrau'r wers nesaf. Gellid dosbarthu post-its ar gyfer y gweithgaredd yma yn y dosbarth wyneb yn wyneb.

Gofyn i bawb gofnodi eu hoff frawddeg o'r wers/uned.

Dewis hyd at bedwar gair o'r wers a gofyn i bawb ysgrifennu 4 brawddeg/ cwestiwn yn ymarfer y geiriau hyn a'r patrymau targed.

Pawb i greu bwydlen yn nodi tri pheth maen nhw wedi'u dysgu ar ffurf cwrs cyntaf, prif gwrs a phwddin. Gellid gofyn am rywbeth gwahanol ym mhob categori, e.e. cwrs cyntaf a phwddin yn eitemau geirfa a'r prif gwrs yn batrwm. (Gallai'r pwddin fod yn gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.)

Arholiad Mynediad

Ymgorfforir elfennau o'r arholiad yn y cwrs fel bod y dysgwyr yn paratoi'n naturiol ar gyfer ei sefyll a cheir un uned ar ddiwedd y cwrs sy'n canolbwyntio'n llwyr ar elfennau'r arholiad. Dylid dysgu'r uned hon pryd bynnag mae'n amserol, neu gellir cyflwyno'r gwahanol elfennau ar draws nifer o wersi.

Cyrsiau cyfunol

Anelir at gwblhau un uned bob wythnos. Darperir 25% o gynnwys yr uned ar-lein a bernir y bydd hyn yn cymryd tua awr. Dylai'r dysgwyr gwblhau'r gwaith yma cyn y wers ac ni ddylid ail-ddysgu'r gwaith yn y wers. Bydd pob uned ar-lein yn cynnwys:

Adolygu'r uned flaenorol (gan gynnwys fideo)

Geirfa'r uned dan sylw

Tua 25% o gynnwys ieithyddol yr uned dan sylw

Adran 'Dych chi'n Gwybod?' ar y diwedd. Bydd y marc a gaiff y dysgwyr, a dadansoddiad o'r atebion, yn cael eu hanfon at bob tiwtor.

Rhaid cwblhau pob adran yn yr uned ar-lein. Ni fydd yn bosib symud ymlaen heb gwblhau adran.

Ceir blychau melyn o fewn y Canllawiau sy'n berthnasol i'r cwrs cyfunol, gan gynnwys lle dylid dechrau'r uned bob tro. Rhaid cofio bob amser wneud y Banc Cwestiynau hefyd. Nid oes angen cyflwyno geirfa'r uned nesaf gan fod y gwaith hwn yn cael ei wneud ar-lein. Ond gellid profi'r geiriau yn y wers nesaf.

Pob dymuniad da!

Canllawiau Uned 1

Nod y wers: Dechrau Sgwrs - cyflwyniadau, gofyn am a mynegi teimladau, rhifau.

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned – cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
X dw i. Pwy dych/dach chi?	X dw i. Pwy dych/dach chi?
Sut dych/dach chi? + ymatebion	Sut dych/dach chi? + ymatebion
Sgwrs 1	
Ynganu – llythrennau'r wyddor	Cyflwyniad cynhwysfawr i'r wyddor
Rhifau 1 - 10	Rhifau 1 - 100
Ynganu - Pwyslais	
Sgwrs 2	
Sgwrs Sut wyt ti?	
Ble dych chi'n byw?/Lle dach chi'n byw? Llanelli	
Dw i'n ...	
Sgwrs 3	
Robin Radio	

Adnoddau i'r tiwtor:

- Copi (digidol) o'r llyfr cwrs.
- Cyflwyniad PowerPoint
- Sain o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*.

Adnoddau i'r dysgwr:

- Dis
- Cardiau chwarae

Cam 1 - Cyflwyniadau

Cyflwynwch eich hunan a gwahodd y dosbarth i ymuno â chi a benthyg eich enw pan maen nhw'n teimlo'n hyderus i wneud hynny.

Gofynnwch i bawb ddweud eu henw – atebwch bob un drwy ddweud "Croeso, X". Pawb ar eu traed yn cyflwyno eu hunain yn y dosbarth wyneb yn wyneb.

(Tip dysgu: Siôn dw i = Siôn I am. Y peth pwysig yn gyntaf – *the important thing comes first*).

Rhowch lun o berson enwog i bawb. Rhaid i bawb gerdded o gwmpas yn cyflwyno eu hunain ym mhersona'r person enwog. Mae'n bwysig cael lluniau o enwogion o fewn cyd-destun Prydeinig neu ryngwladol fel bod y dysgwyr yn gyfarwydd â'r bobl yn y lluniau.



Er mwyn cael ymarfer, paratowch gyflwyniad PowerPoint gyda lluniau pobl enwog, neu dangoswch luniau. Rhaid i bawb gymryd arnynt mai nhw yw'r bobl hyn. Mae'n bwysig cael lluniau o enwogion o fewn cyd-destun Prydeinig neu ryngwladol fel bod y dysgwyr yn gyfarwydd â'r bobl yn y lluniau.



Driliwch Pwy dych/dach chi?

Er mwyn ymarfer, rhowch gerdyn i bawb (Atodiad 1). Rhaid canfod partner. Os bydd cardiau dros ben, gellir eu hailddosbarthu os bydd pobl yn canfod partner yn gyflym.



Er mwyn ymarfer, dangoswch y cyflwyniad PowerPoint. Rhaid dyfalu pwy yw'r partner trwy ddweud 'X dw i'. Gellir gwahodd unigolion i ddweud hyn ar lafar neu anfon neges atoch cyn y 'chat'. Gellir defnyddio parau mwy cyfoes/perthnasol i'r dosbarth.



Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Cam 2 – Sut dych/dach chi?

Adeiladu ar Pwy dych/dach chi? – Cyflwyno Sut dych/dach chi? Cadwch at y pedwar ymateb yn llyfr y dysgwr am y tro. Driliwch nhw'n drylwyr gan ddefnyddio ystumiau i gyfleu'r ystyr a gan ofyn i'r dysgwyr ymateb fel dosbarth i ddechrau.

Gofynnwch i unigolion 'Sut dych chi?'. Byddant yn gallu ateb, lawn/Da iawn, diolch/Ofnadwy/Wedi blino. Gellir gofyn iddynt ymateb i'ch ystumiau chi yn y lle cyntaf ac yna ateb trwy ddweud y gwir.

Rhannwch y dosbarth yn barau i ddrilio ei gilydd. Partner A i ofyn y cwestiwn 'Sut dach/dych chi?' gan ystumio i gyfleu'r ateb. Partner B i ymateb yn briodol. Rhaid newid rôl pan fyddwch chi'n curo dwylo ar ôl munud neu ddwy.



Rhannwch y dosbarth yn barau i ddrilio ei gilydd. Partner A i ofyn y cwestiwn 'Sut dach/dych chi?' gan ystumio i gyfleu'r ateb. Partner B i ymateb yn briodol. Rhaid newid rôl pan fyddwch chi'n anfon neges at bawb yn yr ystafelloedd bach ar ôl munud neu ddwy.



I gloi, darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs neu dangoswch y sleid yn y Cyflwyniad PowerPoint. Ceir cyfres o sleidiau i atgyfnerthu unwaith eto yr ymatebion posib i 'Sut dych/dach chi?' Gofynnwch i bawb ymateb fel corws.

Mae'r dosbarth cyfunol yn dechrau yma. Gofynnwch i bawb gyflwyno eu hunain

Sgwrs – Chwaraewch y sgwrs. Rhannwch y dosbarth yn barau i ymarfer darllen y tro cyntaf. Dylid disodli'r geiriau a danlinellir wrth ddarllen gyda phartner newydd.



Sgwrs – Chwaraewch y sgwrs. Rhannwch y dosbarth yn barau i ymarfer darllen y tro cyntaf. Dylid disodli'r geiriau a danlinellir wrth ddarllen am yr ail dro.



Ceir gweithgaredd ychwanegol i ymarfer dau gam cyntaf yr uned ar ddiwedd canllawiau Uned 1 os y teimlwch fod angen rhagor o ymarfer.

Cam 3 - Ynganu

Yr Wyddor.

Ewch drwy'r wyddor yn drylwyr fesul llythyren.

Rhowch ddigon o gyfle i'r dysgwyr ymarfer mewn parau.

Nid oes angen gwneud y cam hwn yn y dosbarth cyfunol ond gwahoddwch gwestiynau am yr wyddor. Defnyddiwch y rhestr Geirfa i ymarfer ynganu. Dylid gwneud hyn ar ffurf prawf i sicrhau bod y dysgwyr wedi dysgu'r geiriau, yn ogystal ag ymarfer ynganu.

Cam 4 – Geirfa

Fel arfer, dylid cyflwyno geirfa'r uned nesaf ar ddiwedd yr uned ond nid yw hynny'n bosib yn Uned 1. Defnyddiwch y rhestr eirfa fel ymarfer ynganu hefyd.

Nid oes angen gwneud y cam hwn yn y dosbarth cyfunol.

Cam 5 – Rhifau

Dysgwch y rhifau. Gall fod yn effeithiol cyflwyno'r rhifau mewn grwpiau o dri. Ceir rhai syniadau ar gyfer ymarfer rhifau isod.

Nid oes angen gwneud y cam hwn yn y dosbarth cyfunol ond gellid dewis un neu ddau o'r gweithgareddau ymarfer isod i atgyfnerthu.

Rhoi rhifau ffôn – gallant fod yn rhifau ffôn go iawn defnyddiol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg. Gall y tiwtor eu galw, y dysgwyr i'w cofnodi a'r dysgwyr i'w galw yn ôl.

Symiau ar y bwrdd gwyn.

"Bingo" gyda'r dysgwyr yn dewis 5 rhif o 0 – 10, y tiwtor yn galw'r rhifau nes bydd enillydd – dysgwch y gair Tŷ iddyn nhw!

Parau i ysgrifennu rhif yn yr awyr a'r partner i ddyfalu beth yw e.



Darllenwch dros y rhifau yn y llyfr cwrs.

Cam 6 - Ynganu

Pwyslais

Pwrpas yr adran hon yw dangos bod y pwyslais ar y goben (y sillaf olaf ond un) – mae'n bwysig plannu hyn ym meddwl y dysgwyr o'r dechrau.

Darllenwch dros yr enwau yn y blwch i gyd i ddechrau.

Sicrhewch eich bod yn gwneud rhywbeth cynaesthetig i ddangos y pwyslais, e.e. curo dwylo wrth ynganu'r sillaf a bwysleisir.



Yna, rhannwch y dosbarth yn barau. Bydd angen dwy siwt gyfan o becyn o gardiau ar bob pâr. Rhaid troi cerdyn ac ynganu'r enw sy'n cyfateb i'r rhif. Siwt ddu = yr enw gwrywaidd. Siwt goch = yr enw benywaidd.

'Minimal pairs'

Yn olaf yn yr adran ynganu, ceir geiriau tebyg. Bydd nifer o egwyddorion pwysig yn codi wrth fynd drwy'r rhestr. Sicrhewch eich bod yn cael digon ymarfer fel dosbarth cyfan, cyn rhannu'r dosbarth yn barau i ymarfer. Rhaid pwysleisio nad oes angen deall ystyr y geiriau.

Cam 7 - Sgwrs

Cyn chwarae'r sgwrs, darllenwch dros y cyfarchion ar gyfer adegau gwahanol y dydd. Gofynnwch i bobl dderbyn 'Noswaith dda' fel ymadrodd am y tro. Wedyn, chwaraewch y sgwrs ddwywaith. Gofynnwch i barau nodi unrhyw eiriau sy'n debyg i'r Saesneg – helô, plîs, cwnstabl, gitarydd, band, pandas, pinc, car, problem. Rhannwch y dosbarth yn barau i ddarllen y ddeialog.

Cam 8 - Sut wyt ti?

Darllenwch y ddeialog newydd gyda'r ffurf 'Sut wyt ti?' Eglurwch y gwahaniaeth rhwng ti a chi. Driliwch y cwestiwn ac atgyfnerthu'r pedwar ateb posib. Gellir defnyddio'r lluniau yn y cyflwyniad PowerPoint i wneud hyn.

Cam 9 - Byw

Adeiladu ar gwestiynau. Dangoswch y berthynas amlwg rhwng Pwy/Sut dych chi? a 'Ble/Lle dach chi?' Driliwch y cwestiwn yn drwyadl. Rhaid i'r dysgwyr ateb gydag enwau llefydd yn unig. Er mwyn meithrin ymwybyddiaeth o arwyddocâd enwau llefydd, gellir egluro'r gyflym iawn beth yw ystyr Aber, Llan, Caer a Pont.

Cam 10 - Brawddegau person cyntaf

Mae'r bloc yma'n un pwysig ar gyfer paratoi i gyflwyno'r amser presennol. Dylid personoli yn syth ar ôl drilio'r tair brawddeg gyntaf. Mae'r brawddegau'n paratoi ar gyfer cyflwyno 'hoffi' yn Uned 2. Darllenwch dros y brawddegau yn y llyfr cwrs.

Cam 11 - Sgwrs 3

Mae'r sgwrs hon yn dod â holl gynnwys yr uned at ei gilydd. Chwaraewch y sgwrs o leiaf ddwywaith cyn rhannu'r dosbarth yn barau i ymarfer darllen. Rhowch y ddeialog ar y bwrdd gwyn a dechreuwch ddileu geiriau fel bod y parau'n dechrau cofio mwy a mwy.

Gall fod yn haws dileu'r geiriau mewn dogfen Word.



Cam 12 – Robin Radio

Cyflwyno Robin Radio. Gellir gosod deialogau Robin Radio fel gwaith cartref ychwanegol a gwirio'r atebion ac ymarfer y brawddegau defnyddiol yn y dosbarth. Ond y tro yma, mae'n ddoeth esbonio'r cysyniad bod y gwaith gwranddo yma yn meithrin y sgil o fras-ddeall ac na ddylid disgwyl deall popeth.

Chwaraewch drac 1, gofyn beth wnaethon nhw ddeall, ac yna ei chwarae unwaith eto. Nid oes unrhyw ymarferion penodol yn Uned 1. Byddan nhw'n dechrau o Uned 2 ymlaen.

Cam 13 - Geirfa

Geirfa Uned 2

Nid oes angen gwneud y cam hwn yn y dosbarth cyfunol.

Cam 14 – Crynhoi ac Asesu cynnydd

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 1. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Gweithgareddau ychwanegol

Ymarfer X dw i a Sut dach/dych chi?



Saif y dysgwyr mewn rhes yng nghanol yr ystafell. Galwch yr enwau canlynol: Rhys, Siân, Mair, Gwyn, Gwen, Siôn, Llinos, Gareth, Dewi, Marged, Rhian, Rhodri, Carwyn, Rhiannon. Dynodwch un ochr yr ystafell yn enwau dynion a'r llall yn enwau merched. Wrth i'r tiwtor alw'r enwau, rhaid i aelodau'r dosbarth symud i ran gywir yr ystafell. Gellid gofyn iddynt gofio rhai o'r enwau a alwyd ar y diwedd.


Gwnewch set o gardiau fel yr isod:

Gareth


Siân

Llinos


Gwyn




- iawn;



- da iawn, diolch;



- ofnadwy;



zzz – wedi blino

Rhaid i'r dosbarth fynd o gwmpas yn cyflwyno eu hunain gan ddefnyddio'r enw ar y cerdyn, e.e. Gareth dw i, ac yna'n ymateb i'r cwestiwn 'Sut dach/dych chi?' yn unol â'r symbol ar y cerdyn.

Ymarfer gyda lluniau enwogion



Rhowch lun o berson enwog i bawb a'r dysgwyr i gyflwyno eu hunain fel y person enwog ac ymateb i'r cwestiwn Bore da/Pnawn da, Sut wyt ti? gan ddibynnu ar sut olwg sydd ar y person enwog. Dylid gorffen y sgwrs gyda "Hwyl". Mae'n bwysig modelu'r ddeialog cyn rhyddhau'r dosbarth i wneud hyn drwy ddefnyddio aelod hyderus/dibynadwy o'r grŵp fel partner:

A: X dw i.

B: Bore da/Pnawn da (yn dibynnu ar amser y dosbarth). Sut wyt ti?

A: Iawn/da iawn/ofnadwy/wedi blino. (yn dibynnu ar y llun)

B: Hwyl.

Dylid cadw'r un llun am ychydig ac yna ei gyfnewid bob tro er mwyn cael ymarfer Da iawn/Iawn/Ofnadwy/Wedi blino.

Uned 1, Atodiad 1

Tom	Jerry
Batman	Robin
Scooby Doo	Shaggy
Bonnie	Clyde
Laurel	Hardy
Mickey	Minnie
Homer	Marge
Romeo	Juliet
Barack	Michelle
Anthony	Cleopatra
Albert	Victoria
Sherlock	Dr Watson

Canllawiau Uned 2

Wyt ti'n lico/licio/hoffi coffi?

Nod y wers: Siarad am bethau 'dyn/dan ni'n hoffi a gweithgareddau pob dydd

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned – cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Dw i'n hoffi/lico/licio...	Dw i'n hoffi/lico/licio...
Wyt ti'n hoffi/lico/licio...? Ydw/Nac ydw	Wyt ti'n hoffi/lico/licio...? Ydw/Nac ydw
Dw i ddim yn hoffi/lico/licio...	
Sgwrs 1	
Beth dych/Be dach chi'n hoffi/lico/licio? Beth/Be wyt ti'n hoffi/lico/licio?	
Ynganu – llafariaid hir	
Ynganu – geiriau tebyg i'r Saesneg	
'Dyn ni/Dan ni'n...	
Ble dych chi'n.../Lle dach chi'n...?	
'Dyn ni ddim/Dan ni ddim...	
Dyddiau'r wythnos	Dyddiau'r wythnos
Pryd dych/dach chi'n...?	
Sgwrs 2	
Robin Radio	

Adnoddau i'r tiwtor:

Copi (digidol) o'r llyfr cwrs

Cyflwyniad PP Uned 2

Deialogau o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*

Adnoddau i'r dysgwr:

Dis

Cam 1 - Banc Cwestiynau

Sut dach/dych chi?

Dylech gyfarch pawb trwy holi sut maen nhw.

Cam 2 - Adolygu Uned 1

Adolygwch Sut dych/dach chi? – Da iawn, lawn, Ofnadwy, Wedi blino. Dysgwch ddau ymadrodd newydd: Bendigedig a Dim yn dda iawn. Mae bendigedig yn yr eirfa beth bynnag. Peidiwch â cheisio egluro'r treigladd meddal yn 'dim yn dda iawn'. Gofynnwch i ddysgwyr ei dderbyn fel ymadrodd am y tro.

Rhannwch y dosbarth yn barau a rhowch ddis i bob pâr. Rhowch y canlynol ar y bwrdd:

- | | |
|--------------|------------------|
| 1. Very well | 4. Wonderful |
| 2. OK | 5. Tired |
| 3. Terrible | 6. Not very good |

Rhaid i bartner A ofyn y cwestiwn, gyda phartner B yn ymateb gyda'r ymadrodd sy'n cyfateb i'r rhif ar y dis. Gellir dechrau gyda Sut dych chi? a newid i Sut wyt ti? ar ôl dwy funud.

Cam 3 – Dw i'n hoffi/dw i ddim yn hoffi/wyt ti'n hoffi?

Dewiswch gyflwyno lico/licio neu hoffi yn y dril. Ni ddylid drilio'r ddau.

Dw i'n hoffi... Atgoffwch y dysgwyr o'r pedair brawddeg 'Dw i'n...' a ddysgwyd ar ddiwedd Uned 1 (Dw i'n darllen XX, dw i'n gyrru XX, dw i'n gwylio XX, Dw i'n dysgu Cymraeg). Drilio Dw i'n hoffi gyda bwydydd/diodydd a fydd yn hawdd eu dysgu, e.e. coffi, siocled, pasta, pizza. Defnyddiwch y gwrthrychau eu hunain neu luniau ohonynt (Luniau CBAC 1 21-57).

Dosbarthwch wrthrych neu lun i bawb a chael pawb ar eu traed yn dweud Dw i'n hoffi... Cadwnt yr un gwrthrych/llun ar y dechrau, ond yna'n cyfnewid gwrthrych wrth gwrdd â phob partner newydd. Sicrhewch fod pawb yn cael cyfle i bersonoli fel cam olaf.



Gofynnwch i bawb godi a nôl bwyd neu ddiod maen nhw'n ei hoffi. Gellir defnyddio'r enw Saesneg wrth adrodd yn ôl os bydd yr eirfa'n rhy soffistigedig.



Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Wyt ti'n hoffi...? Driliwch y cwestiwn (gan atgoffa'r dysgwyr gyntaf o Pwy/Sut wyt ti? i gyfleu'r syniad o adeiladu patrymau). Defnyddiwch yr un gwrthrychau/lluniau ag uchod i ymarfer y cwestiwn. Gwahoddwch bob dysgwr i ofyn cwestiynau i chi er mwyn i chi fodelu'r atebion, Ydw/Nac ydw.

Dosbarthwch wrthrych neu lun i bawb eto a chael pawb ar eu traed yn holi ei gilydd Wyt ti'n hoffi...? Cadwnt yr un gwrthrych/llun ar y dechrau, ond yna'n cyfnewid gwrthrych wrth gwrdd â phob partner newydd.



Gofynnwch i bawb holi ei gilydd.



Darllenwch dros y bloc cwestiynau yn y llyfr cwrs.

Mae'r dosbarth cyfunol yn dechrau yma. Defnyddiwch y sleid gyntaf yn y cyflwyniad PP i fynd dros y gwaith a ddysgwyd cyn y wers. Fel prawf geirfa, gofynnwch i bawb pa ferfenwau mae'r lluniau'n eu cynrychioli: siopa, dawnsio, canu, gweithio, smwddio, darllen, bwyta siocled, yfed gwin. Wedyn, gofynnwch iddyn nhw eu cynnwys mewn brawddeg gyda 'Dw i'n hoffi' ac wedyn ymarfer 'Wyt ti'n hoffi...?' Er mwyn hefyd adolygu dyddiau'r wythnos, gofynnwch gwestiynau megis: Wyt ti'n siopa dydd Sadwrn?/Wyt ti'n yfed gwin dydd Sul?

Dw i ddim... Er mwyn cyflwyno'r negyddol, gellir defnyddio'r un gwrthrychau a chardiau bwydydd a diodydd ag uchod, neu defnyddiwch y lluniau sy'n cyfleu berfenwau yn sleid gyntaf y PowerPoint. Mae'r berfenwau hyn i gyd yn yr eirfa. Gofynnwch i'r dysgwyr ofyn i chi unwaith eto a ydych chi'n hoffi'r pethau hyn. Y tro hwn, atebwch gyda brawddegau llawn, gan fodelu'r negyddol am y tro cyntaf. Driliwch y brawddegau negyddol. Camgymeriad cyffredin yw 'Dw i'n ddim yn', felly driliwch 'Dw i ddim' ar ei ben ei hun yn gyntaf.

Dosbarthwch wrthrych neu lun i bawb eto a chael pawb ar eu traed yn holi ei gilydd Wyt ti'n hoffi...?, gyda'r partner yn ymateb yn onest ac yn llawn. Cadwnt yr un gwrthrych/llun ar y dechrau, ond yna'n cyfnewid gwrthrych wrth gwrdd â phob partner newydd.



Gofynnwch i bawb holi ei gilydd gan ddefnyddio'r lluniau yn y PowerPoint.



Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Holiadur - Modelwch yr holiadur cyn cychwyn.

Deialogau bylchog - Rhannwch y dosbarth yn barau i lenwi'r bylchau yn y ddwy ddeialog yn y llyfr cwrs. Rhaid cyflwyno 'hefyd' a 'chwaith' cyn cychwyn. Does dim rhaid i'r dysgwyr ddefnyddio 'hefyd' a 'chwaith' - dim ond eu darllen a'u deall. Ewch dros yr atebion, gyda dau bâr yn gwirfoddoli i ddarllen os yn bosib.

Sgwrs 1 – Mae 'Wyt ti'n mynd i'r dosbarth Salsa yfory?' yn batrwm newydd felly ysgrifennwch y cwestiwn ar y bwrdd gwyn cyn chwarae'r ddeialog. Dylid rhannu'r dosbarth yn barau i ymarfer darllen y ddeialog a disodli'r geiriau coch.

Cam 4 – Be dach/Beth dych chi'n...?

Atgoffwch y dysgwyr o 'Pwy dych/dach chi?' , 'Sut dych/dach chi?' a 'Ble dych chi?/Lle dach chi?' cyn cyflwyno 'Beth dych chi'n hoffi?/Be dach chi'n licio?' Driliwch y cwestiynau.

Ymarfer - Yn y llyfr cwrs, ceir cyfres o luniau. Rhaid i barau holi ei gilydd 'Beth dych chi'n hoffi?' a 'Beth dych chi ddim yn hoffi?' gyda'r parau yn dewis atebion o blith y chwe berfenw yn y blwch. Gellir hefyd gael sgwrs dosbarth cyfan am raglenni teledu a radio gyda'r dysgwyr yn holi ei gilydd.

Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Cam 5 – Ynganu

Yma mae'r llafariaid "hir"/ estynedig yn cael eu hymarfer. Mae'n bwysig dangos siâp y geg yn weledol wrth fodelu'r gwahaniaethau.

Hefyd, ceir cyfres o eiriau sy'n cael eu hynganu'n hollol wahanol yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn parhau i dynnu sylw at nodweddion ynganu. Ar ôl mynd drostynt, rhannwch y dysgwyr yn barau i'w hymarfer.

Cam 6 - 'Dyn/dan ni a 'dyn/dan ni ddim

'Dyn/Dan ni'n... Dechreuwch drwy atgoffa'r dysgwyr o 'Dw i'n hoffi/dysgu Cymraeg/darllen'. Driliwch y brawddegau newydd yn drylwyr. Gellir defnyddio'r sleid nesaf yn y cyflwyniad PowerPoint i gyflwyno'r patrwm. Gofynnwch am yr eirfa – siopa, dawnsio, chwarae tennis, dysgu Cymraeg, chwarae criced, darllen. Wedyn, driliwch yr eirfa o fewn y patrwm 'Dyn ni/Dan ni'n...' Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs, gan ofyn i bawb bersonoli brawddeg pedwar, gan ddweud ble maen nhw'n prynu bwyd.

Ble dych chi'n....?/Lle dach chi'n...? Atgoffwch y dysgwyr o'r cwestiwn 'Ble dych chi'n byw?/Lle dach chi'n byw?' cyn drilio'r bloc cwestiynau.

Ymarfer - Holiadur siopa. Mae'r dysgwyr yn holi ei gilydd, 'Ble dych chi'n prynu XX/Lle dach chi'n prynu XX?' gan ateb trwy ddefnyddio 'Dan/'Dyn ni'n prynu XX yn (enw siop neu garej)'. Pwysleiswch mai enw siop sydd ei angen nid math o siop. Dylai'r tiwtor foddelu.

'Dyn/Dan ni ddim - Dangoswch y berthynas rhwng Dw i ddim yn > 'Dyn ni ddim yn/Dan ni ddim yn. Driliwch y brawddegau yn y blwch – mae modd disodli'r enwau yn y pedair brawddeg er mwyn personoli.

Ymarfer - Rhannwch y dosbarth yn barau i holi ei gilydd am raglenni teledu. Rhaid canfod rhaglenni dyw'r ddau ddim yn eu hoffi – 'Wyt ti'n hoffi.....?' Ydw, dw i'n hoffi...../Nac ydw, dw i ddim yn hoffi..... Bydd angen adrodd yn ôl i'r dosbarth yn y lluosog 'Dyn/dan ni ddim yn hoffi.....'.

Cam 7 - Dyddiau'r Wythnos

Nid oes angen dysgu dyddiau'r wythnos yn y dosbarth cyfunol ond dylid gwneud yr ymarfer isod er mwyn atgyfnerthu.

Driliwch ddyddiau'r wythnos.

Mae'n bosib eu canu i'r dôn 'Llwyn Onn' gan ddechrau gyda dydd Sul a gorffen gyda 'hwrê'. Gellid dosbarthu 7 cerdyn (un dydd ar bob un) i bob pâr a'u cael i'w trefnu mor gyflym â phosibl.



Gellid anfon sleidiau PowerPoint gyda enwau'r dyddiau allan o drefn at bob dysgwr cyn y wers a rhoi ychydig o funudau iddynt ad-drefnu'r cyflwyniad ac yna ysgrifennu'r dyddiau yn y drefn gywir mewn neges bersonol atoch yn y 'chat'.



Ymarfer - Holiadur. Cyn troi at yr holiadur yn y llyfr cwrs, bydd angen ymarfer y cwestiwn 'Pryd dych/dach chi'n.....?' Ewch dros y geiriau sydd uwchben yr holiadur, gan egluro ystyr unrhyw eiriau newydd. Ceir 12 dewis. Rhaid nodi 7 ohonynt – un ar gyfer pob diwrnod yn yr wythnos – yn yr holiadur. Rhaid ymateb i'r cwestiwn 'Pryd dych/dach chi'n.....?' trwy ateb 'Dan/'dyn ni'n dydd XX' neu 'Dan/'dyn ni ddim yn os nad yw'r gweithgaredd wedi'i nodi o gwbl. Dylid modelu i ddechrau.

Ymarfer - Holiadur syml arall i atgyfnerthu dyddiau'r wythnos. Mae angen i'r dysgwyr ateb gan ddefnyddio'r berfenwau a awgrymir yn y llun (dawnsio, gweithio, canu, siopa, darllen, smwddio, gwneud yoga). Yn gyntaf, bydd angen drilio'r cwestiwn 'Beth dych/dach chi'n wneud?' Os bydd rhywun yn sylwi bod 'gwneud' wedi'i dreiglo, dywedwch na fyddai egluro'n ystyrlon mor gynnar yn y cwrs a gofynnwch iddynt ddysgu hwn fel cwestiwn defnyddiol iawn. Os na fydd neb yn gofyn, peidiwch â thynnu sylw at y treigladau yma. Ceir nodyn yn yr Help llaw.

Cam 8 – Sgwrs 2

Mae'r sgwrs yn crynhoi llawer o gynnwys yr uned. Ar ôl ei chwarae ddwywaith, gofynnwch i'r dysgwyr nodi'r 3 pheth dyw Dr Williams ddim yn eu hoffi. Dim ond y geiriau byddan nhw'n eu dweud gan nad yw'r patrwm wedi'i ddysgu. Atebion: dydd Llun, coffi, Ilaeth/Ilefrith.

Cam 9 - Robin Radio

(Gellir gosod y cam hwn fel gwaith cartref ychwanegol.)

Chwaraewch ddeialog Robin Radio. Bydd nifer o bethau newydd yma – yr holl bwynt yw rhoi dysgwyr mewn sefyllfa lle na fyddant yn deall pob gair ac yn dechrau dod i gasgliadau.

Ar ôl y gwrandawriad cyntaf, rhaid ateb y tri chwestiwn cyntaf. Mae'r cwestiynau yn ddwyieithog ond bydd y dysgwyr yn ateb yn Gymraeg.

Y cam nesaf, yn ystod yr ail wrandawriad, yw gwrandawro am yr ymadroddion a nodir yn y llyfr. Y cam olaf fydd cael y dysgwyr i gyfieithu'r ymadroddion a nodir. Byddant yn gwirio wrth wrando am y trydydd tro, a'r tiwtor yn cadarnhau'r atebion ar y diwedd wrth gwrs.

Cam 10 – Geirfa Uned 3

Cam 11 – Crynhoi ac Asesu cynnydd

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 2. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Gweithgaredd Ychwanegol **Ymarfer Dych/dach chi'n hoffi?**

Os oes digon o ddysgwyr, gellir rhannu'r dosbarth yn grwpiau a rhoi bwydydd hawdd eu disgrifio fel bag te, sachet coffi a siwgr, bag bach o reis, paced o nwdls ac oren bach, mewn bagiau "siopa". Yna maen nhw'n tynnu'r eitemau allan fesul un ac yn gofyn i weddill y grŵp – "Dych/Dach chi'n hoffi...?"



Fel y gweithgaredd uchod, ond paratowch un bag siopa, a gwnewch hyn fel gweithgaredd dosbarth cyfan.



Canllawiau Uned 3 - Dych chi eisiau paned?/Dach chi isio paned?

Nod y wers: Mynegi dymuniad

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned – cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Dw i eisiau/Dw i isio	Dw i eisiau/Dw i isio
Wyt ti eisiau/isio...? Ydw/Nac ydw/Oes/Nac oes	Wyt ti eisiau/isio...? Ydw/Nac ydw/Oes/Nac oes
Dw i ddim eisiau/isio	
Sgwrs 1	
Yn y caffi	
Beth dych chi eisiau?/Be dach chi isio? 'Dyn ni eisiau/Dan ni isio... Dych chi eisiau/Dach chi isio?	
Sgwrs 2	
Mae Siân eisiau/isio	
Ynganu	
Lliwiau	Lliwiau
Robin Radio	

Adnoddau i'r tiwtor:

Copi digidol o'r llyfr cwrs

Cyflwyniad PP Uned 3

Deialogau o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*

Adnoddau i'r dysgwr:

Dis a chownteri

Cam 1 - Y banc cwestiynau

Beth dych chi'n hoffi?/Be dach chi'n hoffi?
 Beth dych chi'n hoffi yfed?/Be dach chi'n hoffi yfed?
 Beth dych chi ddim yn hoffi?/Be dach chi ddim yn hoffi?

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i holi'r cwestiynau i'w gilydd.

Cam 2 - Adolygu Uned 2

Gofynnwch i'r dysgwyr ofyn i bawb ydyn nhw'n hoffi rhyw raglen deledu (rhaid i'r unigolion gadw at yr un rhaglen trwy gydol y gweithgaredd). Y cyfan a adolygir yma yw Dach/dych chi'n hoffi? ac Ydw/Nac ydw + brawddeg lawn.

Rhaid i'r dysgwyr grwydro yn holi eu cwestiwn i bawb arall yn y dosbarth.



Bydd hwn yn weithgaredd dosbarth cyfan gyda'r tiwtor yn rheoli pwy sy'n holi pwy.



Cam 3 - Cyflwyno eisiau/isio

Person cyntaf - Driliwch Dw i isio/eisiau gan ddefnyddio cardiau fflach CBAC neu luniau eraill, gwrthrychau fel pecyn o fagiau te, potel ddŵr, carton llefrith ac ati, neu ceir sleid yng nghyflwyniad PowerPoint Uned 3 sy'n cynnwys pedwar berfenw (siopa, canu, dawnsio, nofio) a phedwar enw (coffi, pasta, siocled, gwin). Mae'n bwysig pwysleisio nad oes YN o flaen isio/eisiau.

Yna, defnyddiwch yr ail sleid yn y cyflwyniad PowerPoint neu wrthrychau fel ffôn/sbectol/car/het/camera/dillad i gyflwyno "Dw i isio/eisiau X newydd".

Gellir sefyll mewn cylch, gan basio'r gwrthrychau o gwmpas y cylch. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.



Cwestiwn - Defnyddiwch yr un gwrthrychau neu sleid i ddrilio'r cwestiwn 'Wyt ti eisiau/isio...?'.

Pawb ar eu traed yn holi ei gilydd.



Gofynnwch i'r dosbarth eich holi chi er mwyn modelu'r atebion. Bydd yn atgyfnerthu atebion yn y de ond yn cyflwyno ateb newydd yn y gogledd. Darllenwch dros y cwestiynau yn y llyfr cwrs.

Mae'r dosbarth cyfunol yn dechrau yma. Defnyddiwch y sleid gyntaf yn y cyflwyniad PP i atgyfnerthu brawddegau 'Dw i eisiau/isio'. Wedyn, defnyddiwch yr ail sleid i ymarfer y cwestiwn 'Wyt ti eisiau/isio...?' a'r atebion.

Cam 4 - Cyflwyno'r negyddol

Atgoffwch y dysgwyr o 'Dw i ddim yn hoffi' ac yna driliwch frawddegau negyddol gan ddefnyddio lluniau, gwrthrychau neu'r lluniau yn sleid 1 yn y cyflwyniad PowerPoint.

Pawb ar eu traed gyda llun neu wrthrych yn ei roi mewn brawddeg negyddol. Dylid cadw'r un gwrthrych i ddechrau ac yna cyfnewid gyda phob partner newydd.



Er mwyn cael y dysgwyr i godi, gofynnwch iddynt fynd i nôl dau wrthrych. Byddan nhw wedyn yn ymarfer dwy frawddeg: 'Dw i eisiau oren ond dw i ddim eisiau afal'.



Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Cam 5- Ymarfer

Holiadur - Trowch at yr holiadur yn y llyfr cwrs a rhannwch y dysgwyr yn grwpiau bach i holi ei gilydd. Modelwch y cwestiynau a'r atebion cyn cychwyn.

Sgwrs 1 – Ar ôl gwrandio y tro cyntaf, gofynnwch i bawb restru'r bwydydd a diodydd a enwir yn y ddeialog (pysgodyn, sglodion, halen, lemonêd). Yna, dylid gwrandio fesul llinell, gan ofyn i'r dysgwyr ailadrodd y llinell honno. Parau i ddarllen. Mae'r cysyniad o ddefnyddio rhif + enw unigol yn codi am y tro cyntaf

yma. Gellid ymarfer gyda rhagor o enwau – pum problem, pum bore, pum car, pum dosbarth, pum prynhawn, pum rhif, pum cacen, pum pêl ac ati.

Yn y caffi – parau i weithio ar y ddwy ddeialog.

Cam 6 – Cyflwyno'r ffurfiau lluosog

Cwestiwn – Driliwch y cwestiynau 'Beth dych chi eisiau wneud...?/Be dach chi isio wneud?' sy yn y llyfr cwrs.

'Dyn/Dan ni eisiau/isio - Atgoffwch y dysgwyr o'r ffurfiau 'Dyn ni/Dan ni cyn defnyddio'r drydedd sleid yn y cyflwyniad PowerPoint i gyflwyno'r ffurfiau hyn ('Dyn/Dan ni eisiau/isio siopa, dawnsio, chwarae tennis, dysgu Cymraeg, chwarae criced, darllen). Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Dych chi eisiau/Dach chi isio? – Dylai'r cam hwn fod yn eithaf hawdd. Defnyddiwch y lluniau yn sleid 3 eto (neu gardiau fflach CBAC) i gyflwyno'r cwestiwn. Wrth i chi ddarllen dros y bloc yn y llyfr cwrs, atebwch er mwyn modelu'r atebion.

Cam 7 - Sgwrs 2

Mae hon yn sgwrs fer y gall y dysgwyr geisio ei dysgu ar gof. Ar ôl ei chwarae a'i hymarfer, nodwch hi ar y bwrdd gwyn gan ddileu darnau byr ar y tro, gan annog y dysgwyr i gofio mwy a mwy, nes eu bod yn cofio'r ddeialog gyfan. Mae'r 'chwech siwgr' yn atgyfnerthu rhif + enw unigol.

Cam 8 – Cyflwyno'r trydydd person

Trydydd person - Driliwch y trydydd person. Eto, defnyddiwch luniau os yn bosib. Er mwyn ymarfer, ewch yn ôl at yr holiadur 'Amser Paned' a gofynnwch i bobl adrodd yn ôl am ddymuniadau pobl yn y dosbarth. Gellid hefyd adolygu'r berfau eraill sydd wedi'u gwneud hyd yn hyn: Dw i'n gyrru XX, Dw i'n gwyllo XX, darllen XX, hoffi XX, siopa yn XX. Gofynnwch i'r dosbarth am frawddegau amdanynt eu hunain, gyda phawb arall yn eu troi i'r trydydd person.

Cam 9 – Ynganu

Ceir cyfres o eiriau sydd yn debyg o ran sain i'r Saesneg. Parhewch i dynnu sylw at nodweddion ynganu wrth weithio trwyddynt – mae'r ddeusain 'ai' yn amlwg yn y gyfres hon. Rhowch ddigon o gyfle i barau ymarfer. Os yw unigolion yn ansicr, gellid gofyn iddyn nhw eu recordio eu hunain yn ynganu ac anfon y recordiad atoch.

Gellid creu cardiau ag un o'r geiriau ar bob cerdyn i'r dysgwyr eu pasio o gwmpas y dosbarth. Rhaid dweud y gair wrth ei drosglwyddo.



Cam 10 – Lliwiau

Nid oes angen dysgu dyddiau'r wythnos yn y dosbarth cyfunol ond dylid gwneud yr ymarfer isod er mwyn atgyfnerthu.

Defnyddiwch wrthrych i gynrychioli pob lliw. Codwch y gwrthrychau fesul un gan ddechrau gyda'r lliwiau hawdd – pinc, brown, oren – a'r lliwiau sy eisoes wedi'u cyflwyno - gwyn, coch.

Rhaid pasio'r gwrthrychau o gwmpas y cylch, gyda'r dysgwyr yn dweud enw'r lliw bob tro.



Ymarfer – Bydd pob pâr angen dis a bydd angen cownter ar bob unigolyn. Trowch at y grid blodau yn y llyfr cwrs a rhannwch y dosbarth yn barau. Wrth lanio ar flodyn/blodau, rhaid dweud 'Dw i eisiau/isio prynu blodyn/blodau XX', gan nodi'r lliw perthnasol.

Cam 11 - Robin Radio

Mae hwn yn gyfle i fynd yn ôl at Robin Radio Uned 2 ac atgoffa'r dysgwyr o ddau ymadrodd defnyddiol:

Pwy sy'n siarad? Gellid disodli'r berfenw 'siarad' am ferfenwau eraill, e.e. deall, bwyta, canu, dawnsio, smwddio, gyrru.

Wedi ymddeol Gofynnwch i bawb am un frawddeg bersonol – Dw i wedi ymddeol neu Dw iddim wedi ymddeol.

Y syniad yma ydy adeiladu banc o ymadroddion stoc defnyddiol. Os bydd cwestiynau gramadegol yn codi, eglurwch y bydd holl batrymau'r Gymraeg yn cael eu cyflwyno mewn modd trefnus ond bod hwn yn gyfle i ddysgu brawddegau/ymadroddion defnyddiol.

Robin Radio Uned 3

(Gellir gosod y cam hwn fel gwaith cartref ychwanegol.)

Chwaraewch ddeialog Robin Radio. Bydd nifer o bethau newydd yma – yr holl bwynt yw rhoi dysgwyr mewn sefyllfa lle na fyddant yn deall pob gair ac yn dechrau dod i gasgliadau.

Ar ôl y gwrandawriad cyntaf, rhaid ateb y tri chwestiwn cyntaf.

Y cam nesaf, yn ystod yr ail wrandawriad, yw gwrandawro am yr ymadroddion a nodir yn y llyfr. Y cam olaf fydd cael y dysgwyr i gyfieithu'r ymadroddion a nodir. Byddant yn gwirio wrth wrando am y trydydd tro, a'r tiwtor yn cadarnhau'r atebion ar y diwedd wrth gwrs.

Cam 12 – Geirfa

Geirfa Uned 4.

Cam 13 – Crynhoi ac Asesu cynnydd

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyr yn Uned 3. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Canllawiau Uned 4 - Mynd a dod/Mynd a dŵad

Nod y wers: Trafod o ble dych chi'n dod a ble dych chi'n mynd/Trafod o le dach chi'n dŵad a lle dach chi'n mynd.

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned - cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Dw i'n dod/dŵad o... 'Dyn/Dan ni'n dod/dŵad o... O ble rwyd ti'n dod?/O le wyt ti'n dŵad? O ble dych chi'n dod?/O le dach chi'n dŵad?	Dw i'n dod/dŵad o... 'Dyn/Dan ni'n dod/dŵad o... O ble rwyd ti'n dod?/O le wyt ti'n dŵad? O ble dych chi'n dod?/O le dach chi'n dŵad?
Y Treigladd Meddal	Y Treigladd Meddal
Mae Gareth yn dod/dŵad o	Mae Gareth yn dod/dŵad o
Dw i'n mynd i + enw lle Dw i'n mynd i'r 'Dyn/Dan ni'n mynd i'r Ble rwyd ti'n mynd?/Lle wyt ti'n mynd? Ble dych chi'n mynd?/Lle dach chi'n mynd?	
Nosweithiau'r wythnos	Nosweithiau'r wythnos
Dw i'n mynd i + berfenw	
Ynganu	
Sgwrs 1	
Sgwrs 2	
Robin Radio	

Adnoddau i'r tiwtor:

- Copi (digidol) o'r llyfr cwrs
- Cardiau Atodiad 1 y Blwch Adnoddau mewn PowerPoint
- Cyflwyniad PP Uned 4
- Deialogau o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*

Adnoddau i'r dysgwr:

- Dis

Cam 1 - Banc cwestiynau

Beth dych chi eisiau wneud ar ôl y dosbarth?/Be dach chi isio wneud ar ôl y dosbarth?

Beth dych chi eisiau i ginio yfory?/Be dach chi isio i ginio yfory?

Cam 2 – Adolygu Uned 3

Rhowch un o'r cardiau yn Atodiad 1 i bawb. Rhaid canfod partner gyda'r un cerdyn yn union.



Dangoswch y cardiau yn Atodiad 1 mewn cyflwyniad PowerPoint. Galwch enwau'r dysgwyr iddyn nhw holi ei gilydd.



Y ddau gwestiwn i'w hymarfer yw:

Pwy wyt ti? Beth wyt ti eisiau?/Be wyt ti isio?
neu

Pwy dych/dach chi? Beth dych chi eisiau?/Be dach chi isio?

Cam 3 – Y Treigladd Meddal (dod/dwâd o)

Dw i'n dod o/Dw i'n dwâd o – Driliwch y bloc cyntaf yn y llyfr cwrs. Yma ceir enwau llefydd nad ydynt yn treiglo ac enwau llefydd sy'n cael eu rhagflaenu gan 'Y'.

Ar ôl y dril, rhowch gerdyn post i bob aelod o'r dosbarth (enw lle nad yw'n treiglo) iddynt gael crwydro yn dweud o ble maen nhw'n dod (y lle ar y cerdyn post).



Mae lluniau yn sleid gyntaf y PowerPoint gyda chardiau post y gellir eu defnyddio i gael mwy o ymarfer ar y patrwm.



Cwestiwn - Driliwch y cwestiynau, gan gadw at yr egwyddor o ddangos i'r dysgwyr eu bod yn adeiladu patrymau. Rhowch ddigon o gyfle i'r dysgwyr ymarfer y cwestiwn a'r ateb mewn paru trwy weithio trwy'r enwau llefydd yn y llyfr cwrs.

Y Treigladd Meddal - Driliwch bob llythyren yn y treigladd meddal yn ofalus, gan roi nifer o enghreifftiau. Gofynnwch i bobl a ydyn nhw'n dod o le sy'n dechrau gyda'r llythyren dan sylw bob tro er mwyn dechrau personoli.

Ar ôl mynd trwy'r llythrennau'n drefnus, gyda digon o ailymweld â llythrennau gyflwynwyd eisoes, rhwch gerdyn i bawb (Pecyn Adnoddau porffor y Ganolfan Dysgu Cymraeg) i ymarfer y cwestiwn a'r ateb. Dylai'r dysgwyr gadw'r un cerdyn am rai munudau ac yna dechrau cyfnewid cerdyn bob tro. Gellir cloi'r adran hon trwy gael pawb yn sefyll mewn cylch i bersonoli.



Ar ôl mynd trwy'r llythrennau'n drefnus, gyda digon o ailymweld â llythrennau a gyflwynwyd eisoes, trowch at y gyfres nesaf o sleidiau yn y cyflwyniad PowerPoint. Enwch aelodau'r dosbarth iddynt holi cwestiynau i'w gilydd. Daw'r ateb ar yr ail sleid bob tro.



Gwledydd Prydain – Ewch dros y geiriau Cymru, Lloegr, Yr Alban, Iwerddon a darllenwch dros y bloc trydydd person yn y llyfr, gan gynnwys y cwestiwn.

Mae'r dosbarth cyfunol yn dechrau yma. Er mwyn atgyfnerthu'r gwaith ar-lein, dywedwch o ble dych chi'n dod a gofyn i bob aelod o'r dosbarth wneud yr un peth. Os bydd unrhyw broblemau treiglo, dylid cywiro a drilio er mwyn atgyfnerthu'r treigladd. Yma, dylid cyfeirio at bentref/tref/dinas.

Pawb ar eu traed yn holi ei gilydd o ba wledydd maen nhw'n dod ac yn cofnodi'r atebion yn yr holiadur.



Gofynnwch i bawb edrych ar yr holiadur yn y llyfr cwrs (uwchben cerdd Cyril Jones). Gwahoddwch aelodau'r dosbarth i holi'r cwestiwn 'O ble dych chi'n dod/O le dach chi'n dŵad? i'w gilydd a dylid cofnodi'r atebion ar gyfer chwech o bobl. Neu mewn grŵp mawr, gellir rhannu'n grwpiau ar gyfer hyn.



Gellir wedyn gael sesiwn adrodd yn ôl yn y trydydd person. Yma, dylid cyfeirio at wlad.

Cerdd - Darllenwch yn gyflym dros gerdd Cyril Jones fel ffordd o gadarnhau'r treigladd meddal.

Cam 4 – Mynd i...

Dw i'n mynd i – Mae'r bloc cyntaf yn dysgu mynd i + enwau llefydd. Defnyddiwch y llefydd yn y cyflwyniad PowerPoint i ymarfer.

Dw i'n mynd i'r - Defnyddiwch y sleid nesaf yn y cyflwyniad PowerPoint i gyflwyno 'dw i'n mynd i'r...'. Mae'r lluniau yr un peth â'r geiriau yn y llyfr cwrs. Mae'r geiriau yn y rhes uchaf yn cyfieithu 'i'r' fel 'to the' ond mae'r rhes waelod yn cyflwyno geiriau lle defnyddir y fannod yn y Gymraeg, ond ddim yn Saesneg.

'Dyn/Dan ni'n mynd i'r – Atgyfnerthwch yr un geiriau o fewn y person cyntaf lluosog.

Cwestiwn - Driliwch y cwestiynau, eto gan ddangos y cysylltiad rhwng 'Ble rwyd ti'n mynd/Lle wyt ti'n mynd?' a 'Ble rwyd ti'n byw/Lle wyt ti'n byw?'

Ymarfer – Yn gyntaf, ewch yn ôl dros ddyddiau'r wythnos ac yna cyflwynwch nosweithiau'r wythnos.

Nid oes angen gwneud y cam uchod yn y dosbarth cyfunol.

Trowch at yr holiadur yn llyfr y dysgwyr. Ewch dros y geiriau sydd o dan y tabl yn gyntaf. Rhowch ychydig o funudau i bawb gwblhau'r grid gan nodi lle maen nhw'n mynd a sut maen nhw'n teithio yna ar gyfer bob nos. Y cwestiynau i'w holi yw: Ble dych chi'n mynd nos XX?/Lle dach chi'n mynd nos XX?' a 'Sut dych chi'n mynd i'r XX?/Sut dach chi'n mynd i'r XX?' Rhaid i'r dysgwyr nodi lle gwahanol (o blith y dewis o dan yr holiadur) ar gyfer pob noson ond bydd angen ailadrodd dulliau teithio. Rhannwch y dosbarth yn barau i holi ei gilydd.

Dw i'n mynd i + berfenw Ceir cyfres arall o luniau yn y PowerPoint i gyflwyno'r gwaith yma. Does dim treigladau yn y rhes uchaf ond mae treigladau meddal yn y rhes isaf. (Atebion: Dw i'n mynd i siopa, nofio, chwarae golff, chwarae criced, ddarllen llyfr, gael bath, fwyta cinio, gysgu.)

Ymarfer - Trowch at y gêm dis yn y llyfr cwrs. Rhannwch y dosbarth yn barau neu'n grwpiau bach ac ewch dros y cwestiynau mae'n rhaid eu gofyn. Mae'r cwestiwn yn cyd-fynd â'r rhif ar y dis: Be dach/Beth dych chi'n mynd i wneud.....heno/bore fory ac ati?

Cam 5 – Ynganu

Llythrennau dwbl - Ar ôl mynd dros y geiriau'n unigol, gan dynnu sylw arbennig at y pwyslais, gellir rhannu'r dosbarth yn barau i i) ddarllen dros yr enwau ii) atgyfnerthu'r treigladau meddal trwy holi ei gilydd o ble maen nhw'n dod gan ateb gyda'r enwau yn yr ymarfer. Gellid rhoi map ar y sgrin sy'n dangos rhai o'r llefydd hyn.

Cam 6 – Sgwrs 1

Wrth i'r dysgwyr wrando y tro cyntaf, dylent nodi'r enwau llefydd sydd yn y sgwrs (America, Los Angeles, Caerdydd). Ar ôl ymarfer darllen, rhowch y ddeialog ar y bwrdd gwyn/sgrin, ond heb fod yn y drefn gywir (yn y cyflwyniad PowerPoint). Rhaid rhoi'r llinellau yn y drefn gywir. Cânt wirio trwy wrando unwaith eto.

Cam 7 - Sgwrs 2

Fel yn achos Sgwrs 1, gofynnwch i'r dysgwyr nodi'r enwau llefydd (Llundain, Stockholm, Heathrow, Cymru, Sweden, Latfia, Riga, Caerdydd, Bangor). Chwaraewch y sgwrs eto ac anogwch y dysgwyr i lenwi'r bylchau yn y blwch o dan y ddeialog yn y llyfr cwrs, heb edrych ar y sgrïpt. (Atebion: Lundain, Heathrow, Riga, barti, trên).

Mae'r cysyniad o enw amhendant yn dilyn 'i' yn codi am y tro cyntaf yma – Dw i'n mynd i barti. Gellir ymarfer y canlynol:

Dw i'n mynd i barti.	Dw i'n mynd i'r parti.
Dw i'n mynd i gaffi.	Dw i'n mynd i'r caffi.
Dw i'n mynd i ddosbarth.	Dw i'n mynd i'r dosbarth.

Cam 8 - Robin Radio

Ewch dros eiriau/ymadroddion defnyddiol Uned 3:

Mae'n braf

ysbyty - Gofynnwch i'r dysgwyr gyfieithu *'I'm going to the hospital'* a *'Robin is going to the hospital'*.

Diolch am ffonio - Gofynnwch i'r dysgwyr gyfieithu *'Thank you for stopping'*, *'Thank you for waiting'*, *'Thank you for helping'*.

Robin Radio Uned 4

Cam 9 – Geirfa

Geirfa Uned 5.

Cam 10 – Crynhoi ac Aseu cynnydd

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 4. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Aseu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Esboniwch fod Uned 5 yn torri ar resymeg y cwrs o adeiladu patrymau'n rhesymegol. Ceir un uned yn cyflwyno'r amser gorffennol er mwyn hwyluso sgwrsio. Dylid egluro hyn gan ddweud y byddant yn dychwelyd at yr amser presennol yn Uned 6.

Uned 1, Atodiad 1

Gareth te	Gareth te
Siân coffi cryf	Siân coffi cryf
Dafydd tŷ newydd	Dafydd tŷ newydd
Cerys tŷ newydd	Cerys tŷ newydd
Gareth swydd newydd	Gareth swydd newydd
Dafydd coffi	Dafydd coffi
Siân teledu newydd	Siân teledu newydd
Cerys te cryf	Cerys te cryf

Canllawiau Uned 5 - De Cymru

Beth wnest ti?

Nod y wers: Dweud beth wnaethoch chi.

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned - cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Gwnes i + enw Beth wnest ti? Beth wnaethoch chi?	Gwnes i + enw Beth wnest ti? Beth wnaethoch chi?
Wnest ti? Do/Naddo	
Person cyntaf gorffennol cryno berfau rheolaidd	
Sgwrs	
Ynganu	
Robin Radio	

Adnoddau i'r tiwtor:

- Copi (digidol) o'r llyfr cwrs
- Cyflwyniad PP Uned 5
- Cyflwyniad PP Uned 5 (Cardiau'r Blwch Adnoddau)
- Deialogau o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*

Adnoddau i'r dysgwyr:

Cam 1 - Banc cwestiynau

O ble dych chi'n dod yn wreiddiol?
 Ble dych chi'n mynd yfory?
 Beth dych chi'n mynd i wneud dydd Sul?
 Ble dych chi'n hoffi mynd ar wyliau?
 Sut dych chi'n dod i'r dosbarth?

Cam 2 - Adolygu Uned 4

Dosbarthwch y cardiau yn Atodiad 1 er mwyn atgyfnerthu'r cwestiynau 'O ble rwyd ti'n dod?' ac 'Wyt ti'n lico/hoffi X?'



Mae'r cardiau hyn wedi'u rhoi yn PowerPoint Uned 5 (Cardiau'r Blwch Adnoddau). Galwch enwau'r dosbarth iddynt holi ei gilydd. Rhaid ymarfer 'O ble rwyd ti'n dod?' ac 'Wyt ti'n lico/hoffi X?'



Cam 3 - Cyflwyno 'Gwnes i' a 'Beth wnest ti/wnaethoch chi?'

Gwnes i - Driliwch y bloc fel y mae yn y llyfr, neu defnyddiwch luniau addas. Ceir cyfres o luniau yn y sleid PowerPoint gyntaf. Rhaid dechrau gydag enw nad yw'n treiglo. Dyma'r atebion i'r lluniau yn y PowerPoint: Gwnes i hufen iâ, frecwest, frechdan, gacen/deisen, basta, gerdyn. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Beth wnest ti?/Beth wnaethoch chi? Driliwch y cwestiynau'n drylwyr iawn. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Mae'r cwrs cyfunol yn cychwyn yma. Efallai ei bod yn werth defnyddio'r lluniau yn sleid gyntaf y PowerPoint yn gyflym i ategu'r gwaith ar-lein.

Rhannwch y dosbarth yn barau i weithio ar y rhestr yn y llyfr. Rhaid holi ei gilydd 'Beth wnaethoch chi ddoe?' ac yna 'Beth wnaethoch chi wedyn?' Nid oes angen tynnu sylw at yr amser o gwbl. Gellid newid parau i ail-wneud yr ymarfer, yn defnyddio 'Beth wnest ti?'

Cam 4 – Cwestiynau uniongyrchol

Driliwch y bloc sy'n cyflwyno'r cwestiynau uniongyrchol, 'Wnest ti...?' Gellid aildefnyddio'r lluniau yn y Cyflwyniad PowerPoint i wneud hyn. Gellid tynnu sylw at y ffaith y bydd bob amser treigladd meddal ar ddechrau cwestiwn uniongyrchol. Rhannwch y dosbarth yn barau newydd i edrych ar y rhestr yn y llyfr cwrs eto. Y tro hwn, rhaid iddynt holi cwestiynau uniongyrchol i'w gilydd, 'Wnest ti baned ddoe?'. Gyda grŵp da, gellid eu hannog i ofyn 'Wnest ti baned yn y bore/yn y prynhawn/gyda'r nos?' er mwyn cael atebion cadarnhaol a negyddol.

Cam 5 – Cyflwyno person cyntaf berfau rheolaidd

Mae'r ail sleid yn y Cyflwyniad PowerPoint yn rhoi enghreifftiau o sut i gael hyd i fôn y ferf ac ychwanegu terfyniad:

gollwng y llafariad olaf: golchi, ymolchi, helpu. Enghreifftiau eraill: bwyta, canu, dysgu, gyrru.

Gollwng y llafariad olaf: coginio, ymlacio, smwddio. Enghreifftiau eraill: gwylio, stopio, dawnsio, gweithio, cofio, garddio.

Ychwanegu terfyniad at y berfenw: edrych, hedfan, darllen. (Gellid tynnu sylw at y ffaith bod y berfau hyn yn gorffen â chytsain.) Enghraifft arall: ymddeol.

Driliwch y bloc cyntaf yn y llyfr cwrs sy'n cyflwyno berfau sy'n gollwng y llafariad olaf yn y berfenw er mwyn creu'r terfyniad. Ceir lluniau yn y sleid PowerPoint sy'n arddangos y berfau hyn. Gofynnwch i bawb nodi pa un neu pa rai o'r gweithgareddau sy'n berthnasol iddyn nhw am 'ddoe'. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Adeiledir ar hyn yn y bloc nesaf trwy gyflwyno 'Bwytais i'.

Os yn bosib, defnyddiwch luniau o fwydydd neu'r bwydydd eu hun er mwyn rhoi cyfle i'r dysgwyr gael digon o ymarfer. Gellid dangos y cysondeb yma gyda gwrthrych amhendiant yn treiglo ar ôl ffurf gryno'r ferf, yn union fel ar ôl 'Gwnes i'. Mae'n ddigon dweud wrth y dysgwyr bod treigladd ar ôl yr amser gorffennol yma, am y tro. Rhowch lun neu eitem o fwyd i bob un i grwydro'r dosbarth yn dweud 'Bwytais i XX'. Dylid cadw'r un cerdyn/eitem o fwyd i ddechrau, ond wedyn cyfnewid gyda phartner bob tro. Rhowch gyfle i bawb bersonoli. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.



Ceir lluniau o fwydydd yn y cyflwyniad PowerPoint i'w defnyddio i ymarfer Bwytais i XX. . Gellid dangos y cysondeb yma gyda gwrthrych amhendant yn treiglo ar ôl ffurf gryno'r ferf, fel ar ôl 'Gwnes i'. Mae'n ddigon dweud wrth y dysgwyr bod treigladau ar ôl yr amser gorffennol yma, am y tro. Gellid annog y dysgwyr i godi i nôl rhywbeth a fwyton nhw ddoe a'i ddefnyddio mewn brawddeg. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.



Mae'r trydydd bloc yn cyflwyno berfenwau'n gorffen ag -io. Mae modd personoli'r frawddeg 'Gwyliais i Pobol y Cwm ddoe' yn syth ar ôl ei chyflwyno. Eto, ceir lluniau yn y cyflwyniad PowerPoint i helpu cyflwyno'r brawddegau hyn. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Mae'r bloc olaf yn enghreifftio berfenwau lle ychwanegir terfyniad at y berfenw ei hunan. Ceir lluniau yn y PowerPoint. Fel ym mloc 1, gofynnwch i'r dysgwyr nodi'r frawddeg sy fwyaf perthnasol iddyn nhw am 'ddoe'. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Ymarfer

Defnyddiwch y cardiau sy yn y blwch adnoddau (Atodiad 2). Y ddau gwestiwn yw Pwy wyt ti?/Pwy dych chi? a 'Beth wnest ti?/Beth wnaethoch chi ddoe? Ni fydd yn bosib defnyddio'r cardiau canlynol: rhedeg i'r gwaith, gweld ffrind, yfed coffi, yfed te. Maen nhw ar gyfer dysgwyr y gogledd yn unig.



Mae cardiau yng nghyflwyniad PowerPoint Uned 5 (Blwch Adnoddau). Rhowch gyfle i bawb greu brawddeg yn y gorffennol cryno. Mae'r cardiau golchi'r car, darllen y papur, golchi'r llestri ar y diwedd gan eu bod yn cyflwyno brawddegau gyda'r fannod: Darllenais i'r papur – ond mae hyn yn ddefnyddiol i'r dysgwyr.



Yn olaf, rhowch yr holiadur ar waith. Mae hwn yn gyfle i adolygu'r cwestiwn 'Beth wnest ti?' a'r ymatebion. Anogwch y dysgwyr i gadw eu hatebion yn syml.

Cam 6 – Sgwrs

Chwaraewch y sgwrs. Cyn gwranddo am yr ail dro, dangoswch y sleid olaf yn y cyflwyniad PowerPoint. Rhaid i'r dysgwyr roi'r gweithgareddau yn y drefn gywir wrth wrando:

Edrych ar y teledu (4)

Darllen y papur (3)

Garddio (2)

Golchi'r car (1)

Rhannwch y dosbarth yn barau i ymarfer darllen.

Cam 7 – Ynganu

Y llythyren 'y'. Rhai rheolau:

1. Goben fel "y" fel "gyrru" (neu Saesneg: "about"): trydan, pymtheg, gyrru.
2. Sillaf olaf fel "i" fer fel "cip" (neu Saesneg: "kick"): e.e. gwyn, menyn, plentyn.
3. Y ddwy reol uchod mewn un gair: e.e. ynys, mynydd, tywydd.
4. 'ee' Saesneg pan fydd 'y' ar ddiwedd gair: ysbyty, gwely, bwyty.

Cam 8 - Robin Radio

Atgoffwch y dysgwyr o'r tri ymadrodd defnyddiol yn Uned 4:

dros y Nadolig

Tynnwch sylw hefyd at 'dros y penwythnos'.

Dych chi'n mynd yn ôl?

Disodli 'mynd', gan ofyn i bawb gyfieithu *Are you walking back? Are you coming back? Are you flying back?*

Siwrne dda

Siwrne dda

Robin Radio Uned 5

Cam 9 – Geirfa

Geirfa Uned 6

Cam 10 – Crynhoi ac Asesu cynnydd

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 5. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Uned 5, Atodiad 1

Bangor ✓	Pontypridd ✓
Aberaeron ✗	Llanelli ✓
Treorci ✗	Abertawe ✗
Llandudno ✗	Llantrisant ✗
Porthcawl ✗	Llangrannog ✗
Tonypand ✓	Caerdydd ✗
Dinbych ✓	Wreccsam ✗
Caernarfon ✓	Machynlleth ✗

Uned 5, Atodiad 2a

Angharad	Aled
Eleri	Dewi
Gwenno	Gwion
Lowri	Gwilym
Fflur	Elfed
Ffion	Tudur
Manon	Osian
Nia	Ifan

Uned 5, Atodiad 2b

rhedeg i'r gwaith	ymlacio
coginio swper	golchi'r llestri
garddio	edrych ar y teledu
gyrru i'r gwaith	darllen y papur
gweld ffrind	yfed coffi
coginio cinio	golchi'r car
gyrru i'r dosbarth	darllen llyfr
yfed te	gwylio ffilm

Canllawiau Uned 5 – Gogledd Cymru Be wnest ti ddoe?

Nod y wers: Deud beth wnaethoch chi.

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned - cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Mi wnes i + enw Be wnest ti? Be wnaethoch chi?	Mi wnes i + enw Be wnest ti? Be wnaethoch chi?
Wnest ti?	Do/Naddo
Mi wnes i + berfenw Lle wnest ti fynd?	
Wnes i ddim + berfenw	
Sgwrs	
Ynganu	
Robin Radio	

Adnoddau i'r tiwtor:

- Copi (digidol) o'r llyfr cwrs
- Cyflwyniad PP Uned 5
- Cyflwyniad PP Uned 5 (Cardiau'r Blwch Adnoddau)
- Deialogau o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*

Adnoddau i'r dysgwyr:

Cam 1 - Banc cwestiynau

O le dach chi'n dŵad yn wreiddiol?
 Lle dach chi'n mynd yfory?
 Be dach chi'n mynd i wneud dydd Sul?
 Lle dach chi'n hoffi mynd ar wyliau?
 Sut dach chi'n dŵad i'r dosbarth?

Cam 2 - Adolygu Uned 4

Dosbarthwch y cardiau yn Atodiad 1 er mwyn atgyfnerthu'r cwestiynau 'O le wyt ti'n dŵad?' ac 'Wyt ti'n licio/hoffi X?'



Mae'r cardiau hyn wedi'u rhoi yn PowerPoint Uned 5 (Cardiau'r Blwch Adnoddau). Galwch enwau'r dosbarth iddynt holi ei gilydd. Rhaid ymarfer 'O le wyt ti'n dŵad?' ac 'Wyt ti'n licio/hoffi X?'



Cam 3 - Cyflwyno 'Mi wnes i' a 'Be wnest ti/wnaethoch chi?'

Mi wnes i - Driliwch y bloc fel y mae yn y llyfr, neu defnyddiwch luniau addas. Ceir cyfres o luniau yn y sleid PowerPoint gyntaf. Rhaid dechrau gydag enw nad yw'n treiglo. Dyma'r atebion i'r lluniau yn y PowerPoint: Mi wnes i hufen iâ, frecwest, frechdan, gacen, basta, gerdyn. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Be wnest ti?/Beth wnaethoch chi? Driliwch y cwestiynau'n drylwyr iawn. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Mae'r cwrs cyfunol yn cychwyn yma. Efallai ei bod yn werth defnyddio'r lluniau yn sleid gyntaf y PowerPoint yn gyflym i ategu'r gwaith ar-lein.

Rhannwch y dosbarth yn barau i weithio ar y rhestr yn y llyfr. Rhaid holi ei gilydd 'Be wnaethoch ddoe?' ac yna 'Beth wnaethoch chi wedyn?' Nid oes angen tynnu sylw at yr amser o gwbl. Gellid newid parau i ail-wneud yr ymarfer, yn defnyddio 'Be wnest ti?'

Cam 4 – Cwestiynau uniongyrchol

Driliwch y bloc sy'n cyflwyno'r cwestiynau uniongyrchol, 'Wnest ti...?' Gellid aildddefnyddio'r lluniau yn y Cyflwyniad PowerPoint i wneud hyn. Rhannwch y dosbarth yn barau newydd i edrych ar y rhestr yn y llyfr cwrs eto. Y tro hwn, rhaid iddynt holi cwestiynau uniongyrchol i'w gilydd, 'Wnest ti baned ddoe?'. Gyda grŵp da, gellid eu hannog i ofyn 'Wnest ti baned yn y bore/yn y p'hawn/gyda'r nos?' er mwyn cael atebion cadarnhaol a negyddol.

Cam 5 – Mi wnes i + berfenwau

Driliwch y bloc nesaf. Ceir lluniau i ddynodi'r berfau yn y cyflwyniad PowerPoint. Gofynnwch i bawb nodi pa un neu pa rai o'r gweithgareddau sy'n berthnasol iddyn nhw am 'ddoe'. Darllenwch dros y brawddegau yn y bloc.

Ymarfer

Defnyddiwch y cardiau sy yn y blwch adnoddau (Atodiad 2). Y ddau gwestiwn yw Pwy wyt ti?/Pwy dach chi? a Be wnest ti?/Be wnaethoch chi ddoe?



Mae cardiau yng nghyflwyniad PowerPoint Uned 5 (Blwch Adnoddau). Rhowch gyfle i bawb greu brawddeg yn y gorffennol cryno.



Yn olaf, rhowch yr holiadur ar waith. Mae hwn yn gyfle i adolygu'r cwestiwn 'Be wnest ti?' a'r ymatebion. Anogwch y dysgwyr i gadw eu hatebion yn syml.

Cam 6 – Mi wnes i fynd + Lle wnest ti fynd?

Defnyddiwch luniau i gyflwyno Mi wnes i fynd i'r... Ceir lluniau yn y sleid PowerPoint nesaf os bydd angen. Gofynnwch i bawb bersonoli a darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Driliwch y cwestiynau'n dda, darllenwch drostyn nhw a rhowch yr holiadur ar waith.

Cam 7 – Y negyddol

Defnyddiwch luniau i gyflwyno'r negyddol. Gellir defnyddio'r un lluniau a ddefnyddiwyd i gyflwyno'r cadarnhaol. Gofynnwch i'r dysgwyr bersonoli a darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Cam 8 – Sgwrs

Chwaraewch y sgwrs. Cyn gwranddo am yr ail dro, dangoswch y sleid olaf yn y cyflwyniad PowerPoint. Rhaid i'r dysgwyr roi'r gweithgareddau yn y drefn gywir wrth wrando:

Edrych ar y teledu (4)

Darllen y papur (3)

Garddio (2)

Golchi'r car (1)

Rhannwch y dosbarth yn barau i ymarfer darllen. Gellid hefyd dynnu sylw arbennig at y frawddeg negyddol er mwyn atgyfnerthu.

Cam 9 – Ynganu

Y llythyren 'y'. Rhai rheolau:

1. Goben fel "y" fel "gyrru" (neu Saesneg: "about"): trydan, pymtheg, gyrru.
2. Sillaf olaf fel "i" fer fel "cip" (neu Saesneg: "kick"): e.e. gwyn, menyn, plentyn.
3. Y ddwy reol uchod mewn un gair: e.e. ynys, mynydd, tywydd.
4. 'ee' Saesneg pan fydd 'y' ar ddiwedd gair: ysbyty, gwely, bwyty.

Cam 10 - Robin Radio

Atgoffwch y dysgwyr o'r tri ymadrodd defnyddiol yn Uned 4:

dros y Nadolig

Tynnwch sylw hefyd at 'dros y penwythnos'.

Dach chi'n mynd yn ôl?

Disodli 'mynd', gan ofyn i bawb gyfieithu

Are you walking back? Are you coming back? Are you flying back?

Siwrne dda

Robin Radio Uned 5

Cam 11 – Geirfa

Geirfa Uned 6

Cam 12 – Crynhoi ac Asesu cynnydd

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 5. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Uned 5, Atodiad 1

Bangor ✓	Pontypridd ✓
Aberaeron ✗	Llanelli ✓
Treorci ✗	Abertawe ✗
Llandudno ✗	Llantrisant ✗
Porthcawl ✗	Llangrannog ✗
Tonypand ✓	Caerdydd ✗
Dinbych ✓	Wreccsam ✗
Caernarfon ✓	Machynlleth ✗

Uned 5, Atodiad 2a

Angharad	Aled
Eleri	Dewi
Gwenno	Gwion
Lowri	Gwilym
Fflur	Elfed
Ffion	Tudur
Manon	Osian
Nia	Ifan

Uned 5, Atodiad 2b

rhedeg i'r gwaith	ymlacio
coginio swper	golchi'r llestri
garddio	edrych ar y teledu
gyrru i'r gwaith	darllen y papur
gweld ffrind	yfed coffi
coginio cinio	golchi'r car
gyrru i'r dosbarth	darllen llyfr
yfed te	gwylio ffilm

Canllawiau Uned 6 – Sut mae'r tywydd?

Nod y wers: Siarad am y tywydd a phobl eraill

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned - cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Driliau'r tywydd. Sut mae'r tywydd heddiw?	Driliau'r tywydd. Sut mae'r tywydd heddiw?
Gêm fwrdd y tywydd	
Deialog ymarfer y tywydd	
Mae hi, e/o, Maen nhw'n... Mae hi, e/o, Maen nhw'n gallu/medru... Mae hi, e/o, Maen nhw'n gallu/medru... yn dda Mae hi, e/o, Maen nhw'n gorfod...	
Mynegi barn a holiadur	
Cwestiynau Sut/Ble/Lle/Pryd mae...?	
Ynganu - deuseiniaid	
Sgwrs 1	
Sgwrs 2	
Rhifau mwy na 10	Rhifau mwy na 10
Robin Radio	

Adnoddau i'r tiwtor:

- Copi (digidol) o'r llyfr cwrs
- Cyflwyniad PP Uned 6
- Deialogau o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*
- Cardiau bingo

Adnoddau i'r dysgwyr:

- Dis
- Cerdyn bingo i'r dosbarth rhithiol (Atodiad 1)

Cam 1 - Banc cwestiynau

Beth wnaethoch chi ddoe?/Be wnaethoch chi ddoe?

Beth wnaethoch chi nos Wener?/Be wnaethoch chi nos Wener?

(Yn y Blwch Adnoddau, ceir cwestiynau'n ymarfer ffurfiau cryno 'mynd'. Dylid eu symud i Uned 10.)

Cam 2 - Adolygu Uned 5

Gofynnwch i'r dysgwyr greu eu holiadur eu hunain er mwyn ymarfer 'Beth/Be wnest ti/wnaethoch chi?'

De Cymru - Os oes gennych ddosbarth da iawn, efallai yr hoffech gyflwyno 'Es i' er mwyn hwyluso'r gwaith o sgwrsio yn y gorffennol.

Enw	Neithiwr	Dydd Sadwrn	Dydd Sul

Cam 3 - Cyflwyno'r tywydd

Mae'r dysgwyr eisoes wedi dysgu 'Mae' gyda enwau felly atgoffwch y dysgwyr o'r patrwm hwn trwy ofyn am wybodaeth am aelod o'r dosbarth, e.e. Mae XX yn hoffi... Yna, ewch ymlaen i gyflwyno'r rhagenwau - y tro cyntaf yng nghyd-destun y tywydd.

Defnyddiwch luniau i helpu gyda'r dril, neu mae cyfres o luniau yn y cyflwyniad PowerPoint. Mae'r bloc cyntaf yn cynnwys ansoddeiriau sy ddim yn treiglo. Mae'r ail floc yn cyflwyno'r cysyniad o dreigladd meddal yn dilyn 'yn' gydag ansoddair am y tro cyntaf felly gellid adolygu'r treigladd meddal yng nghyd-destun enwau llefydd yn gyflym cyn dechrau'r ail floc. Mae'r trydydd bloc yn cyflwyno berfau a'r cwestiwn 'Sut mae'r tywydd?' Darllenwch dros y brawddegau yn y llyfr cwrs.

Ymarfer

Mae'r cwrs cyfunol yn dechrau yma. Gofynnwch i bawb ateb y cwestiwn 'Sut mae'r tywydd heddiw?' gan roi ateb dilys.

Trowch at y **gêm drac** yn y llyfr cwrs. Rhannwch y dosbarth yn barau. Bydd angen dis ar bob pâr. Mae'r person sy'n glanio ar y sgwâr yn gofyn y cwestiwn 'Sut mae'r tywydd?' a'r partner yn ateb.

Cam 4 – Cyflwyno'r trydydd person

Cyflwynir y rhagenwau hi, e/o a nhw gyda'i gilydd fel bod dysgwyr yn gweld yn glir bod croeso iddyn nhw ddefnyddio'r rhagenw o'u dewis nhw yn y dosbarth. Cyflwynir nhw hefyd fel ffurf luosog.

Driliwch y tri bloc sy'n cyflwyno'r gwaith. Ceir lluniau yn y cyflwyniad PowerPoint i chi wneud hyn. Dechreuir gyda'r benywaidd oherwydd y cysylltiad â'r tywydd. (Mae hi'n nofio, canu, chwarae tennis; Mae e/o'n nofio, rhedeg, gyrru; Maen nhw'n chwarae dominos, siarad Cymraeg). Yn yr ail bloc, defnyddir yr un berfau, ond gan ychwanegu 'gallu'/'medru'. Gellir defnyddio'r un lluniau. Gofynnwch i bawb nodi un peth maen nhw'n gallu ei wneud a gellir troi'r brawddegau hyn i'r trydydd person. Yn y trydydd bloc ychwanegir 'yn dda' – ceir sleid newydd gyda rhai lluniau gwahanol.

Ymarfer



Mae meithrin y cof yn sgil bwysig iawn wrth ddysgu iaith. Rhannwch y dosbarth yn ddau grŵp gan roi paragraff A i un grŵp a pharagraff B i'r grŵp arall (Atodiad 1). Rhaid darllen y paragraff yn uchel – un frawddeg ar y tro – dair gwaith ac yna gofynnwch i un aelod o'r dosbarth gofio'r paragraff. Os na all gofio, gall yr aelodau eraill gynorthwyo. Rhaid ailadrodd hyn nifer o weithiau gydag aelodau gwahanol o'r dosbarth. Y cam nesaf yw mynd at bartner o'r grŵp arall a byddant yn llenwi'r bylchau (yn y llyfr cwrs) wrth wrando ar ei gilydd. Dylid annog pawb i wneud y cam olaf hwn heb ddarllen y sgrïpt.

Darllenwch y paragraff isod:



Dyma John. Mae e'n dod o Gaerffili. Mae e'n hoffi nofio. Mae e'n gallu nofio'n dda. Mae e'n mynd i Gaerdydd i nofio bob penwythnos.

Dyma John. Mae o'n dŵad o Gaernarfon. Mae o'n licio nofio. Mae o'n medru nofio'n dda. Mae o'n mynd i Fangor i nofio bob penwythnos.

Dylai'r dysgwyr lenwi'r bylchau wrth i chi ddarllen. Ceir sleid yn y PP iddynt wirio eu hatebion. Rhannwch y dosbarth yn barau i greu paragraff newydd am Tom. Rhaid iddynt lenwi'r bylchau gyda gwybodaeth newydd. Gwahoddwch un o bob pâr i ddarllen y paragraff newydd.

Cwis dod/dŵad o - Er mwyn cyplysu'r trydydd person ac ymarfer y treigladd meddal, ceir sleid yn y cyflwyniad PowerPoint. Rhaid dweud o ble mae'r enwogion yn dod. Dylech chi enwi'r person a gwahodd y dysgwyr fesul un i ateb. Ceir yr atebion cywir yn y sleid nesaf.

Defnyddio llun – Gofynnwch i bawb fynd i nôl llun (dosbarth rhithiol) neu gael llun o rywun o'u ffonau, a gofynnwch iddyn nhw greu o leiaf dair brawddeg am y person, e.e. Dyma Siân. Mae hi'n dod o Bontypridd. Mae hi'n gallu nofio'n dda. Mae hi'n hoffi bwyta ma's./Dyma Siân. Mae hi'n dŵad o Bwllheli. Mae hi'n medru nofio'n dda. Mae hi'n licio bwyta allan.

Gorfod – Ewch ymlaen i atgyfnerthu'r trydydd person o fewn cyd-destun 'gorfod'. Gellid dysgu'r person cyntaf yn gyntaf, gan ofyn i'r dysgwyr bersonoli. Gallech wedyn ddefnyddio atebion y dosbarth i atgyfnerthu'r trydydd person. Neu gallwch ddefnyddio lluniau, gan gynnwys y lluniau yn y cyflwyniad PowerPoint. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs ac edrychwch ar y lluniau, gan wahodd y dysgwyr i ddweud beth sy'n digwydd: mae hi'n gorfod golchi dillad, mae e/o'n gorfod golchi llestri, mae hi'n gorfod siopa, mae e/o'n gorfod gweithio. Mae'n bwysig iawn bod personoli'n digwydd ar ryw bwynt yma.

Cam 5 – Mynegi barn

Trowch at y gweithgaredd barn yn y llyfr cwrs. Cyn cychwyn ar y gweithgaredd ei hun, gellir dangos lluniau enwogion ac ymarfer: Mae e/o/hi/Maen nhw'n dda/iawn/ofnadwy.

Ceir lluniau yn y PowerPoint ar gyfer hyn. Wedyn, darllenwch dros yr enghreifftiau am focsio, y ffilm a'r grŵp. Mae dau air newydd – diflas a swnllyd. Rhannwch y dosbarth yn barau i ddefnyddio'r holiadur, rhaid holi partner am ei farn/barn am griced, golff, dwy ffilm o'u dewis nhw a dau grŵp o'u dewis nhw. Dylid ateb fel yn yr enghreifftiau a geir yn y llyfr cwrs. Bydd rhaid atgoffa'r dysgwyr bod criced a golff yn wrywaidd a ffilm yn fenywaidd. Gellid dewis pum ffilm a phum grŵp ymlaen llaw a gofyn i'r dysgwyr bleidleisio dros ba ffilmiau a grwpiau i'w rhoi yn y tabl.

Cam 6 – Gofyn cwestiwn

Cyfle yw'r dril hwn i ofyn cwestiynau syml, 'Sut mae/Lle/Ble mae/Pryd mae'r ...?' Gellir disodli'r enwau er mwyn cael digon o ymarfer, e.e. Sut mae'r teulu, dosbarth, bwyd, gwin? Ble/Lle mae'r bws, cyfarfod, traeth, trê'n? Pryd mae'r cyfarfod? Yna, ceir cyfres o **ddeialogau byrion**.

Mae'r cwestiynau a'r atebion wedi'u cymysgu bob tro. Rhannwch y dosbarth yn barau i benderfynu beth yw'r ateb cywir ar gyfer pob cwestiwn. Fel ail gam, dylent ymarfer darllen.

Cam 7 – Ynganu

Ymarfer deuseiniaid a geir yma – ac mae rhagor yn Uned 7. Ar ôl ymarfer geiriau unigol, ceir 5 brawddeg i'w hymarfer fel tipyn o hwyl. Gellid gosod her i'r dysgwyr ddysgu un o'r brawddegau ar eu cof erbyn y wers nesaf.

Cam 8 – Sgyrsiau

Sgwrs 1 – Mae hon yn ddeialog ddigon byr i'r dysgwyr geisio ei chofio ar eu cof. Gellid ei rhoi ar y bwrdd gwyn, (neu ar ddogfen Word mewn dosbarth rhithiol), gan ddileu geiriau yn raddol, nes bod y dysgwyr yn gallu cofio'r ddeialog gyfan.

Sgwrs 2 - Y tro cyntaf y bydd y dysgwyr yn gwrando, gofynnwch iddynt wrando am y tri amser – chwech o'r gloch, naw o'r gloch, saith o'r gloch. Yn ôl yr arfer, rhannwch y dosbarth yn barau i ddarllen y ddeialog a disodli'r elfennau a danlinellir.

Cam 9 – Rhifau o 11-100

Dysgwch sut i rifo o 11 i 100 gan ddefnyddio'r rhifau modern. Er mwyn ymarfer, gellir rhoi cerdyn unigol i bawb gyda'r rhif mewn ffigurau ar un ochr a'r rhif mewn geiriau ar yr ochr arall, iddynt allu crwydro a phrofi ei gilydd. Neu gellid gwneud hyn ar ffurf PowerPoint yn y dosbarth rhithiol. Ceir rhifau parod yn y cyflwyniad PowerPoint.

Mae'r rhifau wedi'u cyflwyno yn y wers ar-lein. Er mwyn ymarfer, ceir cyfres o rifau yn y Cyflwyniad PowerPoint.

Chwaraewch Bingo i atgyfnerthu, gan ddefnyddio cardiau bingo go iawn neu drwy gael y dysgwyr i greu eu cardiau eu hunain. Dylid gweiddi 'tŷ' wrth gael llinell lawn a cherdyn llawn. Byddai'n braf gallu rhoi gwobr er mwyn ychwanegu at yr hwyl.



Chwaraewch Bingo i atgyfnerthu. Anfonwch y templed yn Atodiad 2 at bob dysgwr ymlaen llaw. Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu unrhyw 9 rhif rhwng 1 a 90 yn y grid cyn y wers. Dylid gweiddi 'tŷ' wrth gael llinell lawn a cherdyn llawn.



Gellir hefyd ddefnyddio'r cardiau Ping Pong (Dw i'n clywed/Dw i'n dweud) ym Mhecyn Adnoddau'r Tiwtor (pecyn porffor).



Cam 10 – Robin Radio

Mae hwn yn gyfle i atgyfnerthu geiriau defnyddiol Uned 5:

Wnes i ddim byd

A deud/dweud y gwir

Pam rwyt/wyt ti'n ffonio? – Gellir gofyn am gyfieithiadau gyda berfau eraill yn lle ffonio – gadael, gorffen, aros, mynd, ymddeol, gyrru

Robin Radio Uned 6

Cam 11 – Geirfa

Geirfa Uned 7

Cam 12 – Crynhoi ac Asesu cynnydd

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 6. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Uned 6, Atodiad 1**Partner A**

Dyma John. Mae o'n dŵad o Gaernarfon. Mae o'n licio nofio. Mae o'n medru nofio'n dda. Mae o'n mynd i Fangor i nofio bob penwythnos.

Dyma John. Mae e'n dod o Gaerffili. Mae e'n hoffi nofio. Mae e'n gallu nofio'n dda. Mae e'n mynd i Gaerdydd i nofio bob penwythnos.

Partner B

Dyma Tom. Mae o'n dŵad o Bwllheli. Mae o'n hoffi canu. Mae o'n medru canu'n dda. Mae o'n mynd i Landudno i ganu bob penwythnos.

Dyma Tom. Mae e'n dod o Bontypridd. Mae e'n hoffi canu. Mae e'n gallu canu'n dda. Mae e'n mynd i Gaerdydd i ganu bob penwythnos.

Partner A

Dyma John. Mae o'n dŵad o Gaernarfon. Mae o'n licio nofio. Mae o'n medru nofio'n dda. Mae o'n mynd i Fangor i nofio bob penwythnos.

Dyma John. Mae e'n dod o Gaerffili. Mae e'n hoffi nofio. Mae e'n gallu nofio'n dda. Mae e'n mynd i Gaerdydd i nofio bob penwythnos.

Partner B

Dyma Tom. Mae o'n dŵad o Bwllheli. Mae o'n hoffi canu. Mae o'n medru canu'n dda. Mae o'n mynd i Landudno i ganu bob penwythnos.

Dyma Tom. Mae e'n dod o Bontypridd. Mae e'n hoffi canu. Mae e'n gallu canu'n dda. Mae e'n mynd i Gaerdydd i ganu bob penwythnos.

Uned 6, Atodiad 2

BINGO

BINGO

Canllawiau Uned 7 – Ydy hi'n gweithio?

Nod y wers: Gofyn ac ateb cwestiynau am bobl a phethau eraill

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned - y cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Siôn yw e./Siôn ydy o./Siân yw hi./Siân ydy hi. Tiwtor yw e./Tiwtor ydy o. Pwy/Beth/yw e?/ Pwy/Be/ydy o? Sian yw/ydy hi? Ie/Ia; Nage/Naci	Siôn yw e./Siôn ydy o./Siân yw hi./Siân ydy hi. Tiwtor yw e./Tiwtor ydy o. Pwy/Beth/yw e?/ Pwy/Be/ydy o? Sian yw/ydy hi? Ie/Ia; Nage/Naci
Ydy hi/e/o'n...? Ydy/Nac ydy	
Ydyn nhw'n...? Ydyn/Nac ydyn	
Dyw'r gwin ddim/Dyw e ddim/'Dyn nhw ddim. Dydy'r gwin ddim/Dydy o ddim/Dydyn nhw	
Prisiau: Faint yw e?/Faint ydy o?/Faint ydyn nhw? Un bunt – Pedair punt	
Ynganu - deuseiniaid	
Sgwrs 1	
Sgwrs 2	
Yr Amser	Yr Amser
Robin Radio	

Adnoddau i'r tiwtor:

- Copi (digidol) o'r llyfr cwrs
- Cyflwyniad PP Uned 7
- Deialogau o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*

Adnoddau i'r dysgwyr:

- Dis

Cam 1 – Banc Cwestiynau

Sut mae'r tywydd?

Sut mae'r teulu?

Beth dych chi'n gallu wneud yn dda?/Be dach chi'n medru wneud yn dda?

Cam 2 – Adolygu Uned 6

Rhannwch y dosbarth yn barau. Bydd angen dis ar bob pâr. Ewch dros ffurfiau cadarnhaol y ferf 'bod':

Gogledd – dw i, wyt ti, mae o/hi, dan ni, dach chi, maen nhw

De – dw i, rwyt ti, mae e/hi, 'dyn ni, dych chi, maen nhw

Mae pob rhif ar y dis yn cynrychioli rhagenw:

1 – i	4 - ni
2 – ti	5 - chi
3 – o/e/hi	6 – nhw

Rhaid taflu'r dis a chreu brawddeg gyda'r rhagenw priodol, gan gadw at yr un ferf nes bod yr un rhagenw yn ymddangos eto. Rhestrir y berfau i'w rhoi mewn brawddegau isod.

byw yn Amlwch/Abertawe

chwarae pêl-droed

darllen papur newydd

gyrru Toyota

mynd i'r dre

prynu car newydd

siarad Cymraeg

Cam 3 – Brawddegau a chwestiynau pwysleisiol

Atgoffwch y dysgwyr o'r patrwm 'X dw i'. Ewch o gwmpas y dosbarth yn cael pawb i gyflwyno eu hunain yn gyflym. Yna, defnyddiwch y bobl yn y dosbarth i gyflwyno'r trydydd person.



Gofynnwch i'r dosbarth symud fel bod y dynion ar y dde a'r merched ar y chwith er mwyn gallu cyflwyno'n drefnus.

Defnyddiwch enwau'r bobl yn y dosbarth i gyflwyno'r trydydd person. Gellid gofyn i bawb ddiffodd eu camerâu ac yna galwch enwau'r dysgwyr fesul un. Wrth iddynt droi'r camera ymlaen, bydd pawb yn dweud X yw e/hi. Gwnewch hyn yn drefnus – y merched gyda'i gilydd a'r dynion gyda'i gilydd.



Cyflwynwch y cwestiwn 'Pwy ydy o/hi?' neu 'Pwy yw e/hi?'.

Ar ôl ei ddrilio, rhwch lun o berson enwog i bawb i gael pawb ar eu traed yn holi ei gilydd, 'Pwy ydy o/hi?' neu 'Pwy yw e/hi?' Dewis arall yw rhoi lluniau mewn cyflwyniad Powerpoint (ceir rhai yn y sleid gyntaf yng nghyflwyniad PowerPoint Uned 7) a pharau'n holi ei gilydd ac yn ateb bob yn ail. Dylid annog y dysgwyr i ddefnyddio 'Dw i ddim yn gwybod' os nad ydynt yn gwybod pwy yw'r person dan sylw. (Y bobl enwog: Angela Merkel, Katherine Jenkins, Fiona Bruce, Olivia Colman, Simon Cowell, Gruff Rhys Jones, Alun Wyn Jones, Ioan Gruffudd.)



Rhowch luniau o enwogion mewn cyflwyniad PowerPoint (ceir rhai yn y sleid gyntaf yng nghyflwyniad PowerPoint Uned 7) a pharau i holi ei gilydd. Dylid annog y dysgwyr i ddefnyddio 'Dw i ddim yn gwybod' os nad ydynt yn gwybod pwy yw'r person dan sylw. (Y bobl enwog: Angela Merkel, Katherine Jenkins, Fiona Bruce, Olivia Colman, Simon Cowell, Gruff Rhys Jones, Alun Wyn Jones, Ioan Gruffudd.)



Yna, cyflwynwch y cwestiwn 'Be ydy o?/Beth yw e?' a defnyddiwch luniau o alwedigaethau syml (cardiau fflach CBAC).

Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Yn olaf, cyflwynwch y cwestiwn pwysleisiol a'r atebion 'le/la' a 'Nage/Naci' Defnyddiwch enwau aelodau'r dosbarth i wneud hyn. Gellir hefyd aildefnyddio lluniau'r enwogion.

Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Mae'r cwrs cyfunol yn dechrau yma. Ceir cyfres o luniau yn y Cyflwyniad PowerPoint. Rhaid i bobl holi ei gilydd, 'Pwy yw hi?/Pwy ydy o?'. Galwch enwau'r dysgwyr i wneud hyn. Anogwch yr ateb 'Dw i ddim yn gwybod'. Wedyn, i ymarfer yr ateb, gofynnwch chi gwestiynau, e.e. Rhif 3 – Fiona Bruce yw/ydy hi? gydag unigolion yn ateb le/la neu Nage/Naci. (Y bobl enwog: Angela Merkel, Katherine Jenkins, Fiona Bruce, Olivia Colman, Simon Cowell, Gruff Rhys Jones, Alun Wyn Jones, Ioan Gruffudd.)

Gellid egluro yma bod brawddeg arferol yn Gymraeg yn dechrau gyda berf (e.e. Dw i'n mynd, Mae e'n mynd, 'Dyn nhw ddim yn gwybod). Os bydd rhywbeth arall ar y dechrau, mae'n gystrawen bwysleisiol. Gellid rhoi ychydig o enghreifftiau gan ofyn i'r dysgwyr godi neu godi eu dwylo ar gyfer y brawddegau pwysleisiol ac eistedd neu roi eu dwylo i lawr lle nad oes pwyslais. Bydd hyn yn arwydd i chi bod y dysgwyr yn deall y cysyniad.

Cam 4 – Cyflwyno cwestiynau trydydd person unigol

Ydy...? Atgoffwch y dysgwyr o'r frawddeg, 'Mae hi'n canu' gan ddweud bod y cwestiwn yn swnio'n wahanol iawn. Driliwch y cwestiwn trwy ddefnyddio cardiau fflach neu'r lluniau yn y cyflwyniad PowerPoint. Gofynnwch i'r dysgwyr ofyn y cwestiynau i chi er mwyn modelu'r atebion. Dylent wedyn holi ei gilydd.

Rhowch gerdyn i bawb yn y dosbarth ac arno ferfenw a ✓ neu X iddynt holi ei gilydd. Gellir ymarfer Ydy o/e? i ddechrau ac yna newid i Ydy hi?



Mae'n bwysig dangos cymaint o gwestiynau y gellir eu ffurfio erbyn hyn. Enwch aelod benywaidd o'r teulu neu ffrind a gofynnwch i bawb ofyn cwestiwn i chi amdani. Dylid eu hatgoffa eu bod yn gallu defnyddio 'hoffi' neu 'gallu/medru' yn ogystal â'r cwestiynau yn y PowerPoint. Ar ôl modelu hyn, rhannwch y dosbarth yn barau i wneud yr un peth. Mae Partner A yn enwi'r person, e.e. Siân, ac mae Partner B yn gofyn cymaint o gwestiynau â phosib. Gellid gofyn i'r dysgwyr ddod o hyd i lun o ferch ar eu ffôn neu yn eu cartrefi mewn dosbarthiadau rhithiol.

Ailadroddwch y camau uchod ar gyfer cwestiynau Ydy e/o...? Ceir lluniau yn y cyflwyniad PowerPoint.

Gellir wedyn atgyfnerthu'r tywydd gyda chardiau fflach. Ewch trwy'r cardiau yn ymarfer y patrwm 'Ydy hi'n...?' Yna, dywedwch eich bod yn meddwl am un llun tywydd yn benodol. Rhaid i'r dysgwyr ddyfalu pa un.

Cam 5 – Cyflwyno cwestiynau trydydd person lluosog

Ydyn nhw...? Atgoffwch y dysgwyr o'r ffurf 'maen nhw'. Driliwch y cwestiynau 'Ydyn nhw...?' trwy ddefnyddio cardiau fflach neu'r lluniau yn y cyflwyniad PowerPoint. Ceir berfau yn y rhes uchaf ond ceir ansoddeiriau yn yr ail res (hapus, trist/diflas, crac/blin, prysur) felly bydd angen atgyfnerthu'r treigladd meddal yn dilyn 'yn' yma.

Trowch at y grid yn y llyfr cwrs. Ar yr ochr dde, nodir pethau mae parau enwog yn eu gwneud. Cyn dechrau'r gweithgaredd, gofynnwch i bawb feddwl am un pâr enwog a dewiswch wyth ohonynt. Dylai pawb wedyn ysgrifennu'r parau hyn, mewn unrhyw drefn, yn y golofn ar yr ochr chwith. Rhannwch y dosbarth yn barau. Mae Partner A yn enwi un o'r parau ac mae Partner B yn gofyn 'Ydyn nhw'n darllen y Times?' gan ddewis o'r rhestr nes canfod yr ateb cywir.

Cam 6 - Cyflwyno'r negyddol

Dyw...ddim/Dydy...ddim Atgoffwch y dysgwyr o ffurf negyddol y person cyntaf – dw i ddim. Driliwch y brawddegau yn y bloc cyntaf yn y llyfr cwrs. I gadarnhau, dangoswch y sleid yn y PowerPoint.

Rhowch gerdyn i bawb yn disgrifio'r bwyd, gwin/cwrw/coffi, staff a'r prisiau mewn bwyty, tafarn neu gaffi (Atodiad 1). Rhaid crwydro:



Partner A - Y Gogledd - Gall y dysgwyr holi ei gilydd Lle wnest ti fynd neithiwr?, gyda Phartner A yn ateb.

Partner A - Y De - Bydd rhaid i'r dysgwyr ddweud enw eu bwyty/tafarn/ caffi.

Partner B - Sut mae'r bwyd/gwin (cwrw, coffi) /staff/prisiau? Bydd rhaid dyfalu gwin/cwrw/coffi ar ôl clywed ble aeth y partner.

Rhaid ateb yn unol â'r cyfarwyddyd (x neu √) ar y cerdyn. Dylid cadw at yr ansoddair 'da' wrth ateb. Felly, yr ateb fydd 'Dyw/dydy'r bwyd (gwin/staff/prisiau) ddim yn dda' neu 'Mae'r bwyd (gwin/staff/prisiau) yn dda'.



Ceir pedwar cerdyn yn y PowerPoint – Y Chili Coch, Y Chili Melyn, Y Chili Gwyrdd, Bistro Bob. Rhaid galw enwau unigolion i holi ei gilydd 'Sut mae'r bwyd/gwin/staff/prisiau?' Cadwch at yr ansoddair 'da' ar gyfer yr atebion er mwyn hoelio'r sylw ar y patrwm. Felly yr ateb fydd 'Dyw/dydy'r bwyd (gwin/staff/prisiau) ddim yn dda' neu 'Mae'r bwyd (gwin/staff/prisiau) yn dda'.

Nesaf, driliwch y brawddegau gyda'r rhagenwau.



Chwaraewch gêm pelmanism (Atodiad 2) mewn parau yn edrych ar ansoddeiriau croes. Set 1 - du, poeth, bach, drud, da, sych, bendigedig, hapus. Set 2 - gwyn, oer, mawr, rhad, drwg, gwlyb, ofnadwy, blin/crac. Mae partner yn codi cerdyn o'r set gyntaf ac yn rhoi'r ansoddair mewn brawddeg – Maen nhw'n XX. Mae wedyn yn codi cerdyn o'r ail set ac yn creu brawddeg negyddol – 'Dyn/dydyn nhw ddim yn XX. Os yw wedi dewis y gair croes cywir, mae'n cadw'r set.

Ceir cyfres o gardiau yn y PowerPoint, sef ansoddeiriau croes. Yn eu tro, bydd y dysgwyr yn creu brawddegau. Gweld cerdyn 1 – ‘hapus’ a chreu’r brawddegau – Dysgwr 1: ‘Maen nhw’n hapus. Dysgwr 2: ‘Dyn nhw ddim yn drist.’ Sicrhewch eich bod yn gofyn i’r dysgwyr cryf yn y grŵp am yr ail frawddeg.



Mae’r lluniau yn y llyfr cwrs yn ymarfer y trydydd person unigol a lluosog yn y negyddol ac ‘eisiau/isio’. Ceir chwe llun a chwech ymadrodd. Y cyfan mae’n rhaid ei wneud yw paru’r llun a’r ymadrodd. Ond rhaid dweud y brawddegau yn uchel. Gellir cael y dysgwyr i guddio’r ymadroddion a’u cofio wrth edrych ar y lluniau. Rhannwch y dosbarth yn barau i wneud hyn.

Cam 7 - Cyflwyno Faint ydy o?/Faint yw e?/Faint ydyn nhw? ac arian syml

Atgoffwch y dysgwyr o Pwy ydy o?/Pwy yw e? a Be ydy o?/Beth yw e?.

Er mwyn ymarfer Beth yw e/Be ydy o?, dangoswch gyfres o luniau neu wrthrychau gan ofyn i’r dysgwyr ofyn i chi beth sy gyda chi – Beth yw e?/Be ydy o?



Er mwyn ymarfer Beth yw e/Be ydy o?, gofynnwch i’r dosbarth nôl gwrthrych a gofyn i’r tiwtor Beth yw XX/Be ydy XX yn Gymraeg?



Driliwch Faint ydy o?/Faint yw e?/Faint ydyn nhw? a’r atebion posib a nodir yn y dril. Dyma’r tro cyntaf i’r dysgwyr ddod ar draws y cysyniad o ffurfiau benywaidd ar rifau. Er mwyn ymarfer, ceir wyth llun a phris yn y PowerPoint – pedwar gwrthrych gwrywaidd a phedwar lluosog. Gellid rhoi sticeri ar wrthrychau yn y dosbarth wyneb yn wyneb yn hytrach na defnyddio’r PowerPoint.

Cam 8 - Ynganu

Parheir i gyflwyno deuseiniaid.

Gellid creu cardiau gyda’r geiriau unigol gan ofyn i’r dysgwyr sefyll mewn cylch a’u trosglwyddo i’w gilydd a dweud y gair wrth ei basio ymlaen.



Cam 9 – Sgyrsiau

Sgwrs 1 - Ar y gwrandawriad cyntaf, rhaid i'r dysgwyr gyfrif sawl gwaith maent yn clywed yr ymadrodd 'Dyw e ddim/Dydy o ddim'. (Ateb: 4) Yna, rhannwch y dosbarth yn barau i ddarllen y ddeialog.

Sgwrs 2 – Ar ôl gwrando ac ymarfer darllen, gofynnwch i'r dysgwyr gyfieithu'r brawddegau isod:

Are you going to the meeting?

Siôn canlis able to go.

I'm very busy.

Cam 10 - Faint o'r gloch yw/ydy hi?

Nid yw'r amser yn newydd gan fod 'o'r gloch' eisoes wedi codi yn y sgyrsiau. Trwy ddefnyddio cloc, ewch trwy'r amserau'n gyflym gan sicrhau digon o ymarfer gyda 'un ar ddeg' a 'deuddeg'.

Os yn bosib, rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a rhoi cloc i bob grŵp. Mae un person yn symud bysedd y cloc ac yn gofyn bob tro 'Faint o'r gloch yw hi/ydy hi?' Dim ond 'o'r gloch' dylid ei gyflwyno yma – bydd yr amser yn codi eto yn Uned 16.



Gellir rhannu'r dosbarth yn barau gan ofyn i un ohonynt rannu sgrin er mwyn ymarfer gyda chloc digidol, e.e. <https://www.visnos.com/demos/clock>. Mae un person yn symud bysedd y cloc ac yn gofyn bob tro 'Faint o'r gloch yw hi/ydy hi?' Dim ond 'o'r gloch' dylid ei gyflwyno yma – bydd yr amser yn codi eto yn Uned 16. Os nad yw hyn yn bosib, ceir sleid yn y PowerPoint. Mae un person yn holi 'Faint o'r gloch yw hi/ydy hi?' ac un arall yn ateb. Dim ond 'o'r gloch' sydd yn yr uned hon – bydd yr amser yn codi eto yn Uned 16.



Nid oes angen cyflwyno amser yn y dosbarth cyfunol ond ceir sleid yn y PowerPoint. Mae un person yn holi 'Faint o'r gloch yw hi/ydy hi?' ac un arall yn ateb. Dim ond 'o'r gloch' sydd yn yr uned hon – bydd yr amser yn codi eto yn Uned 16.

Cam 11 – Robin Radio

Ewch dros ymadroddion Uned 6:
drwy'r wythnos - dylid dysgu drwy'r dydd a drwy'r nos hefyd;
ers chwech o'r gloch - manteisiwch ar y cyfle i ymarfer amserau eraill;
Does dim ots gyda fi./Dw i ddim yn meindio.

Robin Radio 7

Cam 12 – Geirfa

Geirfa Uned 8

Cam 13 – Crynhoi ac Asesu cynnydd

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 7. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Ceir sleid olaf yn y cyflwyniad PowerPoint sy'n crynhoi. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen dros y cwestiynau yn y 'Gêm o Gardiau' ar ddechrau Uned 8 cyn y wers nesaf.

Canllawiau Uned 8 – Adolygu ac ymestyn

Nod y wers: Adolygu ac ymarfer ymadroddion ffôn

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned - cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Gêm o gardiau	
Sgyrsiau Ffonio'r Banc	Sgyrsiau Ffonio'r Banc
Ga/Gaf i +berfenw? Cewch/Na chewch. Cei/Na chei.	Gaf i/Ga i + berfenw? Cewch/Na chewch. Cei/Na chei.
Sgwrs Ffonio'r Ysgol	
Yn a Mewn	Yn a Mewn
Ble dych chi'n gweithio?	
Sgwrs Ffonio'r Theatr	
Robin Radio	
Adolygu Atebion	Adolygu Atebion

Adnoddau i'r tiwtor:

Copi (digidol) o'r llyfr cwrs
Cyflwyniad PP Uned 8
Deialogau o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*

Adnoddau i'r dysgwyr:

Pecyn o gardiau chwarae

Hon yw'r wers adolygu gyntaf. Yn hytrach na chychwyn gyda phatrwm sy'n arwain at ei weld ar waith mewn deialog, cychwynnir gyda'r ddeialog er mwyn dod â phatrymau'r unedau blaenorol ynghyd.

Cam 1 – Banc Cwestiynau

Pwy yw/ydy'r tiwtor Cymraeg?

Cam 2 - Adolygu Unedau 1 – 7

Dylid gwneud y cam hwn yn y dosbarth cyfunol.

Gofynnwch a oes cwestiynau am y Gêm o Gardiau – dylai'r dysgwyr fod wedi darllen dros y cwestiynau fel Gwaith Cartref. Gallai pawb ofyn un cwestiwn i chi yn y lle cyntaf, er mwyn i chi fodelu atebion. Yna, rhannwch y dysgwyr yn grwpiau o dri. Rhaid iddynt droi'r cardiau yn y pecyn un ar y tro. Bydd y person sy'n troi'r cerdyn yn gofyn y cwestiwn i'r aelodau eraill yn y grŵp. Gellid gwahodd tiwtor arall i'r sesiwn i ateb cwestiynau'r dysgwyr.

Cam 3 – Ffonio'r banc

Deialogau 1 a 2 Chwaraewch y deialogau ac ymarfer eu darllen a disodli'r geiriau a danlinellir. Cewch ofyn a yw'r dysgwyr yn gallu dyfalu ystyr 'Gaf/Ga i...?'

Ga/Gaf i + berfenw? Cyfeiriwch yn ôl at y cwestiwn, 'Gaf i siarad â...?' yn y ddwy ddeialog a driliwch y brawddegau yn y blwch cyntaf yn y llyfr cwrs. Darllenwch dros y bloc.

Rhowch gerdyn bach ac arno ymadrodd (Atodiad 1). Rhaid ffurfio'r cwestiwn gyda 'Ga/Gaf i...?' gan grwydro o gwmpas y dosbarth yn gofyn y cwestiwn bawb. Fel tiwtor, byddwch chi'n cyfarwyddo pawb i ddweud 'Cewch, wrth gwrs' neu 'Na chewch, mae'n ddrwg gen i/mae'n flin gyda fi' – am ryw hanner munud ar y tro. Dylai pawb gadw'r un cerdyn am rai munudau, ac yna cyfnewid bob tro.



Dangoswch y sleidiau sy yn y cyflwyniad PowerPoint i atgyfnerthu berfenw yn dilyn Ga/Gaf i...? Rhaid i unigolion roi'r geiriau mewn cwestiwn sy'n dechrau gyda 'Gaf i/Ga i...?' Galwch enwau iddynt holi ei gilydd. Am yr wyth cerdyn cyntaf, dylent ateb 'Cewch, wrth gwrs'. Newidiwch ar ôl wyth cerdyn i ymarfer 'Na chewch, mae'n ddrwg gen i/mae'n flin gyda fi'.



Mae'r dosbarth cyfunol yn dechrau yma. Rhwch ar waith y gweithgaredd yn y paragraff uchod i atgyfnerthu Gaf/Ga i + berfenw.

Gaf/Ga i + enw

Defnyddiwch wrthrychau neu luniau, neu'r lluniau yn y cyflwyniad PowerPoint i gyflwyno 'Gaf i + enw?' Gaf/Ga i hufen iâ, halen, ddŵr, dost, laeth/lefrith, docyn, lyfr, rew. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs. I gloi, gofynnwch i'r dysgwyr roi'r eiconau sydd yn y llyfr cwrs mewn cwestiwn: 'Gaf i de, dost, hufen iâ, gaws?'

Cam 4 – Sgwrs Ffonio'r Ysgol

Ffonio'r ysgol - Chwaraewch y ddeialog a'i hymarfer.

Be ydy'ch enw chi?/Beth yw'ch enw chi? – Mae hwn yn gwestiwn sy'n aml yn peri trafferth ac o'r herwydd nid yw'n cael ei gyflwyno yn yr uned gyntaf. Ond mae angen ei ddysgu felly dylid cael digon o ailadrodd ar y cwestiwn. Dylai'r dysgwyr holi ei gilydd.

Mewn + yn – Driliwch y brawddegau, gan ddefnyddio lluniau o'r gwahanol adeiladau os yn bosib. Ceir lluniau yn y Cyflwyniad PowerPoint. Mae'r lluniau yr un peth â'r llefydd yn y llyfr cwrs. Ddylai'r blwch cyntaf ddim bod yn anodd gan nad yw'r cysyniad yn un newydd. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod pawb yn deall beth yw union ystyr 'mewn'. Gellir cael pobl i bersonoli ar ddiwedd y dril – gan gynnwys Dw i ddim yn gweithio/Dw i wedi ymddeol.

Mae'r blociau dril hyn wedi'u cyflwyno yn yr uned ar-lein. Gofynnwch i bawb ddweud beth sy'n berthnasol iddyn nhw o ran statws gwaith, gan gynnwys 'Dw i ddim yn gweithio' neu 'Dw i wedi ymddeol' neu 'Dw i yn y coleg' ac ati. Dylech chi foddelu i ddechrau, e.e. Weithiau dw i'n gweithio yn y tŷ, weithiau dw i'n gweithio mewn swyddfa a weithiau dw i'n gweithio yn y dosbarth'.

Ymarfer - Ceir lluniau i ddynodi 6 galwedigaeth. Rhannwch y dosbarth yn barau i greu brawddeg ar gyfer pob un e.e. Nyrs dw i, dw i'n gweithio mewn ysbyty. Yna, ceir ymarfer llenwi bylchau i ymarfer y gwahaniaeth rhwng 'mewn' ac 'yn'. Er mwyn atgyfnerthu'r trydydd person, gofynnwch i barau ailysgrifennu'r paragraff gan ddechrau, Bob ydy o/yw e...

Cam 5 – Sgwrs Ffonio'r Theatr

Chwaraewch y ddeialog gan ofyn i'r dysgwyr wrando am rifau ar y gwrandawriad cyntaf: deg (punt), pedwar (tocyn), saith (o'r gloch). Chwaraewch y ddeialog eto a'i hymarfer. Ysgrifennwch y ddeialog ar y bwrdd gwyn. Gofynnwch i'r dosbarth ddechrau darllen o'r bwrdd gwyn yn hytrach na'r llyfr. Yna, dylid dileu rhai geiriau ar ôl pob darlleniad, fel bod y dosbarth yn gorfod cofio mwy a mwy o'r ddeialog. Fel cam olaf, dylid troi yn ôl at y ddeialog yn y llyfr gan rannu'r dosbarth yn barau i ddisodli'r elfennau a danlinellir.

Cam 6 – Robin Radio

Mae hwn yn gyfle i atgoffa'r dosbarth o ymadroddion Uned 7:
Mae mab gyda fi./Mae gen i fab. Dim o gwbl. Pen-blwydd Hapus!

Robin Radio 8

Cam 7 – Atebion

Dyma grynodedb o'r atebion sy wedi codi hyd yn hyn.



Mae'n bosib drilio'r cwestiynau ac atebion fel dosbarth, ac yna rhannu'r dosbarth yn barau i brofi ei gilydd (gan guddio'r atebion). Neu gellid creu gêm fel *kahoot* a rhoi'r ymarfer isod ar waith.



Cynhaliwch brawf aml-ddewis i ymarfer atebion.

Wyt ti'n gweithio mewn ffatri?	Ydw	Ydy	Ie/la
Dych/Dach chi'n gorfod gweithio yfory?	Ydy	Ydyn	Ie/la
Ydy'r cyfarfod yn bwysig?	Do	Ie/la	Ydy
Ydyn nhw'n adolygu?	Ydyn	Ydy	Ydw
Wnaethoch chi'r gwely?	Ie/la	Do	Ydw
Rheolwr wyt ti?	Ydw	Do	Ie/la
Gaf i/Ga i dalu?	Cei	Ie	Ydy

Ar ôl yr ymarfer aml-ddewis, defnyddiwch yr un cwestiynau i'r dysgwyr nodi'r atebion fel bod pawb yn cael cyfle i roi cynnig ar bob ateb. Fel cam olaf, dylent ateb yn slic fel unigolion.

Cam 8 – Geirfa

Geirfa Uned 9.

Cam 9 – Crynhoi ac Asesu cynnydd

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 8. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Ceir sleid olaf yn y cyflwyniad PowerPoint sy'n crynhoi. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Uned 8, Atodiad 1

gadael neges	helpu
mynd adre	gofyn cwestiwn
gadael yn gynnar	prynu tocyn
benthyg y car	benthyg llyfr
benthyg deg punt	gwyllo ffilm
gweithio o'r tŷ	ffonio ffrind
gwneud paned	clywed y jôc
coginio i ti	dechrau eto

Canllawiau Uned 9 De Cymru

Prynon ni fara

Nod y wers: Gofyn ac ateb cwestiynau am bobl a phethau eraill

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned - cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Gorffennol cryno 'gwneud'	Gorffennol cryno 'gwneud'
Berfau rheolaidd pob person cadarnhaol, cwestiwn uniongyrchol a negyddol.	
Ynganu - wy	
Sgwrs 1	
Sgwrs 2	
Robin Radio	

Adnoddau i'r tiwtor:

Copi (digidol) o'r llyfr cwrs
 Cyflwyniad PowerPoint
 Deialogau o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*

Adnoddau i'r dysgwyr:

Dau ddis
 Darn dwy geiniog

Cam 1 – Y Banc Cwestiynau

Dych chi'n siopa mewn archfarchnad?

Cam 2 – Adolygu Uned 8

Rhannwch y dosbarth yn barau. Bydd angen darn 2 geiniog yr un arnyn nhw. Yn gyntaf, gofynnwch i'r parau lunio 3 chwestiwn yn dechrau gyda 'Gaf i...?' y gellid eu gofyn i dderbynnnydd wrth ffonio sefydliad. Dewch â phawb yn ôl at ei gilydd a rhowch ddetholiad ohonynt (tua 6) ar y bwrdd gwyn.

Wedyn, gofynnwch i'r dosbarth sut mae ateb y cwestiwn "Gaf i siarad â Siân Jones os gwelwch chi'n dda?" Rhannwch bob pâr yn dderbynnnydd ac yn gwsmer. Mae'r cwsmer yn gofyn y cwestiynau a ddewisoch chi a'r derbynnnydd yn ymateb. Os bydd y derbynnnydd yn cael "pen" (ar y darn dwy geiniog) yna mae'n ateb yn gadarnhaol, ac os mai "cynffon" a deflir, yr ateb ydy 'Mae'n flin gyda fi ... ac yn rhoi rheswm'. Rhaid newid rôl ar ôl mynd trwy'r rhestr.

Cam 3 – Gorffennol 'gwneud'

Gwnes i/Beth wnest ti?/Beth wnaethoch chi? Dechreuwyd cyflwyno gorffennol cryno 'gwneud' yn Uned 5 felly mae angen atgyfnerthu'r gwaith hwn cyn symud ymlaen. Defnyddiwch yr adran Dych chi'n cofio? i wneud hyn gan ddisodli 'coffi'.

Trydydd person unigol – Cyflwynwch 'Gwnaeth e/hi...'. Defnyddiwch luniau neu realia os yn bosib, e.e. gellir rhoi gwrthrych i bob aelod o'r dosbarth er mwyn ymarfer y dril cyntaf. Ceir lluniau yn sleid gyntaf y PowerPoint os bydd angen. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Cwestiynau Beth...? – Driliwch y cwestiynau'n fanwl. Gellir aildefnyddio'r ail sleid yn y cyflwyniad PowerPoint. Darllenwch dros y cwestiynau yn y bloc.

Ni a nhw – Driliwch y brawddegau – ceir cyfres o luniau yn y PowerPoint – Gwnaethon ni/nhw'r gwaith cartre, gwely, brechwast, coffi, te, llestri, tost, smwddio. Darllenwch dros y brawddegau yn y llyfr cwrs.

Gofynnwch i barau edrych ar y rhestr yn y llyfr. Rhaid iddynt holi ei gilydd, 'Beth wnaethoch chi ddoe?' ac yna 'Beth wnaethoch chi wedyn?' (heb gyfeirio at yr amser), gan ymateb gyda'r person cyntaf lluosog – Gwnaethon ni... Gellir wedyn ailadrodd y gweithgaredd gan newid y cwestiwn i 'Beth wnaethon nhw?' Gellir hefyd atgyfnerthu'r personau eraill.

Cam 4 – Cyflwyno gorffennol cryno berfau rheolaidd

Person cyntaf unigol - Defnyddiwch yr adran Dych chi'n Cofio? i atgoffa'r dysgwyr o'r berfau cryno person cyntaf. Dylid disodli'r elfennau a danlinellir. Atgoffwch y dysgwyr sut y ffurfir bonau - ceir 2 enghraifft o ollwng y llafariad olaf (bwyta, gwyllo) ac un enghraifft o ychwanegu terfyniad at ferfenw (chwarae) yn y llyfr cwrs. Dylid ymarfer berfau eraill sy'n dilyn yr un rheolau (e.e. seiclo, adolygu, talu, codi, peintio, ffonio, agor, ateb, cadw, gofyn, gorffen, hedfan).



Er mwyn ymarfer 'Bwytais i...', gellid gofyn i bawb godi i fynd i nôl bwyd a fwyton nhw ddoe a defnyddio'r gwrthrych ar gyfer y personoli.

Driliwch y bloc cyntaf sy'n cyflwyno berfau gyda bonau afreolaidd (gollwng – ed (-d yn unig yn achos 'gweld') ac –eg). Rhowch gyfle i bawb bersonoli pob brawddeg.

Driliwch yr ail bloc sy'n dangos trefn bore. Ceir lluniau yn y cyflwyniad PowerPoint sy'n cyd-fynd â'r brawddegau yn y bloc. Darllenwch dros y brawddegau a gofynnwch i'r dysgwyr ailadrodd y brawddegau perthnasol iddyn nhw o blith y rhestr.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri i roi'r holiadur ar waith.

Ail berson unigol – Driliwch y cwestiynau. Gellid atgoffa'r dysgwyr y bydd angen treigladd meddal mewn cwestiwn uniongyrchol a'i bod yn hawdd symud o'r person cyntaf i'r ail berson unigol yn y gorffennol cryno trwy ychwanegu 't' at y terfyniad person cyntaf. Yna, rhannwch y dosbarth yn barau i wneud y gêm drac. Y cyfan mae'n rhaid ei wneud yw deall y cwestiwn ac ateb 'Do' neu 'Naddo'. Gellid annog ymateb gyda brawddeg lawn os yw'r ateb yn un cadarnhaol. Bydd angen dis ar bob pâr.

Yna, rhannwch y dosbarth yn barau newydd i chwarae 'llongau rhyfel'. Rhaid i bob partner danlinellu'r geiriau mewn tri o'r blychau. Amcan y gêm yw dyfalu pa flychau a ddewiswyd gan y partner trwy ofyn e.e. 'Fwytaist ti swper neithiwr?' Mae'r partner yn ateb 'Do' neu 'Naddo' yn unig. Os bydd partner yn dyfalu'n gywir, caiff dro arall.

Trydydd person unigol – Defnyddiwch y lluniau yn y sleid nesaf yn y cyflwyniad PowerPoint i gyflwyno'r trydydd person unigol. (Seiclodd e, Ffoniodd e, Peintiodd e, Yfodd e goffi, Gyrrodd hi, Canodd hi, Talodd hi, Yfodd hi goffi.) Darllenwch dros y ddau bloc yn y llyfr cwrs. Trowch yn ôl at yr holiadur ('Beth wnest ti?') a gofynnwch i'r dysgwyr adrodd yn ôl am aelodau eraill o'r dosbarth. Os oes angen mwy o ymarfer, gellid aildefnyddio'r grid llongau rhyfel – gyda phartner newydd ac yn ymarfer y trydydd person.

Person cyntaf a thrydydd person lluosog – Atgoffwch y dysgwyr o'r ffurfiau 'gwnaethon ni' a 'gwnaethon nhw' a defnyddiwch y lluniau yn y sleid nesaf yn y PowerPoint i gyflwyno'r ffurfiau gan ymarfer 'ni' yn gyntaf ac wedyn 'nhw': gweithio, garddio, coginio, dawnsio, cerdded, edrych ar y teledu, darllen stori/ llyfr, prynu car (newydd). Wedyn, darllenwch dros y brawddegau yn y llyfr cwrs. Yna, gofynnwch i barau baru ateb a chwestiwn rhesymegol – mae pob math o gyfuniadau yn bosib. Gellir cael y parau i geisio cofio'r atebion, a'r cwestiynau, fel cam olaf.

Ail berson lluosog (cwestiwn) – Atgoffwch y dysgwyr o'r ffurf 'gwnaethoch chi'. Gellir defnyddio'r lluniau yn sleidiau 5 a 6 yn y PowerPoint i gyflwyno'r cwestiynau (e.e. Seicloch chi?) cyn drilio'r brawddegau yn y llyfr cwrs. Gofynnwch i'r dysgwyr gofio'r cwestiynau hyn a'u gofyn i chi. Gellir wedyn ailedrych ar y grid 'llongau rhyfel' gan unwaith eto ofyn i'r dysgwyr ofyn y cwestiynau yn y grid i chi. Gellir hefyd droi yn ôl at y gêm drac gan droi'r cwestiynau o 'ti' i 'chi' ac ailchwarae gyda phartner newydd.

Y negyddol – Defnyddiwch y lluniau yn y sleid olaf yn y PowerPoint i ddrilio person cyntaf y negyddol. Wedyn, darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs gan ofyn i bawb ddewis un frawddeg berthnasol iddyn nhw. Ceir egwyddor newydd yma, sef treigladd meddal ar ddechrau brawddegau negyddol. Ni ddylid cyfeirio at y treigladd llais yma, bydd yn codi yn Uned 11.

Ymarfer - Rhannwch y dosbarth yn barau. Byddan nhw angen dau ddis - un yn cynrychioli'r rhagenwau a'r llall yn sbarduno'r gweithgareddau gwahanol. Ar y dechrau, rhaid i bawb greu brawddegau cadarnhaol (y golofn gyntaf). Ar ôl rhai munudau, dylent newid i frawddegau negyddol (yr ail golofn).

Cam 5 – Ynganu

'Wy' yw'r sain dan sylw y tro hwn. Ewch dros y geiriau a restrir gyda'r dysgwyr a rhoi cyfle iddynt ymarfer. Yna, trowch hwn yn ymarfer geirfa ac ynganu. Ceir rhestr o eiriau Saesneg yn y llyfr cwrs. Rhannwch y dosbarth yn barau i'w dweud yn uchel yn Gymraeg. Mae'r geiriau yn y llinell gyntaf yn cael eu hynganu fel yr enghreifftiau yn y llyfr, ond mae'r geiriau yn yr ail linell yn wahanol.

Cam 6 – Sgwrs

Sgwrs 1 - Chwaraewch y sgwrs i'r dosbarth. Wrth wrando'r tro cyntaf, rhaid nodi'r amserau a glywir – pedwar o'r gloch a phump o'r gloch.

Yr ail dro, rhaid cofio/nodi cwestiwn cyntaf y fam - Beth wnest ti neithiwr?

Ar ôl y trydydd gwrandawriad, rhaid ateb y cwestiynau isod:

Sut mae Sam yn edrych?

Pryd gadawodd e'r clwb?

Beth brynodd e?

Pryd cyrhaeddodd e adre?

Rhannwch y dosbarth yn barau i ymarfer darllen.

Sgwrs 2 – Chwaraewch y sgwrs o leiaf ddwywaith i'r dysgwyr gael cwblhau'r tabl:

Dydd Llun	Siaradodd e Gymraeg ar y bws.
Nos Fawrth	Siaradodd e Gymraeg yn y dafarn.
Dydd Mercher	Gwrandawodd e ar Radio Cymru.
Y bore 'ma	Siaradodd e Gymraeg â'r ci.

Wedyn, rhannwch y dosbarth yn barau i ymarfer darllen.

Gofynnwch i bawb ddweud sut defnyddion nhw'r Gymraeg yn ystod yr wythnos flaenorol.

Cam 7 – Robin Radio

Cyfle i fynd yn ôl at ymadroddion Uned 8 i atgyfnerthu'r amser presennol:

Dw i yma ers wyth o'r gloch – disodli wyth o'r gloch

Dw i'n mynd i alw mewn/Dw i'n mynd i gael tacsï – pawb i ddweud beth byddan nhw'n ei wneud ar ôl y dosbarth

Robin Radio Uned 9

Cam 8 – Geirfa

Geirfa Uned 10

Cam 9 – Crynhoi ac Asesu cynnydd

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 9. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Gofynnwch i bawb ddod â llun o rywle aethon nhw ar wyliau i'r wers nesaf – copi caled neu lun digidol.

Canllawiau Uned 9 Gogledd Cymru

Mi wnaethon ni brynu bara

Nod y wers: Dweud beth wnaethoch chi a phobl eraill yn y gorffennol

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned - cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Mi wnaeth o/hi Mi wnaethon ni Mi wnaethon nhw	Mi wnaeth o/hi Mi wnaethon ni Mi wnaethon nhw
Cwestiwn uniongyrchol - Wnaeth o/hi...? Do/Naddo	
Y negyddol – Wnes i ddim...	
Be wnaeth...?	
Sgwrs 1	
Sgwrs 2	
Robin Radio	

Adnoddau i'r tiwtor:

- Copi (digidol) o'r llyfr cwrs
- Cyflwyniad PowerPoint
- Deialogau o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*

Adnoddau i'r dysgwyr:

- Dau ddis
- Darn dwy geiniog

Cam 1 – Y Banc Cwestiynau

Dach chi'n siopa mewn archfarchnad?

Cam 2 – Adolygu Uned 8

Rhannwch y dosbarth yn barau. Bydd angen darn 2 geiniog yr un arnyn nhw. Yn gyntaf, gofynnwch i'r parau lunio 3 cwestiwn yn dechrau gyda 'Ga i...?' y gellid eu gofyn i dderbynnnydd wrth ffonio sefydliad. Dewch â phawb yn ôl at ei gilydd a rhowch ddetholiad ohonynt (tua 6) ar y bwrdd gwyn. Wedyn, gofynnwch i'r dosbarth sut mae ateb y cwestiwn "Ga i siarad efo Siân Jones os gwelwch chi'n dda?"

Rhannwch bob pâr yn dderbynnnydd ac yn gwsmer. Mae'r cwsmer yn gofyn y cwestiynau a ddewisoch chi a'r derbynnnydd yn ymateb. Os bydd y derbynnnydd yn cael "pen" (ar y darn dwy geiniog) yna mae'n ateb yn gadarnhaol, ac os mai "cynffon" a deflir, yr ateb ydy 'Mae'n ddrwg gen i ... ac yn rhoi rheswm'. Rhaid newid rôl ar ôl mynd trwy'r rhestr.

Cam 3 – Gorffennol 'gwneud'

Mi wnes i/Be wnest ti?/Be wnaethoch chi? Dechreuwyd cyflwyno gorffennol cryno 'gwneud' yn Uned 5 felly mae angen atgyfnerthu'r gwaith hwn cyn symud ymlaen.

Defnyddiwch yr adran Dach chi'n cofio? i wneud hyn gan ddisodli 'coffi'.

Wnest ti...? – Gan barhau i adolygu Uned 5, ceir gêm fwrdd i ymarfer cwestiynau uniongyrchol. Rhannwch y dosbarth yn barau i chwarae'r gêm. Bydd angen dis ar bob pâr. Gellid gofyn iddynt ateb trwy ddweud 'Do' neu 'Naddo' yn unig y tro cyntaf, ond ymateb yn llawn yr ail dro. Cyflwynwyd y negyddol yn Uned 5.

Trydydd person unigol – Cyflwynwch 'Mi wnaeth o/hi...' Defnyddiwch luniau neu realia os yn bosib, e.e. gellir rhoi gwrthrych i bob aelod o'r dosbarth er mwyn ymarfer y dril cyntaf. Ceir lluniau yn sleid gyntaf y PowerPoint os bydd angen. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Defnyddiwch y sleid nesaf i gyflwyno Mi wnaeth o/hi + berfenw. Mae'r lluniau yn y PowerPoint yn cyd-fynd â'r brawddegau yn y bloc am Tom ond bydd angen amrywio'r rhagenw. Darllenwch dros y blociau am Tom a Mari.

Ni a nhw – Driliwch y brawddegau – ceir cyfres o luniau yn y PowerPoint – Mi wnaethon ni/nhw'r gwaith cartre, gwely, brecwast, coffi, te, llestri, tost, smwddio. Darllenwch dros y brawddegau yn y llyfr cwrs.

Defnyddiwch y pedair sleid gyntaf yn y cyflwyniad PowerPoint i atgyfnerthu gorffennol 'gwneud'. Sleid 1 – Mi wnes i. Sleid 2 – Cwestiynau Wnest ti/Wnaethoch chi? Sleid 3 – Mi wnaeth o/hi. Sleid 4 – Mi wnaethon ni/nhw.

Cam 4 – Y negyddol

Y negyddol - Defnyddiwch y lluniau yn y sleid olaf yn y PowerPoint i ddrilio person cyntaf y negyddol. Wedyn, darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs gan ofyn i bawb ddewis un frawddeg berthnasol iddyn nhw. Cyflwynwyd y negyddol yn Uned 5, felly atgyfnerthu geir yma.

Defnyddiwch y sleid nesaf i ymarfer Wnaethon ni/Wnaethon nhw ddim. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Ymarfer - Rhannwch y dosbarth yn barau. Byddan nhw angen dau ddis - un yn cynrychioli'r rhagenwau a'r llall yn sbarduno'r gweithgareddau gwahanol. Ar y dechrau, rhaid i bawb greu brawddegau cadarnhaol (y golofn gyntaf). Ar ôl rhai munudau, dylent newid i frawddegau negyddol (yr ail golofn).

Cam 5 – Cwestiynau Be wnaeth...?

Driliwch y bloc yn y llyfr cwrs. Yna, gofynnwch i barau baru ateb a chwestiwn rhesymegol – mae pob math o gyfuniadau yn bosib. Gellir cael y parau i geisio cofio'r atebion, a'r cwestiynau, fel cam olaf.

Cam 6 – Ynganu

'Wy' yw'r sain dan sylw y tro hwn. Ewch dros y geiriau a restrir gyda'r dysgwyr a rhoi cyfle iddynt ymarfer. Yna, trowch hwn yn ymarfer geirfa ac ynganu. Ceir rhestr o eiriau Saesneg yn y llyfr cwrs. Rhannwch y dosbarth yn barau i'w dweud yn uchel yn Gymraeg. Mae'r geiriau yn y llinell gyntaf yn cael eu hynganu fel yr enghreifftiau yn y llyfr cwrs, ond mae'r geiriau yn yr ail linell yn wahanol.

Cam 7 – Sgwrs

Sgwrs 1 - Chwaraewch y sgwrs i'r dosbarth. Wrth wrando'r tro cyntaf, rhaid nodi'r amserau a glywir – pedwar o'r gloch a phump o'r gloch.

Yr ail dro, rhaid cofio/nodi cwestiwn cyntaf y fam - Be wnest ti yn y dre neithiwr?

Ar ôl y trydydd gwrandawriad, rhaid ateb y cwestiynau isod:

Sut mae Sam yn edrych?

Be wnaeth o brynu?

Sut wnaeth o ddŵad adre?

Pryd wnaeth o gyrraedd adre?

Rhannwch y dosbarth yn barau i ymarfer darllen.

Sgwrs 2 – Chwaraewch y sgwrs o leiaf ddwywaith i'r dysgwyr gael cwblhau'r tabl:

Dydd Llun	Mi wnaeth o siarad Cymraeg ar y bus.
Nos Fawrth	Mi wnaeth o siarad Cymraeg yn y dafarn.
Dydd Mercher	Mi wnaeth o wrando ar Radio Cymru.
Y bore 'ma	Mi wnaeth o siarad Cymraeg efo'r ci.

Wedyn, rhannwch y dosbarth yn barau i ymarfer darllen.

Gofynnwch i bawb ddweud sut defnyddion nhw'r Gymraeg yn ystod yr wythnos flaenorol.

Cam 8 – Robin Radio

Cyfle i fynd yn ôl at ymadroddion Uned 8 i atgyfnerthu'r amser presennol:
Dw i yma ers wyth o'r gloch – disodli wyth o'r gloch
Dw i'n mynd i alw mewn/Dw i'n mynd i gael tacsï – pawb i ddweud beth byddan
nhw'n ei wneud ar ôl y dosbarth

Robin Radio Uned 9

Cam 9 – Geirfa

Geirfa Uned 10

Cam 10 – Crynhoi ac Asesu cynnydd

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 9. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Gofynnwch i bawb ddod â llun o rywle aethon nhw ar wyliau i'r wers nesaf – copi caled neu lun digidol.

Canllawiau Uned 10

Es i i'r dre/Mi es i i'r dre

Nod y wers: Dweud ble aethoch chi a phobl eraill

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned - cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Es i/Mi es i Ble/Lle est ti?	Es i/Mi es i Ble/Lle est ti?
Est ti../Aethoch chi...? (Mi) Aeth e/o/hi (Mi) Aethon ni/nhw Y negyddol	
Tymhorau	Tymhorau
Ynganu - o	
Sgwrs 1	
Sgwrs 2	
Robin Radio	

Adnoddau i'r tiwtor:

Copi (digidol) o'r llyfr cwrs

Cyflwyniad PowerPoint

Deialogau o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*

Adnoddau i'r dysgwyr:

Cam 1 – Banc Cwestiynau

Be/beth wnaethoch chi ddoe?
 Be/beth wnaethoch chi neithiwr?
 Be/beth wnaethoch chi dydd Sadwrn?

Cam 2 – Adolygu Uned 9

Dylai'r dysgwyr fod wedi anfon paragraff atoch yn disgrifio eu penwythnos. Rhowch y paragraffau ar sleid PowerPoint neu ar y bwrdd gwyn gyda bylchau. Rhaid i aelodau'r dosbarth ddyfalu beth sy'n mynd yn y bylchau a gall y person a luniodd y paragraff ddweud a ydyn nhw'n gywir neu'n anghywir. Gellir troi'r paragraff/au i'r trydydd person.

Os na fydd neb wedi anfon paragraff, gellir gwneud y gweithgaredd isod. Gofynnwch i bawb yn y dosbarth greu grid holiadur syml ar ddarn o bapur, fel yr isod:

Enw	Ddoe	Neithiwr	Dydd Sadwrn	Dydd Sul

Gellir newid y cyfnodau amser fel eu bod yn addas ar gyfer y dosbarth. Rhaid gofyn y cwestiwn 'Be/beth wnaethoch chi/wnest ti.....?' i o leiaf 5 o bobl. Dylid cynnal sesiwn adrodd yn ôl er mwyn ymarfer y trydydd person.

Cam 3 – Cyflwyno gorffennol cryno 'mynd'

Es i/Mi es i - Atgoffwch y dysgwyr o'r patrwm 'Dw i'n mynd i...' a driliwch '(Mi) es i'. Defnyddiwch gardiau fflach neu ceir lluniau ar y sleid gyntaf yn y cyflwyniad PowerPoint. Os defnyddiwch y sleidiau PowerPoint, ceir un enw benywaidd lle bydd angen treigladd meddal. (Es/Mi esi i i'r gwaith, sinema, gêm, dosbarth, ysgol, pwll/pwll nofio, garej, orsaf ddoe.) Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs a rhowch gyfle i bawb bersonoli.

Dosbarthwch gardiau Atodiad 1 i gael pawb ar eu traed yn ymarfer y patrwm newydd.



Mae'r cardiau y cyfeirir atynt uchod wedi'u hymgorffori yn y cyflwyniad PowerPoint. Dangoswch y cardiau gan alw enwau'r dysgwyr i roi'r lleoliadau o fewn y patrwm dan sylw.



Ble est ti? - Driliwch y cwestiwn yn drylwyr, gan nodi bod angen ychwanegu 't' at y person cyntaf unigol i greu'r ail berson unigol.

Mae'r dosbarth cyfunol yn dechrau yma.

Dosbarthwch gardiau Atodiad 1 unwaith eto, i'r dysgwyr ymarfer y cwestiwn ac ateb y tro hwn.



Dangoswch y cardiau o'r Blwch Adnoddau sydd yn y Cyflwyniad PowerPoint i gadarnhau'r cwestiwn 'Ble/Lle est ti?' a'r ateb 'Es/Mi es i...'. Dylid galw enwau'r dysgwyr iddynt holi ei gilydd.



Wedyn, rhowch yr holiadur ar waith.

I gloi'r adran hon, dylai pawb fod wedi dod â llun ohonynt ar wyliau. Gofynnwch i bawb ddangos y llun a dweud ble aethon nhw. Os gall y dysgwyr anfon y lluniau atoch ymlaen llaw, gellir creu PowerPoint.

Cwestiynau uniongyrchol – Mae'r bloc nesaf yn cyflwyno Est ti + berfenw. Defnyddiwch luniau neu'r lluniau yn y sleid PowerPoint nesaf i ymarfer cwestiynau. Gellid atgoffa'r dysgwyr o'r patrwm 'Dw i'n mynd i nofio' cyn cychwyn. Cyflwynwch gwestiynau 'Est ti...?' gyntaf. (Atebion: Est ti i nofio, siopa, chwarae tennis, seiclo, fowlio, redeg, gerdded, weld ffilm ddoe?) Defnyddiwch yr un lluniau i ddysgu 'Aethoch chi...?' Atgoffwch y dysgwyr o'r ffurf 'Gwnaethoch chi' cyn cyflwyno 'Aethoch chi'.

Rhowch yr holiadur ar waith.

Trydydd person unigol - Yn gyntaf, atgoffwch y dysgwyr o'r ffurf 'gwnaeth'. Driliwch y trydydd person trwy aildefnyddio'r cardiau sydd yn y Cyflwyniad PowerPoint (cardiau 'i'r sinema' ac ati). Driliwch y brawddegau a'r cwestiynau a darllenwch dros y ddau floc yn y llyfr cwrs.

Rhowch gerdyn i bawb ac arno un o'r lleoliadau yn yr holiadur nesaf yn y llyfr cwrs (Atodiad 1). Os oes llai na 15 yn y dosbarth, ni fydd pob lleoliad yn cael ei gofnodi. Cofiwch gymryd rhan os bydd odrif. Os oes mwy na 15, rhaid i rai dysgwyr gael yr un cerdyn. Pan fydd pawb wedi siarad â'i gilydd yn gofyn y cwestiwn 'Lle/Ble est ti ddoe?', gofynnwch iddyn nhw sefyll mewn cylch.



Gofynnwch i'r person ar eich chwith "Lle/Ble aeth X?", a phan mae wedi ateb, mae'n gofyn cwestiwn i'r person ar ei chwith nes bod pawb wedi gofyn ac ateb y cwestiwn.

Gofynnwch i bawb edrych ar yr holiadur yn y llyfr cwrs.



Rhaid iddyn nhw ysgrifennu enw pob aelod o'r dosbarth (heblaw amdany'n nhw eu hunain) yn y blychau ar y chwith. Does dim ots os na fydd pob blwch yn llawn. Wedyn, rhannwch y dosbarth yn barau i holi ei gilydd i ganfod ble aeth pawb. Dyma'r patrwm i'w fodelu – Partner A: 'Aeth John i'r sinema?' Partner B: Do/ Naddo. Does dim angen brawddeg lawn.

Er mwyn atgyfnerthu, gellid cael pawb i ddweud ble aethon nhw ddoe ac ymarfer troi'r brawddegau i'r trydydd person. Gellid hefyd aildefnyddio lluniau gwyliau aelodau'r dosbarth i ymarfer y trydydd person.

Person cyntaf lluosog - Eto, atgoffwch y dysgwyr o'r ffurf 'gwnaethon / mi wnaethon ni'. Gellir defnyddio'r lluniau yn y PowerPoint (a ddefnyddiwyd ar gyfer y trydydd person unigol) i gyflwyno 'Aethon ni'. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs. Yna, trowch at y deialogau byrion sy'n atgyfnerthu'r dril. Rhaid i'r parau ddarllen dros y deialogau nifer o weithiau gan ddisodli'r enw lle bob tro ond gan roi ateb sy'n cyd-fynd â'r rheswm dros fynd i'r lle hwnnw. Dylid eu hannog i beidio â dibynnu ar y sgript wrth fynd ymlaen.

Y Negyddol - Driliwch y bloc er mwyn cyflwyno cysyniad y negyddol a'r trydydd person lluosog. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Cam 4 – Y Tymhorau

Dysgwch y tymhorau.



Er mwyn ymarfer, rhannwch y dosbarth yn bedair ardal – un i gynrychioli pob tymor. Yn gyntaf, gellir gofyn i bobl fynd i ardal eu hoff dymor a chreu brawddegau 'Dw i'n hoffi XX'. Wedyn, galwch enw mis (yn ddwyieithog) a rhaid mynd i'r ardal briodol yn yr ystafell, gan ddweud enw'r tymor wrth fynd yna.

Er mwyn ymarfer, gellid creu cwis rhyngweithiol megis *kahoot*:

<https://create.kahoot.it/details/f2f47df5-83ab-4dc8-af9f-dea9444f6111>.



Gellid dangos lluniau o wahanol weithgareddau a dweud ym mha fis maen nhw'n digwydd.

Nid oes angen cyflwyno'r tymhorau ond mae angen atgyfnerthu gyda'r ymarfer isod.

Ymarfer – Gofynnwch i bawb edrych ar y grid yn y llyfr cwrs ac ysgrifennu brawddeg gydag un elfen o bob colofn, e.e. Aeth/Mi aeth Dafydd i Lundain ar y beic neithiwr. Amcan y gweithgaredd yw dyfalu beth yw brawddeg eich partner, fesul colofn, e.e.

Aeth Siân? Naddo, aeth Siân ddim.

Est ti? Naddo, es i ddim.

Aeth y plant? Naddo, aeth y plant ddim/aethon nhw ddim.

Aeth Dafydd? Do, aeth Dafydd. Do, mi aeth Dafydd.

Aeth Dafydd i Sbaen? Naddo, aeth Dafydd/e/o ddim i Sbaen.

Aeth Dafydd i Lundain? Do, aeth Dafydd/e i Lundain. Do, mi aeth Dafydd/o i Lundain.

Dewiswch chi frawddeg i fodelu cyn rhannu'n barau. Gellir dechrau eto os bydd parau'n gorffen yn gyflym.

Cam 5 - Ynganu

Geiriau sy'n gorffen â'r llafariad 'o' sy'n cael y sylw y tro hwn. Mae'n ddiddorol bod tiwtoriaid yn meddwl bod y sain 'o' yn peri trafferth ond dyw'r dysgwyr ddim. Gellid gofyn iddynt eu recordio eu hunain yn dweud y geiriau hyn er mwyn gallu gwranddo'n astud ar y sain maen nhw'n ei chreu.

Cam 6 - Sgwrs

Sgwrs 1 - Chwaraewch y sgwrs i'r dosbarth. Ar ôl y gwrandawriad cyntaf, gofynnwch i ble aeth Eryl a gyda phwy.

Ar ôl yr ail wrandawriad, rhannwch y dosbarth yn barau i drefnu'r ddeialog – Atodiad 2 a chardiau yn y blwch adnoddau. Dylent ymarfer darllen i orffen. Mae'r treigladd trwynol yn codi yn y ddeialog hon. Gofynnwch i ddysgwyr dderbyn yr ymadrodd am y tro gan ddweud y bydd yn cael ei gyflwyno yn Uned 14.



Ar ôl yr ail wrandawriad, gofynnwch i'r dosbarth, mewn parau, roi'r ddeialog mewn trefn. Ceir sleid yn y PowerPoint. Argymhellir anfon y ddeialog at y dysgwyr ymlaen llaw. Y cam olaf fydd ymarfer darllen y ddeialog. Mae'r treigladd trwynol yn



codi yn y ddeialog hon. Gofynnwch i ddysgwyr dderbyn yr ymadrodd am y tro gan ddweud y bydd yn cael ei gyflwyno yn Uned 14.

Sgwrs 2 – Wrth wrando, gofynnwch i'r dosbarth faint o weithiau maen nhw'n clywed y gair 'ddim' – 7. Chwaraewch y sgwrs eto a gofynnwch i bawb wrando am a chofio un o'r brawddegau/cwestiynau negyddol sy'n defnyddio gorffennol cryno 'mynd'. (Atebion: Es i ddim. Est ti ddim? Aeth Ceri ddim chwaith. Aethon nhw ddim chwaith. Ond est ti ddim i'r cyfarfod neithiwr?) Rhannwch y dosbarth yn barau i ymarfer darllen.

Cam 7 – Robin Radio

Atgoffwch y dosbarth o'r ymadroddion yn Uned 9:

Diolch byth

Mae'n gas gen i/gyda fi – Gofynnwch i bawb am frawddeg yn nodi rhywbeth maen nhw'n ei gasáu – diod, bwyd neu weithgaredd. Modelwch yn gyntaf i ddangos y treigladd meddal.

Hwyl ar y cerdded – Pawb i feddwl am 2 ferfenw yn lle cerdded (e.e. garddio, seiclo, rhedeg, nofio, dawnsio, siopa).

Robin Radio Uned 10

Cam 8 – Geirfa

Geirfa Uned 11.

Cam 9 – Crynhoi ac Asesu cynnydd

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 10. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Uned 10, Atodiad 1

i'r sinema	i'r siop
i'r gêm bêl-droed	i'r dosbarth Cymraeg
i'r cyfarfod	i'r gwaith
i'r swyddfa	i'r dre
i'r dafarn	i'r ysbyty
i'r parti	i'r gêm rygbi
i'r ganolfan hamdden	i'r clwb nos
i'r pwll nofio	

Uned 10, Atodiad 2 (Fersiwn y gogledd)

Ceri: Pen-blwydd Hapus Eryl!

Eryl: Diolch.

Ceri: Lle est ti dros y penwythnos ta?

Eryl: Mi es i i'r tŷ bwyta newydd ym Mangor nos Sadwrn.

Ceri: Neis iawn! Efo pwy est ti?

Eryl: Mi es i efo Jo a Chris

Ceri: Aethoch chi i rywle wedyn?

Eryl: Do, mi aethon ni i'r sinema. Ond aethon ni ddim i mewn.

Ceri: Pam?

Eryl: Mae Chris yn mynd i weld pob ffilm newydd yn syth. Felly mi aethon ni adre yn gynnar.

Ceri: Bechod!

Uned 10, Atodiad 2 (Fersiwn y De)

Ceri: Pen-blwydd Hapus Eryl!

Eryl: Diolch.

Ceri: Ble est ti dros y penwythnos 'te?

Eryl: Es i i'r tŷ bwyta newydd ym Mhorthcawl nos Sadwrn.

Ceri: Neis iawn! Gyda phwy est ti?

Eryl: Es i gyda Jo a Chris

Ceri: Aethoch chi i rywle wedyn?

Eryl: Do, aethon ni i'r sinema. Ond aethon ni ddim i mewn.

Ceri: Pam?

Eryl: Mae Chris yn mynd i weld pob ffilm newydd yn syth. Felly aethon ni adre yn gynnar.

Ceri: Dyna drueni!

Canllawiau Uned 11

Ces i dost i frecwast/Mi ges i dost i frecwast

Nod y wers: Dweud beth gawsoch chi a phobl eraill

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned - cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Ces i/Ges i/Mi ges i Beth gest ti?/Be gest ti?	Ces i/Ges i/Mi ges i Beth gest ti?/Be gest ti?
Gest ti?/Gawsoch chi?/Gaethoch chi? Do/Naddo Cafodd/Gaeth/Mi gaeth e/o/hi Cawson/Gaethon ni/nhw Negyddol – cyflwyno'r treigladd laes	
Ynganu - r	
Sgwrs 1	
Sgwrs 2	
Robin Radio	

Adnoddau i'r tiwtor:

- Copi (digidol) o'r llyfr cwrs
- Cyflwyniad PowerPoint
- Deialogau o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*

Adnoddau i'r dysgwyr:

- Dis
- Cardiau chwarae

Cam 1 – Banc Cwestiynau

Lle/ble aethoch chi ddoe?
 Lle/ble aethoch chi neithiwr?
 Lle/ble aethoch chi ar wyliau llynedd?
 Pryd aethoch chi ar wyliau llynedd?

Cam 2 – Adolygu Uned 10

Ysgrifennwch bedair colofn ar y bwrdd gwyn: Lle?/Ble? Sut? Pryd? Efo pwy?/Gyda phwy?

Rhowch gerdyn post i bawb a phawb i grwydro gan ofyn i bawb – Lle/ble est ti ar wyliau? Rhaid ateb yn unol â'r cerdyn post ac yna creu ateb dychmygol ar gyfer y tri chwestiwn dilynol – gan ddilyn y colofnau ar y bwrdd gwyn. (Rhaid mynd yng nghwmni rhywun!) Dylai'r dysgwyr gadw'r un cerdyn post am rai munudau ac yna cyfnewid cerdyn gyda phob partner newydd er mwyn amrywio'r atebion. Hefyd, tua hanner ffordd trwy'r gweithgaredd, stopiwch y dosbarth a gofyn iddyn nhw newid i Lle aethoch chi?



Ceir un sleid yn y cyflwyniad PowerPoint ac arni wyth cerdyn post. Gellwch wneud hyn fel gweithgaredd dosbarth cyfan lle byddwch chi'n galw enwau'r dysgwyr i holi ei gilydd: Lle/ble est ti ar wyliau? Rhaid ateb yn unol â'r cerdyn post ac yna creu ateb dychmygol ar gyfer y tri chwestiwn dilynol – gan ddilyn y colofnau ar y bwrdd gwyn. (Rhaid mynd yng nghwmni rhywun!) Mynnwch gwestiynau yn defnyddio 'ti' ar gyfer y rhes uchaf a throwch at 'chi' ar gyfer yr ail res. Neu mae modd anfon y sleid at bawb ymlaen llaw a rhannu'n grwpiau ar gyfer y gwaith.



Cam 3 – Cyflwyno gorffennol 'cael'

Fel yn achos hoffi a lico, rhoddir dewis o ffurfiau i ddysgwyr yn y de (Ces i, Cest ti, Cafodd e/hi, Cawson ni, Cawsoch chi, Cawson nhw neu Ges i, Gest ti, Gaeth e/hi, Gaethon ni, Gaethoch chi, Gaethon nhw). Dylech chi ganolbwyntio ar un o'r ffurfiau.

Person cyntaf - Atgoffwch y dosbarth o 'Mi wnes i/gwnes i' ac 'Mi es i/es i' a chyflwyno 'Mi ges i/Ces i/Ges i'. Defnyddiwch gardiau neu wrthrychau i gyflwyno'r

patrwm. Neu gellir defnyddio'r lluniau sydd yn y cyflwyniad PowerPoint. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Rhowch gerdyn neu wrthrych i bawb (bwydydd) gan ofyn iddynt greu brawddegau 'Mi ges i/Ces i/Ges i X'. Rhaid cael pawb ar eu traed yn crwydro - dylid cadw'r un gwrthrych i ddechrau, ac yna dechrau cyfnewid bob tro. Gofynnwch i bawb bersonoli.



Gofynnwch i bawb godi a nôl un neu ddau o bethau a gawson nhw ddoe (bwydydd). Byddan nhw'n defnyddio'r rhain mewn brawddeg i ymarfer 'Ces/Ges/Mi ges i' ac i bersonoli.



Cwestiynau ail berson - Driliwch y cwestiynau sydd yn bloc yn y llyfr cwrs a throwch at yr holiadur. Rhaid i bawb gwblhau'r golofn gyntaf ac yna holi dau berson arall.

Dangoswch y lluniau sydd yn yr ail sleid yn y cyflwyniad PowerPoint neu gardiau fflach confensiynol i gadarnhau'r cwestiwn 'Beth/Be gest ti ddoe?' a'r ateb 'Ces/Ges/Mi ges i...'. Dylid galw enwau'r dysgwyr iddynt holi ei gilydd. Wedyn, rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri i ymarfer holi ei gilydd trwy ddefnyddio'r holiadur yn y llyfr (brecwast, cinio, te swper).

Cwestiynau uniongyrchol ail berson – Driliwch y cwestiynau caeedig trwy ddefnyddio'r lluniau yn y sleid gyntaf yn y PowerPoint, cardiau fflach confensiynol neu wrthrychau. Darllenwch dros y brawddegau yn y bloc yn y llyfr.

Rhowch wrthrych (bwyd neu ddiod) i bawb a rhaid holi pawb 'Gaethoch chi/Gawsoch chi XXX ddoe?' Ar y diwedd, pawb i sefyll mewn cylch a chuddio eu gwrthrych y tu ôl i'r cefn. Rhaid i bawb ddyfalu beth yw'r gwrthrych trwy ofyn y cwestiwn, 'Gaethoch chi/Gawsoch chi XXX ddoe?'



Rhaid i bawb geisio cofio beth gafodd pawb ddoe (y gwrthrychau personol ddefnyddiwyd uchod) ac ymarfer gofyn y cwestiwn. I gloi, anfonwch neges bersonol at bob dysgwr yn nodi un o'r gwrthrychau yn y cyflwyniad PP neu ar y cardiau fflach. Rhaid i bawb ddyfalu beth yw'r gwrthrych sy gan bob person trwy ofyn y cwestiwn, 'Gaethoch chi/Gawsoch chi XXX ddoe?' nes dyfalu'n gywir.



Trydydd person unigol - Symudwch at y trydydd person trwy ddrilio brawddegau yn defnyddio'r lluniau yn y drydedd sleid yn y cyflwyniad PowerPoint, cardiau fflach confensiynol neu wrthrychau. Darllenwch dros y brawddegau yn y bloc yn y llyfr.

Gellid pasio bag o wrthrychau o gwmpas a chael y dysgwyr i greu brawddeg wrth i un person dynnu gwrthrych o'r bag, e.e. Mi gaeth/Cafodd/Gaeth Sam... Gellid ei wneud yr ail dro trwy ychwanegu 'Mi aeth Sam i'r siop' ar y dechrau.



Gellid defnyddio gwrthrychau'r dosbarth unwaith eto i atgyfnerthu.



Ceir gweithgaredd cardiau i barau yn y llyfr cwrs. Bydd angen pecyn o gardiau chwarae ar bob pâr. Rhaid i un partner droi cerdyn a gofyn cwestiwn gan ddefnyddio'r enw sy'n cyfateb yn y grid, e.e. 9 o unrhyw siwt = Be gaeth Paul/ Beth gafodd Paul? Mae'r partner yn ateb trwy nodi bwyd a diod, yn unol â'r grid. Mae'r ddau'n cymryd tro bob yn ail i holi ac ateb.

Person cyntaf a thrydydd person lluosog Er mwyn cael cyd-destun hawdd, gellid unwaith eto ddefnyddio'r lluniau yn y drydedd sleid yn y PowerPoint neu gardiau fflach confensiynol neu wrthrychau ar gyfer y drilio. Ond wedyn, driliwch y brawddegau yn y bloc yn y llyfr cwrs hefyd, nid darllen drostynt yn unig. Nodwch y 7 gair isod ar y bwrdd gwyn:

Post
Ebost
Neges
Llythyr
Siec
Papur doctor
Bil

Mae pob person yn dewis un ac yn greu brawddeg 'Mi gaethon ni/Cawson ni XXX'. Mae pawb arall yn troi'r frawddeg i'r trydydd person lluosog.

Y negyddol Yma, ceir y treigladau llawer am y tro cyntaf yn y negyddol. Defnyddiwch y lluniau yn y Cyflwyniad PowerPoint, cardiau fflach confensiynol neu wrthrychau am y tro olaf i ymarfer y person cyntaf. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr a gofynnwch i bawb ddewis brawddeg sy'n berthnasol iddyn nhw.

Gellid cael pawb ar eu traed unwaith eto yn cyfnewid gwrthrychau neu gardiau er mwyn ymarfer y negyddol.



Gellid cael pawb i ddangos eu gwrthrychau unwaith eto, gan greu brawddeg ar y patrwm: Cafodd/Gaeth/Mi gaeth X uwd ddoe, ond ches i ddim uwd.



Ymarfer: Deialogau - Trowch at y sgysiau byrion yn Llyfr y Dysgwr. Ymarfer darllen gan atgyfnerthu gorffennol cryno 'cael' a geir yma. Er mwyn modelu, dylid dewis dau aelod o'r dosbarth sy'n ynganu'n dda i ddarllen y ddeialog gyntaf gyda chi. Yna, rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri i ymarfer darllen. Ar ôl ymarfer, ceir lle yn y llyfr i'r grwpiau greu eu deialog eu hunain. Gofynnwch iddynt ddarllen eu deialog o flaen pawb.

Ymarfer: Gêm dis i adolygu pob person – Darllenwch dros y brawddegau yn y blwch (1. Es i i'r siop fara,...) fel brawddegau enghreifftiol. Yna, rhannwch y dosbarth yn barau gan roi dis a chardiau i bob pâr. Rhaid creu brawddeg gyda'r rhif ar y dis (yn cyfateb i'r person yn y blwch) ond rhaid newid y lleoliad trwy droi un o'r cardiau. (Y lleoliadau ar y cardiau yw llyfrgell, siop ffrwythau, swyddfa bost, caffi, Canolfan Gwaith, garej.) Dyw'r cardiau hyn ddim yn y Blwch Adnoddau.



Ymarfer: Gêm dis i adolygu pob person – Darllenwch dros y brawddegau yn y blwch (1. Es i i'r siop fara,...) fel brawddegau enghreifftiol. Yna, ysgrifennwch y lleoliadau isod ar y bwrdd gwyn neu yn y 'chat': llyfrgell, siop ffrwythau, swyddfa bost, caffi, Canolfan Gwaith, garej. Rhannwch y dosbarth yn barau. Rhaid creu brawddeg gyda'r rhif ar y dis (yn cyfateb i'r person yn y blwch) ac un o'r chwe lleoliad.



Ymarfer: Gêm dis i adolygu pob person – Rhannwch y dosbarth yn barau newydd. Rhaid taflu'r dis a chreu dwy frawddeg gorffennol cryno ('mynd' a 'cael') gyda'r person yn cyfateb i'r rhif ar y dis. Mae hwn yn debyg iawn i'r gweithgaredd uchod ond ni fyddant yn gweld unrhyw frawddegau cyflawn fel sbardunau y tro hwn.

Cam 4 - Ynganu

Geiriau sy'n cynnwys y llythyren 'r' sy'n cael y sylw y tro hwn.

Darllenwch dros y geiriau ac yna rhwch gerdyn ac arno un o'r geiriau i bawb (Atodiad 1 ac yn y blwch adnoddau). Bydd angen rhoi'r un gair i fwy nag un person os bydd mwy nag 16 yn dosbarth. Rhaid cael pawb mewn cylch yn pasio'r geiriau i'w gilydd, gan eu dweud bob tro wrth gwrs. Mae modd pasio nifer o gardiau ar yr un pryd.



Cam 5 - Sgwrs

Sgwrs 1 - Chwaraewch y sgwrs i'r dosbarth. Rhaid ateb y tri chwestiwn isod:

Ar ôl gwranddo unwaith:

Ble/lle aeth Ceri?

Ar ôl yr ail wrandawriad:

Beth gafodd Ceri yn y siop?/Be gaeth Ceri yn y siop?

Ar ôl y trydydd gwrandawriad:

Beth gafodd Ceri gan y banc?/Be gaeth Ceri gan y banc?

Ymarfer darllen.

Sgwrs 2 – Wrth wrando'r tro cyntaf, dylid gwneud nodyn o'r bwydydd a diodydd – uwd, cawl, sglodion, pwddin, salad, dŵr, cacen. Gellid eu nodi ar y bwrdd gwyn wrth i'r dysgwyr eu galw allan a'u cael i'w rhoi mewn brawddegau i ymarfer y gwahanol bersonau. Chwaraewch y sgwrs eto ac yna ymarfer darllen.

Cam 6 - Robin Radio

Atgoffwch y dosbarth o'r ymadroddion yn Uned 10:

Peidiwch â gwario

Peidiwch â phoeni

Rhannwch y dosbarth yn barau i ddisodli'r berfenwau – rhaid meddwl am o leiaf 5 enghraifft arall. Mae'n bosib y bydd y treigladau llaes yn codi yma ond ni ddylid ei orbwysleisio. Fodd bynnag, mae yma gyd-destun ar gyfer ei gyflwyno yn sgil dysgu 'Ches i ddim...'

Robin Radio Uned 11

Cam 7 – Geirfa

Geirfa Uned 12

Cam 8 – Crynhoi ac Asesu cynnydd

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 11. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Gweithgaredd ychwanegol i ymarfer gorffennol 'mynd' a 'cael'

Gêm ddyfalu

Rhowch y tabl isod ar y bwrdd gwyn neu ceir sleid yn y PowerPoint, gan sicrhau bod yr enwogion yn gyfredol ac yn addas:

	Cerdyn	Cig	Papur newydd	Petrol	Stamp	Bara
Gareth Bale		X	X	X	X	X
Alun Wyn Jones	X	X		X	X	X
Tom Jones	X	X	X	X	X	
Cerys Matthews	X	X	X	X		X
Charlotte Church	X		X	X	X	X
Kathryn Jenkins	X	X	X		X	X

Dywedwch y frawddeg ganlynol:

Ddoe ces i/mi ges i gig, papur newydd, petrol, stamp a bara ond ches i ddim cerdyn. Pwy dw i? (Gareth Bale)

Rhannwch y dosbarth yn barau i roi'r gweithgaredd ar waith. Bydd angen anfon y tabl at ddysgwyr ymlaen llaw mewn dosbarth rhithiol.

Uned 11, Atodiad 1

storm	stormus
araf	arall
car	cariad
cerdded	cario
gŵr	gwraig
dosbarth	person
gair	geiriau
sgwrs	siarad

Canllawiau Uned 12

Mae car gyda fi/Mae gen i gar

Nod y wers: Dweud beth sy gyda chi a phobl eraill

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned - cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Mae X gyda fi/Mae gen i X Oes X gyda ti?/Sgen ti X? Does dim X gyda fi/Sgen i ddim X	Mae X gyda fi/Mae gen i X Oes X gyda ti?/Sgen ti X? Does dim X gyda fi/Sgen i ddim X
Mae X gyda Bethan/fe/hi/ni/nhw. Mae gan Bethan/gynno fo/gynni hi/gynnon ni/ gynnyn nhw X. Oes X gyda chi?/Sgynnoch chi X? Faint o blant sy gyda chi?/Faint o blant sgynnoch chi?	
Rhifo: dau/tri/pedwar/pump o blant un mab/dau fab/tri mab/pedwar mab un ferch/dwy ferch/tair merch/pedair merch	
Trafod oedran	Trafod oedran
Hwiangerdd – Dau gi bach (sylw i ddeuseiniaid)	
Sgwrs 1	
Sgwrs 2	
Robin Radio	

Adnoddau i'r tiwtor:

- Copi (digidol) o'r llyfr cwrs
- Cyflwyniad PowerPoint
- Deialogau o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*

Adnoddau i'r dysgwyr:

- Dis

Cam 1 - Banc Cwestiynau

Cwestiynau i'w hychwanegu:

Be gaethoch chi i fwyta ddoe?/Beth gawsoch chi i fwyta ddoe?

Be gaethoch chi i yfed bore 'ma?/Beth gawsoch chi i yfed y bore 'ma?

Be gaethoch chi i frecwast heddiw?/Beth gawsoch chi i frecwast heddiw?

Be gaethoch chi o'r siop ddoe?/Beth gawsoch chi o'r siop ddoe?

Cam 2 - Adolygu Uned 11

Crëwch 3 rhestr siopa gan ddefnyddio enwau siopau lleol. Ceir enghraifft yn seiliedig ar Yr Wyddgrug isod.



siop	cael
Smiths	papur newydd
Siop y Siswrn	llyfr Cymraeg
Vaughan Davies	siwt
The Bookshop	nofel
Swyddfa'r Post	stamp
Lidl	ffrwythau
Aldi	llysiau

siop	cael
Smiths	map
Siop y Siswrn	cerdyn Cymraeg
Vaughan Davies	siwt
The Bookshop	llyfr gwyliau
Swyddfa'r Post	stamp
Tesco	ffrwythau
Lidl	llysiau

siop	cael
Smiths	map
Siop y Siswrn	cerdyn Cymraeg
Vaughan Davies	siwt
The Bookshop	llyfr gwyliau
Swyddfa'r Post	Ewros
Aldi	ffrwythau
Tesco	llysiau

Rhowch restr i bawb. Rhaid i'r dosbarth grwydro yn gofyn i'w gilydd "Lle/ble est ti i siopa?" a "Be/beth gest ti?" Modelwch drwy gael y dosbarth i ofyn i chi:

Lle est ti i siopa? Mi es i i Smiths. Be gest ti? Mi ges i bapur newydd.
Ble est ti i siopa? Es i i Smiths. Beth gest ti? Ces i bapur newydd.

Wrth i'r dosbarth ganfod pobl a chanddynt yr un rhestr, rhaid iddynt fynd o gwmpas fel pâr neu fwy a dweud "Mi aethon ni/Aethon ni i X. Mi gaethon ni/Cawson ni X". Wrth holi mwy nag un person, bydd yn rhaid sicrhau hefyd bod y dysgwyr yn gofyn, 'Lle/ble aethoch chi?' a Be gaethoch chi/Beth gawsoch chi?'

Ceir pum sleid yn y cyflwyniad PowerPoint sy'n dangos pum siop. Galwch enwau i'r dysgwyr holi ei gilydd:



Lle est ti i siopa? Mi es i i Smiths. Be gest ti? Mi ges i bapur newydd.
Ble est ti i siopa? Es i i Smiths. Beth gest ti? Ces i bapur newydd.

Mae modd ymarfer y trydydd person hefyd. Gellir newid y lluniau i gael siopau mwy perthnasol, yn enwedig y siop Gymraeg er mwyn hyrwyddo'r siop leol.

Cam 3 – Cyflwyno meddiant


Mae XX gyda fi/Mae gen i XX - Mae hwn yn batrwm pwysig i'w gyflwyno'n drylwyr gan ei fod mor wahanol i'r Saesneg ac yn gallu arwain at gamgymeriadau yn y dyfodol os nad yw'r gwaith yn cael ei wneud yn drylwyr. Defnyddiwch wrthrychau i gyflwyno'r patrwm gan ddangos yr hyn sy gyda chi e.e. ffeil, het, radio, sgarff. Ceir lluniau yn Sleid 7 os bydd angen.

Gogledd - Os oes digon o wrthrychau nad ydynt yn treiglo i allu rhoi un i bawb, gellir cael pawb ar eu traed yn crwydro yn dweud wrth ei gilydd beth sydd ganddynt – gan gadw at yr un gwrthrych i ddechrau ac yna'n ei gyfnewid gyda phob partner newydd. Darllenwch dros y bloc cyntaf yn y llyfr cwrs. Yna, bydd yn rhaid cyflwyno'r patrwm eto - y tro hwn gyda gwrthrychau sy'n treiglo. Gellid atgoffa'r dysgwyr o'r treigladd meddal yn gyflym yng nghyd-destun enwau llefydd cyn cychwyn. Darllenwch dros y ail bloc yn y llyfr cwrs.




De – Gan nad oes angen cael hyd i eiriau nad ydynt yn treiglo, dylai fod yn hawdd canfod gwrthrych i'w roi i bawb ar gyfer cael pawb yn crwydro er mwyn atgyfnerthu'r patrwm. Fel arfer, cânt gadw'r un gwrthrych am ychydig er mwyn cadarnhau'r patrwm ac yna newid gwrthrych bob tro er mwyn ymarfer geirfa hefyd. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.




Gofynnwch i bawb godi i nôl rhywbeth a byddant yn personoli trwy ddefnyddio'r gwrthrych. Bydd angen i hyn ddigwydd ar ôl cyflwyno'r ail floc, gyda'r treigladd meddal, yn y gogledd. 

Oes XX gyda ti?/Sgen ti X? – Unwaith eto, defnyddiwch y gwrthrychau i gyflwyno'r patrwm. Ar ôl drilio, gellir codi'r gwahanol wrthrychau i'r dysgwyr gael gofyn y cwestiwn i chi. Atebwch 'Oes'. Yna, gofynnwch am gwestiynau eraill (e.e. am fêc eich car – Oes Mini gyda chi?) ac atebwch yn wir. Dim ond 'oes' a 'nac oes' sydd angen yma. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs. Trowch at y llyfr cwrs a cheir holiadur i ymarfer y cwestiwn, 'Oes gyda ti/Sgen ti?'

Does dim XX gyda fi/Sgen i ddim - Cyd-destun anifeiliaid a geir yn y bloc yn y llyfr cwrs a defnyddiwch y brawddegau hyn i gyflwyno'r negyddol. Mae hwn yn gyfle i bersonoli'n syth.

Ceir ymarfer casglu cardiau yn Atodiad 1. Y nod yw casglu set o 4 cerdyn sydd yr un peth e.e. 4 'cath' Cymysgwch y cardiau'n dda a'u dosbarthu ymhlith aelodau'r dosbarth. Rhaid crwydro gan holi, e.e. 'Sgen ti gath/Oes cath gyda ti?' Mae'r partner naill ai'n dweud 'Nac oes, mae'n flin gyda fi, does dim cath gyda fi'/Nac oes, mae'n ddrwg gen i, sgen i ddim cath', neu'n trosglwyddo un cerdyn gan ddweud 'Oes, mae cath gyda fi/Oes, mae gen i gath'. Does dim rhaid trosglwyddo mwy nag un cerdyn ar y tro. Dylid symud ymlaen at berson newydd ar ôl gofyn un cwestiwn, ond bydd angen siarad â phawb sawl gwaith cyn cwblhau'r gweithgaredd. Gellir ailddosbarthu cardiau wrth i bobl gasglu setiau cyflawn. 

Ceir cyfres o gardiau yn y cyflwyniad PowerPoint. Galwch enwau'r dysgwyr i holi ei gilydd, 'Oes XX gyda ti?/Sgen ti X?' Anogwch bawb i ateb yn llawn ac yn onest. 

Bydd y wers gyfunol yn dechrau yma. Dangoswch y lluniau sydd yn sleid 7 yn y Cyflwyniad PowerPoint neu gardiau fflach confensiynol i gadarnhau'r cwestiwn 'Oes X gyda ti?/Sgen ti X?', yr ateb cadarnhaol 'Oes, mae X gyda fi/Oes, mae gen i X' a'r ateb negyddol, 'Nac oes, does dim X gyda fi./Nac oes, sgen i ddim X.' Gwnewch yr atebion cadarnhaol cyn yr atebion negyddol. Dylid galw enwau'r dysgwyr iddynt holi ei gilydd. Wedyn, rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri i ymarfer holi ei gilydd trwy ddefnyddio'r holiadur yn y llyfr (teledu, camera, ffôn, sbectol, cyfrifiadur, geiriadur). Bydd hwn hefyd yn gyfle i bersonoli.

I orffen yr adran hon, gellir gofyn i bawb nôl rhywbeth, gan roi'r gwrthrych hwnnw o fewn patrwm targed – 'Mae XX gyda fi'.

Mae gan Bethan X/Mae X gyda Bethan - Cyflwynir aelodau o'r teulu o fewn cyd-destun y trydydd person, gan gadw at 'plant, partner, brawd, chwaer'. Ar ôl drilio, ceir gweithgaredd dis. Rhannwch y dosbarth yn barau a phenderfynwch ar enw'r person y byddwch yn siarad amdano/amdani, e.e. Gwen. Rhaid taflu'r dis a chreu brawddeg gan ddefnyddio'r enw y penderfynwyd arno a'r blwch sy'n cyfateb yn y grid yn llyfr y dysgwr, e.e. Rhif 3 – Mae gan Gwen blant/Mae plant gyda Gwen.

Sgan Tomos X/Oes X gyda Tomos? Gellir defnyddio'r lluniau yn y sleid PowerPoint neu gardiau fflach confensiynol i ddrilio'r cwestiwn cyn darllen dros y brawddegau yn y bloc. Gofynnwch i bobl edrych yn ôl ar y grid 'teledu, camera, ffôn, sbectol, cyfrifiadur, geiriadur' a gofynnwch gwestiynau yn y trydydd person.

Sgan Tomos ddim X/Does dim X gyda Tomos - Gellir aildefnyddio'r lluniau yn y sleid PowerPoint, gwrthrychau neu gardiau fflach confensiynol i ddrilio'r negyddol cyn darllen dros y brawddegau yn y bloc.

Rhowch wrthrych i bawb. Sefwch mewn cylch. Y tro cyntaf, rhaid i bawb greu brawddeg gadarnhaol, e.e. Mae gan Tom gar/Mar car gyda Tom. Yna, gofynnwch i bawb roi eu gwrthrych ar y llawr a bydd pawb yn creu brawddegau negyddol, e.e. Sgan Tom ddim car rŵan/Does dim car gyda Tom nawr.



Gofynnwch i bobl unwaith eto ddangos eu gwrthrych personol a ddefnyddiwyd i atgyfnerthu'r person cyntaf. Y tro cyntaf, rhaid gofyn am frawddegau cadarnhaol, e.e. Mae gan Tom gar/Mar car gyda Tom. Yna, gofynnwch i bawb roi eu gwrthrych i lawr a bydd pawb yn creu brawddegau negyddol, e.e. Sgan Tom ddim car rŵan/Does dim car gyda Tom nawr.



Trowch at y grid yn y llyfr cwrs. Gweithgaredd i barau yw hwn. Mae'r parau'n holi ei gilydd, e.e. Oes teulu gyda Tomos/Sgan Tomos deulu? Oes, mae teulu gyda Tomos/Oes mae gan Tomos deulu, neu Nac oes, does dim teulu gyda Tomos/Sgan Tomos ddim teulu.

Sgynno fo/Sgynni hi ddim X / Does dim X gyda fe/hi – Gellir defnyddio'r lluniau yn y sleid PowerPoint, gwrthrychau neu gardiau fflach confensiynol i ddrilio brawddegau negyddol trydydd person gyda rhagenwau cyn darllen dros y bloc. Yn ôl eich adnabyddiaeth o'r dosbarth, galwch enw gwrthrych ar gyfer unigolyn, e.e. car. Bydd y person yn dweud 'Does dim car gyda fi/Sgen i ddim car' a bydd rhywun arall yn ei throi yn frawddeg trydydd person gan ddefnyddio'r rhagenw.

Plant – Cyflwynir siarad am blant yn y trydydd person. Ceir lluniau yn y PowerPoint (sleid 24) ar gyfer y gwaith cyflwyno neu mae gan CBAC gardiau fflach perthnasol. Dyma'r tro cyntaf y bydd y dysgwyr yn dod ar draws yr ail ddull o gyfrif yn Gymraeg, sef rhif + o + ffurf luosog yr enw. Darllenwch dros y blociau yn y llyfr ar ôl cyflwyno. Dylid rhoi cyfle i bobl bersonoli hefyd.

Ni a nhw - Er mwyn cael cyd-destun hawdd, gellid unwaith eto ddefnyddio'r lluniau yn y sleid yn y PowerPoint, gwrthrychau neu gardiau fflach confensiynol ar gyfer y drilio. Cyflwynwch **ni** ac wedyn **nhw**. Ond wedyn, driliwch y brawddegau yn y bloc yn y llyfr cwrs hefyd, nid darllen drostynt yn unig. Dylid ailadrodd y broses hon ar gyfer y brawddegau negyddol. Wedyn, rhwch y chwe gair isod ar y bwrdd gwyn:

Cyfarfod

Apwyntiad

Syniad

Problem

Swyddfa

Pres/Arian

Rhaid i bob person greu brawddeg negyddol gydag un o'r geiriau – Sgynnon ni ddim X/Does dim X gyda ni, a bydd pawb arall yn y dosbarth (yn eu tro) yn ailadrodd y frawddeg yn y trydydd person lluosog. Gellid cael parau i wneud hyn yn y dosbarth wyneb yn wyneb.

Ymarfer - Ceir tabl i ymarfer brawddegau negyddol. Rhaid canfod yr ateb mwyaf priodol a chreu brawddeg negyddol. Gwaith pâr yw hwn. Wrth fynd dros y gwaith, bydd y dysgwyr yn cael edrych ar y tabl y tro cyntaf. Yr ail dro, rhaid cuddio'r golofn ar y dde a cheisio cofio'r ateb.

Sgynnoch chi X?/Oes X gyda chi? Er mwyn cael cyd-destun hawdd, gellid unwaith eto ddefnyddio'r lluniau yn y sleid yn y PowerPoint, gwrthrychau neu gardiau fflach confensiynol ar gyfer y drilio. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr. Yna, rhannwch y dosbarth yn grwpiau o 3 i gytuno ar 3 pheth sy gyda nhw trwy holi ei gilydd, 'Oes XX gyda chi?/Sgynnoch chi XX?' Rhaid adrodd yn ôl i'r dosbarth 'Mae XX gyda ni/Mae gynnon ni XX'. Bydd y grwpiau eraill yn ailadrodd eu brawddegau nhw yn y trydydd person lluosog.

Sgynnyn nhw X?/Oes X gyda nhw? Am y tro olaf, gellid defnyddio'r lluniau yn y sleid gyntaf yn y PowerPoint, gwrthrychau neu gardiau fflach confensiynol ar gyfer y drilio. Darllenwch dros y brawddegau yn y bloc.

Rhannwch y dosbarth yn ddau grŵp gan roi cyfuniad o wrthrychau gwahanol i'r ddau grŵp, e.e. te, coffi, siwgr, bisgedi, pasta, cawl, reis, jam, stampiau. Mae'r ddau grŵp yn sefyll gyda'u gwrthrychau ond yn gallu gweld gwrthrychau'r grŵp eraill. O fewn y grwpiau, gall parau holi ei gilydd am wrthrychau'r grŵp arall, e.e. Sgynnyn



nhw reis?/Oes reis gyda nhw? gan ddisgwyl ateb llawn gan y partner.

Ymarfer – Grid i holi aelodau'r dosbarth am chwaer, brawd, ci, cath. Y tro hwn, rhaid gofyn Sgynnoch chi X?/Oes X gyda chi? Wrth gynnal sesiwn cloi, gall y tiwtor ofyn cwestiynau yn y trydydd person unigol a lluosog (e.e. Sgan Jac a Jill chwaer?/Oes chwaer gyda Jac a Jill?)

Cam 4 – Faint o ...?, rhifau gwrywaidd a benywaidd, oedran

Faint o blant - Cyflwynwch y dril yn drylwyr. Er mwyn ymarfer, gellid disodli plant am enwau eraill megis arian ac amser.

Rhifau gwrywaidd – Gofynnwch i bawb gyfrif o un i bedwar. Cyflwynwch un mab, dau fab, tri mab, pedwar mab cyn drilio'r brawddegau. Er mwyn ymarfer, ceir yn y cyflwyniad PowerPoint sleidiau yn dangos lluniau o feiciau i atgyfnerthu rhif + gwrthrych gwrywaidd. Gellid hefyd ddangos gwrthrychau megis llyfrau a lluniau. (Dylid osgoi gwrthrychau sy'n dechrau â t, c, p.)

Rhifau benywaidd – Atgoffwch y dysgwyr o'r ffurfiau benywaidd (a ddysgwyd yn sgil dysgu Faint yw e? yn Uned 7) a chyflwynwch un ferch, dwy ferch, tair merch, pedair merch cyn drilio'r brawddegau. Er mwyn ymarfer, ceir yn y cyflwyniad PowerPoint sleidiau yn dangos lluniau o garafanau i atgyfnerthu rhif + gwrthrych benywaidd. Gellid hefyd ddangos gwrthrychau megis peli a chotiau. (Dylid osgoi gwrthrychau sy'n dechrau â ll.)

Oedran – Er mwyn i bobl allu dweud beth yw oedran eu plant, ceir bloc dril. Eglurwch fod oedran bob amser yn fenywaidd. Ar ôl drilio'r bloc yn drylwyr, rhannwch y dosbarth yn barau i ddweud beth yw oedran John (neu enw arall) ym mhob un o'r lluniau. Ewch dros yr atebion ar ôl cael pawb ynghyd.

Cam 5 - Ynganu

Y tro hwn, ceir hwiangerdd 'Dau gi bach', am fod nifer o ddeuseiniaid yn codi yn y pennill. Ar ôl bod drosto fe nifer o weithiau (a gwrando ar fersiwn os y dymunir), gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu'r geiriau canlynol, heb edrych ar y sgrïpt: dau, coed, newydd, troed.

Cam 6 – Sgwrs

Sgwrs 1 - Chwaraewch y sgwrs i'r dosbarth. Ar y gwrandawriad cyntaf, rhaid i'r dysgwyr nodi'r amserau maen nhw'n eu clywed: deg o'r gloch, un ar ddeg o'r gloch, hanner dydd.

Am newid, yn hytrach na darllen gyda phartner, gofynnwch i'r dosbarth godi a sefyll wrth y wal ac yn wynebu'r wal. Rhaid iddyn nhw ddarllen y ddeialog yn wynebu'r wal dair gwaith – y tro cyntaf yn sibrwd, yr ail dro wrth siarad yn normal, a'r trydydd tro'n gweiddi. Wedyn, rhannwch y dosbarth yn barau i ymarfer darllen. Atebwch unrhyw gwestiynau sy'n codi am y ddeialog.



Chwaraewch y ddeialog eto ac atebwch unrhyw gwestiynau cyn gofyn i barau ymarfer darllen y ddeialog.



Sgwrs 2 – Chwaraewch y sgwrs ddwywaith ac yna gofynnwch i barau gyfieithu'r canlynol: 5 brothers, 7 sisters, 7 children, 4 dogs. Rhannwch y dosbarth yn barau i ddarllen.

Cam 7 – Robin Radio

Ymadroddion Robin Radio Uned 11:

Mae'n well gen i/Mae'n well gyda fi - gellir enwi neu ddangos lluniau o barau o bobl enwog gan ofyn i'r dysgwyr ddweud pa un sy'n well gyda nhw.

Dw i'n cytuno - gellir dweud gosodiadau gan gael y dysgwyr i ddweud 'Dw i'n cytuno'

neu 'Dw i ddim yn cytuno'.

Gellid gosod hyn fel pôl er mwyn i'r dysgwyr bleidleisio.

Rhai gosodiadau posib:

Mae hi'n oer.

Mae Coronation Street yn dda.

Mae mefus yn hyfryd.

Mae golff yn ddiflas.

Mae Aldi yn rhad.

Mae Lidl yn ddrud.

Mae dydd Llun yn ofnadwy.

Mae gwaith cartref yn help.

Mae sglodion yn dda i chi.

Robin Radio Uned 12

Cam 8 – Geirfa

Geirfa Uned 13.

Cam 9 – Crynhoi ac asesu ar gyfer dysgu

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 12. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Uned 12, Atodiad 1

cath	tocyn
problem	anifail anwes
apwyntiad	brawd
cariad	ceffyl
cyfrifiadur	geiriadur
plant	brechdan
dillad	llysiau
gormod	munud

Canllawiau Uned 13

Roedd hi'n braf

Nod y wers: Disgrifio pethau yn y gorffennol

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned - cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Roedd hi'n braf ddoe. Oedd hi'n braf neithiwr? Oedd/Nac oedd Sut roedd y tywydd neithiwr?	Roedd hi'n braf ddoe. Oedd hi'n braf neithiwr? Oedd/Nac oedd Sut roedd y tywydd neithiwr?
Roedd hi/e/o'n drist. Oedd hi/e/o'n drist? Doedd hi/e/o ddim yn drist. Doedd y bwyd ddim yn dda.	
Roedd pen tost gyda fi/Roedd gen i gur pen. Roedd annwyd arna i. (De Cymru yn unig) Rhediad yr arddodiad 'ar'. (De Cymru yn unig)	
Ynganu – 'u'	
Sgwrs 1	
Sgwrs 2	
Robin Radio	

Adnoddau i'r tiwtor:

- Copi (digidol) o'r llyfr cwrs
- Cyflwyniad PowerPoint
- Deialogau o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*

Adnoddau i'r dysgwyr:

- Cardiau chwarae

Cam 1 – Banc Cwestiynau

Cwestiynau i'w hychwanegu:

Sgynnoch chi gar?/Oes car gyda chi?

Sgynnoch chi deulu?/Oes teulu gyda chi?

Sgynnoch chi anifail anwes?/Oes anifail anwes gyda chi?

Cam 2 – Adolygu Uned 12

Paratowch fag sy'n cynnwys hyd at 10 o luniau neu wrthrychau (bwydydd ac anifeiliaid). Dywedwch mai bwydydd ac anifeiliaid sydd yn y bag.



Rhannwch y dosbarth yn ddau dîm. Rhaid i'r timau ddyfalu (bob yn ail) beth sy yn y bag trwy ofyn 'Sgynnoch chi X?/Oes X gyda chi?'. Mae'r person cyntaf sy'n dyfalu yn gywir yn ennill pwynt i'r tîm. Bob tro bydd rhywun yn dyfalu'n gywir, rhwch y gwrthrych i'r person hwnnw. Ar y diwedd, bydd cyfle i ymarfer y trydydd person, e.e. Mae gan (enw'r dysgwr) X/Mae X gyda (enw'r dysgwr).

Paratowch fag sy'n cynnwys hyd at 10 o luniau neu wrthrychau (bwydydd ac anifeiliaid). Dywedwch mai bwydydd ac anifeiliaid sydd yn y bag. Rhannwch y dosbarth yn ddau dîm (gan gadw cofnod o'r enwau er mwyn gallu gofyn bob yn ail). Rhaid i'r dosbarth ddyfalu beth sy yn y bag trwy ofyn 'Sgynnoch chi X?/Oes X gyda chi?'. Mae'r person cyntaf sy'n dyfalu yn gywir yn ennill pwynt i'r tîm.



Cam 3 – Yr amherffaith

Siarad am y tywydd – Roedd hi'n... Defnyddiwch gardiau fflach i atgyfnerthu siarad am y tywydd yn yr amser presennol. Yna, disodlwch 'mae' gyda 'roedd' er mwyn cyflwyno'r amherffaith. Defnyddiwch y cardiau fflach eto. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Oedd hi'n...? Cyflwynwch y cwestiwn trwy ddefnyddio'r cardiau fflach eto. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs. Er mwyn ymarfer y cwestiwn, dywedwch eich bod yn meddwl am un o'r cardiau yn benodol, a rhaid i'r dysgwyr ddyfalu pa un trwy ofyn, 'Oedd hi'n...?' Cyflwynwch yr atebion 'Oedd' a 'Nac oedd'.

Os bydd digon o gardiau i roi un i bob dysgwr, cânt grwydro yn dyfalu pa lun sy gan bawb er mwyn ymarfer y cwestiwn a'r ateb.



Does dim rhaid cael cerdyn ar gyfer y cam hwn, gellir ysgrifennu'r tywydd ar ddarnau bach o bapur a'u dosbarthu.

Anfonwch neges bersonol at unigolion yn y 'chat' yn nodi math o dywydd.



Rhaid i bawb arall ofyn cwestiynau i'r dysgwr hwnnw i ddyfalu pa fath o dywydd sy dan sylw.

Yn olaf, cyflwynwch 'Sut roedd/oedd y tywydd ddoe?'

Defnyddiwch gardiau fflach i atgyfnerthu'r tywydd yn yr amherffaith. Er mwyn ymarfer y cwestiwn, dywedwch eich bod yn meddwl am un o'r cardiau yn benodol, a rhaid i'r dysgwyr ddyfalu pa un trwy ofyn, 'Oedd hi'n...?'

Roedd hi/Oedd o/e? - Er mwyn dangos yr un egwyddorion ag uchod o fewn cyd-destun heblaw am y tywydd, ceir lluniau yn y sleid PowerPoint gyntaf i gyflwyno'r rhagenwau hi ac e/o gydag ansoddeiriau. (Atebion: Roedd hi'n hapus, dost/sâl, grac/flin, drist; Roedd e/o'n hapus, dost/sâl, grac/flin, drist.) Cyflwynwch y frawddeg a'r cwestiwn. Darllenwch dros y blociau yn y llyfr cwrs.

Negyddol – Er mwyn cyflwyno'r negyddol o fewn thema gyfarwydd, gellid aildefnyddio cardiau fflach y tywydd, neu'r lluniau yn y sleid PowerPoint eto. Dangoswch y berthynas rhwng 'Dyw/Dydy hi ddim yn...' a 'Doedd hi ddim yn...'. Darllenwch dros y bloc cyntaf yn y llyfr cwrs. Yna, driliwch yr ail bloc sy'n defnyddio'r enw 'bwyd' yn lle rhagenw. Trowch at y gweithgaredd yn y llyfr cwrs. Rhannwch y dosbarth yn barau. Bydd angen pecyn o gardiau chwarae ar bob pâr. Rhaid troi cerdyn a gofyn cwestiwn yn unol â'r rhif ar y cerdyn: bydd cerdyn coch yn arwain at ateb cadarnhaol a cherdyn du'n sbarduno ateb negyddol. Bydd angen modelu'n ofalus cyn cychwyn e.e. rhif 6 o galonnau – Oedd y môr yn stormus? Oedd, roedd y môr yn stormus.

Cam 4 – Cyflwyno Salwch

Salwch (Gogledd Cymru) – Gwiriwch yr eirfa y bydd ei hangen cyn dechrau drilio. Defnyddiwch y pedwar llun yn yr ail sleid PowerPoint i wneud hyn: annwyd, peswch, cur pen, poen bol. Defnyddiwch y pedwar llun hwn i ddrilio'n drylwyr, gan ddechrau yn yr amser presennol (Mae gen i annwyd) a chan symud at yr amherffaith (Roedd gen i annwyd). Mae angen gweithio'n drefnus trwy'r personau gwahanol – gen i, gan X, gynnwys ni, gynnwys nhw. Darllenwch dros y blociau yn y llyfr cwrs. Os oes dosbarth sy'n fodlon meimio, mae'n bosib cael rhywun i feimio'r

salwch a chael y dosbarth i ddweud 'Roedd gynno fo gur pen/ roedd gynni hi annwyd/roedd gynno fo boen bol' ac ati.

Salwch (De Cymru) – Ceir lluniau yn yr ail sleid yn y PowerPoint i gyflwyno'r patrwm 'Mae/Roedd XX gyda fi' yng nghyd-destun salwch. Ewch dros yr eirfa yn gyntaf: pen tost, bola tost, cefn tost, llwnc tost, clust dost. Dylid egluro wrth y dysgwyr ein bod yn defnyddio'r patrwm hwn pan fyddwn ni'n enwi rhan o'r corff. Gellir dechrau gyda'r presennol ac yna atgyfnerthu gyda'r amherffaith. Darllenwch dros y bloc cyntaf yn y llyfr cwrs. Os oes dosbarth sy'n fodlon meimio, mae'n bosib cael rhywun i feimio'r salwch a chael y dosbarth i adrodd – 'Roedd pen tost gyda fe', ac ati.

Mae'r ail a'r trydydd bloc yn cyflwyno cysyniad newydd, sef y defnydd o 'ar' gyda anhwylderau. Canolbwyntir yn llwyr ar 'annwyd' a 'peswch'. Dechreuwch y dril gyda enw fel Sam ac yna, gweithiwch drwy bob person yn yr arddodiad yn drefnus, gan ofalu adolygu yn gyson. Hwn yw'r cyflwyniad cyntaf i'r cysyniad o arddodiad yn rhedeg. Darllenwch dros y blociau yn y llyfr cwrs.

Ymarfer - Rhannwch y dosbarth yn barau i weithio ar y grid – 'Pwy oedd yn y dosbarth?'. Y nod yw canfod pwy oedd yn bresennol yn y dosbarth diwethaf trwy ofyn, Oedd Siân yn y dosbarth? Anogwch bawb i ateb mewn brawddegau llawn – e.e. Oedd, roedd Siân yn y dosbarth, neu Nac oedd, doedd Sian ddim yn y dosbarth achos roedd pen tost gyda hi/roedd gynni hi gur pen.

Ymarfer - Trowch at y ddau grid nesaf yn y llyfr cwrs a rhannwch y dosbarth yn barau newydd. Mae'r gridiau hyn yn adeiladu ar Uned 12, sef trafod meddiant ond yn defnyddio'r presennol a'r amherffaith. Mae hefyd yn gyfle i ymarfer 'ni' a 'nhw'. Mae partner A yn dechrau drwy ddweud, e.e. "Roedd gynnon ni fath/Roedd bath gyda ni" ac mae partner B yn ateb – "Rŵan, mae gynnon ni gawod/Nawr, mae cawod gyda ni". Yna, mae partner B yn dewis rhywbeth arall. Gellir gwneud hyn i ymarfer personau eraill hefyd.

Cam 5 - Ynganu

'U' yw'r llythyren dan sylw y tro hwn. Ewch dros y geiriau a restrir gyda'r dysgwyr a rhoi cyfle iddynt ymarfer mewn parau.

Cam 6 – Sgwrs

Sgwrs 1 - Chwaraewch y sgwrs, ewch drosti hi a'i chwarae unwaith eto cyn rhannu'r dosbarth yn barau i ddarllen ac yna disodli'r elfennau sydd wedi eu tanlinellu.

Sgwrs 2 – Chwaraewch y sgwrs, ewch drosti a rhannwch y dosbarth yn barau i ddarllen. Pan fyddant yn ymarfer darllen, ysgrifennwch y ddeialog ar y bwrdd gwyn. Yn y dosbarth rhithiol, gellir teipio'r ddeialog mewn dogfen Word ymlaen llaw. Galwch bawb yn ôl i ymarfer darllen fel unigolion yn eu tro o'r bwrdd gwyn/dogfen Word. Bob hyn a hyn, dylid dileu rhai geiriau fel bod y dysgwyr yn cofio mwy a mwy yn hytrach na darllen.

Cam 7 – Robin Radio

Brawddegau defnyddiol Uned 12:

Be sy'n bod?/Beth sy'n bod? – Gofynnwch i bawb ofyn cwestiwn i chi a meddylwch am broblem fel ateb, e.e. Mae hi'n bwrw glaw/Mae gen i annwyd, Mae annwyd arna i/Mae'r gwaith yn brysur/Mae'r traffig yn ofnadwy. Yna, gofynnwch i bawb ofyn y cwestiwn i berson arall yn y dosbarth a fydd yn ffurfio ateb. Gellid cael pawb ar eu traed yn crwydro yn y dosbarth wyneb yn wyneb.

Dw i ar ben fy hun/Dw i ar fy mhen fy hun – Rhwch gyfle i bawb ailadrodd yr ymadrodd defnyddiol hwn.

Rwy't ti'n glên iawn/Rwy't ti'n garedig iawn – Rhannwch y dosbarth yn barau i feddwl am awgrymiadau eraill i gymryd lle'r ansoddair glên/caredig (o leiaf 5). Dewch â phawb yn ôl at ei gilydd i rannu eu hatebion. Cewch weld beth yw'r atebion mwyaf poblogaidd yn y dosbarth ac efallai bydd ambell un sy ddim yn gweithio, a bydd modd trafod hyn.

Robin Radio Uned 13

Cam 8 – Geirfa

Geirfa Uned 14.

Cam 9 – Crynhoi ac asesu ar gyfer dysgu

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 13. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Canllawiau Uned 14

Ble ro'ch chi'n byw ac yn gweithio?/Lle oeddech chi'n byw ac yn gweithio?

Nod y wers: Siarad am bethau ro'ch/roeddech chi'n arfer eu gwneud

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned - cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Y treigladd trwynol	Y treigladd trwynol
Ro'n i yn... Ble ro't ti?/Lle oeddet ti? Ble ro'ch chi?/Lle oeddech chi?	Ro'n i yn... Ble ro't ti?/Lle oeddet ti? Ble ro'ch chi?/Lle oeddech chi?
Ro'n i'n cysgu am...?Ble ro'ch chi/Lle oeddech chi am...? Ro'n i'n byw... Pan o'n i i'n blentyn... Ro'n i'n arfer... Do'n i ddim... O't/Oeddet ti'n hoffi...? O'n/Nac o'n Ro'n ni/Roedden ni Ro'n nhw/Roedden nhw Cwestiynau uniongyrchol ac atebion – pob person Berfau lle mae'n rhaid defnyddio'r amherffraith i fynegi'r gorffennol.	
Sgwrs 1	
Sgwrs 2	
Ynganu	
Robin Radio	

Adnoddau i'r tiwtor:

Copi (digidol) o'r llyfr cwrs
Cyflwyniad PowerPoint
Deialogau o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*

Adnoddau i'r dysgwyr:

Dau ddis

Cam 1 – Banc Cwestiynau

Sut roedd y tywydd ddoe?/Sut oedd y tywydd ddoe?
Beth oedd ar y teledu neithiwr?/Be oedd ar y teledu neithiwr?

Cam 2 – Adolygu Uned 13

Er mwyn atgyfnerthu'r trydydd person amherffaith yng nghyd-destun y tywydd, llungopiwch dudalen tywydd papur newydd neu dangoswch dudalen ar y we sy'n dangos y tywydd dros y byd. Gofynnwch i'r dysgwyr holi ei gilydd, Sut roedd/oedd y tywydd yn XX? Ni ddylid poeni am y treigladd trwynol yma.

Cam 3 – Y Treigladd Trwynol

Dyma'r tro cyntaf y cyflwynir y treigladd trwynol yn drylwyr, er y bydd y dysgwyr wedi dod ar ei draws ac wedi cael eu cyflwyno i 'yng Nghaerdydd' (uned 8) ac 'ym Mangor/ym Mhorthcawl' (uned 10). Ewch trwy'r llythrennau'n drefnus, gan sicrhau digon o ymarfer gyda phob llythyren. Dylai'r dysgwyr gael cyfle i bersonoli wrth ymarfer y treigladd sy'n berthnasol iddyn nhw.

Rhowch gerdyn i bawb o'r Blwch Adnoddau – y cardiau sy'n ymarfer y treigladd trwynol gydag enwau llefydd. Yn syml iawn, rhaid i'r dysgwyr holi ei gilydd 'Ble rwyd ti'n byw/Lle wyt ti'n byw?' Gellir cael pawb mewn cylch i ymarfer y trydydd person gan ddefnyddio'r cardiau.



Ceir wyth o enwau llefydd yn y sleid gyntaf yn y cyflwyniad PowerPoint. Galwch enwau'r dysgwyr iddynt holi ei gilydd, 'Ble rwyd ti'n byw/Lle wyt ti'n byw?' Ar ôl bod trwy'r sleid unwaith, ceir ail sleid gyda'r treigladd trwynol wedi'i ddangos. Gellid cael pawb i ymarfer darllen, 'Dw i'n byw yn...' er mwyn atgyfnerthu. Gellir cyd-ddarllen fersiwn 2 o gerdd Cyril Jones i ymarfer y treigladd.



Cam 4 – Yr Amherffaith

Ro'n i - Cyn troi at y blwch dril, atgoffwch y dysgwyr sut mae dweud 'Dw i yn Llandeilo nawr/Dw i yn Llandudno rŵan' er mwyn gweld y cysylltiad rhwng brawddegau yn y presennol a'r amherffaith. Ceir ail set o luniau llefydd yn y cyflwyniad PowerPoint. Defnyddiwch y lluniau hyn i gyfuno 'Ro'n i' a'r treigladau trwynol. Darllenwch dros y brawddegau yn y blwch a gofynnwch i bawb bersonoli.

Ble/Lle...? Driliwch y cwestiynau'n drylwyr a darllenwch dros y bloc.

Ceir lluniau yn y cyflwyniad PowerPoint i ymarfer y treigladau trwynol. Dylid cael y dysgwyr i holi ei gilydd, Ble ro't ti ddoe?/Lle oeddet ti ddoe? (Sleid 1), Ble ro'ch chi dros y penwythnos?/Lle oeddech chi dros y penwythnos? (Sleid 3). Gellir cyfnewid y lluniau am luniau sy'n fwy perthnasol i'r dysgwyr yn eich dosbarth chi. Os yw'r dysgwyr yn cael trafferth gyda'r treigladau, dylid dweud nad yw peidio â threiglo yn newid yr ystyr o gwbl ac nad yw'r treigladau yma mor gyffredin â'r treigladau meddal. Ceir mwy o ymarfer ar y treigladau trwynol wrth weithio trwy'r uned.

Ymarfer – Ceir dwy ddeialog fer iawn i ddangos defnydd o'r gorffennol cryno a'r amherffaith gyda'i gilydd. Ar ôl ymarfer, dylai parau ddisodli'r elfennau a danlinellir. Gellid annog y parau i ddysgu'r deialogau hyn ar eu cof.

Yr amherffaith gyda amser penodol – Ceir pedwar llun yn y cyflwyniad PowerPoint i gyflwyno'r pedair brawddeg yn y dril. Ar ôl cyflwyno, darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Yn y sleid nesaf, ceir cyfres o glochau i gyflwyno'r cwestiynau – 'ti' ac wedyn 'chi'.

Gellid defnyddio cloc go iawn ar gyfer y cam hwn.



Gellid dangos cloc rhyngweithiol a gofyn i'r dysgwyr ailadrodd y cwestiwn wrth wyllo'r amser yn newid ar y cloc. Dyma enghraifft o gloc:



<https://toytheater.com/clock/#>.

Darllenwch dros y bloc cwestiynau a rhowch yr holiadur ar waith. Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl yn y trydydd person.

Ro'n i'n byw Mae'r blwch dril nesaf yn ymarfer 'ro'n i'n byw'. Driliwch y frawddeg gyntaf a gofynnwch i bawb bersonoli. Wedyn, driliwch yr ail frawddeg a gofynnwch i bawb bersonoli. Mae'n debygol y bydd y lleoliad yr un peth ar gyfer nifer o bobl. Wedyn, driliwch y cwestiynau.

Trowch at y grid yn y llyfr cwrs. Rhowch gerdyn i bob dysgwyr (Atodiad 1). Mae'r dysgwyr yn holi'r cwestiynau i'w gilydd a rhaid nodi'r llefydd (wedi'u treiglo) a glywir yn y grid yn y llyfr cwrs.



Trowch yn ôl at y cyflwyniad PowerPoint lle ceir cyfres o gardiau. Bydd y dysgwyr yn holi ei gilydd, 'Ble ro't/Lle oeddet ti'n byw pan o't/oeddet ti'n fabi/blentyn?' Galwch enwau'r dysgwyr ar gyfer hyn. I gloi, gofynnwch i'r dysgwyr gofio un lle yn dechrau gyda llythrennau'r treigladd trwynol ac ysgrifennu'r lle hwnnw yn y grid yn y llyfr.



Ro'n i'n arfer Mae'r driliau nesaf yn parhau gyda'r person cyntaf ond yn cyflwyno'r cysyniad o ddefnyddio 'arfer' i gryfhau'r ystyr. Dylid oedi ar ôl pob un frawddeg i bobl allu personoli.

Gellir defnyddio'r wybodaeth am y dysgwyr i ymarfer y trydydd person.

Pan o'n i'n blentyn

Y negyddol – Atgoffwch y dysgwyr o'r negyddol yn yr amser presennol – 'Dw i ddim yn lico/licio/hoffi hoci'. Felly, y cyfan mae angen ei wneud yw adleoli 'dw' gyda 'do'n'. Defnyddiwch wrthrychau, cardiau fflach neu'r lluniau yn y cyflwyniad PowerPoint ar gyfer y dril. (Atebion i gyd-fynd â'r PowerPoint: Do'n i ddim yn lico/licio hoci, bara brown, llysiau, ysgol, gwisgo sbectol, gwneud gwaith cartre, golchi llestri, canu'r piano). Gofynnwch i bawb ddweud brawddeg berthnasol iddyn nhw ac yna personoli'n llwyr (heb ddibynnu ar y gwrthrychau a'r lluniau). Darllenwch dros y bloc yn y llyfr.

Cwestiynau uniongyrchol – Atgoffwch y dysgwyr bod angen gollwng 'r' i ofyn cwestiwn uniongyrchol, e.e. Oedd hi'n braf? Defnyddiwch y lluniau yn PowerPoint eto i gyflwyno'r cwestiynau uniongyrchol. Gofynnwch i bawb ofyn y cwestiynau i chi a modelwch yr atebion. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr ofyn i'w gilydd. Darllenwch dros y cwestiynau yn y bloc yn y llyfr cwrs.

Ymarfer - Trowch at y grid yn y llyfr cwrs. Rhannwch y dosbarth yn barau. Ar y chwith, nodir nifer o weithgareddau – helpu yn y tŷ, mynd i'r ysgol, gwneud gwaith cartref, mynd i nofio, mynd i'r swê, mynd i'r parc, mynd at y deintydd, mynd i'r traeth. Rhaid i Bartner A ymateb gyntaf trwy ddweud 'Ro'n i/do'n i ddim yn hoffi/licio helpu yn y tŷ'. Mae Partner B yn ymateb trwy ddweud 'Ro'n i'n hoffi helpu yn y tŷ hefyd/Do'n i ddim yn hoffi helpu yn y tŷ chwaith'. Dylai'r ddau bartner gymryd tro wrth gychwyn.

Ni a Nhw Cyflwynir y person cyntaf a'r trydydd person lluosog o fewn cyd-destun gwaith. Er mwyn cyflwyno'r cyd-destun yn y lle cyntaf, adolygir y person cyntaf unigol. Gellir defnyddio cardiau fflach confensiynol i ddrilio'r manau gwaith gwahanol neu ceir lluniau yn y cyflwyniad PowerPoint. Darllenwch dros y

bloc cyntaf. Ewch ymlaen i gyflwyno 'ni' a 'nhw' naill ai gyda'r cardiau fflach neu gyda'r lluniau yn y PowerPoint. Yn olaf, driliwch y ddau gwestiwn a darllenwch dros y blociau.

Er mwyn ymarfer, rhowch gerdyn ac arno weithle i bawb. Rhaid sicrhau bod o leiaf ddau gerdyn yr un peth. Mae'r dysgwyr yn dechrau crwydro trwy ddweud, 'Ro'n i'n gweithio yn XX'. Wrth gwrdd â phartner a chanddo/ganddi'r un cerdyn, maent yn crwydro gyda'i gilydd gan ddweud 'Roedden ni/Ro'n ni'n gweithio yn XX'. Ar y diwedd, rhaid trafod gweithleoedd y parau gwahanol trwy ddefnyddio 'Roedden nhw/Ro'n nhw'n...'



Ymarfer - Er mwyn ymarfer 'ni', ysgrifennwch y rhestr isod ar y bwrdd gwyn. Dewiswch y lle mwyaf perthnasol i'ch dosbarth chi ym mhob llinell, neu rywle yn lleol sy'n dechrau gyda'r un llythyren.

Penarth/Prestatyn/Pontypridd/Porthmadog
 Casnewydd/Conwy
 Bangor/ Blaenau Gwent
 Gwaelod-y-Garth/Gwynedd
 Dinas Powys/Dolgellau
 Treorci/Treffynnon
 Caerfyrddin/Caernarfon
 Llundain/ Llangollen/ Llanelwy
 Pontypridd/Porthmadog
 Caerdydd

Dechreuwch drwy ddweud, 'Dyn/Dan ni'n byw yng Nghaerdydd nawr/rŵan. Wedyn gofynnwch i un person 'Ble ro'ch/Lle oeddech chi'n byw o'r blaen?' Bydd y person hwnnw'n ateb gyda enw'r lle ar y llinell uwchben Caerdydd. Bydd yr un person wedyn yn holi person arall. Byddwch chi'n symud i fyny'r rhestr nes cyrraedd y brig. Gellir ail-wneud er mwyn ymarfer 'nhw'.

Ymarfer - Ceir gweithgaredd i barau ymarfer yr amherffaith gyda ansoddeiriau yn y llyfr cwrs. Bydd angen 2 ddis – un dis i gynrychioli'r rhagenw ac un arall i gynrychioli'r ansoddair, e.e. $5 + 4 =$ Ro'ch/Roeddech chi'n oer. Dylid ymarfer brawddegau cadarnhaol gyntaf, ac yna brawddegau negyddol. Gellid atgyfnerthu'r cysyniad o ansoddair yn treiglo'n feddal ar ôl 'yn' cyn cychwyn y gweithgaredd.

Atebion Gofynnwch i'r dysgwyr baru'r cwestiwn a'r ateb (mewn parau). Mae dysgwyr y gogledd heb weld Oedden a Nac Oedden ond dylai fod yn rhesymegol. Fel ail gam, gofynnwch i'r dosbarth guddio'r atebion ar yr ochr dde, gan geisio eu hateb eu hunain. Fel cam olaf, gofynnwch gyfres o gwestiynau uniongyrchol perthnasol i'r dysgwyr.

Ro'n i'n gwybod Ceir un bloc syml arall i orffen, sef berfau lle rydym yn defnyddio'r amherffaith yn hytrach na'r gorffennol cryno. Gellid personoli 'Ro'n i eisiau' trwy gael y dysgwyr i ddweud 'Ron i eisiau XXX pan o'n i'n blentyn'. Darllenwch dros y bloc.

Cam 5 – Sgwrs

Sgwrs 1 - Wrth wrando'r tro cyntaf, rhaid i'r dysgwyr wrando am y llefydd yn y sgwrs:

Gogledd - Bangor, Caernarfon, Dolgellau, y Bala, Caerdydd.

De - Bargoed, Caerffili, y Barri, Penarth, Caerdydd.

Ar ôl chwarae'r ddeialog eto a mynd drosti hi, rhannwch y dosbarth yn barau i ddisodli'r geiriau a danlinellir. Gellir gofyn i barau ddarllen eu deialogau newydd gerbron y dosbarth.

Sgwrs 2 - Chwaraewch y sgwrs ddwywaith heb unrhyw dasg. Yna, rhowch y dyddiau isod ar y bwrdd gwyn:

Dydd Llun

Dydd Mawrth

Dydd Mercher

Dydd Iau

Dydd Gwener

Wrth wrando am y trydydd tro, dylai'r dysgwyr geisio cofnodi 'esgus' Rhys ar gyfer pob un o'r cyfnodau. Rhannwch y dosbarth yn barau i drafod eu hatebion cyn adrodd yn ôl. Gellir rhannu'r dosbarth yn barau i ddarllen y ddeialog i orffen.

Cam 6 – Ynganu

Enwau llefydd a geir yma. Dylid rhoi sylw i'r pwyslais yn yr enwau. Fel cam olaf, mae angen rhoi'r geiriau mewn brawddeg – 'Mi wnes i weld y castell yn X/Gwelais i'r castell yn X'. Gellid rhannu'n barau ar gyfer y cam hwn.

Cam 7 – Robin Radio

Brawddegau defnyddiol Uned 13:

Mae'n ddrwg gen i mod i'n hwyr/Mae'n ddrwg gyda fi fy mod i'n hwyr

Dw i wedi blino'n lân

A deud y gwir/A dweud y gwir

Robin Radio Uned 14

Cam 8 – Geirfa

Geirfa Uned 15.

Cam 9 – Crynhoi ac asesu ar gyfer dysgu

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 14. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen dros y cwestiynau yn y 'Gêm o Gardiau' ar ddechrau Uned 15 cyn y wers nesaf.

Uned 14, Atodiad 1

Babi – Glyn Ebwy Plentyn - Blaenafon	Babi - Caerdydd Plentyn - Llundain
Babi – Caernarfon Plentyn – Dinbych	Babi – Conwy Plentyn – Prestatyn
Babi – Bangor Plentyn – Y Fflint	Babi – Wreccsam Plentyn – Llangefni
Babi – Dolgellau Plentyn – Aberystwyth	Babi – Llandudno Plentyn – Llangollen
Babi – Porthmadog Plentyn – Pwllheli	Babi – Aberteifi Plentyn – Caerfyrddin
Babi – Abertawe Plentyn – Pontardawe	Babi – Porthacwl Plentyn – Maesteg
Babi – Pontypridd Plentyn – Merthyr Tudful	Babi – Casnewydd Plentyn – Y Fenni

Canllawiau Uned 15

Siarad wyneb yn wyneb

Nod y wers: Ymarfer siarad wyneb yn wyneb ac adolygu unedau 8-14

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned - cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Gêm o gardiau	
Sgwrs 1	
Dw i wedi ... Dw i ddim wedi... Wyt ti wedi...?	Dw i wedi ... Dw i ddim wedi... Wyt ti wedi...?
Llongau rhyfel	
Sgwrs 2 + arall	
Misoedd y flwyddyn	Misoedd y flwyddyn
Sgwrs 3	
Robin Radio	
Adolygu Atebion + Sgwrs 4	

Adnoddau i'r tiwtor:

- Copi (digidol) o'r llyfr cwrs
- Cyflwyniad PowerPoint
- Deialogau o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*

Adnoddau i'r dysgwyr:

- Pecyn o gardiau chwarae

Cam 1 – Banc Cwestiynau

Lle oeddech chi'n byw pan oeddech chi'n blentyn?/Ble ro'ch chi'n byw pan o'ch chi'n blentyn?

Be oeddech chi'n hoffi wneud pan oeddech chi'n blentyn?/Beth o'ch chi'n hoffi wneud pan o'ch chi'n blentyn?

Oedd gynnoch chi anifail anwes pan oeddech chi'n blentyn?/Oedd anifail anwes gyda chi pan o'ch chi'n blentyn?

Cam 2 – Gêm o gardiau

Dylid gwneud y cam hwn yn y dosbarth cyfunol.

Trowch at y Gêm o Gardiau a gofynnwch a oes cwestiynau – dylai'r dysgwyr fod wedi darllen dros y cwestiynau fel Gwaith Cartref. Gallai pawb ofyn un cwestiwn i chi yn y lle cyntaf, er mwyn i chi fodelu atebion. Yna, rhannwch y dysgwyr yn grwpiau o dri. Rhaid iddynt droi'r cardiau yn eu pecyn cardiau un ar y tro. Bydd y person sy'n troi'r cerdyn yn gofyn y cwestiwn i'r aelodau eraill yn y grŵp. Dylid gwahodd tiwtor arall/siaradwr rhugl i'r sesiwn i ateb cwestiynau'r dysgwyr.

Cam 3 – Sgwrs 1 a'r amser perffaith (wedi)

Yn y Swyddfa – Ar ôl gwrando nifer o weithiau a mynd dros y ddeialog, rhannwch y dosbarth yn barau ar gyfer ymarfer darllen a disodli'r elfennau a danlinellir.

Cyflwyno'r Amser Perffaith - Tynnwch sylw at y frawddeg 'Dw i wedi ateb pob ebostr'. Gellir hefyd dynnu sylw at yr ymadroddion 'Dw i wedi blino' a 'Dw i wedi ymddeol'. Os yn bosib, defnyddiwch gasgliad o lyfrau/ DVDs/CDs ar gyfer y gwaith cyflwyno. Neu ceir lluniau yn y sleid gyntaf yn y cyflwyniad PowerPoint – newidiwch y lluniau i adlewyrchu oedran/diddordebau'r dosbarth. (Atebion: Dw i wedi darllen Am Ddiwrnod, Blacmêl, Agor y Drws, Handmaid's Tale, Dw i wedi gweld Toy Story, Star Wars, Dw i wedi clywed Tom Jones, Adele). Stopiwch ar ôl pob un o'r berfau a gofynnwch i bawb bersonoli. Darllenwch dros y brawddegau yn y bloc, gan unwaith eto gofyn i bobl bersonoli ar gyfer 'bwyta' a 'bod'.

Gofynnwch i bawb ddewis un llyfr/DVD/CD a cherdded o gwmpas yn creu brawddeg.



Gofynnwch i bawb gael hyd i lyfr, fideo neu albwm a'i roi mewn brawddeg gan ddefnyddio'r patrwm targed.



Negyddol - Driliwch y negyddol gan ddefnyddio'r un gwrthrychau neu luniau. Darllenwch dros y brawddegau yn y bloc, gan ofyn i bawb bersonoli 'wedi chwarae' a 'wedi bod'.

Cwestiynau – Unwaith eto, defnyddiwch yr un gwrthrychau neu luniau i gyflwyno'r cwestiwn. Gofynnwch i bobl ofyn cwestiwn i chi er mwyn modelu'r atebion. Darllenwch dros y cwestiynau yn y bloc.

Sgwrs 1 - Bydd y dysgwyr wedi dysgu'r amser perffaith yn yr uned ar-lein. Felly, wrth chwarae Sgwrs 1 (Yn y Swyddfa) y tro cyntaf, gofynnwch iddyn nhw wrando am y frawddeg sy'n cynnwys 'wedi', sef 'Dw i wedi ateb fy ebyst'. Ar ôl gwrando nifer o weithiau a darllen y ddeialog fel y mae, gellir rhannu'n dosbarth yn barau i ymarfer darllen a disodli.

Ymarfer: Llongau rhyfel – Darllenwch dros y grid 'Llongau rhyfel' i sicrhau bod pawb yn deall yr eirfa. Gwahoddwch dri dysgwr i ofyn cwestiwn i chi (e.e. Wyt ti wedi gweld gêm hoci îâ?) er mwyn modelu. Gofynnwch i bawb ddewis rhwng tri a phum blwch. Rhannwch y dosbarth yn barau i chwarae'r gêm. Y nod yw dyfalu pa flychau a ddewisodd eich partner. Ar ôl i'r parau ddod yn ôl ynghyd, gellir cael sesiwn adrodd yn ôl yn y trydydd person. Wrth ateb yn gadarnhaol, anogwch ychydig o sgwrsio ar y testun hwnnw. Mae hynny'n bwysicach na chwblhau'r gweithgaredd yn llwyddiannus.

Cam 4 – Sgwrs 2

Yn y Llyfrgell – Rhowch y cwestiwn 'Be ydy/Beth yw enw'r person yn y llyfrgell?' i'w ateb ar ôl y gwrandawriad cyntaf, a'r cwestiwn 'Be ydy/Beth yw enw'r llyfr?' ar ôl yr ail wrandawriad. Ewch dros y ddeialog a rhannwch y dosbarth yn barau i ymarfer darllen.

Arall – Gwnewch y gweithgaredd canfod 'arall' yn y ddeialog, driliwch y brawddegau gan ddefnyddio gwrthrychau neu'r lluniau yn y PowerPoint (Dw i wedi cael llyfr, llythyr, cerdyn, diod, crempog, cawod, bag, cath arall), a rhannwch y dosbarth yn barau i greu'r cwestiynau i blentyn yn cynnwys 'arall'.

Cam 5 – Misoedd y flwyddyn

Ewch dros fisoedd y flwyddyn.

Er mwyn atgyfnerthu'r misoedd, rhannwch y dosbarth yn bedair ardal – un i gynrychioli pob tymor. Galwch enw mis a rhaid mynd i'r ardal briodol yn yr ystafell.



Er mwyn ymarfer, gofynnwch i'r dosbarth godi a sefyll mewn rhes. Rhaid iddynt drefnu eu hunain yn rhes gronolegol yn ôl misoedd eu penblwyddi. Maen nhw'n dweud mis eu penblwyddi wrth y person nesaf atynt yn y rhes a rhaid symud lle gyda'r person er mwyn cael llinell gronolegol, os yn briodol. Rhaid i'r tiwtor ddweud o'r cychwyn pa ben y rhes yw lonawr a pha ben yw Rhagfyr.



Er mwyn ymarfer, gofynnwch i bob aelod o'r dosbarth ddweud mis eu penblwydd nhw. Gwnewch nodyn o'r atebion. Yna, gofynnwch gwestiynau 'Pryd mae pen-blwydd X?' Bydd hyn yn arwain at ddigon o ailadrodd ar y misoedd.



Mae'r misoedd wedi'u cyflwyno ar-lein, ond er mwyn ymarfer, gofynnwch i bob aelod o'r dosbarth ddweud mis eu pen-blwydd nhw. Gwnewch nodyn o'r atebion. Yna, gofynnwch gwestiynau 'Pryd mae pen-blwydd X?' Bydd hyn yn arwain at ddigon o ailadrodd ar y misoedd.

Cam 6 – Sgwrs 3

Ar y gwrandawriad cyntaf, gofynnwch i'r dysgwyr wrando am y mis sy'n codi yn y Sgwrs (mis Awst). Ar ôl chwarae'r Sgwrs eto a mynd drosti, rhannwch y dosbarth yn barau i ddarllen a disodli. Mae nifer fawr o batrymau'n codi yn y ddeialog hon. Gellid gofyn i'r dysgwyr gyfieithu rhai ohonyn nhw, e.e. May I help?/I have a problem/She was waiting/I had terrible pain.

Gallen nhw gynnig eu hatebion ar fyrddau bach gwyn a gwrandao ar y ddeialog eto i wirio'r atebion.



Gallen nhw gynnig eu hatebion yn y 'chat' a gwrandao ar y ddeialog eto i wirio'r atebion.



Cam 7 – Robin Radio

Ymadroddion defnyddiol Uned 14:

ger y castell – Gofynnwch i bawb ddweud lle maen nhw'n byw, a ger lle yn y dref honno, e.e. Dw i'n byw yn Abertawe, ger y brifysgol.

ddim yn bell – Driliwch 'Dyw/Dydy X ddim yn bell o (leoliad y dosbarth/cartref y tiwtor)'. Gofynnwch am frawddeg berthnasol gan bawb.

Ydy hi'n bwrw eira'n aml? Gofynnwch i barau gyfieithu (i'r Gymraeg): Ydy hi'n bwrw glaw'n aml? Ydy hi'n heulog yn aml? Ydy hi'n brysur yn aml?

Robin Radio Uned 13

Cam 8 – Adolygu Atebion

Cynhaliwch brawf aml-ddewis i ymarfer atebion (e.e. pôl yn y dosbarth rhithiol neu kahoot yn y dosbarth rhithiol neu'r dosbarth wyneb yn wyneb):

Wnest ti'r gwaith?	Do	Ydw	Ie/Ia
Brynaist ti gar/Wnest ti brynu car?	Ie/Ia	Do	Ydw
Aeth Gwen i'r gwaith?	Do	Ydy	Ie/Ia
Gafodd/Gaeth y teulu amser da yn Sbaen?	Ydyn	Ie/Ia	Do
Oes anifail anwes gyda ti?/Sgen ti anifail anwes?	Ie/Ia	Oes	Ydw
Oedd hi'n braf ddoe?	Do	Oes	Oedd
Oedd pen tost gyda ti?/Oedd gen ti gur pen?	Ydw	Oedd	O'n
O't/Oeddet ti'n brysur ddoe?	O'n	Oedd	Ie/Ia
O'n/Oedden nhw'n hapus?	Do	Ydyn	O'n/ Oedden

Ar ôl yr ymarfer aml-ddewis, defnyddiwch yr un cwestiynau i'r dysgwyr nodi'r atebion ar ddarn o bapur fel bod pawb yn cael cyfle i roi cynnig ar bob ateb. Fel cam olaf, dylent ateb yn slic ar lafar fel unigolion. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr. Mae rhai atebion ychwanegol yna hefyd.

Mae Sgwrs 4 yn atgyfnerthu'r gwaith ar atebion. Ar ôl ei chwarae nifer o weithiau a mynd drosti, rhannwch y dosbarth yn barau. Bydd Partner A yn darllen y sgript ond Partner B yn ateb heb edrych. Rhaid newid rôl.

Cam 9 – Ysgrifennu cerdyn post

Bydd y gweithgaredd hwn yn fan cychwyn ar gyfer llunio cerdyn post yn yr arholiad Mynediad. Ceir templed cerdyn post yng nghwestiwn 3 yn y Gwaith Cartref. Darllenwch drosto ac yna rhannwch y dosbarth yn barau i ysgrifennu cerdyn post dychmygol. Gofynnwch iddyn nhw wneud hyn ar ddarn o bapur yn hytrach nag yn eu llyfrau. Gofynnwch i un o bob pâr ddarllen y cerdyn post o flaen y dosbarth. Gofynnwch iddyn nhw greu un newydd wrth wneud y Gwaith Cartref.

Cam 10 – Geirfa

Geirfa Uned 16.

Cam 11 – Crynhoi ac asesu ar gyfer dysgu

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 15. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Canllawiau Uned 16

Rhifau, Amser ac Arian/Rhifau, Amser a Phres

Nod y wers: Siarad am amser ac arian

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned - cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Yr amser ar y cloc	Yr amser ar y cloc
Siarad am amserau gwneud pethau/ digwyddiadau yn yr amser presennol	Siarad am amserau gwneud pethau/ digwyddiadau yn yr amser presennol
Siarad am amserau gwneud pethau/ digwyddiadau yn yr amser gorffennol	
Siarad am arian a phrisiau	
Sgwrs yn y Siop ac ymarfer 'rhy'	
Ynganu	
Robin Radio	

Adnoddau i'r tiwtor:

- Copi (digidol) o'r llyfr cwrs
- Cyflwyniad PowerPoint
- Deialogau o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*

Adnoddau i'r dysgwyr:

Cam 1 – Banc Cwestiynau

Pa fis yw hi?/Pa fis ydy hi?

Pa fis oedd hi y mis diwetha?/Pa fis oedd hi mis diwetha?

O hyn ymlaen, mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw gwestiynau sydd ym manc cwestiynau arholiad Mynediad CBAC yn cael eu cynnwys yn y gweithgaredd bob tro.

Cam 2 – Adolygu

Ymarfer atebion. Ceir cardiau ymarfer yn Atodiad 1 isod. Gellir eu defnyddio ar unrhyw adeg yn ystod y cwrs i atgyfnerthu atebion. Gellir eu dangos fel cardiau fflach arferol neu ceir copiâu yn y cyflwyniad PowerPoint. Ewch drwy'r cwestiynau i gyd yn gyntaf, gan annog y dysgwyr i gofnodi'r ateb ar ddarn bach o bapur. Ewch dros yr atebion gan annog ymateb fel corws, cyn troi at unigolion i ateb y cwestiynau.

Cam 3 – Siarad am yr amser

Mae'r dysgwyr yn gyfarwydd ag "o'r gloch" a "hanner awr wedi" ond yn Uned 16 cyflwynir yr amser yn llawn.

Cychwynnch drwy ddefnyddio cloc mawr gan fynd o gwmpas y cloc yn ymarfer yr amser ar yr awr – X o'r gloch. Gellir nodi'r amser yn unig i ddechrau ac yna ei roi o fewn brawddeg, e.e. Mae hi'n ddau/dri/bedwar/bump o'r gloch ac ati, gan dynnu sylw arbennig at 'un ar ddeg' a 'deuddeg'. Gofynnwch y cwestiwn i'r dosbarth bob tro: "Faint o'r gloch yw/ydy hi?" fel eu bod yn dod yn gyfarwydd â chlywed y cwestiwn.



Driliwch y cwestiwn. Os oes gennych ddigon o glochiau, rhannwch y dosbarth yn barau gan roi cloc i bob pâr i holi 'Faint o'r gloch yw/ydy hi?' i'w gilydd, gan brofi'r amser XX o'r gloch yn unig.

Dangoswch gloc digidol (e.e. <https://www.visnos.com/demos/clock>) gan fynd o gwmpas y cloc yn ymarfer yr amser ar yr awr – X o'r gloch. Gellir nodi'r amser yn unig i ddechrau ac yna ei roi o fewn brawddeg, e.e. Mae hi'n ddau/dri/bedwar/bump o'r gloch ac ati, gan dynnu sylw arbennig at 'un ar ddeg' a 'deuddeg'. Gofynnwch y cwestiwn i'r dosbarth bob tro: "Faint o'r gloch yw/ydy hi?" fel eu bod yn dod yn gyfarwydd â chlywed y cwestiwn.



Driliwch y cwestiwn. Gellir rhannu'r ddolen i'r cloc gyda'r dysgwyr ac wrth eu rhannu'n barau gall un ohonynt rannu sgrin ac ymarfer gyda phartner – o'r gloch yn unig.

Yna, ewch drwy'r amserau ar y cloc yn drefnus, gan ddechrau gyda 'pum munud wedi' ac yn mynd yr holl ffordd o gwmpas y cloc hyd at 'pum munud i'. Eto, os yn bosib, rhannwch y dosbarth yn barau i brofi ei gilydd.

Y cam nesa yw drilio'r bloc am weithgareddau yn dechrau ac yn gorffen. Dau bwynt gramadegol sy'n codi yma yw'r defnydd o 'yw/ydy' a 'mae' - Faint o'r gloch ydy hi?/Faint o'r gloch mae ... yn dechrau?, a'r treigladd meddal yn dilyn 'am'. Mae'r bloc yma yn cael ei ymarfer wrth ddefnyddio amserlen S4C.

Bydd y dysgwyr wedi dysgu sut i ddweud yr amser yn yr uned ar-lein. Ceir cyfle i ymarfer trwy rannu'r dosbarth yn barau i holi am amser y gwahanol raglenni ar S4C.

Cyn dechrau, mae hwn yn gyfle i sôn ychydig am S4C ac atgoffa'r dysgwyr o S4C Clic ac isdeitlau. Dylid tynnu eu sylw yn arbennig at arlwy S4C i ddysgwyr ar YouTube - <https://www.youtube.com/user/HwbTV>. Bydd yr amserlen sydd yn y gwrslyfr yn dyddio, ond mae'n weddol niwtral a gellid troi at wefan S4C i ddangos bod rhai o'r rhaglenni hyn yn gyfredol. Yn syml iawn, mae partner A a phartner B yn gofyn i'w gilydd am wybodaeth i lenwi eu hamserlenni.

I orffen y gwaith ar yr amser, driliwch y blociau sy'n defnyddio'r amser a'r gorffennol. Mae hwn yn gyfle da i atgyfnerthu'r gorffennol. Gellid gofyn i bobl am y Gymraeg am *I got up, I left, I arrived*, ac *I went* cyn cychwyn ar y gwaith cyflwyno. Driliwch y brawddegau fel y maen nhw yn y llyfr cwrs. Does dim gwaith newydd yma. Driliwch y cwestiynau ac yna rhannwch y dosbarth yn grwpiau i roi'r holiadur ar waith. Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl er mwyn ymarfer y trydydd person.

Cam 4 – Siarad am Arian/Pres

Cafwyd cyflwyniad byr ar arian yn Uned 7 a gwelwyd rhifolion benywaidd eto wrth drafod plant yn Uned 12, felly dylid atgoffa'r dysgwyr o'r ffurfiau benywaidd cyn cychwyn ar y gwaith newydd.

Defnyddiwch ddarnau arian go iawn i wneud y gwaith cyflwyno. Peidiwch â thynnu gormod o sylw at y treigladau llaes yn dilyn chwech. Gellid rhoi darnau o arian i bawb i grwydro'r dosbarth yn dweud faint sy gyda nhw. Fel arfer, dylid cadw'r un arian ar y dechrau ac yna cyfnewid gyda phob partner newydd.



Defnyddiwch y cyflwyniad PowerPoint i gyflwyno trafod arian. Peidiwch â thynnu sylw mawr at y treigladau llaes yn dilyn chwech. Ewch drwy'r punnoedd ac wedyn y ceiniogau.



Faint ydy'r/yw'r ...? Defnyddiwch y sleid PowerPoint i gyflwyno'r gwaith hwn. Driliwch y bloc fesul brawddeg ac ateb, gan ddisodli'r gwrthrych dan sylw gan ofyn am rywbeth a allai gostio tua'r un pris. Yna, symudwch ymlaen at holiadur Tesbury's, gan rannu'r dosbarth yn barau. Rhaid annog y dysgwyr i beidio ag edrych ar dabl eu partner a'i guddio. Yn gyntaf, dylai'r parau gyfnewid y prisiau yn unig fel bod rhestr gyflawn gan y ddau bartner. Yna, gofynnwch iddynt fynegi barn ar y prisiau, e.e. Mae tatws Tesbury's yn rhad/rhad iawn/ddrud/ddrud iawn. Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl.

Amserau a phrisiau Mae hwn yn gwestiwn o hen bapur arholiad Defnyddio'r Gymraeg Mynediad ond does dim angen dweud hyn wrth y dysgwyr nes eu bod wedi cyflawni'r dasg. Daw'r cwestiwn o bapur Mynediad Haf Nos 2019. Yn yr arholiad, mae'r dysgwyr yn cael clywed y darn dair gwaith.

Cam 5 – Sgwrs

Wrth wrando'r tro cyntaf, rhaid i'r dysgwyr wrando am y prisiau yn y sgwrs - £4.99, £2.50, £9.99. Ewch dros yr atebion a rhannwch y dosbarth yn barau i ddarllen y ddeialog fel y mae A/B, B/A cyn disodli'r elfennau a danlinellir. Maent i gyd yn rhifau.

Gan fod 'rhy' yn codi yn y ddeialog am y tro cyntaf, ceir ymarfer mecanyddol i'w ddefnyddio. Gellir ei wneud fel dril llafar yn syth, neu rannu'r dosbarth yn barau i greu'r ymatebion ac yna eu drilio.

Cam 6 - Ynganu

Brawddegau sy'n cynnwys seiniau anodd i'r dysgwyr eu hynganu a geir yma.

Ar ôl ymarfer, dylai pawb gopïo un o'r brawddegau ar bapur sgrap (yn daclus!) a chrwydro'r stafell yn dweud y frawddeg wrth bawb maen nhw'n eu cyfarfod. Os ydyn nhw'n clywed brawddeg wahanol, maen nhw'n cyfnewid papur.



Ar ôl ymarfer y brawddegau fel côr, gofynnwch i'r partneriaid fynd dros y pedair brawddeg. I orffen, gellir gwneud gwaith yn cael pobl i amrywio eu goslef i bwysleisio elfennau gwahanol yn y frawddeg. Tanlinellir y gwahanol elfennau y gellir eu pwysleisio:



Dw i'n darllen llyfrau Llinos.

Mae chwe chwaer yn chwarae cardiau.

Llwyd yw lliw'r llyfrau yn y llyfrgell.

Dw i'n gweithio mewn gwesty gwely a brechwast.

Cam 7 – Robin Radio

Y tro yma, mae angen ymarfer y tri ymadrodd/gair "Wrth gwrs", "Be/Beth wnaethoch chi wedyn?" a "diddorol".

Gofynnwch i aelod dibynadwy a hyderus o'r dosbarth ateb cwestiynau. Gofynnwch i'r person "Be/Beth wnaethoch chi dydd Sadwrn?" Pan mae'n ateb, rhaid cael pawb yn y dosbarth i holi "Be/Beth wnaethoch chi wedyn?". Rhaid i'r person gario ymlaen mor hir â phosib. Rhannwch y dosbarth yn barau a gofyn iddyn nhw ddilyn y patrwm.

Robin Radio Uned 16

Cam 8 – Geirfa

Geirfa Uned 17

Cam 9 – Crynhoi ac asesu ar gyfer dysgu

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 16. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Uned 16, Atodiad 1 – Gogledd Cymru

Sgynnoch chi anifail anwes?	Oes / Nac oes
Dach chi'n siopa bob dydd?	Ydw / Nac ydw
Ydy hi'n braf?	Ydy / Nac ydy
Ydy'r plant ar wyliau?	Ydyn / Nac ydyn
Aethoch chi ar wyliau llynedd?	Do / Naddo
Wnaethoch chi yrru yma?	Do / Naddo
Ydy hi'n bwrw glaw?	Ydy / Nac ydy
Ydy'r gwyliau ysgol yn rhy hir?	Ydyn / Nac ydyn
Oeddech chi'n arfer cerdded i'r ysgol?	O'n / Nac o'n
Oedd hi'n braf ddoe?	Oedd / Nac oedd
Sgynnoch chi gar?	Oes / Nac oes
Dach chi'n gweithio yfory?	Ydw / Nac ydw
Wnaethoch chi brynu rhywbeth ddoe?	Do / Naddo
Gaethoch chi dost i frecwast?	Do / Naddo
Oedd hi'n oer neithiwr?	Oedd / Nac oedd
Dach chi wedi darllen llyfr Cymraeg?	Do / Naddo

Uned 16, Atodiad 1 – De Cymru

Oes anifail anwes gyda chi?	Oes / Nac oes
Dych chi'n siopa bob dydd?	Ydw / Nac ydw
Ydy hi'n braf?	Ydy / Nac ydy
Ydy'r plant ar wyliau?	Ydyn / Nac ydyn
Aethoch chi ar wyliau y llynedd?	Do / Naddo
Yrroch chi yma?	Do / Naddo
Ydy hi'n bwrw glaw?	Ydy / Nac ydy
Ydy'r gwyliau ysgol yn rhy hir?	Ydyn / Nac ydyn
O'ch chi'n arfer cerdded i'r ysgol?	O'n / Nac o'n
Oedd hi'n braf ddoe?	Oedd / Nac oedd
Oes car gyda chi?	Oes / Nac oes
Dych chi'n gweithio yfory?	Ydw / Nac ydw
Brynoch chi rywbeth ddoe?	Do / Naddo
Gaethoch/Gawsoch chi dost i frecwast?	Do / Naddo
Oedd hi'n oer neithiwr?	Oedd / Nac oedd
Dych chi wedi darllen llyfr Cymraeg?	Ydw / Nac ydw

Canllawiau Uned 17

Bydd/Mi fydd hi'n braf yfory

Nod y wers: Siarad am ddigwyddiadau yn y dyfodol

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned - cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Bydd/Mi fydd hi'n...	Bydd/Mi fydd hi'n...
Sut bydd/fydd y tywydd yfory? Fydd hi'n...? Bydd/Na fydd	Sut bydd/fydd y tywydd yfory? Fydd hi'n...? Bydd/Na fydd
Bydd/Mi fydd Bethan/hi/e/o yn... Fydd Bethan/hi/e/o ddim...	
Ble/Sut/Pryd/Pam bydd...?/ Lle/Sut/Pryd/Pam fydd...?	
Bydda/Mi fydda i + yr arddodiad 'yn'	
Ynganu	
Gwranddo - Bwletin Tywydd	
Sgwrs	
Robin Radio	

Adnoddau i'r tiwtor:

- Copi (digidol) o'r llyfr cwrs
- Cyflwyniad PowerPoint
- Deialogau o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*

Adnoddau i'r dysgwyr:

- Dis
- Cardiau chwarae

Cam 1 – Banc Cwestiynau

Am faint o'r gloch dych/dach chi'n codi fel arfer?
 Am faint o'r gloch dych/dach chi'n cael swper fel arfer?
 Am faint o'r gloch dych/dach chi'n mynd i'r gwely fel arfer?

Cam 2 – Adolygu Uned 16

Paratowch set o fwydydd neu wrthrychau a rhowch bris syml arnynt (ar Post-It). Rhowch un eitem i bob aelod o'r dosbarth. Bydd y dosbarth yn crwydro gan ddangos y bwydydd/nwyddau i'r bobl maen nhw'n eu holi. Ar ôl derbyn y cwestiwn, "Faint yw'r/ ydy'r X?", rhaid rhoi'r ateb sy ar y Post-It. Gadewch i'r dysgwyr gadw'r un eitem am ychydig, ond yna sicrhewch eu bod yn cyfnewid bob tro y byddwch yn curo dwylo.



Ceir lluniau yn y sleid gyntaf yn y cyflwyniad PowerPoint. Galwch enwau'r dysgwyr i holi am y pris ac i ateb y cwestiwn. Gellid ymarfer 'drud' a 'rhad' fel cam olaf, e.e. Mae'r pizza'n ddrud. Mae'r bananas yn rhad.



Cam 3 – Cyflwyno'r amser dyfodol

Y Tywydd Cychwynnch gyda'r cyfarwydd drwy ddangos cardiau fflach Y Tywydd. Ewch dros yr amser presennol a'r amherffaith cyn cyflwyno'r dyfodol. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Defnyddiwch y cardiau fflach unwaith eto i gyflwyno'r cwestiwn uniongyrchol. Modelwch yr atebion. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Mae'r dosbarth cyfunol yn dechrau yma.

Rhowch gerdyn post i bob un o'r dysgwyr er mwyn iddyn nhw grwydro yn gofyn y cwestiwn – Fydd hi'n braf yn....? Gellir newid y tywydd bob munud.



Defnyddiwch yr ail sleid yn y PowerPoint i ymarfer cwestiynau Fydd hi'n...? yng nghyd-destun y tywydd. Galwch yr enw lle yn y cerdyn post gan ofyn am gwestiwn a fydd yn esgor ar ymateb cadarnhaol, e.e. Barcelona: Fydd hi'n braf? Bydd. Yr ail dro, dylid gofyn am gwestiwn a fydd yn esgor ar ateb negyddol, e.e. Barcelona: Fydd hi'n oer? Na fydd.



Rhannwch y dosbarth yn barau i edrych ar y pedwar llun yn y llyfr cwrs ac wedyn i chwarae'r gêm fwrdd. Wrth lanio ar sgwâr, bydd Partner A yn gofyn i Bartner B, Sut bydd/fydd y tywydd yfory? Bydd angen dis ar bob pâr.

Trydydd person unigol Driliwch y brawddegau yn y blwch i ddangos y trydydd person unigol mewn cyd-destun heblaw am y tywydd. Gellid defnyddio enwau aelodau'r dosbarth yn hytrach na Bethan a Bryn. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Negyddol Gellir tynnu sylw at y ffaith bod treigladd meddal yn digwydd yn y negyddol, ar ôl cyflwyno'r dril. Unwaith eto, defnyddiwch enwau aelodau'r dosbarth yn hytrach na Bethan a Bryn. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Ceir gêm 'Llongau rhyfel' er mwyn ymarfer y negyddol. Rhaid i'r ddau bartner ddewis 3-5 blwch. Bydd yn rhaid rhoi ateb a brawddeg lawn wrth ymateb i'r cwestiynau 'Fydd Bethan yn...yfory?'

Cwestiynau anuniongyrchol Cyn troi at y tabl, driliwch y bloc Lle fydd pawb yn mynd?/Ble bydd pawb yn mynd? Dril mecanyddol yw hwn ond bydd yn paratoui'r dysgwyr ar gyfer y tabl. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Rhannwch y dosbarth yn barau – bydd angen pecyn o gardiau chwarae ar bob pâr. Bydd Partner A yn gofyn i Bartner B "Pwy fydd yn mynd ar wyliau?" Bydd ateb partner B yn unol â'r cerdyn sy'n cael ei droi, e.e. troi Jac coch = Bydd/Mi fydd Jac yn mynd ar wyliau". Troi Jac du = "Fydd Jac ddim yn mynd ar wyliau". Rhaid parhau i droi cardiau nes cael cerdyn coch. Ar ôl cael ateb, yr ail gwestiwn ydy "Lle fydd Jac yn mynd ar wyliau?/Ble bydd Jac yn mynd ar wyliau?" Rhaid cario ymlaen nes cael cerdyn coch. Felly, cerdyn 9 du = Fydd Jac ddim yn mynd i Provence. Cerdyn 6 coch = Bydd/Mi fydd Jac yn mynd i Sydney. Yna, gellir anghofio am y cardiau a gofyn "Beth/Be fydd Jac yn fwyta yn Sydney?" Yn olaf, "Beth/Be fydd Jac yn yfed yn Sydney?" Yna, newid rôl. Bydd angen modelu'r gweithgaredd yn ofalus!

Person cyntaf Ceir dril i gael blas ar y person cyntaf cyn Uned 18 - y person cyntaf a'r arddodiad **yn** sy dan sylw. Cyflwynwch y patrwm gan ddefnyddio cardiau fflach yn dangos lleoliadau os yn bosib, neu'r lluniau yn y cyflwyniad PowerPoint. (Atebion Bydda i/Mi fydda i yn y gwaith, yn y tŷ, yn y dre, yn y siop, yn y dafarn, yn y cyfarfod, yn y llyfrgell, yn y ffair yfory.) Rhowch gyfle i bawb bersonoli. Gellir newid y cyd-destun amser er mwyn cael rhagor o gyfleoedd ar gyfer personoli. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Cam 4 – Ynganu

Y tro hwn, mae'r brawddegau i'w hymarfer yn defnyddio geirfa'r tywydd ac felly'n rhagbaratoi ar gyfer y gwaith gwrando ar y bwletin tywydd. Fel yn Uned 16, ymarferwch nhw fel côr, yna gofynnwch i'r partneriaid fynd dros y pedair brawddeg.

Y cam olaf ydy bod pawb yn copïo un o'r brawddegau ar bapur sgrap (y daclus!) ac yn crwydro'r stafell yn dweud y frawddeg wrth bawb maen nhw'n eu cyfarfod. Os ydyn nhw'n clywed brawddeg wahanol, maen nhw'n cyfnewid papur.



I orffen, gellir gwneud gwaith yn cael pobl i amrywio eu goslef i bwysleisio elfennau gwahanol yn y frawddeg. Tanlinellir y gwahanol elfennau y gellir eu pwysleisio:



Roedd hi'n stormus yn Rhuthun neithiwr.

Mae'r haul yn gwenu yn Hwlfordd heno.

Bydd/Mi fydd hi'n wlyb ledled y wlad.

Bydd/Mi fydd hi'n fendigedig o Fangor i Flaenau Ffestiniog yfory.

Cam 5 – Gwrando – Bwletin Tywydd

Dyma'r tro cyntaf i'r dysgwyr glywed bwletin tywydd felly chwaraewch y darn a gofynnwch i'r dysgwyr nodi unrhyw fath o dywydd maen nhw'n ei glywed ar ôl y gwrandawriad cyntaf. Nodwch y geiriau ar y bwrdd gwyn. Yna, chwaraewch y darn eto a gofynnwch i bawb lenwi'r bylchau yn y bwletin yn y llyfr cwrs. Mae'n debyg bydd angen chwarae'r bwletin nifer o weithiau.

Dyma'r atebion (De Cymru):

Dyma'r bwletin tywydd.

Roedd hi'n **oer** iawn ddoe, dros Gymru i gyd. Diolch byth, mae hi'n **braf** nawr, tywydd i fynd â'r ci am dro. Ond mae'n ddrwg gyda fi ddweud, mae hi'n mynd i **fwrw glaw** heno. Bydd hi'n **wlyb** dros nos yn y de a'r gogledd. Yfory, bydd y **glaw** wedi mynd, ond bydd hi'n **gymylog**. Dim **haul** eto yfory. A dyna'r bwletin tywydd.

Dyma'r atebion (Gogledd Cymru):

Dyma'r bwletin tywydd.

Roedd hi'n **oer** iawn ddoe, dros Gymru i gyd. Diolch byth, mae hi'n **braf** rŵan, tywydd i fynd â'r ci am dro. Ond mae'n ddrwg gen i ddeud, mae hi'n mynd i

fwrw glaw heno. Mi fydd hi'n **wlyb** dros nos yn y de a'r gogledd. Yfory, mi fydd y **glaw** wedi mynd, ond mi fydd hi'n **gymylog**. Dim **haul** eto yfory. A dyna'r bwletin tywydd.

Cam 6 – Sgwrs

Dylid gosod y cwestiynau canlynol:

Gwrandawriad 1: Beth yw'r broblem?/Be ydy'r broblem?

Gwrandawriad 2: Ble/lle mae'r bôs? a Ble/lle mae Chris?

Yna, rhannwch y dosbarth i ddarllen a/b, b/a. Fel cam olaf, dylid gofyn iddyn nhw newid yr elfennau sydd wedi eu tanlinellu.

Cam 7 – Robin Radio

Ymarferwch y tri ymadrodd defnyddiol a gododd yn Uned 16:
Sut gallwn/fedrwn ni helpu?

Bargen go iawn. Gellid cyflwyno ymadroddion eraill sy'n defnyddio 'go iawn' megis bara go iawn, cwrw go iawn ac ati.

Diolch am eich help. Gofynnwch i'r dysgwyr ddisodli'r gair 'help'.

Robin Radio Uned 17

Cam 8 – Geirfa

Geirfa Uned 18.

Cam 9 – Crynhoi ac asesu ar gyfer dysgu

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 17. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Canllawiau Uned 18 – Cwrs Cyfunol o bell

Bydda/Mi fydda i'n mynd

Nod y wers: Siarad am gynlluniau yn y dyfodol

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned - cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Bydda/Mi fydda i'n + berfenw	Bydda/Mi fydda i'n + berfenw
Fyddi di'n + berfenw? Bydda/Na fydda	Fyddi di'n + berfenw? Bydda/Na fydda
Beth/Be fyddi di'n wneud?	
Byddwn ni/Byddwch chi/Byddan nhw Mi fyddwn ni/Mi fyddwch chi/Mi fyddan nhw	
Atebion yn y dyfodol	
Y negyddol	
Os bydd...	
Gwranddo	
Ynganu	
Sgwrs	
Darllen	
Robin Radio	

Adnoddau i'r tiwtor:

Copi (digidol) o'r llyfr cwrs

Cyflwyniad PowerPoint

Deialogau o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*

Adnoddau i'r dysgwyr:

Dis
Cardiau chwarae

Cam 1 - Banc Cwestiynau

Sut bydd/fydd y tywydd yfory?
Sut bydd/fydd y tywydd dros nos?
Sut bydd/fydd y tywydd dros y penwythnos?

Cam 2 - Adolygu Uned 17

Rhowch lun o berson enwog i bawb er mwyn cael pawb ar eu traed yn holi ei gilydd. Dewiswch y lluniau ar sail diddordebau ac oedran aelodau'r dosbarth. Bydd person A yn dangos ei (l)lun i berson B ac yn gofyn y cwestiynau canlynol: Ble/Lle fydd X yn mynd dros y penwythnos? Beth/Be fydd e/o/hi'n wneud? Bydd angen dweud wrth y dysgwyr am ddefnyddio eu dychymyg!



Ychwanegwch gyfres o luniau o bobl enwog at y cyflwyniad PowerPoint. Dewiswch y lluniau ar sail diddordebau ac oedran aelodau'r dosbarth. Galwch enwau'r dysgwyr i holi ac ateb: Ble/Lle fydd X yn mynd dros y penwythnos? Beth/Be fydd e/o/hi'n wneud? Bydd angen dweud wrth y dysgwyr am ddefnyddio eu dychymyg!

**Cam 3 - Cyflwyno'r dyfodol**

Bydda/Mi fydda i'n... Atgoffwch y dysgwyr o berson cyntaf dyfodol 'bod', bydda i/mi fydda i, drwy ddweud brawddeg megis Bydda i yn y gwaith yfory, a chan ofyn i bawb bersonoli. Ewch ymlaen wedyn at gyflwyno Bydda i + berfenwau. Os oes gennych luniau i gyfleu berfenwau, defnyddiwch y lluniau i wneud hyn. Ceir cyfres o luniau yn y sleid gyntaf yn y PowerPoint. (Atebion: Bydda/Mi fydda i'n glanhau, priodi, pleidleisio, symud tŷ, chwarae criced, rhedeg, peintio, seiclo yr wythnos nesa.) Eto, rhaid cael cyfle i bersonoli. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs. I atgyfnerthu ymhellach, rhannwch y dosbarth yn barau i edrych ar y lluniau yn y llyfr cwrs a chreu brawddegau yn y dyfodol yn defnyddio'r lluniau hyn.

Fyddi di? Defnyddiwch y lluniau yn y sleid PowerPoint neu'r cardiau fflach i gyflwyno'r cwestiwn uniongyrchol yn drylwyr. Darllenwch dros y cwestiynau yn y bloc. Trowch at y grid a gofynnwch i'r dysgwyr ofyn y cwestiynau i chi fel corws, e.e. Fyddi di'n smwddio yr wythnos nesa? Atebwch yn gywir er mwyn modelu'r atebion – yr ateb yn unig. Rhowch yr holiadur ar waith. Gan fod y trydydd person wedi'i gyflwyno yn Uned 17, mae'n bosib cynnal sesiwn adrodd yn ôl.

Mae'r wers gyfunol yn dechrau yma.

Beth/Be fyddi di'n wneud? Atgoffwch y dysgwyr o'r cwestiwn 'Beth wyt ti'n wneud?' a dysgwch 'Beth fyddi di'n wneud...?' trwy ddrilio'r bloc yn y llyfr cwrs. Trowch at y grid o dan y dril a gofynnwch i'r dysgwyr ofyn y cwestiynau i chi, e.e. Beth/Be fyddi di'n wneud heno? er mwyn i chi fodelu'r atebion. Rhowch yr holiadur ar waith. Wrth ddod yn ôl at eich gilydd, gellir cael sesiwn adrodd yn ôl yn y trydydd person.

Byddwn/Mi fyddwn ni Ceir cyfres o luniau yn yr ail sleid yn y Cyflwyniad PowerPoint ar gyfer y gwaith cyflwyno: Byddwn/Mi fyddwn ni'n glanhau, siopa, mynd am dro, bwyta cacen, coginio, edrych ar y teledu, darllen y papur, darllen llyfr yfory. Driliwch y brawddegau yn y llyfr cwrs cyn i chi ddarllen drostynt hefyd. Cyd-destun gwyliau a geir yma.

Pryd byddwch/fyddwch chi...? Defnyddiwch y lluniau yn yr ail sleid eto i gyflwyno'r cwestiwn. Wedyn, ychwanegwch y gair 'nesa' a chael y dysgwyr i holi ei gilydd 'Pryd byddwch/fyddwch chi'n XX nesa?' Gall y dysgwr sy'n ateb ddefnyddio 'Bydda/Mi fydda i' neu 'Byddwn/Mi fyddwn ni'. Gellir cael pawb ar eu traed ar gyfer y cam hwn mewn dosbarth wyneb yn wyneb. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Byddan/Mi fyddan nhw Defnyddiwch yr ail sleid am y tro olaf i gyflwyno 'nhw'. Driliwch y bloc yn y llyfr cwrs cyn darllen drosto fe hefyd.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri. Rhowch y gwrthrychau canlynol i bob grŵp:



Cerdyn post i ddynodi lle

Llun neu wrthrych i ddynodi dull o deithio

Llun neu wrthrych i ddynodi gweithgaredd, e.e. tywel, gwisg nofio, esgidiau cerdded, cerdyn Bingo

Rhaid hefyd ofyn i bob grŵp nodi lle byddan nhw'n aros a beth byddan nhw'n ei fwyta neu'n ei yfed.

Bydd pob grŵp felly'n cynhyrchu pum brawddeg yn dechrau gyda 'Byddwn ni/Mi fyddwn ni'. Bydd angen i'r grwpiau eraill gofio'r ffeithiau a'u hailadrodd yn y trydydd person.

Mae'r sleid nesaf yn y Cyflwyniad PowerPoint yn ymarfer cyd-destun gwyliau. Rhaid creu brawddeg ar gyfer pob llun, e.e. Teulu Jones – Byddan/Mi fyddan nhw'n mynd i Ganada/hedfan/cerdded/aros mewn gwesty; Teulu Williams – Byddan/Mi fyddan nhw'n mynd i Sir Benfro/mynd yn y car/mynd i'r traeth/aros mewn pabell.



Trowch at y tabl 'Ble byddwch/Lle fyddwch chi'n mynd?' yn y llyfr cwrs. Rhannwch y dosbarth yn barau. Rhaid i bob un edrych ar y tabl a chreu pedair brawddeg yn cynnwys pedair elfen (lle/gwneud/bwyta/yfed). Maent wedyn yn gofyn i'w gilydd, Ble byddwch chi'n mynd?/Lle fyddwch chi'n mynd?/Beth/Be fyddwch chi'n wneud/fwyta/yfed? Ar y diwedd, maen nhw'n cytuno ar un gwyliau synhwyrol rhyngddynt i adrodd yn ôl i'r dosbarth yn defnyddio 'ni'. Eto, gellir atgyfnerthu trwy ofyn i'r grwpiau eraill adrodd y brawddegau gan ddefnyddio 'nhw'.

Atebion Defnyddiwch gardiau i ymarfer atebion os yn bosib. Dangoswch gyfres o luniau i awgrymu gweithgareddau gwahanol, gan ofyn 'Fyddi di...?' ac yn mynnu'r ateb 'Bydda'. Yna, gofynnwch am atebion negyddol. Defnyddiwch yr un cardiau i ymarfer 'Fyddwch chi...?' a'r atebion Byddwn/Na fyddwn. Yn olaf, dylid ymarfer Byddan/Na fyddan. Gellir cael pawb ar eu traed yn ymarfer pob cam yn y dosbarth wyneb yn wyneb. Darllenwch dros y grid yn y llyfr cwrs.

Trowch nesaf at y gweithgaredd Dyfalu/Ateb. Gosodwch dasg i bawb wneud yn unigol, sef dyfalu faint o bobl fydd yn ateb yn gadarnhaol i'r pum cwestiwn yn y grid. Wedyn bydd angen mynd o amgylch y dosbarth yn gofyn y cwestiynau i bawb. Ar ôl i bawb siarad â phawb, gellir gweld pwy ddyfalodd fwyaf cywir.



Trowch nesaf at y gweithgaredd Dyfalu/Ateb. Yna, gosodwch dasg i bawb wneud yn unigol, sef dyfalu faint o bobl fydd yn ateb yn gadarnhaol i'r pum cwestiwn yn y grid. Gofynnwch chi'r cwestiwn cyntaf i bawb, gan gyfrif faint o bobl atebodd 'Bydda'. Wedyn, gofynnwch i bedwar o'r dysgwyr cryfaf holi'r pedwar cwestiwn arall i bawb. Cewch weld ar y diwedd pwy ddyfalodd fwyaf cywir.



Y negyddol Atgoffwch y dysgwyr ein bod ni'n treiglo'n feddal yn y negyddol, e.e. Fwytais i ddim/Wnes i ddim. Driliwch y bloc 'Mae'n ddrwg gen i/gyda fi ond...' er mwyn cyflwyno'r negyddol. Yna, ceir cyfle i adolygu dyddiau'r wythnos drwy gyd-ddarllen y saith brawddeg yn y blwch. Nid yw hwn yn ddril gan nad oes unrhyw egwyddorion newydd yma. Ar ôl darllen dros y brawddegau, gofynnwch i barau weithio gyda'i gilydd i greu ail hanner. Gellir gofyn am frawddegau syml iawn megis: Fydda i ddim yn mynd i'r capel dydd Llun, bydda/mi fydda i'n mynd i'r capel dydd Sul. neu Fydda i ddim yn mynd i'r capel dydd Llun achos bydda i/mi fydda i'n mynd i'r gwaith.

Os bydd... Mae defnydd o'r dyfodol yn dilyn 'Os' yn gyffredin iawn felly ceir gweithgaredd paru i barau. Ar ôl i barau orffen, cânt guddio'r ochr dde er mwyn ceisio cofio'r ateb. Cânt wedyn fynd ymlaen i guddio'r ochr chwith. Ewch dros yr atebion ar y diwedd.

Cam 4 – Gwranddo

Chwaraewch y ddwy ddeialog fer sy'n defnyddio'r amser dyfodol er mwyn i'r dysgwyr ateb y cwestiynau yn y llyfr. Atebion:

Mae Siwan eisiau/isio lifft.

Fydd dim car gyda hi./Fydd gynni hi ddim car.

Mae Dafydd eisiau/isio cacen.

Mae e/o'n gogydd ofnadwy.

Cam 5 – Ynganu

Rhaid darllen deialog er mwyn profi ynganu fel rhan o arholiad Mynediad. Dyma'r tro cyntaf i ddeialog gyfan o'r arholiad gael ei chyflwyno fel ymarfer ynganu yn y cwrs, felly mae angen paratoi gofalus. Yn gyntaf, dylid cael pawb i'w darllen yn dawel. Yna, gofynnwch am awgrymiadau ar gyfer geiriau anodd. Ewch dros bob gair sy'n cael ei awgrymu yn ofalus fel dosbarth, gan fodelu'n glir yn gyntaf.

Yna, darllenwch y ddeialog yn ofalus gan gymryd rhan A yn gyntaf, a'r dosbarth yn darllen B fel côr. Gofynnwch ar ôl y darlleniad cyntaf a oes brawddegau neu gymalau sy'n anodd (yn B) ac ewch drostynt. Yna, gwnewch yr un peth, ond gyda chi yn darllen rhan B a'r dysgwyr yn darllen rhan A.

Gellir wedyn ofyn i unigolion edrych ar y ddeialog eto a thanlinellu ymadroddion lle na ellir stopio o gwbl yn eu canol, e.e. os gwelwch yn dda, tri o'r gloch. Y cam olaf, a'r mwyaf hwyliog, ydy cael y dysgwyr i ddarllen y ddeialog mewn parau A/B, B/A – ac anogwch ychydig o "actio". Yna, gofynnwch am wirfoddolwyr i ddarllen y ddeialog yn uchel.

Cam 6 – Sgwrs

Ceir pedwar llun i gynrychioli pedair siop uwchben y Sgwrs. Wrth wrando y tro cyntaf, dylid gofyn i'r dysgwyr nodi trefn y siopau hyn yn y Sgwrs – y stondin ffrwythau yn y farchnad, y crydd (siop Mr Clark), y parcel (swyddfa bost), y tabledi (fferylfa). Yna, ceir grid i'w gwblhau wrth wrando. Yna, rhannwch y dosbarth yn a/b, b/a i ymarfer darllen y ddeialog.

Cyflwynir yr ymadrodd 'ar gyfer' yn y ddeialog. Cyfyngir yr ystyr yma i 'for/for the purpose of'. Edrychwch yn gyntaf ar yr ymadrodd o fewn y ddeialog: Dw i eisiau/ isio dillad ar gyfer parti Siân. Ceir wedyn dair brawddeg lle mae angen disodli'r elfen a danlinellir. Yn olaf, rhaid i barau greu cysylltiadau rhwng y lluniau i greu brawddegau:

Dw i eisiau/isio drws (newydd) ar gyfer y tŷ.

Dw i eisiau/isio halen ar gyfer y llysiau.

Dw i eisiau/isio pwll (nofio) ar gyfer yr ardd.

Cam 7 – Darn Darllen

Dyma'r tro cyntaf i ddarn darllen gael ei gyflwyno. Fel dull darllen, gellid gofyn i'r dysgwyr ddarllen y darn yn dawel, fesul paragraff. Dylech chi wedyn ddarllen y darn fesul paragraff, gan ofyn i'r dysgwyr a oes ganddynt unrhyw gwestiynau. Darllenwch y darn cyfan unwaith eto ar y diwedd. Ceisiwch ddarbwylllo'r dysgwyr i dderbyn y darn yn Gymraeg yn hytrach na chyfieithu pob gair. Bydd angen cyfieithu os ydyn nhw'n ansicr o unrhyw beth. Fel cam olaf, anogwch barau i nodi tair ffaith am y darn heb edrych yn ôl ar y sgript os yn bosib. Casglwch y ffeithiau a darllenwch dros y darn unwaith eto i gloi. Mae hefyd angen tynnu sylw at y cwestiwn yn y Gwaith cartref yn gofyn i ddysgwyr sy wedi bod mewn eisteddfod ysgrifennu paragraff syml am y profiad.

Cam 8 – Robin Radio

Ymarferwch y tri ymadrodd defnyddiol yn Robin Radio Uned 17: Mynediad am ddim; Bydd/Mi fydd yr haul yn gwenu; Be/Beth fydd yn digwydd?

Mynediad am ddim – Pwysleisiwch mor ddefnyddiol fydd yr ymadrodd ar gyfer Prawf Gwrando arholiad Mynediad.

Bydd/Mi fydd yr haul yn gwenu - Soniwch am bobl allai fod yn gwenu, e.e. "Bydd/Mi fydd y tîm yn gwenu ar ôl ennill y gêm; Bydd/Mi fydd y plant yn gwenu p'nawn dydd Gwener" ac ati. Gofynnwch am awgrymiadau o bwy fydd yn gwenu a pham. Beth/Be fydd yn digwydd?" Dyma gyfle i ymarfer "Beth/Be fydd yn digwydd heno/yfory/nos yfory/ dros y penwythnos?"

Robin Radio Uned 18

Cam 9 – Geirfa

Geirfa Uned 19.

Mae'r gair ynys yn codi yn yr Eirfa ac mae gan Gwilym Bowen Rhys fideo ar 'Ynysoedd'. Byddai'n werth tynnu sylw'r dysgwyr at y fideo yma neu ei ddangos yn y dosbarth: <https://www.youtube.com/watch?v=GpAKT00kZic&t=1s>

Cam 10 – Crynhoi ac asesu ar gyfer dysgu

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 18. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Canllawiau Uned 19

Fy

Nod y wers: Siarad am eich eiddo chi a'ch perthnasau chi

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned - cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Fy + treigladd trwynol	Fy + treigladd trwynol
Fy mewn brawddegau pwysleisiol: Pat yw/ydy enw fy nhad i.	
Ynganu	
Sgwrs	
Llenwi bylchau	
Robin Radio	

Adnoddau i'r tiwtor:

Copi (digidol) o'r llyfr cwrs

Cyflwyniad PowerPoint

Deialogau o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*

Cam 1 - Banc Cwestiynau

Be fyddi di'n wneud yfory?/Beth fyddi di'n wneud yfory?

Be fyddwch chi'n wneud dydd Sul?/Beth fyddwch chi'n wneud dydd Sul?

Lle fyddwch/Ble byddwch chi'n mynd ar wyliau nesa?

Pryd fyddwch/byddwch chi'n siopa nesa?

Cam 2 – Adolygu Uned 18

Ysgrifennwch y sgerbwdd isod ar gyfer cerdyn post ar y bwrdd gwyn. Gofynnwch am awgrymiadau i lenwi'r bylchau.

- 1: Lle i fynd ar wyliau
- 2, 3 a 4 : mathau o dywydd (yr un tywydd ar gyfer blwch 3 a 4)
- 5: rhywbeth i wneud yn y lle
- 6: adeilad
- 7 ac 8: dau beth arall i wneud yn y lle/ar wyliau
- 9: diwrnod
- 10: rhywbeth i brynu fel anrheg.

Yna, rhowch gopi o'r cerdyn post sy yn Atodiad 1 i bawb, neu dangoswch ef ar sleid (fersiwn y gogledd yn y sleid gyntaf yn y cyflwyniad PowerPoint a fersiwn y de yn yr ail un). Defnyddiwch yr wybodaeth a roddodd y dosbarth i lenwi'r bylchau gyda'ch gilydd.

Yna, rhowch gopi arall o'r cerdyn post i bawb. Yn gyntaf, gofynnwch i bawb lenwi lleoliad gwyliau a'i basio i'r chwith. Wedyn gofynnwch iddyn nhw ddewis math o dywydd yn yr ail fwlch ac anfon y cerdyn ymlaen i'r chwith eto. Y cam nesaf ydy rhoi tywydd gwahanol ym mwlch 3 a 4, a'i anfon ymlaen. Wedyn, bydd angen sôn am weithgaredd. Yna adeilad, yna gweithgaredd i'r ddau fwlch nesaf, yna diwrnod ac yn olaf rhywbeth i'w brynu o'r lleoliad a nodir ar ddechrau'r cerdyn. Mae'r person olaf yn darllen y cerdyn allan i'r dosbarth.



Anfonwch y templed at y dysgwyr cyn y wers a rhannwch bawb yn barau i gwblhau'r templed gyda'i gilydd. Gofynnwch i rai parau ddarllen eu fersiwn nhw wrth gael pawb yn ôl at ei gilydd.



Cam 3 – Cyflwyno 'fy'

Atgoffwch y dysgwyr o'r treigladd trwynol yn dilyn yr arddodiad 'yn' gan ddweud bod yr un treigladd yn digwydd yn dilyn 'fy'. Defnyddiwch wrthrychau neu gardiau fflach i gyflwyno'r treigladd. Dylid mynd trwy'r llythrennau yn y treigladd trwynol yn drefnus, gan ddechrau gydag enwau nad ydynt yn treiglo o gwbl. Ceir un enghraifft o bob llythyren (a dim treigladd) yn y cyflwyniad PowerPoint. Nodir cenedl yr enw hefyd gyda ffont glas a choch. Dylid dangos y sleid i atgyfnerthu ar ôl drilio'r llythyren. Darllenwch dros yr enghreifftiau yn y llyfr cwrs. Yna, driliwch y pedair brawddeg 'Dyma....' yn y blwch yn gyflym, gan godi'r gwrthrychau. Darllenwch dros y blwch yn y llyfr cwrs

Rhowch gerdyn o'r Blwch Adnoddau i bawb. Rhaid iddynt grwydro yn dangos y llun i bawb gan ofyn i'r partner bob tro ddweud 'fy i'. Ceir pob un o'r rhagenwau ar gefn y cerdyn felly bydd angen pwysleisio bod angen canolbwyntio ar 'fy'. Ceir geiriau heb luniau yn Atodiad 2.



Ceir copi o'r cardiau sydd yn y Blwch Adnoddau yn y cyflwyniad PowerPoint. Gofynnwch i unigolion roi'r gair mewn brawddeg, 'Dyma fy _____ i'.



Mae'r dosbarth cyfunol yn dechrau yma.

Lleoli pethau. Y gweithgaredd cyntaf yw'r gweithgaredd gyda'r llun yn y llyfr. Er mwyn atgyfnerthu'r treigladd trwynol yn y lle cyntaf, ceir cyfres o luniau yn y cyflwyniad PowerPoint – yn ymarfer rhai o'r gwrthrychau sydd yn y gweithgaredd.

Gofynnwch i bob un labelu'r llun yn y llyfr, h.y. rhoi'r pethau coll yn rhywle ar y llun – naill ai ar rywbeth, dan rywbeth neu wrth rywbeth. Gellid gofyn i'r dysgwyr labelu eu llun cyn y wers. Rhaid nodi'r rhif sy'n cynrychioli'r gwrthrych ar y llun.

Dyma'r tro cyntaf y bydd y dysgwyr wedi bod yn lleoli pethau, felly dyma gyfle i ddangos yn ddiraethol gan ddefnyddio gwrthrychau sut i ddisgrifio lleoliadau pethau. Defnyddiwch eich ffôn chi i fodelu. Rhowch e ar rywbeth, o dan rywbeth ac wrth rywbeth. Yn amlwg, bydd rhaid i bopeth fod yn hollol glir ar y sgrin yn y dosbarth rhithiol.

Yna, rhannwch y dosbarth yn barau i gwblhau'r dasg yn y llyfr. Defnyddir cod lliw i helpu'r dysgwyr i wahaniaethu rhwng gwrthrychau gwrywaidd a benywaidd.

Cyplysu'r treigladd ar ôl 'fy' ac ar ôl 'yn': Ceir chwe brawddeg yn y blwch yn y llyfr – dyw'r blwch hwn ddim yn ddril ac felly darllenwch drostynt yn syth. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr ddewis chwe lle gwahanol, arwyddocaol iddyn nhw os yn bosib a darllen y brawddegau eto gyda'r llefydd gwahanol. Yn dibynnu ar faint y dosbarth, gellid eu rhannu'n barau ar gyfer y cam hwn.

Pat yw/ydy enw fy... Symudwch ymlaen at ddrilio'r bloc 'Pat yw/ydy...' gan roi cyfle i'r dysgwyr bersonoli/ddisodli ar ôl pob brawddeg, os yw'n berthnasol iddyn nhw. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud ar y patrwm hwn yn Uned 27. Yna, rhaid edrych ar y tabl yn y llyfr cwrs a gofyn i bawb ddewis o leiaf 5 categori, ac ysgrifennu pum brawddeg yn dilyn y patrwm. Gwahoddwch bawb i ddarllen eu brawddegau yn uchel. Os cewch gyfle, gwiriwch gymaint â phosib o'r brawddegau cyn i'r dysgwyr eu darllen.

Cam 4 – Ymarfer ac Ynganu

Gwaith pâr i ddechrau - llenwi'r bylchau. Gall y parau ddechrau darllen y darn i'w gilydd ar ôl gorffen llenwi'r bylchau. Ond ceisiwch wneud yn siŵr bod yr atebion yn gywir cyn iddynt ddechrau darllen. Ewch dros y darn fel dosbarth cyfan ar ôl cael pawb yn ôl at ei gilydd.

Cam 5 – Sgwrs

Dylid gosod y cwestiynau canlynol:

Gwrandawriad 1: Gwrando heb dasg

Gwrandawriad 2: Cyfrif faint o weithiau mae 'fy' yn codi. Ateb: 8

Gwrandawriad 3: Llenwi colofn 'Beth mae'r plentyn yn ei bacio?' yn y grid yn y llyfr.

Gwrandawriad 4: Llenwi colofn 'Ble?' (yn nodi lle mae'r gwrthrychau).

Yna, rhannwch y dosbarth yn a/b, b/a i ymarfer darllen y ddeialog.

Cam 6 – Llenwi bylchau

O'r uned hon ymlaen, ceir nifer o ymarferion Llenwi bylchau o gyn-bapurau arholiad Mynediad yn y Gwaith cartref. Felly, er mwyn cyflwyno'r cwestiwn a dangos beth sydd angen ei wneud, ceir un ymarfer yn y llyfr cwrs. Rhannwch y dosbarth yn barau ar gyfer y gweithgaredd ac ewch dros yr atebion yn ofalus. Gwnewch nodyn o unrhyw fylchau sy'n peri anhawster er mwyn dychwelyd at y pwyntiau hyn yn y wers nesaf er mwyn atgyfnerthu (a gwersi eraill yn ôl yr angen).

Cam 7 – Robin Radio

Y brawddegau defnyddiol y tro yma ydy "Dw i eisiau/isio trefnu mis mêl", "Pryd dych/dach chi'n priodi?" "Dim gobaith".

"Dw i isio/eisiau trefnu mis mêl" - pawb i feddwl am bethau eraill i'w trefnu (e.e. cyngerdd, parti, cyfarfod, bws, cwrs). Ar ôl i bawb gael cyfle i drefnu rhywbeth, gellid atgyfnerthu'r trydydd person trwy ofyn i bobl gofio beth drefnodd pawb.

"Pryd dach/dych chi'n priodi?" – Unigolion i ddisodli'r gair 'priodi'.

Yna, mae "Dim gobaith" yn rhoi cyfle i atgoffa'r dosbarth am yr ymadroddion defnyddiol "Dim syniad", "Dim problem" a "Dim diolch" (ac unrhyw ymadrodd hawdd arall sy'n dilyn y patrwm).

Robin Radio Uned 19

Cam 8 – Geirfa

Geirfa Uned 20.

Cam 9 – Crynhoi ac asesu ar gyfer dysgu

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 19. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Uned 19, Atodiad 1 – Fersiwn y gogledd

Annwyl ddosbarth,

Dyma fi yn..... . Roedd y tywydd yn..... ddoe ond mae'n..... heddiw ac mi fydd hi'n..... yfory hefyd. Ddoe mi wnes i Neithiwr mi es i i'r..... . Heddiw dw i'n a heno mi fydda i'n Mi fydda i'n dŵad adre Wela i chi wythnos nesa, mi fydd gen i i chi!

Hwyl

.....

Annwyl ddosbarth,

Dyma fi yn..... . Roedd y tywydd yn..... ddoe ond mae'n..... heddiw ac mi fydd hi'n..... yfory hefyd. Ddoe mi wnes i Neithiwr mi es i i'r..... . Heddiw dw i'n a heno mi fydda i'n Mi fydda i'n dŵad adre Wela i chi wythnos nesa, mi fydd gen i i chi!

Hwyl

.....

Annwyl ddosbarth,

Dyma fi yn..... . Roedd y tywydd yn..... ddoe ond mae'n..... heddiw ac mi fydd hi'n..... yfory hefyd. Ddoe mi wnes i Neithiwr mi es i i'r..... . Heddiw dw i'n a heno mi fydda i'n Mi fydda i'n dŵad adre Wela i chi wythnos nesa, mi fydd gen i i chi!

Hwyl

.....

Uned 19, Atodiad 1 – Fersiwn y De

Annwyl dosbarth,

Dyma fi yn..... . Roedd y tywydd yn..... ddoe ond mae hi'n..... heddiw a bydd hi'n..... yfory hefyd. Ddoe, i a heno bydda i'n Bydda i'n dod adre Gwela i chi yr wythnos nesa, bydd..... gyda fi i chi!

Hwyl

.....

Annwyl dosbarth,

Dyma fi yn..... . Roedd y tywydd yn..... ddoe ond mae hi'n..... heddiw a bydd hi'n..... yfory hefyd. Ddoe, i a heno bydda i'n Bydda i'n dod adre Gwela i chi yr wythnos nesa, bydd..... gyda fi i chi!

Hwyl

.....

Annwyl dosbarth,

Dyma fi yn..... . Roedd y tywydd yn..... ddoe ond mae hi'n..... heddiw a bydd hi'n..... yfory hefyd. Ddoe, i a heno bydda i'n Bydda i'n dod adre Gwela i chi yr wythnos nesa, bydd..... gyda fi i chi!

Hwyl

.....

Uned 19, Atodiad 2

tabledi	fy nhabledi i
tocyn	fy nhocyn i
car	fy nghar i
cwestiwn	fy nghwestiwn i
papur newydd	fy mhapur newydd i
pêl	fy mhêl i
doctor	fy noctor i
deintydd	fy neintydd i
gwely	fy ngwely i
gwin	fy ngwin i
beic	fy meic i
bag	fy mag i
menig	fy menig i
llyfr	fy llyfr i
radio	fy radio i
sbectol	fy sbectol i

Canllawiau Uned 20

Dy, Eich

Nod y wers: Gofyn cwestiynau am eiddo a pherthnasau pobl eraill

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned - cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Eich Beth yw'ch XX chi?/Be ydy'ch XX chi?	Eich Beth yw'ch XX chi?/Be ydy'ch XX chi?
Dy + treigladd meddal	
Ynganu	
Sgwrs	
Robin Radio	

Adnoddau i'r tiwtor:

Copi (digidol) o'r llyfr cwrs

Cyflwyniad PowerPoint

Deialogau o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*

Cam 1 - Banc Cwestiynau

Nid oes unrhyw gwestiynau newydd i'w hychwanegu at y banc y tro hwn felly awgrymir cyflwyno cwestiynau arholiad Mynediad i ddangos ei bod yn bosib ateb pob cwestiwn ond un (cwestiwn 14 isod). Mae'n werth rhoi'r rhestr yn gyflawn er mwyn dangos mor gyraeddadwy yw'r arholiad, ond gan hepgor cwestiwn 14 wrth ymarfer. Bydd gweld 'eich' yng nghwestiynau 7 a 10 hefyd yn baratoad ar gyfer yr uned hon. Gallech chi fodelu atebion byrion, un frawddeg. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau i'w hymarfer.

Argymhellir ebostio'r cwestiynau at y dysgwyr cyn y dosbarth.



1. Ble dych chi'n byw?/Lle dach chi'n byw?
2. O ble dych chi'n dod yn wreiddiol?/O le dach chi'n dŵad yn wreiddiol?
3. Ble aethoch chi i'r ysgol?/Lle aethoch chi i'r ysgol?/Lle wnaethoch chi fynd i'r ysgol?
4. Beth yw'ch gwaith chi?/Be ydy'ch gwaith chi?
5. Oes teulu gyda chi?/Oes gynnoch chi deulu?
6. Oes anifeiliaid anwes gyda chi?/Oes gynnoch chi anifeiliaid anwes?
7. Ble aethoch chi ar eich gwyliau diwetha?/Lle aethoch chi ar eich gwyliau diwetha?
8. Beth wnaethoch chi ddoe?/Be wnaethoch chi ddoe?
9. Beth dych chi'n (ei) wneud y penwythnos nesa?/Be dach chi'n (ei) wneud penwythnos nesa?
10. Beth dych chi'n hoffi (ei) wneud yn eich amser sbâr?/Be dach chi'n hoffi (ei) wneud yn eich amser sbâr?
11. Ble dych chi'n dysgu Cymraeg?/Lle dach chi'n dysgu Cymraeg?
12. Sut daethoch chi yma heddiw?/Sut ddaethoch chi i yma heddiw?/Sut wnaethoch chi ddŵad yma heddiw?
13. Beth dych chi'n (ei) hoffi ar y teledu? Be dach chi'n (ei) hoffi ar y teledu?
14. Beth mae'n rhaid i chi (ei) wneud yfory?/Be mae'n rhaid i chi (ei) wneud yfory?
15. Sut mae'r tywydd heddiw?
16. Sut roedd y tywydd ddoe?/Sut oedd y tywydd ddoe?
17. Am faint o'r gloch dych chi'n codi fel arfer?/Am faint o'r gloch dach chi'n codi fel arfer?
18. Beth o'ch chi'n hoffi (ei) wneud pan o'ch chi'n blentyn?/Be oeddech chi'n hoffi (ei) wneud pan oeddech chi'n blentyn?

Cam 2 – Meithrin siarad rhydd – siarad am lun

Dylai'r dysgwyr fod wedi dod â llun o deulu neu ffrindiau i siarad amdano yn y wers. Atgoffwch nhw am hyn cyn y dosbarth os yn bosib. Rhannwch nhw'n grwpiau o dri i siarad am eu lluniau. Os bydd y gweithgaredd yn mynd yn dda, gellid newid y grwpiau nifer o weithiau gan fod y sgil yma o feithrin siarad mor bwysig. Dylech chi ddisgrifio llun er mwyn modelu'r math o iaith y byddwch chi'n disgwyl ei chlywed.

Cam 3 – Adolygu Uned 19

Gosodwch wrthrychau neu luniau o amgylch yr ystafell – pob un **ar, dan** neu **wrth** rywbeth yn yr ystafell. Pwyntiwch atyn nhw gan ddweud y geiriau heb dreigladd – e.e. pwrs, beiro, geiriadur, goriadau (yn y gogledd), bag, cwpan, a rhai sy ddim yn treiglo fel ffôn, ffeil, allweddi (yn y de) ac ati. Yna, bob yn ail, mae'r dysgwyr yn holi/ ateb ei gilydd (mewn parau) "Ble/ Lle mae fy X i?" Rhaid rhoi ateb hefyd er mwyn ymarfer y geiriau lleoli.



Ceir cyfres o luniau yn y sleid gyntaf er mwyn ymarfer lleoli pethau. Ewch drwy'r gwrthrychau yn gyntaf, i ymarfer y treigladd trwynol ar ôl 'fy'. Wedyn, galwch enwau'r dysgwyr i holi ei gilydd 'Ble/Lle mae fy XX i?', gan roi'r ateb a awgrymir yn y llun, e.e. 'Ble mae fy allweddi i?/Lle mae fy ngoriadau i?' 'Maen nhw yn y drws'. Mae mwy nag un ateb posib gyda rhai o'r lluniau.



Cam 4 – Cyflwyno 'eich'

Nid yw'r gwaith hwn yn hollol newydd gan fod y dysgwyr eisoes wedi dysgu 'Beth yw'ch enw chi?' yn Uned 8. Casglwch wrthrychau a dweud yn glir wrth bawb: "Dyma eich allweddi/goriadau chi", "Dyma eich ffeil chi" ac ati. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Rhowch y gwrthrychau i aelodau'r dosbarth iddynt fynd o gwmpas yn eu trosglwyddo i'w gilydd, gan ddefnyddio'r patrwm targed bob tro.



Ceir cyfres o luniau yn yr ail sleid yn y cyflwyniad PowerPoint i'r dysgwyr ymarfer rhoi'r lluniau mewn brawddegau 'Dyma eich XX chi' (ffôn, tocyn, cot, paned, desg, gwin, bwyd, menig, llyfr, rhestr siopa).



Nesa, ceir dril i arwain at lenwi ffurflen wybodaeth. Driliwch y brawddegau yn y blwch yn drylwyr (gan dynnu sylw ac 'eich' yn troi'n 'ch' yn dilyn llafariad) ac yna

gofynnwch i aelodau'r dosbarth ofyn y cwestiynau i chi. Rhowch fwy nag un ateb i'r cwestiwn "Be ydy'ch gwaith chi?" i atgoffa'r dosbarth bod "Tiwtor dw i" a "Dw i'n gweithio fel tiwtor" yn gywir. Rhowch holiadur Syrjeri Aberheli ar waith.

Rhowch holiadur Syrjeri Aberheli ar waith. Er mwyn paratoi, driliwch yn gyflym y pedwar cwestiwn i'w gofyn: Beth yw/Be ydy'ch enw/cyfeiriad/rhif ffôn/dyddiad geni chi? Bydd y patrwm wedi'i gyflwyno yn yr uned ar-lein.

Gellir atgoffa'r dysgwyr nad oes rhaid iddyn nhw roi atebion sy'n ffeithiol gywir a does dim angen ateb y cwestiynau hyn mewn brawddeg. Ar gyfer dyddiad geni, dylid cadw'r peth mor syml â phosib, e.e. 19 Gorffennaf 1963. Bydd hwn yn gyfle i atgyfnerthu'r misoedd.

Cam 5 – Cyflwyno 'dy'

Cyflwynwch yr ail berson unigol 'dy'. Ewch yn drefnus drwy'r llythrennau sy'n treiglo gan ddefnyddio gwrthrychau neu luniau.

Rhowch lun neu wrthrych i bawb i grwydro'n dweud 'Dyma dy XX di' a chan drosglwyddo'r gwrthrychau/lluniau i'w gilydd. Hefyd, gellir ailddefnyddio'r cardiau sydd yn Uned 19 y Blwch Adnoddau neu'r cardiau yn Atodiad 1.



Ceir lluniau yn y Cyflwyniad PowerPoint (ffôn, tocyn, cot, paned, desg, gwin, bwyd, menig, llyfr, rhestr siopa) ar gyfer y dril os bydd angen. Ar ôl cyflwyno'r treigladd, gwahoddwch bawb i ddweud y patrwm 'Dyma dy XX di' trwy ddefnyddio'r lluniau yn y drydedd sleid (tocyn, car, papur, deintydd, pêl, meddyg/doctor, gwely, gwin, beic, bag, llyfr, teledu).



Dylai'r dysgwyr fod wedi dod â llun o deulu/ffrindiau gyda nhw i'r wers a byddan nhw eisoes wedi siarad am y llun yng Ngham 2 uchod. Dangoswch lun eich hunan gyntaf er mwyn i'r dysgwyr ofyn cwestiynau, e.e. 'Dyma dy XX di?' e.e. 'Dyma dy frawd di?' "Ia/le, dyma fy mrawd i" neu "Ia/le, dyma John fy mrawd i." Neu "Naci/Nage dyma fy mab i".

Bydd y dysgwyr yn gwneud y gwaith yma mewn paru, ond bydd angen newid y paru yn gyson.



Yn y cam hwn, maen nhw'n dangos eu lluniau fesul un a galwch enwau aelodau'r dosbarth i ofyn cwestiynau.



Cwestiynau

Gofynnwch i bawb godi ar eu traed i wneud y dril yn y blwch cyntaf (Beth yw dy enw di?/Be ydy dy enw di?). Ar ol pob un o'r tri chwestiwn cyntaf, stopiwch a'u cael i holi ei gilydd am funud. Ar ol drilio 'Be ydy/Beth yw dy broblem di?', gofynnwch i'r dysgwyr gerdded o gwmpas yn gofyn y cwestiwn i'w gilydd mewn modd heriol.



Driliwch y cwestiynau sy yn y blwch - 'Be ydy/Beth yw dy enw di?'.

Gofynnwch i bawb holi'r cwestiynau i'w gilydd trwy alw enwau. Dylai'r person a holir ateb y cwestiwn – does dim rhaid defnyddio brawddeg lawn a does dim rhaid dweud y gwir. Anogwch bobl i ddweud 'Does dim problem gyda fi./Sgen i ddim problem' mewn ymateb i'r pedwerydd cwestiwn.



Wedyn, ewch dros y cwestiynau yn y blwch nesaf – 'Ble/Lle mae dy ddosbarth di?'. Y cam nesaf ydy rhannu'r dosbarth yn barau i weithio drwy'r bocsys yn y grid sy'n dilyn. Rhaid i'r parau ofyn ac ateb bob yn ail. Gweithgaredd mecanyddol yw hwn i sicrhau digon o gyfle i gyplysu ymarfer gofyn cwestiwn a 'dy'.

Cam 6 – Trafod diddordebau

Cyn rhannu'r dosbarth yn grwpiau i roi'r holiadur ar waith, helpwch y dysgwyr i amrywio eu hatebion yn hytrach na dweud 'Dw i'n hoffi' bob tro, e.e. Mae diddordeb gyda fi mewn/Mae gen i ddiddordeb mewn... , Dw i wrth fy modd yn XXX. Rhowch yr holiadur ar waith. Os yw'r dosbarth yn un bach, gall fod yn waith dosbarth cyfan.

Cam 7 - Ynganu

Ailadrodd pob cwestiwn fel dosbarth. Yna, pawb i ddewis eu hoff frawddeg, ei hysgrifennu ar ddarn o bapur sgrap, a mynd o amgylch y dosbarth yn dweud eu brawddeg. Os bydd unrhyw un wedi dewis yr un frawddeg, rhaid iddyn nhw adrodd y frawddeg gyda'i gilydd fel pâr/grŵp.



Ailadrodd pob cwestiwn fel dosbarth. Yna, pawb i ddewis eu hoff frawddeg a'i hysgrifennu ar ddarn o bapur sgrap. Galwch enwau i ddyfalu pa gwestiwn a ysgrifennodd aelodau'r dosbarth. Bydd hyn yn sicrhau bod unigolion yn cael cyfle i ymarfer ynganu, ond ar ffurf gweithgaredd.



Cam 8 – Sgwrs

Mae'r ddeialog yma'n ymddangos yn ddigon syml gan ddefnyddio **chi**, ond o'i newid i **ti**, mae'n dra gwahanol.

Y cam cyntaf ydy gwrando ar y ddeialog.

Yna darllen A/B,B/A mewn parau.

Yna newid pob eich.....chi i dy.....di.

Y cam olaf ydy gwrando ar y ddeialog lle defnyddir ffurfiau **ti** fel dosbarth, lle gall y dysgwyr wirio eu newidiadau.

Cam 9 – Robin Radio

Y pedwar ymadrodd defnyddiol yw 'Dw i wrth fy modd yn gwylio rygbi', 'Mae'n well gen i/gyda fi', 'Fy hoff ... i', 'Sgen i ddim diddordeb/Does dim diddordeb gyda fi'.

Dw i wrth fy modd - Ysgrifennwch y frawddeg 'Dw i wrth fy modd yn gwylio rygbi' ar y bwrdd gwyn neu yn y 'chat' a gofynnwch i aelodau'r dosbarth ddisodli 'gwylio rygbi' i greu brawddeg bersonol.

Mae'n well gen i/gyda fi – Galwch y parau canlynol – un ar y tro:

rygbi/pêl-droed

rhedeg/cerdded

bwyta yn y tŷ/bwyta allan

mynd i'r sinema/mynd i'r theatr

bara gwyn/bara brown

Rhaid i bawb ysgrifennu brawddeg yn dweud 'Mae'n well gyda fi/gen i X' bob tro. Ewch dros rai o'r atebion.

Fy hoff XX i - Ysgrifennwch 'fy holl liw i' ar y bwrdd gwyn neu yn y 'chat' a gofynnwch am gyfieithiadau cyflym yn defnyddio 'hoff'. Gellir tynnu sylw at y ffaith bod treiglod oherwydd bod yr ansoddair yn dod o flaen yr enw, fel gyda 'hen'. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr ddweud beth yw eu hoff liw a'u hoff le.

Sgen i ddim diddordeb/Does dim diddordeb gyda fi – Ysgrifennwch y frawddeg 'Sgen i ddim diddordeb mewn rygbi/Does dim diddordeb gyda fi mewn rygbi' ar y bwrdd gwyn neu yn y 'chat' gan ofyn i bawb ddisodli'r gair 'rygbi' i greu brawddeg bersonol.

Robin Radio Uned 20

Cam 10 – Geirfa

Geirfa Uned 21.

Cam 11 – Crynhoi ac asesu ar gyfer dysgu

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 20. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Uned 20, Atodiad 1

tabledi	dy dabledi di
tocyn	dy docyn di
car	dy gar di
cwestiwn	dy gwestiwn di
papur newydd	dy bapur newydd di
pêl	dy bêl di
doctor	dy ddoctor di
deintydd	dy ddeintydd di
gwely	dy wely di
gwin	dy win di
beic	dy feic di
bag	dy fag di
menig	dy fenig di
llyfr	dy lyfr di
radio	dy radio di
sbectol	dy sbectol di

Canllawiau Uned 21

Gorchmynion

Nodywers: Cyfarwyddo

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned - cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Gorchmynion 'chi' gyda berfau rheolaidd	Gorchmynion 'chi' gyda berfau rheolaidd
Gorchmynion 'chi' gyda bonau afreolaidd	
Gorchmynion 'chi' gyda berfau afreolaidd – bod, mynd, dod/dŵad, gwneud.	
Gorchmynion 'ti'	
Gorchmynion 'peidio'	
Ynganu	
Sgwrs	
Gwyllo	
Robin Radio	

Adnoddau i'r tiwtor:

Copi (digidol) o'r llyfr cwrs

Cyflwyniad PowerPoint

Deialogau o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*


Cam 1 – Banc Cwestiynau


Be ydy'ch enw chi?/Beth yw'ch enw chi?
 Be ydy'ch cyfeiriad chi?/Beth yw'ch cyfeiriad chi?
 Be ydy'ch cod post chi?/Beth yw'ch cod post chi?
 Be ydy'ch gwaith chi?/Beth yw'ch gwaith chi?
 Be dach/Beth dych chi'n hoffi wneud yn eich amser sbâr?

Cam 2 – Adolygu Uned 20

Gofynnwch i'r dosbarth greu holiadur syml ar bapur:

Enw	Ffôn	Car	Bag	Cot

Rhaid siarad â chwe pherson yn ymarfer 'Ble/Lle mae eich/dy...?' Dylid defnyddio 'chi' gyda'r tri pherson cyntaf ac yna newid i 'ti'. Dywedwch wrth y dysgwyr am gadw eu hatebion yn syml ac ateb trwy ddweud 'Sgen i ddim X/Does dim X gyda fi' os nad yw'r eitem dan sylw ganddynt. 

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach. Yn yr ystafell gyntaf, rhaid iddynt ymarfer 'Ble/Lle mae eich XX chi?' Newidiwch yr ystafelloedd ac yn yr ail ystafell, rhaid ymarfer 'Ble/Lle mae dy XX di?' Dywedwch wrth y dysgwyr am gadw eu hatebion yn syml ac ateb trwy ddweud 'Sgen i ddim X/Does dim X gyda fi' os nad yw'r eitem dan sylw ganddynt. 

Er mwyn ymarfer cwestiynau 'Be ydy'ch.../Beth yw'ch...?', ceir set o gwestiynau yn y Blwch Adnoddau ac yn Atodiad 1. Maen nhw hefyd yn y cyflwyniad PowerPoint ar gyfer dosbarthiadau rhithiol. Gellid anfon y cwestiynau ymlaen llaw (ceir set yn yr adran 'cardiau' yn y Banc Adnoddau) neu ofyn y cwestiynau i unigolion.

Cam 3 – Cyflwyno Gorchmynion ‘chi’

Edrychwch ar yr enghreifftiau o'r ffurfiau gorchmynnol sydd eisoes wedi codi yn y cwrs (yn y llyfr cwrs). Gellir ymarfer eu dweud nhw ond nid yw hwn yn ddril. Daw yn amlwg bod angen ychwanegu'r terfyniad –wch at fôn y ferf. Mae'r cysyniad o ganfod bôn y ferf yn un newydd yn y gogledd.

Bwriad y dril cyntaf yw cael pobl i symud. I ddechrau, dylai pawb ddilyn eich gorchmynion chi, heb ddweud dim. Wedyn, gellir eu gwahodd i ddweud y gorchmyn wrth ei wneud. Yn olaf, gallan nhw roi'r gorchmynion i bartner.

Mae'r dril nesaf o fewn cyd-destun swyddfa. Driliwch bob brawddeg yn drylwyr a rhannwch y dosbarth yn barau i geisio cofio cymaint â phosib o'r brawddegau, heb edrych yn y llyfr. Wrth gael pawb yn ôl at ei gilydd, meimiwch y brawddegau (mewn trefn wahanol) a chael y dosbarth i gofio'r frawddeg. (Y rheol gyda'r enghreifftiau yma yw bod y terfyniad yn cael ei ychwanegu at y berfenw.)

Yn y bloc nesaf, ceir enghreifftiau o ollwng y llafariad olaf i greu'r gorchmyn. Mae'r bloc o fewn cyd-destun paratoi i fynd ar wyliau. Gellid darllen dros y bloc ac yna cynnal ymarfer cyfieithu chwim.

Er mwyn ymarfer gorchmynion sy'n gollwng y llafariad olaf, ceir pum brawddeg yn y llyfr cwrs. Gêm stamina i barau – rhaid iddyn nhw ddisodli'r gair a danlinellir bob yn ail i greu cymaint â phosib o frawddegau newydd.

Gellir atgyfnerthu'r gwaith ar-lein trwy roi cyfle i bawb ddisodli'r gair a danlinellir, e.e. Golchwch eich gwallt. Y nod yw creu cymaint â phosib o frawddegau newydd. Wrth weithio o frawddeg i frawddeg, atgoffwch y dysgwyr o'r angen i ollwng y llafariad olaf i gael hyd i fôn y ferf cyn ychwanegu'r terfyniad.

Bonau afreolaidd Trowch at y bloc sy'n cyflwyno berfau a chanddynt fôn afreolaidd. Driliwch nhw'n drylwyr, gan dynnu sylw at y cyngor bach defnyddiol "Eds will roll and 'egs will smash".

Defnyddiwch y pedwar gorchmyn – Rhedwch, Cerddwch, Yfwch, Gwrandewch – i ymarfer gyda meim os yw hynny'n bosib i bawb yn eich dosbarth chi. Gofynnwch i bawb godi a meimio'r gorchmynion hyn wrth i chi eu galw. Rhwch gyfle i aelodau'r dosbarth roi'r gorchmynion hyn hefyd a chymerwch ran yn y meimio.

Ceir ymarfer gwrando i ddilyn. Chwaraewch y gorchmynion sydd wedi'u recordio a rhaid i'r dysgwyr rifo'r gorchmynion yn y drefn y byddant yn eu clywed.

Cânt wirio eu gwaith trwy wrando eto. Dyma'r atebion:


- | | | | |
|------------|-----------------------|---------------|---------------------|
| 1. Cysgwch | 2. Cerddwch | 3. Ffoniwch | 4. Caewch y ffenest |
| 5. Rhedwch | 6. Postiwch y llythyr | 7. Gwrandewch | 8. Eisteddwch |


Maent wedyn yn gallu ceisio eu cofio wrth edrych ar y lluniau.

Berfau afreolaidd Fel cam olaf, ymdrinnir â berfau afreolaidd – bod, mynd, dod/dŵad, gwneud.

Bod – Driliwch y brawddegau'n drylwyr. Gofynnwch i bawb feddwl am un ansoddair gwahanol.


Mynd – Driliwch y ddwy frawddeg.

Wrth ddysgu 'Ewch', sefwch o flaen y dosbarth yn eu cyfarwyddo i 'Ewch i'r dde/i'r chwith' ac mae'r dosbarth yn dilyn y symudiadau. Maent wedyn yn gwneud hynny mewn grwpiau o dri neu bedwar – gan gymryd tro i roi'r gorchmynion i'w gilydd. 

Er mwyn sicrhau chwistrelliad o egni, gofynnwch i bawb fynd i nôl rhywbeth trwy ddweud, 'Ewch i nôl XX' (e.e. afal/bara/llun). Ar ôl i bawb ddod yn ôl, mae pob un yn dweud 'Mae XX gyda fi/Mae gen i X' neu 'Does dim XX gyda fi yn y tŷ/Sgen i ddim X yn y tŷ'. Gwnewch hyn ddwy neu dair gwaith eto, gydag un o'r dysgwyr cryf yn rhoi'r gorchymyn ac yn dewis y gwrthrych. 

Dod/Dŵad – Driliwch y ddwy frawddeg yn drylwyr.

Gwneud – Driliwch y frawddeg gyntaf ac yna gofynnwch i bawb ddisodli gwaith cartref. Driliwch yr ail frawddeg.

Ar ôl drilio'r brawddegau i gyd, rhannwch yr ystafell yn ddau hanner gan ofyn i'r dosbarth i gyd ddod i sefyll yn y blaen. Rhaid i chi ddweud brawddegau megis: 

Os yw/ydy'ch pen-blwydd rhwng Ionawr a Mehefin, ewch i'r dde. Os yw/ydy'ch pen-blwydd rhwng Gorffennaf a Rhagfyr, ewch i'r chwith.

Os dych/dach chi'n hoffi bara gwyn, ewch i'r dde. Os dych/dach chi'n hoffi bara brown, ewch i'r chwith.

Os dych/dach chi'n darllen papur newydd, ewch i'r dde. Os dych/dach chi ddim, ewch i'r chwith.

Os dych/dach chi'n bwyta cig, ewch i'r dde. Os dych/dach chi ddim, ewch i'r chwith.

Os aethoch chi i'r ysgol yng Nghymru, ewch i'r dde. Os aethoch chi ddim i'r ysgol yng Nghymru, ewch i'r chwith.

Os byddwch chi yn y tŷ nos Sul, ewch i'r dde. Os fyddwch chi ddim yn y tŷ nos Sul, ewch i'r chwith.

Cofiwch ddweud, 'Dewch yn ôl' bob tro.

Cam 5 – Cyflwyno Gorchmynion 'ti'

Ceir cyfres o luniau yn y PowerPoint i gyflwyno gorchmynion 'ti' (ymllacia, smwddia, ffonia, pacia, coginia, nofia, eistedda, darllena). Mae'r chwe berf gyntaf yn dilyn rheol gollwng y llafariad olaf i ganfod y bôn, a'r ddwy olaf yn enghreifftiau o ychwanegu terfyniad at y berfenw. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs i atgyfnerthu.

Cyd-destun y tŷ yw'r ail ddril. Darllenwch dros y bloc.



Gofynnwch i bawb feddwl am un o'r gorchmynion a chodi i ddweud y gorchymyn wrth bawb arall yn y dosbarth.

Ysgrifennwch un o'r gorchmynion ar ddarn o bapur a gofynnwch i'r dysgwyr ddyfalu pa frawddeg a ysgrifennoch chi – heb edrych ar y rhestr yn y llyfr os yn bosib. Gwnewch hyn ddwy neu dair gwaith – ond gyda dysgwr yn ysgrifennu'r frawddeg.



Mae'r trydydd bloc o fewn cyd-destun 'Cyn mynd i'r ysgol'. Darllenwch dros y bloc, gan dynnu sylw arbennig at y frawddeg 'Rho dy dedi ar y gwely' am fod 'rho' yn ffurf anodd. Wedyn, trowch at y cyflwyniad PowerPoint. Ceir llun ar bob sleid i sbarduno'r gorchymyn yn y llyfr. Rhaid i'r dysgwyr gofio'r gorchymyn heb edrych yn y llyfr.

Berfau afreolaidd – bod, mynd, dod/dŵad, gwneud.

Bod – Driliwch y ddwy frawddeg a gofynnwch i bawb greu gorchymyn gydag ansoddair gwahanol

Mynd a Dod/Dŵad – Driliwch y pedair brawddeg ac yna defnyddiwch ystumiau i sbarduno ‘Cer/Dos’ a ‘Dere/Tyrd ‘ma’. Ystum ‘cer/dos’ = pwyntio. Ystum ‘dere/tyrd ‘ma’ = llaw yn gwahodd. Wrth i chi ystumio, bydd y dosbarth yn dweud y gorchymyn cywir.

Gwneud – Pawb i ddisodli ‘gwaith’ ar ôl drilio’r frawddeg gyntaf.

Ceir pedair deialog fer i ymarfer y bonau afreolaidd. Rhannwch y dosbarth yn barau i ddisodli’r geiriau a danlinellir. Gofynnwch am ddetholiad o’r fersiynau newydd wrth alw pawb yn ôl.

Cam 6 – Ymarfer Gorchmynion

Symudwch eich corff/Symuda dy gorff Ymarfer i gael pawb ar eu traed. Dylai’r tiwtor yn gyntaf roi’r gorchmynion (chi) sydd yn y llyfr cwrs i bawb gan wneud yr ystumiau priodol. Dylai’r dysgwyr hefyd wneud yr ystumiau os yn bosib. Mae’r dysgwyr wedyn yn ceisio cofio rhai o’r gorchmynion ac yn eu gweiddi allan fesul un i bawb wneud yr ystumiau. Darllenwch dros y brawddegau yn y llyfr cwrs. Rhannwch y dosbarth yn barau i orchymyn ei gilydd trwy gofio cymaint â phosib o’r brawddegau.

Mae’r dysgwyr wedyn yn darllen y gorchmynion (ti) o’r llyfr a’r tiwtor yn unig yn ufuddhau. Mae’r tiwtor wedyn yn gorchymyn unigolion i wneud y pethau hyn. Y cam nesaf yw gwahodd y dosbarth i weiddi allan unrhyw beth maen nhw’n ei gofio ac yna rhannu’r dosbarth yn barau i gyfarwyddo ei gilydd.

Penwythnos i ffwrdd yng Nghymru Trowch at y grid yn y llyfr cwrs. Cyn rhannu’r dosbarth yn barau, bydd angen modelu’n ofalus. Colofn ‘chi’ - mae un dysgwr yn gofyn ‘Ble ‘dyn ni’n gallu mynd?/Lle dan ni’n medru mynd?’ Mae’r partner arall yn ateb gyda ffurf orchmynnol, e.e. Ble ‘dyn ni’n gallu mynd? Ewch i Gaerdydd.’ Dylid newid rôl ar gyfer colofn ‘ti’. Y tro hwn, y cwestiwn fydd, ‘Ble/Lle dw i’n gallu/medru mynd?’ Rhaid rhoi atebion gyda ffurfiau ‘ti’.

Rhowch y dosbarth i eistedd mewn cylch a rhowch un gadair wag. Dylech chi fod ar wahân i’r cylch. Rhowch gyfres o orchmynion. Os yw’r gorchymyn yn wir i un neu fwy o’r bobl yn y grŵp, rhaid iddynt godi a symud i’r gadair wag. Sicrhewch fod y gweithgaredd hwn yn addas ar gyfer y bobl yn eich dosbarth chi. Math o orchmynion:



- Symudwch os dych/dach chi’n gwisgo ‘trainers’/esgidiau du.
- Symudwch os dych/dach chi’n gyrru Ford/car bach.
- Symudwch os cawsoch/gaethoch chi dost/uwd i frecwast.
- Symudwch os dych/dach chi’n gwyllo ‘enw cyfres deledu boblogaidd’.

- Symudwch os dych/dach chi'n hoffi mynd i'r sinema/theatr.

Ar ôl tipyn, newidiwch y rheolau. Dywedwch fod rhaid i un o'r bobl sy'n eistedd o boptu i'r gadair wag roi'r gorchymyn nesaf.

Cam 7 - Peidiwch/Paid

Defnyddiwch y lluniau yn y sleid olaf yn y PowerPoint i gyflwyno Peidiwch ac wedyn Paid. (Peidiwch â gyrru'n gyflym/thalu/chodi/choginio/pharcio/phacio/Peidiwch ag ymlacio.) Hwn fydd y tro cyntaf i'r dysgwyr yn y gogledd ddod ar draws y treigladau llaes yn iawn (ac eithrio 'ches i ddim'). Bydd felly angen drilio'n drylwyr. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Rhannwch y dosbarth yn barau i greu gorchmynion o'r arwyddion yn y llyfr:

Peidiwch â dringo.

Peidiwch â pharcio dros nos.

Peidiwch ag ysmegu.

Peidiwch â nofio.

Cam 8 - Ynganu

Deialog a geir yma sydd wedi'i seilio ar ddeialog mewn papur arholiad Mynediad. Darllenwch chi'r ddeialog yn gyntaf gan ofyn i'r dysgwyr wrando'n ofalus ar yr ynganiad. Atebwch unrhyw gwestiynau a gofynnwch a ydyn nhw'n meddwl bydd unrhyw eiriau'n anodd eu hynganu. Helpwch gyda'r rhain. Darllenwch y ddeialog eto, gan ofyn i'r dysgwyr danlinellu rhai ymadroddion lle na ellir cael unrhyw oedi rhwng y geiriau, e.e. Prynawn da/Theatr De Cymru/dau docyn/wrth gwrs/ar gael/diolch yn fawr i chi. Darllenwch chi ran A gyda'r dysgwyr yn darllen rhan B, ac wedyn fel arall. Rhannwch y dosbarth yn barau i ymarfer.

Cam 9 - Sgwrs

Ar ôl chwarae'r ddeialog a mynd drosti, rhannwch y dosbarth yn barau i'w hymarfer. Yna, dywedwch fod person 17 oed yn gwneud prawf felly mae'r arholwr yn defnyddio 'ti'. Galwch bawb yn ôl ac ewch dros yr atebion.

Anogwch y dysgwyr i greu brawddegau am eu prawf/proffion gyrru nhw, e.e.

Mi wnes i fy mhrawf gyrru yn XX ac mi wnes i basio ar ôl dau brawf.

Gwnes i fy mhrawf gyrru yn XX a phasiais i ar ôl dau brawf.
Gellid gofyn i'r dysgwyr adrodd yn ôl am berson arall yn y trydydd person.

Cam 10 - Gwyllo - Croeso i Ruthun

Fel y nodir yn y cwrs, y tro cyntaf y bydd y dysgwyr yn gwyllo'r fideo, rhaid iddynt nodi faint o weithiau maen nhw'n clywed **ewch**. Yr Ateb: 4

Yna, rhaid iddynt nodi cymaint o'r gorchmynion â phosib, sef Dewch, Cychwynnwch, Edrychwch, Cerddwch, Ewch, Cofiwch, Ewch, Arhoswch, Ewch, Edrychwch, Ewch, Gorffennwch.

Fel trydydd cam, rhowch y lleoliadau hyn ar y bwrdd gwyn neu yn y 'chat' gan ofyn i'r dysgwyr wneud nodyn ohonynt: Parc Afon Clwyd, Carchar Rhuthun, Heol Clwyd, Siop Elfair, y Sgwâr, Tŷ Nantclwyd y Dre, y Ganolfan Grefft. Rhaid i'r dysgwyr eu rhoi yn yr un drefn ag y maen nhw'n ymddangos yn y fideo (sef, y drefn uchod felly bydd angen eu cymysgu).

Chwaraewch y fideo unwaith eto i gloi.

Cam 11 - Robin Radio

Y tri ymadrodd yw 'Ydw i'n eich nabod chi?', 'Dw i newydd symud nôl', Ers talwm/ Ers llawer dydd'.

Ydw i'n eich nabod chi?

Pawb ar eu traed. Rhannwch y dosbarth yn ddau grŵp – Partner A a Phartner B. Mae pob Partner A yn mynd o gwmpas yn cyfarch Partneriaid B wrth eu henwau ac mae pob Partner B yn ymateb trwy ddweud 'Ydw i'n eich nabod chi?' Gellir cyfnewid rôl ar ôl munud.



Pawb i ofyn y cwestiwn mewn dulliau gwahanol – gyda syndod, yn grac/flin, yn chwerthin.



Dw i newydd symud yn ôl - Er mwyn osgoi ymwneud â'r treigladd meddal yma, gwnewch ymarfer cyfieithu gyda'r berfau canlynol: agor y drws, ymddeol, ateb, eistedd.

Ers talwm/Ers llawer dydd – Pawb i roi un frawddeg, e.e. Ro'n i'n byw yn XX ers talwm/ers llawer dydd, neu weithgaredd roedden nhw'n arfer ei wneud.

Robin Radio Uned 21

Cam 12 – Geirfa

Geirfa Uned 22.

Cam 13 – Crynhoi ac asesu ar gyfer dysgu

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 21. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen dros y cwestiynau yn y 'Gêm o Gardiau' ar ddechrau Uned 22 cyn y wers nesaf.

Uned 21, Atodiad 1

Be ydy'ch enw chi?	Beth yw'ch enw chi?
Be ydy'ch cyfeiriad chi?	Beth yw'ch cyfeiriad chi?
Be ydy'ch cod post chi?	Beth yw'ch cod post chi?
Be ydy'ch cyfeiriad ebost chi?	Beth yw'ch cyfeiriad ebost chi?
Be ydy'ch rhif ffôn chi?	Beth yw'ch rhif ffôn chi?
Be ydy'ch swydd chi?	Beth yw'ch swydd chi?
Be ydy'ch diddordebau chi?	Beth yw'ch diddordebau chi?
Be ydy'ch newyddion chi?	Beth yw'ch newyddion chi?

Canllawiau Uned 22

Yn y gwaith

Nod y wers: Siarad yn y gwaith ac adolygu unedau 16-21

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned - cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Gêm o gardiau	
Sgwrs 1	
Pwy/Beth (Be)/Faint sy... + berfenw?	Pwy/Beth (Be)/Faint sy... + berfenw?
Pwy/Beth (Be)/Faint sy... + arddodiad?	
Sgwrs 2	
Gwranddo – Amserau a phrisiau	
Sgwrs 3	
Atebion	
Gwyllo	
Robin Radio	
	Ynganu - rh

Adnoddau i'r tiwtor:

Copi (digidol) o'r llyfr cwrs

Cyflwyniad PowerPoint

Deialog a Fideo o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*

Adnoddau i'r dysgwyr:

Pecyn o gardiau chwarae

Cam 1 – Banc Cwestiynau

Dwedwch/Dudwch un peth am eich ffrind gorau.

Dwedwch/Dudwch un peth am eich tŷ chi.

Cam 2 – Lluniau o arwyddion

Mae'r Gwaith Cartref yn gofyn i'r dysgwyr gasglu lluniau o arwyddion Cymraeg. Rhowch gyfle i bawb ddangos yr arwyddion sy ganddynt a thrafodwch unrhyw beth o ddiddordeb a fydd yn codi. Os bydd y dysgwyr yn eu hanfon atoch ymlaen llaw, gellir eu rhoi mewn cyflwyniad PowerPoint.

Cam 3 – Gêm o Gardiau

Ar ddechrau pob uned adolygu, ceir gêm yn defnyddio pecyn o gardiau chwarae. Dylai'r dysgwyr fod wedi darllen dros y cwestiynau fel Gwaith Cartref. Gall pawb ofyn un cwestiwn i chi yn y lle cyntaf, er mwyn i chi fodelu atebion. Yna, rhannwch y dysgwyr yn grwpiau o dri. Rhaid iddynt droi'r cardiau yn y pecyn un ar y tro. Bydd y person sy'n troi'r cerdyn yn gofyn y cwestiwn i'r aelodau eraill yn y grŵp. Argymhellir gwahodd siaradwyr Cymraeg rhugl i'r sesiwn i gymryd rhan yn y gêm.

Gellid manteisio ar yr ymwelwyr i ddechrau ymarfer gofyn cwestiwn gyda'r geiriau sbardun yn arholiad Mynediad. Ceir set o'r cardiau hyn yn y Blwch Adnoddau (Uned yr Arholiad) ac maent ar ffurf PowerPoint yn y cardiau yn y Banc Adnoddau. Rhowch y cardiau allan er mwyn i'r dysgwyr godi un cerdyn a gofyn cwestiwn. Gellir rhannu'r dosbarth a'r siaradwyr yn grwpiau ond sicrhewch fod amrywiaeth o eiriau sbardun (e.e. cwestiwn, cyfnod o amser, berfenw) i sbarduno patrymau gwahanol.

Cam 4 – Sgwrs 1

Uned adolygu ac ymestyn ydy hon sy'n ailgylchu iaith o fewn deialogau. Sefyllfa'r gweithle sydd dan sylw yn yr uned hon.

Deialog y Swyddfa – Ar ôl y gwrandawriad cyntaf, gofynnwch lle mae'r sgwrs yn digwydd. Ateb: mewn swyddfa.

Wrth wrando eilwaith, gofynnwch i'r dysgwyr lenwi'r grid yn nodi beth sydd ar goll a lle maen nhw'n cael eu ffeindio. Chwaraewch y sgwrs eto ar ôl i chi wirio'r atebion.

Rhannwch y dosbarth yn barau i ddarllen y ddeialog fel y mae, yna gellir disodli'r geiriau a danlinellir.

Cam 5 – Cyflwyno sy + berfenw mewn cwestiwn

Er mai yn y cwrs Sylfaen y bydd sylw manwl i'r patrwm yma, mae'n batrwm cyffredin iawn felly rhaid ei gyflwyno yn fras yn ystod y cwrs Mynediad. Felly yn gyntaf, heb edrych yn y llyfr, gofynnwch i'r dysgwyr a ydyn nhw'n cofio'r ymadroddion "Pwy sy'n siarad?", "Beth/Be sy'n bod?", "Beth/Be sy'n digwydd?" a "Pwy sy'n gwneud y rhaglen?" Mae'r ymadroddion hyn i gyd wedi codi yn y cwrs ac fe'u nodir yn y llyfr cwrs.

Yna, gofynnwch "Pwy sy'n gweithio heddiw?" (yfory i ddosbarth nos). Codwch eich llaw ac annog y rhai sy'n gweithio i wneud hefyd. Atebwch eich hun: "Fi, Gareth, Tom" (ac ati) neu "Dim ond fi".

Yna, gofynnwch "Pwy sy'n dod/dwâd i'r dosbarth nesa?" Gobeithio bydd pawb yn codi llaw i chi ddweud "Pawb".

Yna, gofynnwch "Pwy sy'n dysgu'r dosbarth?" yr ateb ydy "Fi (Peidiwch ag ateb mewn brawddeg.)

Driliwch y cwestiynau sy yn y llyfr. Ceir cyfres o luniau yn y PowerPoint i awgrymu'r cwestiynau yn y llyfr sy'n dechrau gyda 'Pwy' ar gyfer y gwaith cyflwyno. (Awgrymir chweched cwestiwn – Pwy sy'n canu?) Driliwch gwestiynau 'Beth' a 'Faint'. Darllenwch dros y cwestiynau yn y llyfr gan dynnu sylw at yr atebion hefyd. Ni ddylid ateb mewn brawddegau pwysleisiol - naill ai un gair neu Mae Gareth yn gweithio heddiw.

Mae'r gwaith uchod wedi'i gyflwyno'n drylwyr yn yr uned ar-lein.

Trowch at y cwestiynau sy'n cyd-fynd â'r lluniau yn y llyfr cwrs. Darllenwch dros yr wyth cwestiwn gan sicrhau bod pawb yn deall. Yna, rhannwch y dosbarth yn barau i weithio allan pa lun sy'n perthyn i ba gwestiwn. Os byddan nhw'n gorffen yn gyflym, anogwch nhw i guddio'r cwestiynau a cheisio cofio'r cwestiynau trwy edrych ar y lluniau.



Ysgrifennwch y geiriau canlynol fesul un yn y 'chat': protestio/siarad/parti/paned/gêm/marathon/cyngerdd/bod? Bydd y dysgwr cyntaf i deipio'r cwestiwn yn hollol gywir yn y 'chat' (heb edrych yn y llyfr) yn cael y pwynt.



Ysgrifennwch y geiriau canlynol ar y bwrdd gwyn: protestio/siarad/parti/paned/gêm/marathon/cyngerdd/bod? Rhannwch y dosbarth yn barau i greu'r cwestiynau, heb edrych yn y llyfr.

Cam 6 – Cyflwyno sy + arddodiad mewn cwestiwn

Y cam nesaf yw drilio'r bloc sy'n cyflwyno defnydd o **sy** o flaen arddodiaid mewn cwestiynau'n dechrau gyda Pwy, Beth/Be neu Faint. Driliwch y bloc ac yna ceir dau weithgaredd posibl i ymarfer:

Gellir rhoi gwrthrychau ar, dan neu wrth wahanol bethau o gwmpas yr ystafell ddosbarth neu o flaen y sgrin a rhaid i'r dysgwyr ffurfio cwestiynau yn defnyddio Beth/Be sy... ,e.e. Beth/Be sy ar y llyfr? Pencil.

Yna, gellir dweud cyfres o frawddegau a rhaid i'r dysgwyr ffurfio'r cwestiwn, e.e.

Mae John ar y ffôn.

Mae Pobol y Cwm ar y teledu.

Mae pump yn y dosbarth heddiw.

Mae Cyw ar y teledu.

Mae deg yn y dosbarth heddiw.

Mae Newyddion ar y teledu.

Mae Siân ar y ffôn.

Mae'r plant ar y ffôn.

Mae saith yn y dosbarth heddiw.

Cam 7 – Sgwrs 2 a Gwrando

Paratoi at y cwestiwn ar amserau a phrisiau ym mhrawf gwrando arholiad Mynediad a geir yma.

Gwrandawriad 1 – Chwaraewch y Sgwrs a gofynnwch i'r dosbarth beth ydy'r pwnc. Ateb: Trafod mynd i gyfarfod.

Gwrandawriad 2 - Gofynnwch iddyn nhw nodi ble, pryd ac am faint o'r gloch mae'r cyfarfod. Atebion: yn y gwesty mawr drws nesa i'r orsaf yn y dre/dydd Mercher/chwech o'r gloch.

Gwrandawriad 3 - Gofynnwch faint ydy'r pris a pham. Atebion: £15/swper
Y cam olaf ydy darllen y ddeialog mewn parau a newid y diwrnod, amser a phris.

Ewch ymlaen at y darn gwrando Mynediad - hysbysebion. Caniateir chwarae'r hysbysebion dair gwaith. Gofynnwch i'r dosbarth wirio'r atebion gyda phartner cyn mynd drostynt fel dosbarth cyfan. Cyflwynwch ddau ymadrodd cyffredin sy'n codi yn y darnau Gwrando hyn - Mynediad am Ddim, yr un (e.e. punt yr un) – cyn chwarae'r darn. Atgoffwch y dysgwyr bod y gair punt yn fenywaidd - dwy bunt, tair punt, pedair punt.

Yna, gosodwch dasg i barau greu deialog yn defnyddio manylion o un o'r hysbysebion ond ar batrwm Sgwrs 2. Anogwch rai parau i ddarllen eu deialogau i'r dosbarth. Ceisiwch wneud yn siŵr bod y deialogau newydd hyn yn gywir.

Cam 8 – Sgwrs 3

Dyma'r ddeialog fwyaf cymhleth.

Gwrandawriad 1 - Wedi'r gwrandawriad cyntaf, gofynnwch i'r dosbarth beth sy'n digwydd. Dim ond ateb syml a ddisgwylir e.e. cyfarfod yn y swyddfa.

Gwrandawriad 2 - Gofynnwch faint o bobl sy yn y cyfarfod ac ydyn nhw'n cofio rhai enwau. Ateb: 7 – y pennaeth, Twm, Rhian, Ryan, Rhys, Rhodri a Rhiannon.

Bydd y llythyren 'rh' wedi'i hymarfer yn yr uned ar-lein.

Gwrandawriad 3 - Gofynnwch lle mae'r pennaeth wedi bod a beth roedd e'n ei wneud yno. Ateb: Madeira yn gwneud cwrs 'Ymlacio gyda Yoga'.

Y cam olaf ydy darllen y ddeialog A/B, B/A.

Cam 9 – Ymarfer atebion

Gofynnwch i barau baru'r cwestiynau a'r atebion cywir i ymarfer dyfodol **bod**. Gofynnwch iddynt greu cwestiynau tebyg – un cwestiwn ar gyfer pob un o'r atebion a nodir. Wrth alw pawb yn ôl, ewch dros yr atebion a rhai o gwestiynau newydd y parau. Gofynnwch y cwestiynau eto, gan fynnu bod y dysgwyr yn ateb heb eu llyfrau. Cynhaliwch sesiwn cwestiwn ac ateb go iawn yn y dyfodol (am gynlluniau'r dysgwyr) gan ddefnyddio atebion y dysgwyr i ymarfer y trydydd person.

Cam 10 – Tŷ Bach Twt

Chwaraewch y fideo o Gwilym Bowen Rhys yn canu Tŷ Bach Twt. Wedyn, gofynnwch i'r dysgwyr lenwi'r bylchau o'r ail dro ymlaen. Yn y De, bydd angen egluro bod Mae gen i yn cyfateb i Mae gyda fi.

Cam 11 – Robin Radio

Tri ymadrodd defnyddiol Uned 21 yw: Roeddech/Ro'ch chi'n sôn..., ers y dechrau, gyferbyn â'r llyfrgell.

Roeddech/Ro'ch chi'n sôn... - Rhowch y geiriau sôn, **meddwl, gwybod, poeni** ar y bwrdd gwyn neu yn y 'chat'. Rhannwch y dosbarth yn barau am ddwy funud i feddwl am gymaint o frawddegau â phosib ar batrwm: "Roeddech/Ro'ch chi'n..... am.....", gan ddefnyddio'r pedwar berfenw uchod. Ewch dros yr atebion.

ers y dechrau – Gofynnwch i'r dysgwyr gyfieithu'r canlynol. Cânt ysgrifennu eu hatebion: *since the meeting, since the course, since the party, since the accident, since the test*. Rhowch sylw i ynganiad 'ers' wrth wneud hyn.

gyferbyn â'r llyfrgell - Gofynnwch i'r dosbarth ateb y cwestiynau canlynol:

- Be/beth sy gyferbyn â chi rŵan/nawr?
- Be/beth sy gyferbyn â'ch tŷ chi?

Cofiwch na ddylid ateb gyda phwyslais.

Robin Radio Uned 22

Cam 12 – Geirfa

Geirfa Uned 23.

Cam 13 – Crynhoi ac asesu ar gyfer dysgu

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 22. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Canllawiau Uned 23

Rhaid i fi/mi

Nod y wers: Siarad am orfod gwneud rhywbeth

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned - cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Rhaid i fi/mi	Rhaid i fi/mi
Oes rhaid i ti?	
Does dim rhaid i fi/mi	
Cyflwyno pob person – yr arddodiad i a phatrwm rhaid	
Rhaid i fi/mi beidio	
Sgwrs	
Ynganu	
Gwyllo	
Robin Radio	

Adnoddau i'r tiwtor:

- Copi (digidol) o'r llyfr cwrs
- Cyflwyniad PowerPoint
- Deialog a Fideo'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*

Adnoddau i'r dysgwr:

- Dis

Cam 1 - Banc Cwestiynau

Beth/Be sy yn y sinema ar hyn o bryd?

Cam 2 - Adolygu Uned 21

Rhowch y cyfarwyddiadau canlynol i'r dosbarth:



Codwch. Gwnewch gylch. Cerddwch i'r chwith. Arhoswch. Cerddwch i'r dde. Arhoswch. Codwch eich braich dde. Codwch eich braich chwith. Rhowch eich breichiau i lawr. Ffeindiwch bartner.

Yna, gofynnwch i'r dysgwyr gyfeirio ei gilydd i wneud pethau gan ddefnyddio "ti". Ar ôl dwy funud, dywedwch "Eisteddwch".

Ceir dolen i gêm kahoot isod y gellir ei chwarae hefyd.

Ceir gêm kahoot i'w chwarae trwy ddilyn y ddolen hon: <https://create.kahoot.it/details/a0f588c4-84a9-4191-a3a3-01140379caef>.



Cam 3 - Cyflwyno'r patrwm 'Rhaid...'

Rhaid i fi - Atgoffwch y dysgwyr eu bod eisoes yn gallu cyfleu '*I must*' trwy ddweud 'Dw i'n gorfod'. Eglurwch eu bod yn cyfoethogi eu Cymraeg trwy ddysgu patrwm newydd. Cyflwynwch y person cyntaf trwy ddefnyddio cardiau fflach neu'r lluniau yn y sleid gyntaf yn y PowerPoint. (Atebion: Rhaid i fi ymlacio/smwddio/ffonio/bacio/goginio/gysgu/lanhau(llnau)/bleidleisio.)

Darllenwch dros y brawddegau yn y llyfr cwrs ac yna trowch at y brawddegau lle ceir elfen i'w disodli. Ewch dros bob cyfnod gan roi cyfle i bawb bersonoli.

Ewch dros y lluniau yn y PowerPoint yn gyflym (Rhaid i fi ymlacio/smwddio/ffonio/bacio/goginio/gysgu/lanhau(llnau)/bleidleisio). Gofynnwch i bawb bersonoli.

Oes rhaid i ti? - Defnyddiwch yr un lluniau i gyflwyno'r cwestiwn 'Oes rhaid i ti...?' Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Rhowch lun i bawb iddynt grwydro yn holi ei gilydd, 'Oes rhaid i ti...?', gan ateb Oes/Nac oes bob tro.





Gellid creu pôl i'r dysgwyr ateb cyfres o gwestiynau, e.e. 'Oes rhaid i ti smwddio heddiw?' gan gynnig ateb 'Oes', 'Nac oes'. Ymarfer goddefol heb fod y dysgwyr yn cynhyrchu iaith fydd hwn ond bydd yn weithgaredd dilys. Os nad yw opsiwn pôl ar gael, mae'n bosib defnyddio *kahoot* neu *quizlet live* neu raglen debyg.

Does dim rhaid i fi/ni/chi - Unwaith eto, defnyddiwch y lluniau yn y PowerPoint neu gardiau fflach i gyflwyno'r negyddol – person cyntaf unigol (fi/mi), person cyntaf lluosog (ni), ail berson lluosog (chi). Ewch drwy bob person yn drefnus. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs. Gofynnwch i bawb bersonoli.

Rhannwch y dosbarth yn barau i wneud yr holiadur sy yn y llyfr cwrs. Rhaid mynnu atebion llawn er mwyn ymarfer y patrwm.

Os byddwch am gael rhagor o ymarfer, rhannwch y dosbarth yn barau newydd neu'n grwpiau o dri i holi cwestiynau (Oes rhaid i chi...?) i'w gilydd a chanfod pethau cyffredin – pethau mae'n rhaid iddyn nhw eu gwneud a phethau does dim rhaid iddyn nhw eu gwneud. Rhaid iddyn nhw adrodd yn ôl gan ddweud 'Rhaid i ni...' a 'Does dim rhaid i ni...'

Taith Dosbarth - Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau o 3 neu 4 i drafod posibiliadau ar gyfer ymweliad dosbarth i rywle lle bydd yn bosib i'r dosbarth siarad Cymraeg yn ystod amser gwrs cyn diwedd y flwyddyn academaidd. Mae'n hanfodol bod y tiwtor wedi meddwl am opsiynau ymarferol o fewn cyfyngiadau amser y dosbarth a lleoliad y dosbarth! Rhaid i'r grwpiau adrodd yn ôl mewn tair brawddeg, gan greu tair brawddeg yn dechrau â 'Rhaid i ni...', e.e. Rhaid i ni fynd i Gaffi Mair. Rhaid i ni gyfarfod yn y caffi am 10am. Rhaid i ni brynu paned yn Gymraeg. Bydd angen dod i benderfyniad lle bydd y dosbarth yn mynd. Mae'n hanfodol pwysleisio bod hyn yn rhan hanfodol o'r cwrs ac yn wers bwysig i'w mynychu! Efallai na fydd y cam hwn yn bosib i ddosbarthiadau rhithiol os na fydd pawb yn byw yn yr un ardal.

Trydydd person - Defnyddiwch wybodaeth am aelodau'r dosbarth i gyflwyno'r trydydd person. Gofynnwch i bawb feddwl am frawddeg 'Rhaid i fi/mi... yfory'. Defnyddiwch y brawddegau i ddysgu 'Rhaid i X... yfory'. Rhaid wedyn droi at ddangos bod yr arddodiad 'i' yn rhedeg yn y trydydd person. Atgoffwch y dysgwyr o'r arddodiad 'arno fe' neu 'gynno fo'. Wedyn, defnyddiwch frawddegau aelodau gwrywaidd y dosbarth i ymarfer 'Rhaid iddo fe/fo...'. Ewch trwy'r un camau ar gyfer 'hi'. Ewch yn ôl at y brawddegau a roddodd y dysgwyr i chi pan oedden nhw'n adrodd yn ôl 'Rhaid i ni' a chyflwynwch trwy ddweud 'Rhaid i X a X ...'/'Rhaid iddyn nhw...'. Dylid eu hatgoffa o'r arddodiad 'arnyn nhw' neu 'gynnyn nhw' cyn dechrau'r ymarfer. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Trowch at y grid yn y llyfr cwrs. Yn gyntaf, lluniwch frawddeg gan ddefnyddio un elfen o'r tair colofn, e.e. Rhaid iddyn nhw fynd i'r ysbyty yfory. Yna, gofynnwch

am frawddeg gan aelod cryf o'r dosbarth. Yna, rhannwch y dosbarth yn barau i weithio drwy'r grid gan greu cymaint o frawddegau gwahanol â phosib.

Ymarfer 1

Rhannwch y dosbarth yn barau newydd. Bydd angen dis ar bob pâr. Mae'r rhif ar y dis yn cynrychioli'r rhagenw i'w ddefnyddio mewn brawddeg yn defnyddio 'rhaid'. Rhaid gweithio trwy'r berfenwau yn y grid dair gwaith o'r brig i'r gwaelod – y tro cyntaf gyda brawddegau cadarnhaol, yr ail dro gyda chwestiynau, y trydydd tro gyda brawddegau negyddol. Os bydd pâr wedi gorffen cyn i chi alw pawb yn ôl, dylent ddechrau ar y brawddegau cadarnhaol eto.

Ymarfer 2

Rhannwch y dosbarth yn barau newydd i ganfod ymateb priodol i'r datganiad ar ochr chwith y tabl. Pan fydd pâr wedi gorffen, dylent guddio'r ymatebion a cheisio eu cofio. Os byddant hefyd yn gorffen y cam yma, cânt edrych ar yr ymatebion a cheisio cofio'r brawddegau ar ochr chwith y tabl.

Rhaid i fi/mi beidio - Yn olaf o ran patrymau, mae angen drilio bloc Rhaid i mi beidio/Rhaid i fi beidio. Ceir lluniau yn yr ail sleid yn y PowerPoint (Rhaid i fi/mi beidio â smocio/gwyllo'r teledu/bwyta gormod/bod yn hwyr). Er mwyn ymarfer y patrwm, gosodwch sefyllfaoedd gan ofyn i'r dysgwyr roi cyngor i chi gan ddefnyddio Rhaid i chi neu Rhaid i chi beidio, e.e. Dych chi eisiau colli pwysau, dach chi isio dysgu Cymraeg.

Cam 4 – Sgwrs

Chwaraewch y sgwrs y tro cyntaf heb unrhyw dasg. Yn ystod yr ail wrandawriad, gofynnwch i bobl wrando am yr ateb i:

Ble mae Tad-cu wedi bod?/Lle mae Taid wedi bod? (at y doctor)

Arddywedwch y tri chwestiwn isod ac wedyn ysgrifennwch nhw ar y bwrdd gwyn neu yn y 'chat' i'r dysgwyr gael eu gwirio. Yna, chwaraewch y sgwrs eto.

Pam mae peswch ar Tad-cu?/Pam mae gan Taid beswch? (Achos mae e/o'n smocio)

Beth mae'n rhaid iddo fe stopio wneud?/Be mae'n rhaid iddo fo stopio wneud? (smocio a chwarae rygbi)

Faint yw oed Tad-cu?/Faint ydy oed Taid? (97)

Yna, gofynnwch i barau ddarllen y ddeialog ddwywaith.

Cam 5 – Ynganu

Gofynnwch i'r dosbarth ddarllen yn ddistaw gyntaf a thanlinellu geiriau anodd eu dweud. Yna, trafodwch fel dosbarth pa eiriau sy'n anodd. Ewch dros y geiriau hynny fel dosbarth. Yna, darllenwch gyda'r tiwtor yn darllen A, a'r dosbarth yn darllen B (gan ofalu ynganu'n ofalus a thynnu sylw at y geiriau anodd), ac yna fel arall. Y cam olaf ydy cael y dysgwyr i ddarllen gyda'i gilydd A/B, B/A.

Cam 6 – Gwyllo

Dangoswch y fideo gan ofyn i'r dysgwyr nodi ym mha drefn mae'r gweithgareddau'n codi yn y fideo:

1. Mynd i weld y castell
2. Cerdded ar lan Afon Menai
3. Gweld yr angor
4. Edrych ar yr eryr
5. Gweld Lloyd George
6. Mynd i'r siop lyfrau
7. Prynu paned neu beint yn Gymraeg
8. Siarad Cymraeg â phobl newydd

Wrth adrodd yn ôl, rhaid i'r dysgwyr ddechrau eu brawddegau gyda 'Rhaid i chi...'. Os na fydd amser i gwblhau'r cam yma yn ystod y wers, gellir ei osod fel Gwaith Cartref ychwanegol.

Cam 7 – Robin Radio

Atgoffwch y dosbarth o'r brawddegau defnyddiol ac ymarfer: Mae hi wrth ei bodd, Dydy/Dyw hi byth yn hwyr, yma o hyd.

Mae hi wrth ei bodd – Cyflwynwch Dw i wrth fy modd ac yna Dw i wrth fy modd yn coginio. Gofynnwch i bawb ddisodli 'coginio'. Yna gofynnwch am frawddegau am aelodau benywaidd y dosbarth er mwyn ymarfer adrodd yn ôl yn y trydydd person a defnyddio 'wrth ei bodd'.

Dydy/Dyw hi byth yn hwyr – Gofynnwch i barau gyfieithu ychydig o frawddegau, e.e. *She is never early, It is never busy in town, It never snows.*

Yma o Hyd - Os dymunwch/medrwch, chwaraewch y gân neu ran o'r gân Yma o Hyd. Mae sawl fersiwn ar YouTube. Yma O Hyd enillodd y bleidlais i ganfod hoff gân dysgwyr Cymraeg yn ystod Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg Radio Cymru yn 2020.

Robin Radio Uned 23

Cam 8 – Geirfa

Geirfa Uned 24.

Cam 9 – Crynhoi ac asesu ar gyfer dysgu

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 23. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Canllawiau Uned 24

Cyn ac ar ôl

Nod y wers: Siarad am gyfres o ddigwyddiadau yn eu trefn

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned - cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Ar ôl i fi/mi	Ar ôl i fi/mi
Cyn i fi/mi	
Ar ôl i X/iddo fe(fo)/iddi hi/iddyn nhw	
Ar ôl i'r XX	
Ynganu	
Gwranddo	
Sgwrs	
Robin Radio	

Adnoddau i'r tiwtor:

- Copi (digidol) o'r llyfr cwrs
- Cyflwyniadau PowerPoint
- Deialog o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*

Adnoddau i'r dysgwr:

Cam 1 – Banc Cwestiynau

Be/Beth mae'n rhaid i chi wneud ar ôl y dosbarth?

Be/Beth mae'n rhaid i chi wneud yfory?

(Mae'r cwestiynau hyn hefyd yn codi yn y gweithgaredd isod felly gellid eu hepgor am y tro.)

Cam 2 – Adolygu Uned 23

Gofynnwch i bawb greu holiadur syml fel yr isod ar ddarn o bapur:

Enw	Heno	Yfory	Nos Sadwrn	Nos Sul

Yn syml iawn, rhaid iddynt holi ei gilydd gan ddefnyddio'r cwestiwn, 'Be/beth mae'n rhaid i ti/chi wneud X?' Rhannwch y dosbarth yn grwpiau ar gyfer hyn yn y dosbarth rhithiol ond ymarfer crwydro a holi pawb fydd e yn y dosbarth wyneb yn wyneb. Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl er mwyn ymarfer y trydydd person.

Cam 3 – Cyflwyno Ar ôl i fi/mi

Y mae'r gwaith hwn yn arwain yn naturiol o 'Rhaid i fi/mi', sef rhagor o ymadroddion o dan reolaeth yr arddodiad 'i'. Mae'r dril cyntaf o fewn cyd-destun dechrau dysgu Cymraeg. Ar ôl drilio'r patrymau, dylid gwahodd pob dysgwr i sôn am eu sefyllfa bersonol nhw. Ceir lluniau i gynorthwyo gyda'r dril yn y sleid gyntaf yn y cyflwyniad PowerPoint. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Er mwyn rhoi rhagor o ymarfer gyda'r patrwm, gellid rhoi cerdyn i bob un iddynt ffurfio un cymal, e.e. llun o baned o de – Ar ôl i fi/mi gael paned o de,... . Yn unol â'r drefn arferol, dylid cadw'r un cerdyn ar y dechrau, ond yna cyfnewid cerdyn wrth gael partner newydd bob tro. Gellid dod â phawb ynghyd mewn cylch a mynd dros bob un o'r cymalau, ond gan ychwanegu ail gymal fel dosbarth, e.e. 'Ar ôl i mi gael paned o de, darllenais i'r papur/mi wnes i ddarllen y papur'.

Mae'r wers gyfunol yn dechrau yma.

Trowch at y grid yn y llyfr cwrs. Ticiwch bob un o'r colofnau sy'n berthnasol i chi am fore heddiw. Modelwch y gweithgaredd,

e.e. Codais i/Mi wnes i godi. Ar ôl i fi/mi godi, brwsiais i fy nannedd/mi wnes i frwsio fy nannedd. Ar ôl i fi/mi frwsio fy nannedd, gwisgais i/mi wnes i wisgo ayb, gan weithio eich ffordd i lawr y rhestr. Y cam nesaf yw i bob unigolyn gwblhau colofn ac yna trafod eu trefn gyda dau ddysgwyr arall. Rhaid ticio'r colofnau wrth wrando ar y ddau ddysgwyr arall.

Cam 4 – Cyflwyno ‘Cyn i fi/mi’

Defnyddiwch yr un grid i gyflwyno ‘Cyn i fi/mi...’ Gellir gwneud dril cyfieithu cyflym gyda phob un o fanylion y grid, e.e. Before I got up, Before I had a shower ac ati. Wedyn, dechreuwch eich diwrnod ar waelod y grid a gweithio'ch ffordd i fyny i ddisgrifio eich diwrnod ddoe – e.e. Cyn i mi/fi fynd i'r gwaith, mi wnes i yfed paned/yfais i baned. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Rhannwch y dosbarth yn barau i edrych ar y lluniau yn y llyfr cwrs a chreu brawddegau – hanner yn dechrau ‘Cyn i mi/fi..’ a'r hanner arall yn dechrau ‘Rhaid i mi/fi...’ e.e. Cyn i mi/fi barcio'r car, rhaid i mi/fi brynu tocyn.

Cam 5 – Trydydd person

Nid oes unrhyw egwyddorion newydd yma gan fod y dosbarth eisoes wedi dysgu'r trydydd person yng nghyd-destun **rhaid**. Gellid felly ddefnyddio cardiau fflach neu'r lluniau yn yr ail sleid PowerPoint i gyflwyno'r rhagenwau fe (fo)/hi/nhw yn drefnus gyda gwahanol ferfau, e.e. Ar ôl iddo fe redeg/Ar ôl iddi hi wneud paned/Ar ôl iddyn nhw fynd i'r dafarn cyn edrych ar y brawddegau yn y bloc yn y llyfr cwrs. (Berfenwau'r PowerPoint yw: smwddio/ffonio/rhedeg/pacio/coginio/glanhau (llnau)/gwneud paned/mynd i'r dafarn.) Darllenwch dros y brawddegau yn y llyfr cwrs.

Ymarfer - Rhannwch y dosbarth yn barau i gwblhau'r brawddegau am Noson Nefyl ac ewch dros yr atebion. Yna, gyda phartner newydd rhaid llunio brawddegau am Fore Beti. Y tro hwn, rhaid creu dau hanner y frawddeg, e.e. ‘Ar ôl iddi hi ddefro/ddihuno, cafodd/mi gaeth hi gawod Ar ôl iddi hi gael cawod,...’.

Mae'r bloc dril olaf yn dangos yr egwyddor o ddefnyddio enw pendant gyda'r patrwm hwn. Driliwch y brawddegau, gan ofyn am gyfieithu chwim hefyd. I atgyfnerthu, rhannwch y dosbarth yn barau i baru'r cwestiwn ac ateb cywir yn y grid. Gellir cael y dysgwyr i guddio'r cwestiynau yn y grid a chofio'r atebion cywir fel cam ymestynnol.

Cam 6 – Ynganu

Darllenwch y ddeialog gyfan eich hunan gan ofyn i'r dysgwyr sylwi ar eich goslef a phwyslais. Gofynnwch iddynt farcio'r geiriau rydych yn eu pwysleisio. Trafodwch hyn fel dosbarth. Darllenwch eto, gan ofyn i'r dysgwyr y tro hwn nodi unrhyw eiriau y byddant yn eu cael yn anodd eu hynganu ac ewch dros y geiriau hyn. Rhannwch y dosbarth yn barau i ddarllen y ddeialog.

Cam 7 – Gwrando

Daw'r darn gwrando o bapur arholiad Mynediad (Chwefror 2013.) Caniateir tri gwrandawriad yn yr arholiad ond ceisiwch gael y dysgwyr i ateb y cwestiynau mewn dau wrandawriad.

Cam 7 – Sgwrs – Yn y Sêl Cist Car

Chwaraewch y ddeialog nifer o weithiau ac ar ôl mynd drosti ac ateb unrhyw gwestiynau sy gan y dysgwyr, rhannwch y dosbarth yn barau i'w darllen hi ac wedyn ei darllen hi eto gan ddisodli'r enwau llefydd.

Ceir fersiwn mwy anodd o'r Sgwrs ac mae llinellau'r Sgwrs hon ar gardiau yn y Blwch Adnoddau. Rhannwch y dosbarth yn barau a gofynnwch iddynt drefnu'r Sgwrs wrth wrando arni.



Ceir fersiwn mwy anodd o'r Sgwrs ar gardiau mewn PowerPoint o'r enw Uned 24 (Gwaith Cartref). Ceir fersiynau gwahanol ar gyfer y de a'r gogledd. Gellid anfon y PowerPoint at y dysgwyr ar ôl y wers gan ofyn iddyn nhw roi'r ddeialog yn y drefn gywir fel gwaith cartref ychwanegol. Y mae'r drefn gywir yn rhan o gyflwyniad PowerPoint Uned 24.



Sgript y Gogledd:

Huw: Be wnest ti dros y penwythnos Carys?

Carys: Mi es i i sêl cist car ar Stryd y Bont. Rhaid i ni werthu pethau cyn i ni symud tŷ mis nesa.

Huw: Sut aeth hi?

Carys: Ddim yn rhy ddrwg. Cyn i mi gychwyn roedd rhaid i mi lenwi'r car efo llawer o focsys – llyfrau, dillad, paent ac wrth gwrs teganau'r plant.

Huw: Oedd y plant yn meindio?

Carys: Wel, mae Gareth yn y coleg ac mae Siân yn gweithio.

Huw: Gest ti help efo'r stondin?

Carys: Wel, ar ôl i mi gyrraedd mi wnaeth y ddynes ar y stondin drws nesa helpu dipyn bach.

Huw: Sut oedd y tywydd?

Carys: Gweddol. Roedd hi'n sych ond yn oer iawn. Ond ro'n i'n lwcus, roedd gan y ddynes ar y stondin drws nesa fflasg mawr o goffi ac mi wnaeth hi roi paned i mi cyn i'r sêl fynd yn brysur.

Huw: Oedd hi'n brysur iawn?

Carys: Oedd, fel ffair.

Huw: Wnest ti werthu dipyn?

Carys: Do, dipyn bach, ond roedd gan y ddynes ar y stondin drws nesa bethau eitha rhad, a deud y gwir.

Huw: Wnest ti dipyn o bres?

Carys: Wel, naddo a deud y gwir achos mi wnes i brynu un neu ddau o bethau gan y ddynes ar y stondin drws nesa.

Huw: Be wnaeth dy wŷr ddeud?

Carys: Dim byd achos ar ôl i mi gyrraedd adre, mi wnes i guddio'r pethau newydd yn y garej.

Sgript y De:

Huw: Beth wnest ti dros y penwythnos Carys?

Carys: Es i i sêl cist car ar Stryd y Bont. Rhaid i ni werthu pethau cyn i ni symud tŷ y mis nesa.

Huw: Sut aeth hi?

Carys: Ddim yn rhy ddrwg. Cyn i fi gychwyn roedd rhaid i fi lenwi'r car gyda llawer o focsys – llyfrau, dillad, paent ac wrth gwrs teganau'r plant.

Huw: Oedd ots gyda'r plant?

Carys: Wel, mae Gareth yn y coleg ac mae Siân yn gweithio.

Huw: Gest ti help gyda'r stondin?

Carys: Wel, ar ôl i fi gyrraedd helpodd y fenyw ar y stondin drws nesa dipyn bach.

Huw: Sut roedd y tywydd?

Carys: Gweddol. Roedd hi'n sych ond yn oer iawn. Ond ro'n i'n lwcus, roedd fflasg mawr o goffi gyda'r fenyw ar y stondin drws nesa a rhoiodd hi baned i fi cyn i'r sêl fynd yn brysur.

Huw: Oedd hi'n brysur iawn?

Carys: Oedd, fel ffair.

Huw: Werthaist ti dipyn?

Carys: Do, tipyn bach, ond roedd pethau eitha rhad gyda'r fenyw ar y stondin drws nesa, a dweud y gwir.

Huw: Wnest ti dipyn o arian?

Carys: Wel, naddo a dweud y gwir achos prynais i un neu ddau o bethau gan y fenyw ar y stondin drws nesa.

Huw: Beth ddwedodd dy wŵr?

Carys: Dim byd achos ar ôl i fi gyrraedd adre, cuddiais i'r pethau newydd yn y garej.

Cam 8 – Robin Radio

Atgoffwch y dosbarth o'r brawddegau defnyddiol yn Uned 23: Dych/Dach chi i fod yma, Mae'n ddrwg gyda fi fy mod i'n hwyr/Mae'n ddrwg gen i mod i'n hwyr, Roedd rhaid i fi/mi fynd.

Dych/Dach chi i fod yma – Gofynnwch i barau ddisodli yma gyda chymaint o leoliadau â phosib, e.e. Dych/Dach chi i fod yn y gwaith.

Mae'n ddrwg gyda fi fy mod i'n hwyr/Mae'n ddrwg gen i mod i'n hwyr – Yn syml iawn, gofynnwch i'r dosbarth ddysgu'r ymadrodd hwn a'i ddefnyddio os byddan nhw'n cyrraedd y dosbarth yn hwyr.

Roedd rhaid i fi/mi fynd – Dywedwch y bydd y patrwm hwn yn cael ei gyflwyno yn Uned 28.

Robin Radio Uned 24

Cam 9 – Geirfa

Geirfa Uned 25.

Cam 10 – Crynhoi ac asesu ar gyfer dysgu

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 24. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Canllawiau Uned 25

Mae bwyd yn y caffi/Mae 'na fwyd yn y caffi

Nod y wers: Gofyn am bethau mewn caffi

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned - cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Sut mae'r bwyd? Mae'r XX yn XX.	Sut mae'r bwyd? Mae'r XX yn XX.
Ydy'r XX yn XX? Ydy/Nac	Ydy'r XX yn XX? Ydy/Nac
Dyw/Dydy'r XX ddim yn XX.	Dyw/Dydy'r XX ddim yn XX.
Mae/Mae 'na...	
Oes llawer/digon/gormod/ychydig o...? Oes 'na lawer/ddigon/ormod/ychydig o...?	
Oes/Oes 'na...?	
Sgwrs 1	
Sgwrs 2	
Sut/Ble/Lle/Pryd mae'r...? Pwy/Beth/Be/Faint yw/ydy'r...?	
Y cwmpawd	
Trafod oedran	
Ynganu	
Ymarfer Arholiad	
Robin Radio	

Adnoddau i'r tiwtor:

- Copi (digidol) o'r llyfr cwrs
- Cyflwyniad PowerPoint
- Deialog o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*

Adnoddau i'r dysgwr:

- Dis

Cam 1 - Banc Cwestiynau

- Be dach/Beth dych chi'n wneud ar ôl i chi godi?
- Be dach/Beth dych chi'n wneud cyn i chi fynd i'r gwely?

Cam 2 - Adolygu Uned 24

Defnyddiwch y cardiau sydd yn Atodiad 1 a rhowch gerdyn i bob aelod o'r dosbarth. Mae'r tiwtor yn cymryd dau gerdyn er mwyn modelu'r gweithgaredd:



Cerdyn 1: Mi aeth/Aeth John i'r dafarn.

Cerdyn 2: Ar ôl i John fynd i'r dafarn, mi wnaeth e weithio yn yr ardd/gweithiodd e yn yr ardd.

Mae'r person nesaf yn dechrau - 'Ar ôl i John weithio yn yr ardd, ac yn ychwanegu eu brawddeg nhw. Ar ôl cwblhau trafod John, ailddosbarthwch y cardiau i drafod Mari. Bydd hwn yn digwydd fel gweithgaredd dosbarth cyfan, ac mae'n bwysig cadw'r tempo.

Mae'r cardiau sydd yn Atodiad 1 yn y cyflwyniad PowerPoint. Modelwch y gweithgaredd:



Cerdyn 1: Mi aeth/Aeth John i'r dafarn.

Cerdyn 2: Ar ôl i John fynd i'r dafarn, mi wnaeth e weithio yn yr ardd/gweithiodd e yn yr ardd.

Galwch ar unigolion i greu'r frawddeg nesaf, sef, 'Ar ôl i John weithio yn yr ardd, ac yn ychwanegu eu brawddeg nhw. Ar ôl gorffen y cardiau am John, ewch ymlaen i wneud yr un peth gyda chardiau Mari.

Cam 3 – Goddrych pendant yn yr amser presennol

Ceir luniau o de, brechdanau, coffi a chacennau yn y sleid PowerPoint er mwyn drilio'r brawddegau yn y blwch. Sicrhewch bod yr 'r' yn cael ei hynganu. Nid yw hwn yn waith newydd ond mae'n batrwm pwysig iawn ac felly mae angen sicrhau bod pawb yn deall. Ewch ymlaen at y cwestiynau a defnyddiwch yr un sleid. Ar ôl drilio'r cwestiynau sydd yn y bloc, gofynnwch i'r dysgwyr ddisodli'r ansoddair bob tro a cheisio cael o leiaf 3 ansoddair arall ar gyfer pob llun. Atebwch y cwestiynau bob tro er mwyn modelu'r atebion.

Gellir wedyn rannu'n barau neu'n drïoedd i drafod caffi neu fwyty lleol iddyn nhw. Mae un person yn enwi caffi/bwyty a'r dysgwr arall neu'r dysgwyr eraill yn holi cwestiynau am y lle.

Yn olaf, gan ddefnyddio'r un lluniau, driliwch frawddegau negyddol. Darllenwch dros y brawddegau yn y bloc.

Mae'r wers gyfunol yn dechrau yma.

Rhannwch y dosbarth yn barau i greu brawddegau am wyliau gwych a gwyliau ofnadwy gan sicrhau defnydd cywir o'r fannod, e.e. Mae'r tywydd yn braf. Gellir troi hyn yn weithgaredd wrth adrodd yn ôl. Rhaid i bawb ddyfalu beth yw brawddegau pob pâr trwy ofyn, e.e. Ydy'r tywydd yn wlyb? Rhaid ateb gyda brawddeg lawn er mwyn sicrhau bod y negyddol yn cael ei ymarfer hefyd. Gellid gwneud y cam hwn gyda phartner newydd neu fel dosbarth cyfan. Beth bynnag fo'r dull, mae'n bwysig nad yw'n mynd yn llafurus. (Camgymeriad cyffredin yng nghwestiwn y Cerdyn Post yn arholiad Mynediad yw hepgor y fannod, e.e. Mae tywydd yn braf.)

Cam 4 – Goddrych amhendant yn y presennol

Rhowch nifer o wrthrychau cyfarwydd ar y bwrdd, e.e. ffôn, sbectol, llyfr. Codwch nhw fesul un gan ddweud, e.e. Mae ffôn/'na ffôn ar y bwrdd. Gwahoddwch aelodau'r dosbarth i godi'r gwrthrychau a chreu brawddeg. Darllenwch dros y brawddegau yn y blwch.



Ceir lluniau o wrthrychau ar fyrddau gwahanol yn y cyflwyniad PowerPoint:



Llun 1: e.e. llyfr, beiro, cyfrifiadur, ffôn, coffi

Llun 2: e.e. coffi, dŵr, cacen

Llun 3: e.e. bwyd, gwin

Llun 4: e.e. llyfrau, papur, beiros, cyfrifiadur


Defnyddiwch y llun cyntaf i greu'r dril, e.e. 'Mae llyfr ar y bwrdd'. Gall y dysgwyr greu brawddegau yn annibynnol ar gyfer lluniau 2, 3, 4. Darllenwch dros y brawddegau yn y llyfr cwrs.

Driliwch y brawddegau yn y blwch nesaf (llawer, digon, gormod, ychydig). Dril mecanyddol fydd hwn gyda digon o gyfle ar gyfer ailadrodd a chyfieithu.


Cwestiynau – Driliwch y brawddegau yn y llyfr cwrs ar ôl atgoffa'r dysgwyr o'r patrwm 'Oes car gyda chi?' (De Cymru yn unig). Wedyn, dychwelwch at y lluniau yn y Cyflwyniad PowerPoint a dywedwch fod rhaid i'r dysgwyr ofyn cwestiynau i chi i ddyfalu pa lun rydych chi'n meddwl amdano. Mae cyfrifiadur, coffi a bwyd mewn mwy nag un o'r lluniau felly rhaid dechrau trwy holi am un o'r pethau yna.

Chwaraewch gêm i atgyfnerthu'r cwestiynau uchod a llythrennau'r wyddor. Ewch dros yr wyddor unwaith eto. Yna, rhowch y llun isod ar y bwrdd gwyn:

Dewiswch air sy'n gyfarwydd i'r dosbarth, e.e. cath. Dodwch dair llinell fer ar y bwrdd i ddyfalu eich bod yn meddwl am air a chanddo dair llythyren:



Rhaid i'r dosbarth ddyfalu beth yw'r gair trwy ofyn, 'Oes/ Oes 'na A yn y gair?' Ar ôl pob ateb negyddol, rhaid tynnu llinell i gynrychioli dŵr – gweler y llun nesaf. Y gamp yw i'r dosbarth ddyfalu beth yw'r gair cyn i'r ynys gael ei foddi, sef wyth llinell o ddŵr. Cofiwch wneud nodyn o'r llythrennau sy ddim yn y gair.



Os bydd aelod o'r dosbarth yn dyfalu'n gywir, caiff gyfle i ddewis gair a dechrau'r broses eto. Gellir rhannu'r dosbarth yn barau i chwarae'r gêm.

Brawddegau negyddol – Yn y De, gellir eto atgoffa'r dysgwyr o'r patrwm 'Does dim X gyda fi'. Wedyn, defnyddiwch y lluniau yn y sleid PowerPoint i ddrilio'r patrwm negyddol, 'Does dim XX/Does 'na ddim XX ar ôl'. Darllenwch dros y brawddegau yn y llyfr cwrs.

Ymarfer 1 - Rhannwch y dosbarth yn barau i edrych ar y tri llun yn y llyfr cwrs a llunio tair brawddeg am bob un, e.e. Mae cacennau ar y cownter/Mae 'na gacennau ar y cownter yn y siop goffi.

Ymarfer 2 - Yn olaf, rhannwch y dosbarth yn barau i holi cwestiynau i'w gilydd am yr ardal - e.e. 'Oes pwll nofio/'na bwll nofio yn yr ardal?' Os yw'r ateb yn un cadarnhaol, anogwch y dysgwyr i roi gwybodaeth atodol. Ond hyderir hefyd y bydd hwn yn gyfle i greu rhai brawddegau negyddol.

Cam 5 – Sgwrs

Yn y Tŷ Bwyta – Bwyty Bwyd y Byd Chwaraewch Sgwrs 1 heb y sgrïpt. Gadewch i'r dysgwyr ddilyn gyda'r sgrïpt yr ail dro. Atebwch unrhyw gwestiynau ac yna, gofynnwch i bawb gyfieithu'r isod, heb edrych yn ôl ar y sgrïpt os yn bosib.

The fish has gone.

There is one meal left.

Enjoy.

A table for one.

A table for two.

Gall y dysgwyr roi eu cynigion yn y 'chat' yn y dosbarth rhithiol os ydyn nhw'n ddigon hyderus, neu ddefnyddio byrddau gwyn bach os ydyn nhw ar gael.

Rhannwch y dosbarth yn barau i ddarllen y ddeialog.

Yn y Caffi - Chwaraewch y sgwrs ddwywaith, gan ofyn i'r dysgwyr nodi unrhyw fwydydd neu ddiodydd a glywir – brechdanau (cyw iâr), cacen lemon, bara brith, coffi llaeth/llefrith.

Rhannwch y dosbarth yn barau i ymarfer darllen y sgwrs ac yna rhaid disodli'r enwau a danlinellwyd ar gyfer cyd-destun 'Yn y dafarn'.

Cam 6 – Gofyn Cwestiwn

Does dim gwaith newydd yma ond mae'n gyfle i danlinellu pryd byddwn yn defnyddio **mae** a phryd byddwn ni'n defnyddio **yw/ydy** mewn cwestiwn. Driliwch y cwestiynau yn y blwch ac yna rhowch gyfle i barau ymarfer – byddan nhw angen dis. Rhowch yr isod ar y bwrdd gwyn:

- | | |
|--------------|--------------|
| 1. Pwy? | 4. Ble?/Lle? |
| 2. Beth?/Be? | 5. Sut? |
| 3. Faint? | 6. Pryd? |

Rhaid rolïo'r dis a gofyn cwestiwn sy'n cyfateb i'r rhif ar y dis.

Cam 7 – Y cwmpawd

Dysgwch y geiriau gogledd/de/dwyrain/gorllewin.

Penderfynwch ba ran o'r ystafell sy'n cynrychioli'r gogledd ac felly y pwyntiau eraill ar y cwmpawd. Galwch allan un o'r pwyntiau cwmpawd gan ofyn i bawb fynd i'r lle hwnnw a dweud y gair wrth symud. Dylid ailadrodd nes bod y dysgwyr yn hapus gyda'r geiriau. Wedyn, gall parau gyfarwyddo ei gilydd i fynd i'r gwahanol bwyntiau cwmpawd.



Galwch bwyntiau'r cwmpawd a dywedwch wrth y dysgwyr am symud eu breichiau i ddynodi'r pwyntiau ar y cwmpawd. Efallai byddai'n well sefyll i wneud hyn. Gofynnwch i'r dysgwyr ailadrodd y gair wrth symud eu breichiau. Rhowch gyfle i rai o'r dysgwyr alw'r pwyntiau cwmpawd hefyd.



Edrychwch ar y map o Gymru gyda'r dysgwyr a darllen dros y brawddegau. Wedyn, mewn parau, mae'r dysgwyr yn dweud/dyfalw ble yng Nghymru mae'r llefydd a nodir o dan y map.

Cam 8 – Trafod oedran

Mae trafod oedran eisoes wedi'i gyflwyno yn Uned 12, felly mae hwn yn gyfle i atgyfnerthu ond gan ymarfer y cwestiwn hefyd. Atgoffwch y dosbarth fod ffurfiau benywaidd gennym yn Gymraeg – dau/dwy, tri/tair, pedwar/pedair. Driliwch y cwestiynau a'r brawddegau yn y blwch.

Yna, rhannwch y dosbarth yn barau i weithio trwy'r lluniau o rieni a'u plant. Dyma'r ddeialog y dylent ei defnyddio fel model bob tro.

A: Beth yw/Be ydy oed y bachgen yn llun 1?

B: Mae e'n/o'n bump oed.

Cam 9 – Ynganu

Daw'r ddeialog o bapur arholiad Mynediad. Rhowch ddwy funud i'r dysgwyr edrych dros y ddeialog, fel yn yr arholiad, ac yna rhannwch nhw'n barau i ymarfer. Dewch â phawb yn ôl at ei gilydd a darllenwch y ddeialog eich hunan, gan dynnu sylw at unrhyw nodweddion arbennig ac yn ateb cwestiynau. Yna, rhannwch y dosbarth yn barau newydd i ymarfer unwaith eto.

Cam 10 – Ymarfer Elfennau Arholiad Defnyddio'r Gymraeg

Dylid pwysleisio bod y gwaith hwn yn waith adolygu defnyddiol i bawb, nid i ymgeiswyr arholiad yn unig.

Ymarfer y trydydd person – Mae un o'r cwestiynau yn y prawf llafar yn profi gwybodaeth o'r trydydd person unigol yn benodol. Felly, i baratoi, ceir cyfres o naw pâr o frawddegau o fewn cyd-destun gwaith. Does dim gwaith newydd yma felly darllenwch dros y brawddegau gan sicrhau bod pawb yn deall. Wedyn, rhannwch y dosbarth yn barau. I ddechrau, bydd Partner A yn cuddio'r brawddegau ar yr ochr dde a bydd Partner B yn darllen y brawddegau ar yr ochr chwith. Rhaid i Partner A gofio'r brawddegau y mae wedi'u cuddio. Rhaid newid rôl ar gyfer ymarfer y ffordd arall, gan guddio'r brawddegau ar yr ochr chwith. Wrth gael pawb yn ôl at ei gilydd, gallwch chi alw'r swydd a gofyn i ddysgwyr roi dwy frawddeg i chi.

Ceir copi o gwestiwn o hen bapur arholiad yn y llyfr cwrs. Gofynnwch y cwestiynau am Tom fesul un. Rhowch gyfle i bawb ffurfio ateb yn eu pen cyn gwahodd un person i ateb. Ffordd arall o wneud hyn fyddai gofyn i bawb ysgrifennu'r ateb, ar fwrdd gwyn bach neu yn y 'chat' mewn dosbarth rhithiol. Ond dyw hynny ddim yn adlewyrchu realiti'r arholiad gan mai rhan o'r prawf llafar yw'r cwestiwn hwn.

Gofyn cwestiwn – Rhan olaf y prawf llafar yw ffurfio cwestiynau i'w gofyn i'r cyfwelydd. Rhannwch y dosbarth yn barau i ddewis geiriau o'r grid i lunio o leiaf 3 chwestiwn. Dylid gosod terfyn amser, e.e. 3 munud. Gellir gosod y gwaith hwn fel gwaith cartref ychwanegol os na fydd amser yn ystod y dosbarth.

Gwrando: Bwletin tywydd – Bwletin tywydd arholiad Mynediad Mehefin 2012 a geir yma. Ceir tri gwrandawriad yn yr arholiad ond ceisiwch gael y dysgwyr i ateb y cwestiynau mewn dau wrandawriad os yn bosib.

Cam 11 - Robin Radio

Atgoffwch y dosbarth o'r brawddegau defnyddiol ac ymarfer: Roedd olwyn fflat gyda fi/Roedd gen i olwyn fflat, Pen-blwydd priodas hapus, Mwynhewch y noson.

Roedd olwyn fflat gyda fi/Roedd gen i olwyn fflat - Gofynnwch i bawb greu brawddeg bersonol am yr hyn oedd ganddynt pan yn blant, e.e. Pan o'n i'n blentyn, roedd beic gyda fi/roedd gen i feic. Gellir wedyn gofio brawddegau pawb er mwyn ymarfer y trydydd person, e.e. Pan oedd X yn blentyn, roedd beic gyda fe/roedd gynno fo feic.

Mwynhewch y noson. - Disodlwch y gair noson.

Robin Radio Uned 25

Cam 12 – Geirfa

Geirfa Uned 26.

Cam 13 – Crynhoi ac asesu ar gyfer dysgu

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 25. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Uned 25, Atodiad 1 – Cardiau'r gogledd

Mi aeth John i'r dafarn	Mi wnaeth John weithio yn yr ardd	Mi aeth John i siopa
Mi aeth Mari i'r dafarn	Mi wnaeth Mari weithio yn yr ardd	Mi aeth Mari i siopa
Mi wnaeth John sgwennu llythyr	Mi wnaeth John eistedd ar y sofffa	Mi wnaeth John ffonio ffrind
Mi wnaeth Mari sgwennu llythyr	Mi wnaeth Mari eistedd ar y sofffa	Mi wnaeth Mari ffonio ffrind
Mi gaeth John baned o goffi	Mi wnaeth John wrando ar y radio	Mi wnaeth John edrych ar y teledu
Mi gaeth Mari baned o goffi	Mi wnaeth Mari wrando ar y radio	Mi wnaeth Mari edrych ar y teledu
Mi wnaeth John olchi'r llestri	Mi wnaeth John smwddio	Mi wnaeth John goginio swper
Mi wnaeth Mari olchi'r llestri	Mi wnaeth Mari smwddio	Mi wnaeth Mari goginio swper

Uned 25, Atodiad 1 – Cardiau'r De

Aeth John i'r dafarn	Gweithiodd John yn yr ardd	Aeth John i siopa
Aeth Mari i'r dafarn	Gweithiodd Mari yn yr ardd	Aeth Mari i siopa
Prynodd John drowsus	Eisteddodd John ar y sofffa	Ffoniodd John ffrind
Prynodd Mari drowsus	Eisteddodd Mari ar y sofffa	Ffoniodd Mari ffrind
Gaeth John baned o goffi	Gwrandawodd John ar y radio	Edrychodd John ar y teledu
Gaeth Mari baned o goffi	Gwrandawodd Mari ar y radio	Edrychodd Mari ar y teledu
Golchodd John y llestri	Smwddiodd John	Coginiodd John swper
Golchod Mari y llestri	Smwddiodd Mari	Coginiodd Mari swper

Canllawiau Uned 26

Ei/Ein/Eu

Nod y wers: Siarad am bethau a phobl sy'n perthyn i bobl eraill

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned - cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Adolygu 'fy' a 'dy'	Adolygu 'fy' a 'dy'
Ei XX e/o	Ei XX e/o
Ei XX hi/Ein XX hi/Eu XX nhw	
Ynganu	
Sgwrs	
Siarad am berson arall	
Gwyllo	
Robin Radio	

Adnoddau i'r tiwtor:

- Copi (digidol) o'r llyfr cwrs
- Cyflwyniad PowerPoint
- Deialog o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*

Adnoddau i'r dysgwr:

- Dis

Cam 1 – Banc Cwestiynau

Oes 'na raglen/Oes rhaglen dda ar y teledu ar hyn o bryd?
Oes 'na ffilm/Oes ffilm dda yn y sinema ar hyn o bryd?

Cam 2 – Adolygu Uned 25

Gêm gofio

Rhowch 20 gwrthrych ar y bwrdd a gwahoddwch y dosbarth i edrych arnynt am 30-60 eiliad. Maent wedyn yn mynd i eistedd gyda phartner a chreu cymaint o frawddegau â phosib i gofio pa wrthrychau oedd ar y bwrdd – Mae/Mae 'na X ar y bwrdd. Dylid neilltuo 2 funud ar gyfer y cam hwn. Maent wedyn yn mynd at bartner newydd i gyfnewid brawddegau. Tynnwch 5 gwrthrych a gwahoddwch bawb i edrych unwaith eto ar y gwrthrychau am tua 30 eiliad. Y tro hwn, rhaid eistedd gyda phartner gwahanol a chreu brawddegau negyddol yn enwi'r gwrthrychau a dynnwyd – Does dim/Does 'na ddim X ar y bwrdd.



Yn y sleid gyntaf, ceir 24 o wrthrychau gwahanol a gwahoddwch y dosbarth i edrych arnynt am 30-60 eiliad. Rhannwch y dosbarth yn barau i gofio cymaint â phosib o'r gwrthrychau a chreu brawddegau, Mae/Mae 'na X yn y llun. Dylid neilltuo dwy funud ar gyfer y cam hwn. Dewch â phawb yn ôl at ei gilydd a dangoswch yr ail sleid lle mae chwech o wrthrychau wedi eu tynnu. Dangoswch y sleid hon am tua 30 eiliad. Rhannwch y dosbarth yn barau i greu brawddegau negyddol yn nodi'r gwrthrychau sydd wedi eu tynnu: haearn smwddio, cath, pensil, teledu, cacen, car.



Cam 3 – Adolygu 'fy' a 'dy'

Edrychwch ar y frawddeg a'r cwestiwn yn y llyfr cwrs. Yn syml iawn, rhaid disodli'r gair 'partner' er mwyn atgyfnerthu'r frawddeg a'r cwestiwn. Trowch at y grid yn y llyfr cwrs a rhowch funud i bawb ddewis hyd at ddeg categori lle maen nhw'n gallu creu brawddegau. Gellid darllen dros y grid, gyda'r dysgwyr yn nodi eu categorïau wrth i chi ddarllen. Yna, rhannwch y dosbarth yn barau a rhaid iddyn nhw greu brawddegau ar batrwm 'Sam yw/gydy enw fy mhartner i'.

Hoff – Atgyfnerthir yr un ffurfiau ag uchod ond gan gyplysu gyda 'hoff'. Yn gyntaf, gellir egluro'r ffaith bod treigladd meddal yn digwydd ar ôl 'hoff' am fod

yr ansoddair yn dod cyn yr enw. Gellid gofyn am gyfieithiadau chwim: *favourite colour, favourite food, favourite book*. Ceir pedwar llun yn y cyflwyniad PowerPoint er mwyn cyflwyno'r cwestiynau a'r atebion. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs. Yna, rhwch yr holiadur ar waith. Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl gan ddefnyddio enwau'r dysgwyr eraill yn hytrach na rhagenwau, e.e. Batman yw hoff ffilm Sam.

Cam 4 – Cyflwyno'r rhagenwau ei, ein, eu

Ei xx e - Gan eich bod newydd ymarfer y treigladd meddal, mae'n hawdd dysgu "Ei ... o/e".

Defnyddiwch gymysgedd o gardiau fflach a gwrthrychau i wneud hyn, gan gyflwyno llythrennau'r treigladd meddal yn drefnus. Mae modd dilyn y dull a amlinellir isod yn y dosbarth wyneb yn wyneb.

Gofynnwch i bawb sefyll mewn cylch er mwyn i chi fedru cael pawb i ailadrodd. Dechreuwch drwy ddweud 'Huw ydy/yw enw fy ffrind i' (neu unrhyw enw gwrywaidd arall.) Dyma ei docyn trên o/e (neu unrhyw beth yn dechrau gyda T). Anfonwch y llun/gwrthrych o gwmpas y cylch a gofynnwch i bawb ailadrodd.



Mae'r cwrs cyfunol yn dechrau yma.

Edrychwch ar y llun o Alwyn yn y llyfr cwrs. Darllenwch dros y brawddegau. Wedyn, ceir dwy sleid PowerPoint i sbarduno brawddegau tebyg am Dafydd a Rhodri. Enwch categori, e.e. gwallt, gan roi digon o amser i bawb ffurfio brawddeg (neu ysgrifennu brawddeg ar fwrdd gwyn bach), cyn i chi ofyn i un person adrodd yn ôl.

Ei xx hi - Defnyddiwch wrthrychau, cardiau fflach neu'r lluniau yn y sleid nesaf yn y cyflwyniad PowerPoint i gyflwyno 'ei xx hi'. Mae'r dysgwyr eisoes wedi dod ar draws y Treigladd Llaes mewn brawddegau negyddol.

Edrychwch ar y llun o Alwen yn y llyfr ac ewch trwy'r un camau â gwnaed uchod wrth drafod Alwen. (Gellir defnyddio'r enwau Alwyn ac Alwen i dynnu sylw'r dysgwyr at y ffaith bod geiriau sy'n gorffen ag -yn yn debygol o fod yn wrywaidd, a bod geiriau sy'n gorffen ag -en yn debygol o fod yn fenywaidd.) Ceir dwy sleid PowerPoint i gael ymarfer ychwanegol gyda Gwen a Mandy.

Er mwyn rhoi chwistrelliad o egni i'r wers, gofynnwch i bawb godi a nôl unrhyw wrthrych yn y tŷ neu'r gweithle sy'n perthyn iddyn nhw. Caiff pob un ddweud 'Dyma fy XX i' ac wedyn pawb yn troi'r frawddeg hon i'r trydydd person gan ddefnyddio'r rhagenw cywir.



Ymarfer

Rhannwch y dosbarth yn barau i lenwi'r bylchau yn y llyfr cwrs, gan ddefnyddio'r rhagenwau, e.e. Tom Jones: *Green Green Grass of Home* yw/yydy enw ei gân e/o.

Rhowch gerdyn i bawb (Atodiad 1). Gofynnwch iddyn nhw weithio ar bortread er mwyn cyflwyno eu ffrind newydd i'r dosbarth. Ceisiwch annog pawb i ysgrifennu'r brawddegau ar bapur sgrap fel bod modd i chi eu gwirio cyn iddyn nhw eu darllen.



Ceir cyfres o gardiau (o'r blwch adnoddau) yn y Cyflwyniad PowerPoint. Byddai cael unigolion i fynd trwy'r holl gardiau'n llafurus ond gellid anfon un cerdyn at bob unigolyn cyn y wers ac yna rhannu'r dosbarth yn grwpiau, gan ofyn iddyn nhw adrodd ar eu cerdyn nhw. Mae'r ffeithiau'n dilyn patrwm brawddegau Alwyn ac Alwen. I gloi, gellid gofyn i unigolion adrodd yn ôl gydag un ffaith o'u cardiau.



Yn olaf, ewch yn ôl at yr holiadur cyntaf yn yr uned. Gofynnwch i bawb nodi un ffaith am eu partner gwreiddiol nhw, gan ddefnyddio'r rhagenw priodol.

'ein' ac 'eu' - Unwaith eto, defnyddiwch gyfuniad o luniau a gwrthrychau i gyflwyno'r rhagenwau meddiannol 'ein' ac yna 'eu'. Neu, gellid defnyddio'r lluniau yn y sleid a ddefnyddiwyd gyda'r Treigladd Llaes unwaith eto. Efallai y bydd rhai dysgwyr yn gyfarwydd â geiriau cyntaf Gweddi'r Arglwydd – Ein Tad... Yna, driliwch y brawddegau sydd yn y blwch cyntaf yn y llyfr cwrs (ceir lluniau yn Sleid 25 i ategu'r ystyr) a gofynnwch i bobl bersonoli am eu tai/ceir nhw os yn briodol. Driliwch y brawddegau yn yr ail flwch, unwaith eto'n defnyddio'r lluniau yn y PowerPoint i ategu'r ystyr.

Rhannwch y cardiau yn Atodiad 2 rhwng y parau yn y dosbarth. Rhaid iddynt greu brawddeg(au) yn defnyddio 'ein' (Mae ein XX yn XX.) ac mae pawb arall yn y dosbarth yn ailadrodd y frawddeg yn defnyddio 'eu'. Neu, gellir defnyddio'r cardiau yn y PowerPoint (gweler isod).



Er mwyn ymarfer, ewch trwy'r sleidiau yn y PowerPoint (sleidiau 26-43) gan ofyn i bob unigolyn greu brawddeg yn defnyddio'r enw a'r ansoddair ar batrwm Mae ein XX ni'n XX. Mae pawb arall yn ailadrodd yr un frawddeg, ond gan ddefnyddio 'eu'.



Cam 5 – Ynganu

Deialog sydd fwy neu lai wedi ei chodi o arholiad Mynediad ydy hon felly gofynnwch i bawb sganio'r ddeialog i chwilio am eiriau anodd eu dweud. Fel dosbarth, ewch dros y geiriau anodd sy'n cael eu hawgrymu. Yna, darllenwch y rhan "Arweinydd" yn uchel a gofyn i'r dosbarth ddarllen rhan Nain/Taid neu Mamgu/Tadcu. Wedi hyn, gofynnwch i'r dosbarth ddarllen rhan yr Arweinydd a chithau i ddarllen Nain/Taid neu Mamgu/Tadcu. Y cam nesaf ydy gofyn i'r parau ddarllen y ddeialog ddwywaith gan roi cyfle i bawb fod yn Arweinydd a Nain/Taid neu Mamgu/Tadcu. Mae'n bwysig gofyn wedyn a oes unrhyw air neu eiriau sydd wedi achosi problem, ac ymarfer y gair/ymadrodd fel dosbarth. Y cam olaf ydy gofyn a oes unrhyw bâr yn fodlon darllen y ddeialog yn uchel gyda thipyn o deimlad!

Cam 6 – Sgwrs

Ar ôl y gwrando ddwywaith, gofynnwch i bawb beth yw:
gwaith tad Elwyn, gwaith partner Elwyn, gwaith Elwyn
Rhowch gyfle i bawb ffurfio ateb cyn gofyn i unigolyn ateb.

Ar ôl y gwrandawriad nesaf, rhaid ateb:
lle/ble mae plant Elwyn a lle/ble mae brawd Elwyn.

Yna, chwaraewch y ddeialog fesul brawddeg a gofyn i'r dosbarth ailadrodd. Ar ôl y cam arferol o ddarllen y ddeialog A/B, B/A, mae cyfle i'r parau newid y ddeialog o sôn am berson gwrywaidd i berson benywaidd ac yna ei darllen eto. Bydd angen gwirio y cam olaf ar y diwedd.

Cam 7 – Ymarfer – Siarad am berson arall

Ymarfer arholiad - Cafwyd ymarfer gyda llun o Tom yn Uned 25. Y tro hwn, ceir llun o Ffion. Rhannwch y dosbarth yn barau i ateb y cwestiynau. Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl.

Yn gyntaf, dywedwch wrth bawb fod yn rhaid iddyn nhw feddwl am un person gwrywaidd (ffrind, cydweithiwr, aelod o'r teulu, cymydog), un person benywaidd, ac un cwpl maen nhw'n barod i ateb cwestiynau amdany'n nhw. Darllenwch dros y cwestiynau yn y llyfr. Yna, rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri i holi ei gilydd.

Dewch â phawb yn ôl at ei gilydd a dangoswch Sleid 44. Dywedwch fod rhaid i bawb ddweud cymaint â phosib am un ffrind. Hyderir y bydd y lluniau'n sbarduno syniadau. Dylech chi fodelu, e.e.

Dw i'n mynd i siarad am Mari. Mae hi'n byw yng Nghaerdydd ac mae tri o blant gyda hi. Mae hi'n hoffi cerdded a darllen. Mae un ci ac un gath gyda hi. Mae hi'n gyrru car coch. Dyw hi ddim yn gweithio.

Os bydd amser, er mwyn meithrin sgiliau siarad rhydd, gellid gofyn i bawb ysgrifennu enwau dau ffrind maen nhw heb siarad amdany'n nhw hyd yn hyn ar ddarn bach o bapur. Rhowch y dysgwyr mewn grwpiau o dri. Rhaid iddyn nhw rifo'r chwe ffrind fydd gyda nhw rhyngddyn nhw o 1 i 6. Mae rhywun wedyn yn taflu dis ac mae'n rhaid siarad am y person sy'n cyfateb i'r rhif ar y dis. Gellir annog cwestiynau hefyd.

Cam 8 – Robin Radio

Atgoffwch y dosbarth o'r ymadroddion defnyddiol yn Uned 25: yn agos at yr afon; Cymro yw'r/ydy'r cogydd?; Sais o Lerpwl ydy o/yw e.

yn agos at yr afon - Gofynnwch i'r dosbarth ddisgrifio lle mae'r ystafell ddosbarth (os yn berthnasol), eu tŷ nhw a'r garej agosa gan ddefnyddio "yn agos at ..."

Cyn ymarfer y ddwy frawddeg nesaf, bydd rhaid cael gweithgaredd i ddysgu pob cenedl sydd yn y dosbarth ac ambell un hawdd arall. Defnyddiwch luniau o enwogion os yn bosib ac ychwanegwch y gair ar y bwrdd gwyn bob tro mewn dwy golofn (gwrywaidd a benywaidd). Os nad oes lluniau, defnyddiwch enwau enwogion ac ysgrifennwch yr enw ar y bwrdd gwn.

e.e. Andy Murray – Albanwr ydy o/yw e. Nicola Sturgeon – Albanes ydy hi/yw hi.

Joe Biden – Americanwr ydy o/yw e. Beyoncé - Americanes ydy hi/yw hi.

Jamie Oliver – Sais ydy o/yw e. Judi Dench – Saesnes ydy hi/yw hi.

Tom Jones – Cymro ydy o/yw e. Catherine Zeta-Jones – Cymraes ydy hi/yw hi.

Cymro yw'r/ydy'r cogydd? Ymarfer y cwestiwn targed trwy gael y dysgwyr i ddisodli Cymro yn y cwestiwn Cymro yw/ydy'r cogydd?

Sais o Lerpwl ydy o/yw e – Er mwyn ymarfer, gofynnwch i ddysgwyr ddisodli Lerpwl – gyda Sais ac wedyn Saesnes. Os bydd amser, gellid creu brawddegau tebyg i'w disodli, e.e. Cymro o Bontypridd ydy o/yw e; Albanwr o Aberdeen ydy o/yw e; Americanwr o Efrog Newydd ydy o/yw e – gan ddisodli'r enw lle bob tro.

Robin Radio uned 27

Cam 9 – Geirfa

Geirfa Uned 27.

Cam 10– Crynhoi ac asesu ar gyfer dysgu

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 26. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Gweithgaredd ychwanegol - Disgrifio enwogion

Dangoswch lun o rywun enwog. Disgrifiwch o/hi e.e. Dyma Sean Connery. Mae o'n dŵad/Mae e'n dod o'r Alban . Mae o/e'n hoffi yfed *martinis*. Actor ydy o/Actor yw e.

Rhowch lun o rywun enwog i bawb. Ar y cefn rhowch 3 ffaith amdano/ amdani, e.e.

Tom Jones – dod/dŵad o Drefforest; un mab/hogyn; canwr

Catherine Zeta-Jones – dod/dŵad o Abertawe; dau o blant; actores

Rhys Ifans – dod/dŵad o Hwlfordd; Ysgol Maes Garmon; actor

Catrin Finch – dod/dŵad o Lanon yng Ngheredigion; dau o blant; telynores

Bryn Terfel – dod/dŵad o Bant Glas yng Ngwynedd; opera cynta – Così Fan Tutte; canwr opera

Shirley Bassey – dod/dŵad o Gaerdydd; dwy ferch/hogan; cantores

Gofynnwch i'r dosbarth gyflwyno eu person enwog i weddill y dosbarth.

Gellir gofyn i'r dysgwyr lunio tair ffaith am berson enwog fel Gwaith Cartref ychwanegol. Cânt roi'r cliwiau ar ddechrau'r wers nesaf er mwyn i bawb ddyfalu pwy yw eu person enwog nhw.

Uned 26, Atodiad 1

<p>Deiniol</p> <p>Tad - Dinas Mawddwy Mam - Dolgellau Partner - Dolwyddelan Gwallt - Du Llygaid - Du Car - Du</p>	<p>Gwyn</p> <p>Tad - Gwent Mam - Glyn Ebwy Partner - Gwynedd Gwallt - Gwyn Llygaid - Gwyrdd Car - Gwyn</p>	<p>Llion</p> <p>Tad - Llanrwst Mam - Llandudno Partner - Llangollen Gwallt - Llwyd Llygaid - Llwyd Car - Llwyd</p>
<p>Teri</p> <p>Tad - Treorci Mam - Treffynnon Partner - Trelai Gwallt - Du Llygaid - Brown Car - Gwyrdd</p>	<p>Carwyn</p> <p>Tad - Corwen Mam - Caergybi Partner - Caernarfon Gwallt - Coch Llygaid - Gwyrdd Car - Coch</p>	<p>Paul</p> <p>Tad - Penmaenmawr Mam - Porthmadog Partner - Pontypridd Gwallt - Llwyd Llygaid - Glas Car - Porffor</p>
<p>Marc</p> <p>Tad - Machynlleth Mam - Manceinion Partner - Meifod Gwallt - Du Llygaid - Brown Car - Melyn</p>	<p>Bryn</p> <p>Tad - Bangor Mam - Brynmawr Partner - Bethesda Gwallt - Brown Llygaid - Brown Car - Brown</p>	<p>Rhys</p> <p>Tad - Rhuthun Mam - Rhydaman Partner - Rhosneigr Gwallt - Brown Llygaid - Glas Car - Oren</p>
<p>Teleri</p> <p>Tad - Treorci Mam - Treffynnon Partner - Tyddewi Gwallt - Du Llygaid - Gwyrdd Car - Glas</p>	<p>Carys</p> <p>Tad - Cwmbran Mam - Casnewydd Partner - Caerdydd Gwallt - Coch Llygaid - Gwyrdd Car - Coch</p>	<p>Petra</p> <p>Tad - Pwllheli Mam - Porthcawl Partner - Powys Gwallt - Brown Llygaid - Glas Car - Pinc</p>

Uned 26, Atodiad 2

dosbarth - llawn	llyfrgell - da	maes parcio - llawn
meddyg - prysur	brechdan - ffres	cawod - poeth
cwestiwn - gwreiddiol	cymdogion - hen	dillad - newydd
diod - poeth	ffrindiau - hyfryd	geiriadur - da

Canllawiau Uned 27

Pobl y Cwm

Nod y wers: Siarad am eiddo a pherthnasau

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned - cyrsiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Pris y petrol	
Pris petrol	
Mam Siân dw i. Beth yw/Be ydy enw dy dad di?	Mam Siân dw i. Beth yw/Be ydy enw dy dad di?
Fiesta yw/ydy mêm fy nghar i. Beth yw/Be ydy mêm eich car chi?	
Y capten/capten y tîm/capten tîm Cymru	
Ynganu	
Sgwrs	
Gwyllo	
Robin Radio	

Adnoddau i'r tiwtor:

- Copi (digidol) o'r llyfr cwrs
- Cyflwyniad PowerPoint
- Deialog o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*

(Mae'r patrwm genidol a gyflwynir yn yr uned hon yn anodd iawn i ddysgwyr ei gofio oherwydd ymyrraeth y Saesneg. Mae drilio trylwyr yn bwysig.)

Mae'r drefn ychydig yn wahanol i'r arfer ar gyfer y dosbarthiadau cyfunol. Dylid cyflwyno Camau 3 a 4, ond hepgor Cam 5.

Adnoddau i'r dysgwr:

Cam 1 – Banc Cwestiynau

Beth yw/Be ydy enw eich stryd chi?

Cam 2 – Adolygu Uned 26

Rhannwch y dosbarth yn barau neu'n driodded i ateb y cwestiynau aml-ddewis isod er mwyn atgyfnerthu'r rhagenw meddiannol 'ei' – gwrywaidd a benywaidd. Mae modd eu haddasu er mwyn eu gwneud yn berthnasol i'r dosbarth neu'n hollol gyfoes. Gellir defnyddio'r kahoot a awgrymir isod ar gyfer y dosbarth rhithiol.



1. Dych/dach chi wedi clywed am Juliet. Pwy oedd Romeo?
 - a) ei thad hi b) ei chariad hi c) ei mab hi ch) ei gŵr hi
2. Dych/dach chi wedi clywed am David Beckham. Pwy yw/ydy Victoria?
 - a) ei fam e/o b) ei chwaer e/o c) ei ferch e/o ch) ei wraig e/o
3. Dych/dach chi wedi clywed am Batman. Pwy neu beth yw/ydy Robin?
 - a) ei bartner e/o b) ei gar e/o c) ei dad e/o ch) ei frawd e/o
4. Am beth mae Catrin Finch yn enwog?
 - a) ei phiano hi b) ei thrombôn hi c) ei fflwt hi ch) ei thelyn hi
5. Am beth mae Alun Wyn Jones yn enwog?
 - a) ei ddawnsio e/o b) ei nofio e/o c) ei daclo e/o ch) ei focsio e/o
6. Am beth mae Bryn Terfel yn enwog?
 - a) ei actio e/o b) ei ddawnsio e/o c) ei ganu e/o ch) ei ysgrifennu e/ei sgwennu o
7. Am beth mae William Shakespeare yn enwog?
 - a) ei ddramâu e/o b) ei ddawnsio e/o c) ei nofelau/o e ch) ei operâu e/o
8. Am beth mae Pisa'n enwog?
 - a) ei chastell hi b) ei chapel hi c) ei phêl-droed hi ch) ei thŵr hi
9. Am beth mae Caerffili'n enwog?
 - a) ei bara hi b) ei chaws hi c) ei menyn hi ch) ei chacennau/theisennau hi
10. Am beth mae Aberystwyth yn enwog?
 - a) ei chastell hi b) ei choleg hi c) ei chŵn hi ch) ei physgod hi

Ceir gêm kahoot i atgyfnerthu'r rhagenwau. Y cwestiynau uchod sydd yn y gêm: <https://create.kahoot.it/details/bb923aaf-93ae-4343-85e6-f8ba36132e3d>.



Cam 3 – Pobl y Cwm/Pris y Petrol

Tynnwch sylw at deitl yr uned, sef 'Pobl y Cwm'. Gofynnwch beth yw'r ystyr yn Saesneg er mwyn tanlinellu'r gwahaniaeth yn y patrwm Saesneg a'r patrwm Cymraeg.

Sylwch fod camgymeriad yn y Saesneg yn fersiwn y De. Beth yw pris y petrol? >
What is the price of **the** petrol?

Ceir lluniau yn y sleid gyntaf yn y PowerPoint i helpu drilio'r cwestiynau yn y blwch yn y llyfr cwrs. Darllenwch drostynt a rhannwch y dosbarth yn barau i holi'r pedwar cwestiwn i'w gilydd, gan roi'r atebion a nodir yn neu o dan y lluniau.

Cam 4 – Pris Petrol

Ceir lluniau yn yr ail sleid i helpu gyda'r dril. Pwysleisiwch mai gofyn yn gyffredinol rydyn ni yma, yn hytrach na gofyn am rywbeth penodol. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs a gofynnwch i ddysgwyr holi ei gilydd am bris tebygol ar gyfer petrol, cwrs Cymraeg, cyfrifiadur a ffôn symudol.

Cam 5 – Mam Siân dw i/Beth yw/Be ydy enw dy... di?

Y mae'r gwaith hwn wedi'i gyflwyno yn yr uned ar-lein.

Cyn troi at y dril, rhannwch y dosbarth yn barau i enwi cymaint â phosib o aelodau'r teulu. Nodwch nhw ar y bwrdd gwyn. Ceir bocs dril yn y llyfr (Mam Siân dw i) ond yn hytrach na defnyddio'r brawddegau yna, gallech chi roi nifer o frawddegau amdanoch eich hunan ar y bwrdd gwyn, e.e.

Chwaer Aled dw i

Gwraig Peter dw i

Mam Ffion a Gareth dw i

Merch Mrs Price dw i

Ffrind Jane dw i

Rhowch ddarn o bapur/gerdyn i bawb (y siâp isod os yn bosibl):



Gofynnwch i bawb blygu darn o bapur er mwyn cael y siâp isod:



Ffrind	Siân	dw i
--------	------	------

Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu brawddeg debyg i'r uchod amdanynt eu hunain a chyflwyno eu hunain yn y modd hwn. Gofynnwch wedyn iddynt blygu'r papur yn dri fel bod un elfen yn unig i'w gweld (naill ai 'ffrind' neu 'Siân'). Rhaid i aelodau eraill y dosbarth greu brawddeg gyfan yn y trydydd person trwy gofio beth yw'r gair coll, e.e.

Chwaer Siân yw/ydy hi

Mam Siân yw/ydy hi

Ffrind Siân yw/ydy hi

Mae hwn hefyd yn gyfle i ymarfer yr atebion i frawddegau pwysleisiol.

Ymatebwch i ddyfaliadau'r dosbarth trwy ddweud 'le/la' neu 'Nage/Naci'. Bydd hyn yn codi unwaith eto yn y Sgwrs.

Er mwyn atgyfnerthu brawddegau trydydd person, trowch at y goeden deuluol yn y llyfr cwrs. Rhannwch y dosbarth yn barau i holi cwestiynau i'w gilydd, e.e. Pwy yw/ydy Elin? (Merch Dafydd yw/ydy hi; Partner Siôn yw/ydy hi; Mam Cai, Rhys a Twm yw/ydy hi; Chwaer Morgan a Ioan yw/ydy hi).

Driliwch y bloc 'Be ydy/Beth yw enw dy..... di?'

Gellir gwneud y cam nesaf er mwyn atgyfnerthu'r gwaith ar-lein.

Edrychwch ar y goeden deuluol yn y llyfr cwrs. Rhannwch y dosbarth yn barau gan ddweud mai un partner fydd Elin a'r llall fydd Ioan. Rhaid ateb cwestiynau'r partner fel y bobl hyn. Bydd y cwestiynau ar batrwm 'Beth yw/Be ydy enw dy... di?' Dylid ateb gyda un gair – yr enw yn unig. Os byddan nhw'n gorffen cyn i chi ddod â'r gweithgaredd i ben, cânt ddewis person arall o'r goeden deuluol.

Cam 6 – Fiesta yw/ydy mêc fy nghar i./Beth yw/Be ydy mêc eich car chi?

Ceir cyfres o luniau yn y drydedd sleid yn y cyflwyniad PowerPoint. Ewch dros y treigl trwynol yn gyntaf (fy nhe i, fy nghar i, fy nghoffi i, fy mhapur i, fy noctor i, fy neintydd i, fy manc i, fy misgedi i.) Gellir hefyd ddefnyddio realia ar gyfer rhai o'r eitemau hyn, yn hytrach na'r llun. Ewch ymlaen i greu brawddeg bersonol ar batrwm 'Glengettie yw mêc fy nhe i' ar gyfer pob un llun. Bydd y dysgwyr yn ailadrodd a gellid gofyn am frawddeg bersonol gan un dysgwr gwahanol bob tro. Cânt gyfle i bersonoli mewn holiadur. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr cwrs.

Ymarfer - 'Pwy ddwedodd/Pwy wnaeth ddeud?' Fel cam cyntaf, y cyfan mae'n rhaid i barau ei wneud yw ysgrifennu enw'r person neu gymeriad a ddywedodd y geiriau:

Romeo ydy/yw enw fy nghariad i = Juliet
 Batmobile ydy/yw enw fy nghar i = Batman
 Homer ydy/yw enw fy nhad i = Bart Simpson
 Jac y Jwc ydy/yw enw fy ffrind i = Sali Mali
 'X Factor' ydy/yw teitl fy rhaglen i = Simon Cowell
 'King Lear' ydy/yw teitl fy nrama i = Shakespeare

Yr ail gam yw cuddio'r brawddegau ar y chwith a chofio'r brawddegau. Ar ôl dod â phawb yn ôl at ei gilydd, dywedwch un o'r enwau, e.e. Shakespeare a galw ar un o'r dysgwyr i gynhyrchu'r frawddeg.

Driliwch y bloc 'Beth yw mêm eich car chi?' Darllenwch dros y cwestiynau yn y llyfr cwrs. Rhowch yr holiadur ar waith.

Cam 7 - capten tîm Cymru

Ceir un bloc dril arall i adeiladu ar y genidol, gan ychwanegu enw lle at y patrwm. Camgymeriad cyffredin iawn ymhlith dysgwyr profiadol yw dweud 'y capten tîm Cymru' ac felly mae'r adran hon yn cyflwyno egwyddor bwysig. Ceir dau ymarfer i ddilyn: cyfres o frawddegau i'w cyfieithu yn y llyfr, ac atebion lle mae'n rhaid i'r dysgwyr nodi'r cwestiwn. Rhannwch y dysgwyr yn barau i wneud y ddau ymarfer yma a dewch â phobl yn ôl at ei gilydd i fynd dros yr atebion.

Os yw'r dosbarth yn mwynhau cwis, ceir isod nifer o gwestiynau am Gymru, pob un yn defnyddio patrwm y genidol.



Rhannwch y dosbarth yn barau i ateb y cwestiynau.



Gofynnwch i bobl deipio eu hatebion yn y 'chat' yn gyfrinachol i chi. Pwynt i bawb sy'n gywir a dau bwynt i'r cyntaf i ateb.

Ble/Lle mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru? Aberystwyth
 Ble/Lle mae Stadiwm Principality? Caerdydd
 Ble/Lle mae Canolfan Siopa Friars Walk? Casnewydd
 Ble/Lle mae Prifysgol Glyndŵr? Wrecsam
 Ble/Lle mae Canolfan Pontio? Bangor

Ble/Lle mae Canolfan Mileniwm Cymru? Caerdydd
 Ble/Lle mae cartref Theatr Genedlaethol Cymru? Caerfyrddin
 Ble/Lle mae Ysbyty Withybush? Hwlfordd
 Ble/Lle mae Amgueddfa Lloyd George? Llanystumdwy, Cricieth
 Ble/Lle roedd cartref Dylan Thomas? Talacharn (neu Abertawe)
 Ble/Lle mae Theatr y Grand? Abertawe

Mae'r adran nesaf am afonydd Cymru yn fwy anodd. Bydd y cwestiynau'n pwysleisio'r ffaith nad oes angen defnyddio'r fannod. Mae modd newid y cwestiynau isod er mwyn dewis afonydd sy'n addas i'r dosbarth.

Ym mha sir mae Afon Alaw? Ynys Môn
 Ym mha sir mae Afon Tryweryn? Gwynedd
 Ym mha sir mae Afon Teifi? Ceredigion
 Ym mha sir mae Afon Gwendraeth? Sir Gaerfyrddin
 Ym mha siroedd mae Afon Elái? Rhondda Cynon Taf, Caerdydd
 Ym mha siroedd mae Afon Tawe? Powys, Castell Nedd Port Talbot, Abertawe

Cam 8 – Ynganu

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y paragraff yn dawel. Mae'n debyg y bydd nifer o eiriau newydd yma, a dylent ofyn am yr ystyr trwy ofyn y cwestiwn, 'Beth yw/Be ydy ystyr y gair X?' Bydd hyn unwaith eto'n ymarfer y genidol.

Rhannwch y dosbarth yn barau i ymarfer darllen yn uchel.

Er mwyn meithrin ymwybyddiaeth o batrwm y genidol, tanlinellir y patrwm yn y darn darllen.

Cam 9 – Sgwrs

Gwrandewch y tro cyntaf heb osod unrhyw dasg. Yr ail dro, rhaid cwblhau'r tabl sy uwchben y Sgwrs. Darllenwch dros y sgwrs gan ateb unrhyw gwestiynau. Gellir tynnu sylw at yr ateb le/la yn dilyn y cwestiwn 'Mam Dafydd Rhydderch dych chi?' Gellid gwneud sesiwn holi ac ateb cyflym i ymarfer le/la; Nage/Naci.

Ymarfer 1 - Gofynnwch i'r parau ymarfer darllen y ddeialog gyda'i gilydd.

Ymarfer 2 – Disodli'r geiriau a danlinellir.

Ymarfer 3 – newid 'chi' i 'ti'.

Cam 10 – Gwyllo

Ceir fideo sy'n dangos nifer fawr o lefydd yng Nghaerdydd, a phatrwm y genidol yn cael ei ddefnyddio mewn nifer ohonynt. Gofynnwch i'r dysgwyr nodi pump o'r llefydd hyn: Bae Caerdydd, Canolfan Mileniwm Cymru, Stiwdios BBC Cymru, Y Senedd, Canolfan yr Urdd, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Castell Caerdydd, Neuadd Dewi Sant, Canolfan Siopa Dewi Sant, Yr Hen Lyfrgell, Castell Coch, Stadiwm y Principality, Clwb Ifor Bach, Marchnad Caerdydd.

Cam 11 – Robin Radio

Yr ymadroddion i'w hymarfer o Uned 26 yw: yr un, ystafell ymolchi, ystafell haul
yr un – Gofynnwch i barau feddwl am 10 gair allai ragflaenu 'yr un', e.e. tocyn yr un, un yr un.

ystafell ymolchi/ystafell haul – Gofynnwch i barau feddwl am dri gair arall all ddod ar ôl ystafell, e.e. ystafell wely, ystafell fwyta, ystafell gyfarfod.

Robin Radio Uned 27

Cam 12 – Geirfa

Geirfa Uned 28.

Cam 13 – Crynhoi ac asesu ar gyfer dysgu

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 27. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen dros y cwestiynau yn y 'Gêm o Gardiau' ar ddechrau Uned 28 cyn y wers nesaf.

Robin Radio Uned 28

Canllawiau Uned 28

Adolygu'r cwrs ac edrych ymlaen

Nod y wers: Adolygu Iefel Mynediad

Cynnwys yr uned	Cynnwys digidol yr uned - cyrsgiau cyfunol
Geirfa	Geirfa
Gêm o gardiau	
Creu brawddegau	
Yn y Parc – Gwrando a darllen, disgrifio llun, sgwrsio	
Roedd rhaid i fi	Roedd rhaid i fi
Gwrando a Darllen – diwedd y cwrs. Ymarfer atebion.	
Bydd rhaid i ni – trafod defnyddio'r Gymraeg.	
Gwrando a darllen – Yn y Siop	
Siarad am ddathlu	
Robin Radio	

Adnoddau i'r tiwtor:

Copi (digidol) o'r llyfr cwrs

Cyflwyniad PowerPoint

Deialogau o'r Safle Rhyngweithiol neu'r *dropbox*

Adnoddau i'r dysgwr:

Mae angen cyflawni'r rhan fwyaf o'r camau yn y wers hon. Gellir hepgor Cam 2 a'r rhan fwyaf o Gam 6.

Cam 1 – Banc Cwestiynau

Be ydy/beth yw enw eich bès chi?
 Pwy ydy/yw capten tîm rygbi Cymru?
 Pwy ydy/yw capten tîm pêl-droed Cymru?

Cam 2 – Adolygu Uned 27

Gofynnwch i bawb yn y dosbarth fynd at gymaint o bobl â phosib i gyflwyno eu hunain drwy ddweud o leiaf dair brawddeg ar batrwm: Partner/ Ffrind/Bès/ Cymydog /Mam/Tad/Nain (Mam-gu)/Taid (Tad-cu)/Mab/Merch/Brawd/Chwaer dw i. Gofynnwch i bawb sefyll mewn cylch ar y diwedd, gan ofyn am un frawddeg am bawb yn y trydydd person.



Cyflwynwch eich hun drwy ddweud o leiaf dair brawddeg ar batrwm: Partner/ Ffrind/Bès/Cymydog/Mam/Tad/Nain (Mam-gu)/Taid (Tad-cu)/Mab/Merch/Brawd/ Chwaer dw i. Rhwch funud i bawb feddwl am dair brawddeg i gyflwyno eu hunain fel hyn. Gofynnwch i bawb eu cyflwyno eu hun ac yna gofynnwch am un ffaith am bawb yn y trydydd person.



Cam 3 – Gêm o gardiau

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri i chwarae'r gêm. Gan mai hon yw uned olaf y cwrs, mae'n bwysig iawn gwahodd siaradwyr rhugl i'r sesiwn. Byddai'n dda gallu cael siaradwr i fod gyda phob un o'r grwpiau. Os nad yw hynny'n bosib, byddai'n dda cael un siaradwr i gael ei holi gan y grŵp cyfan ar ôl i'r dysgwyr gael cyfle i ymarfer mewn grwpiau.

Cam 4 – Adolygu patrymau

Ceir grid yn y llyfr sy wedi'i rannu'n ddau hanner. Rhannwch y dosbarth yn barau i greu brawddegau cyfan gan gymryd un elfen o hanner uchaf y grid ac un elfen o hanner isaf y grid. Gellid gofyn am ddetholiad o'r brawddegau hyn wrth ddod â'r dysgwyr yn ôl at ei gilydd.

Cam 5 – Yn y parc a chadw'n heini

Gwranddo a Darllen - Chwaraewch y ddeialog ddwywaith, yna rhannwch y dosbarth yn barau i ddarllen yn uchel ac ateb y cwestiynau. Ewch dros yr atebion ar ôl cael pawb yn ôl at ei gilydd.

Llun 'Yn y Parc' – Rhannwch y dosbarth yn barau i greu o leiaf 10 brawddeg am y llun 'Yn y Parc', e.e. Mae dyn yn rhedeg/Mae 'na ddyn yn rhedeg, Mae plant yn chwarae/Mae 'na blant yn chwarae. Wedyn dylai'r dysgwyr ddweud wrth ei gilydd sut maen nhw'n hoffi ymlacio, gan ymestyn cymaint â phosib. Ewch dros ddetholiad o frawddegau'r parau wrth gael pawb yn ôl at ei gilydd.

Cadw'n Heini – Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i ddweud wrth ei gilydd sut maen nhw'n cadw'n heini. Anogwch nhw i ymestyn cymaint â phosibl.

Cam 6 – Roedd rhaid i mi/fi

Cyflwynwyd 'Rhaid i mi/fi' yn Uned 23. Er mwyn atgyfnerthu, gofynnwch i bawb ddweud beth mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud ar ôl y dosbarth, gan gynnal ymarfer adrodd yn ôl er mwyn ymarfer y trydydd person.

Os yn bosib, defnyddiwch gardiau fflach sy'n dangos gweithgareddau i ddrilio 'Ddoe, roedd rhaid i mi/fi...' Neu, ceir cyfres o luniau yn y sleid PowerPoint gyntaf. (Atebion: Roedd rhaid i mi/fi lanhau, fynd i'r gampfa, beintio, goginio, arddio, brynu petrol, olchi'r llestri, fynd â'r ci am dro.) Yna, gofynnwch i bawb bersonoli ac unwaith eto gofynnwch am adrodd yn ôl yn y trydydd person. Darllenwch dros y brawddegau yn y llyfr. Soniwch am eich trefn "Bore 'ma". Wedyn, gofynnwch i'r dosbarth beth roedd rhaid iddyn nhw ei wneud "Bore 'ma".

Cyflwynir y gwaith yn yr uned ar-lein, felly soniwch am yr hyn roedd yn rhaid i chi ei wneud cyn y wers – tri pheth. Gofynnwch i bawb wneud yr un peth. Gellir atgyfnerthu'r trydydd person trwy ofyn i bawb gofio un peth a wnaeth pob aelod o'r dosbarth.

Cam 7 – Ymarfer Atebion

Ymarfer atebion o fewn deialog a geir yma. Cyn troi at y ddeialog, gellir defnyddio'r cardiau ymarfer atebion sy'n rhan o gardiau Canolradd ar y Safle Rhyngweithiol. Mae nifer fawr o gardiau yn adolygu atebion lefel Mynediad, Sylfaen a Chanolradd. Mae'r rhai cyntaf yn y set yn atebion Mynediad – y mae triongl melyn arnynt. Wedyn, trowch at y ddeialog yn y llyfr a rhowch gyfle i'r dysgwyr lenwi'r bylchau mewn parau. Ar ôl iddyn nhw orffen, gallant ddechrau darllen y ddeialog i'w gilydd. Ar ôl cael pawb yn ôl at ei gilydd, chwaraewch y ddeialog er mwyn iddyn nhw wirio eu hatebion. Y cam olaf ydy bod y tiwtor yn darllen y ddeialog a'r dosbarth yn cymryd rhan y dosbarth fel côr.

Cam 8 – Edrych yn ôl dros y cwrs

Trafodaeth fer – gofynnwch i bob un sôn am ddau beth maen nhw wedi'u mwynhau yn ystod y cwrs a dau achlysur lle maen nhw wedi defnyddio eu Cymraeg y tu allan i'r dosbarth. Bydd hi'n ddiddorol clywed ymateb pawb a bydd yn arwain ymlaen yn naturiol at y cam nesaf.

Cam 9 – Y dyfodol + rhaid

Dyma gyfle i drafod lle mae'r dosbarth yn medru ymarfer eu Cymraeg dros yr haf (os yw'r amseriad yn briodol). Dechreuwch trwy fodelu ychydig o bethau bydd yn rhaid i chi eu gwneud dros yr haf (ddim yn nghyd-destun dysgu'r Gymraeg) – gan ddefnyddio'r patrwm 'Bydd rhaid i fi...'. Ceir lluniau yn yr ail sleid yn y PowerPoint i ymarfer y patrwm. Dylid ymarfer 'Bydd rhaid i ni...' (Bydd rhaid i ni seiclo/lanhau/bacio/gadw'n heini/beintio/goginio/arddio/ymlacio). Gwahoddwch y dysgwyr i bersonoli (yn defnyddio'r person cyntaf unigol neu luosog). Fel arfer, gellir manteisio ar y cyfle hwn i atgyfnerthu'r trydydd person. Yna, darllenwch dros y brawddegau yn y llyfr cwrs cyn rhannu'r dosbarth yn grwpiau o 3 neu 4 i feddwl am awgrymiadau eraill o ran sut i ddefnyddio'r Gymraeg. Anogwch bawb i wneud defnydd o'r adnoddau digidol i adolygu, gwyllo S4C, gwrandao ar Radio Cymru,

defnyddio'r Gymraeg bob cyfle – ac os oes manylion am y cam nesaf o ran y dosbarth, rhannwch nhw. Os nad oes saib rhwng y cwrs yma a'r nesaf, mae'n dda medru cael cyfle i atgoffa pawb am y posibiladau allgyrsiol.

Cam 10 – Gwranddo/Darllen/Tasg Siarad

Dechreuwch drwy chwarae'r sgwrs, Yn y Siop, o leiaf ddwywaith. Yna, rhannwch y dosbarth yn barau i roi cynnig ar y tair tasg a geir yn y llyfr cwrs. Dewch â phawb yn ôl at ei gilydd i drafod yr atebion a darllenwch dros y sgript. Yna, ewch ymlaen i drafod unrhyw beth bydd aelodau'r dosbarth yn ei ddathlu yn y misoedd nesaf. Gellir rhannu'n grwpiau bach ar gyfer y cam sgwrsio.

Cam 11 – Robin Radio

Yr ymadroddion i'w hadolygu yw Beth yw/Be ydy dy hanes di?; Dyfala ble/lle es i; Dw i newydd fod.

Be ydy/beth yw dy hanes di? Gofynnwch i barau ddisodli'r gair hanes.

Dyfala lle/ble es i: Gofynnwch am gyfieithiadau chwim – *Guess what I did, Guess who I saw, Guess how much I paid, Guess how I heard, Guess when I went.*

Dw i newydd fod

Rhowch y tair brawddeg ganlynol ar y bwrdd gwyn: Dw i newydd weld _____ /Dw i newydd brynu _____ /Dw i newydd ddarllen _____, a gofynnwch i unigolion gwblhau'r brawddegau – heb dynnu gormod o sylw at y treigladau.

Robin Radio 28

Cam 12 – Geirfa

Os byddwch yn gwneud yr uned Arholiad ar ddiwedd y cwrs, gellir mynd dros eirfa'r uned honno.

Cam 13 – Crynhoi ac asesu ar gyfer dysgu

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a ddysgwyd yn Uned 28. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gweler yr adran ar Asesu ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Cyffredinol.

Canllawiau uned yr Arholiad

Nod y wers: Cyflwyno'r arholiad Mynediad

Y mae hon yn uned i'w defnyddio ar adeg sy'n briodol i'r dosbarth, ar ôl Uned 16. Neu gellir defnyddio adrannau gwahanol ohoni. Nid yw'r camau'n dilyn camau arferol yr unedau.

Cam 1 – Y Papur Darllen a Deall

Cwestiwn 1: Hysbysebion – Nid oes enghraifft o'r hysbysebion yn yr uned am fod enghreifftiau niferus yn y Gwaith Cartref. Felly, er mwyn i'r dysgwyr weld y fformat, dangoswch y cwestiwn yng Ngwaith cartref Uned 16.

Cwestiwn 2: Deialog - Gofynnwch i'r dosbarth, mewn parau, edrych ar y grid cwestiynau sy'n dilyn y ddeialog. Darllenwch y darn hyd at "Bechod!/Trueni!" a gofynnwch i'r parau ateb y cwestiynau yn y grid cyntaf (gan edrych yn ôl ar y sgript ar yr un pryd). Yna, edrychwch fel dosbarth ar ail ran y grid. Eto, darllenwch yr ail ran a gofyn iddyn nhw ddarganfod yr atebion.

Bydd rhai parau wedi gorffen cyn y gweddi – gofynnwch iddyn nhw ddarllen y sgript mewn pâr fel deialog.

Ewch dros yr atebion fel dosbarth.

Cwestiwn 3: Llenwi'r Bylchau - Bydd angen gofal arbennig gyda'r dasg yma i sicrhau nad oes dim byd anghyfarwydd yn gorfod cael ei ddyfalu.

Rhannwch y dosbarth yn barau i weithio trwy'r bylchau. Dylid tynnu sylw ymlaen llaw at unrhyw beth anghyfarwydd gan ddweud wrth y parau am hepgor y cwestiwn hwnnw. Ewch dros yr atebion fel dosbarth.

Ar gyfer yr ail ymarfer, gofynnwch i bobl weithio'n unigol ond yna rhannu eu hatebion gydag aelod arall o'r dosbarth cyn mynd dros yr atebion fel dosbarth cyfan. Opsiwn arall yw gosod yr ail gwestiwn fel gwaith cartref.

Cam 2 – Y Papur Ysgrifennu

Cwestiwn 1: Ysgrifennu cerdyn post - Llungopiŵch y templed cerdyn post sydd yn y llyfr cwrs – un i bob aelod o'r dosbarth. Rhaid i bawb ysgrifennu eich enw ar ôl "Annwyl". Yna, gofynnwch i bawb ddewis lleoliad ar gyfer y bwllch cyntaf, ac yna pasio'r cerdyn ymlaen i'r person nesaf. Rhaid gwneud yr un peth ar gyfer y categorïau canlynol:

- Tywydd addas ar gyfer y lleoliad
- Dull o deithio
- Lle i aros, e.e. gwesty
- Bwyd addas
- Diod addas
- Dau beth i'w gwneud
- Anrheg addas o'r lleoliad
- Croesi allan isio/eisiau neu ddim isio/eisiau
- Y diwrnod byddan nhw'n dychwelyd adref.

Casglwch y cardiau, a darllen allan un neu ddau. Gellir gofyn i barau gwblhau cerdyn arall yn eu llyfr cwrs.

Y cam nesa ydy gofyn i barau ysgrifennu brawddeg yn defnyddio pob un o'r geiriau a restrir yn y llyfr cwrs a fyddai'n addas ar gerdyn post. Ewch o gwmpas yn cywiro wrth i bobl weithio a nodwch rai o'r camgymeriadau mwyaf cyffredin sy'n codi er mwyn rhoi adborth ar ddiwedd y gweithgaredd.

Tynnwch sylw at y ffaith bod cerdyn post i'w gwblhau yn y Gwaith cartref.

Cwestiwn 2: Ysgrifennu portread – Er mwyn meithrin cywirdeb wrth dreiglo yn y dasg hon, edrychwch ar y map yn y llyfr cwrs. Darllenwch dros y llefydd a'r treigladau. Wedyn, defnyddiwch y cardiau Treigladd Meddal o'r Pecyn Adnoddau i Diwtoriaid i ymarfer y Treigladd Meddal a gofynnwch i ddysgwyr nodi lle maen nhw'n byw er mwyn atgyfnerthu'r Treigladd Trwynol.

Ewch dros y patrymau yn y blwch iaith. Nid yw hwn yn ddril ac nid oes gwaith newydd. Ond mae'n gyfle i atgoffa'r dysgwyr o batrymau angenrheidiol ar gyfer y portread. Manteisiwch ar gyfleoedd i ymarfer ymhellach unrhyw beth nad yw'r dysgwyr yn hyderus yn ei ddefnyddio.

Rhannwch y dosbarth yn barau i gwblhau tasg y portread. Gellid defnyddio gwybodaeth am aelodau o'r dosbarth i lunio portreadau newydd neu ddefnyddio Cardiau Corryn CBAC.

Cam 3 – Y Papur Gwrando a Deall

Cwestiwn 1: Deialog - Gwnewch yn union fel y drefn yn yr arholiad: 30 eiliad i ddarllen y cwestiynau a chyfle i wrando dair gwaith. Y tro cyntaf, clywir y ddeialog i gyd a cheir munud i ysgrifennu cyn clywed am yr ail dro. Yr ail dro, rhennir y ddeialog yn ddwy ran, gyda 30 eiliad i ateb y cwestiynau bob tro. Yna, clywir y ddeialog i gyd eto ar y diwedd. Mae'n bosib bydd gwrando dwywaith yn ddigon ond gellir ymgynghori â'r dosbarth. Gwiriwch yr atebion fel dosbarth yn syth.

Cwestiwn 2: Bwletin Tywydd - Yn gyntaf, edrychwch ar y brawddegau gyda llythrennau coll yn y llyfr cwrs, a gofyn i barau geisio eu cwblhau er mwyn atgoffa'r dysgwyr o eirfa'r tywydd. Yn yr arholiad, ceir 30 eiliad i ddarllen y cwestiynau a chlywir y bwletin dair gwaith, gyda munud ar ôl pob gwrandawid i ateb y cwestiynau. Yn y dosbarth, gofynnwch eto ar ôl yr ail wrandawid a oes angen clywed am y trydydd tro er mwyn gallu cwblhau'r brawddegau am y tywydd. Yn olaf, rhannwch y dosbarth yn barau i lenwi'r bylchau yn y paragraff. Nid yw'r cam hwn yn rhan o'r arholiad. Gellir chwarae'r bwletin unwaith eto er mwyn gwirio.

Cwestiwn 3: Amserau a phrisiau. Er mwyn paratoi, ceir grid 'Bingo' yn y llyfr cwrs. Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis unrhyw 5 sgwâr. Yna, darllenwch sgwariau allan ar hap. Enillydd y gêm fydd y dysgwr cyntaf i groesi allan y pum sgwâr a nodwyd. Gall yr enillydd, os bydd yn ddigon hyderus, gael tro ar "alw" hefyd. Yna, chwaraewch y dasg amser a phrisiau. Unwaith eto, clywir y darn dair gwaith gyda munud i ysgrifennu atebion rhwng pob gwrandawid. Gwiriwch yr atebion ar y diwedd fel dosbarth. Mae'n werth tynnu sylw at ymadroddion pwysig fel Mynediad am ddim/Does dim rhaid talu. Un pris mae dysgwyr yn aml yn ei gael yn anghywir yw 'un deg pum punt'.

Cam 4 – Y prawf llafar

Mae'n werth dweud bod y prawf llafar yn fyr iawn (tua 5 munud) ond bod pobl yn cynhyrchu llawer iawn o iaith yn yr amser hwnnw. Dengys holiaduron barn fod y dysgwyr yn meddwl nad yw'r prawf yn ddigon hir felly mae'n bwysig dangos cymaint maen nhw'n ei ddweud mewn cyn lleied o amser.

Cwestiwn 1: Darllen deialog - Nid oes deialog i'w darllen yma gan fod y deialogau hyn wedi'u cynnwys mewn nifer o unedau eraill. Gellid dweud eu bod yn cael 2 funud i baratoi.

Cwestiwn 2: Ateb Cwestiynau - Mae pob cwestiwn sy yn y Banc Cwestiynau yn y llyfr cwrs.

Gofynnwch i'r dysgwyr nhw ofyn y cwestiynau i chi, un ar y tro. Modelwch drwy ateb mewn un frawddeg lawn ond syml. Mae meithrin cywirdeb yn holl-bwysig yn y cwestiwn hwn a rhaid pwysleisio nad oes angen mwy nag un frawddeg lawn i ateb y cwestiynau. Y cam nesaf ydy gofyn iddyn nhw ofyn y cwestiynau bob yn ail i'w gilydd, a dechrau o'r dechrau ar ôl gorffen, gan ofyn y cwestiwn arall bob yn ail. Nid oes angen ysgrifennu dim byd. Y cam olaf ydy'r cwestiynau atodol. Newidiwch bartneriaid. Yna, gofynnwch i'r dosbarth ofyn y cwestiynau mewn italig i chi eto (mewn trefn), a gwahodd cwestiwn atodol. Atebwch y cwestiynau gydag un frawddeg lawn. Yna gofynnwch i'r partneriaid wneud hyn gyda'i gilydd.

Cwestiwn 3: Ateb cwestiynau am y llun – Os oes gennych fyrddau gwyn bach, mae'r rhain yn ddefnyddiol i unigolion ateb y cwestiynau. Os na, gellir defnyddio darnau o bapur. Mae'r 'chat' yn ddefnyddiol yn y dosbarth rhithiol. Er mai cwestiwn llafar yw hwn, mae angen ei wneud dan reolaeth y tiwtor gydag atebion ysgrifenedig er mwyn sicrhau bod y cwestiynau'n cael eu hateb yn gywir. Gellir mynd dros y cwestiynau a'r atebion fesul un, gyda'r dysgwyr yn rhoi eu cynigion ar y byrddau gwyn neu yn y 'chat'. Y cwestiynau i'w gofyn yw:

O le mae Dafydd yn dŵad yn wreiddiol?/O ble mae Dafydd yn dod yn wreiddiol?

Be wnaeth o ddoe?/Beth wnaeth e ddoe?

Sgynno fo deulu?/Oes teulu gyda fe?

Be ydy ei waith o?/Beth yw ei waith e?

Be mae o'n hoffi wneud yn ei amser sbâr?/Beth mae e'n hoffi wneud yn ei amser sbâr?

Dylid cynghori'r dysgwyr i beidio â defnyddio'r ymadrodd 'yn ei amser sbâr' yn yr ateb.

Cwestiwn 4: Gofyn Cwestiynau – Y dasg y tro hwn yw gofyn cwestiynau i'r arholwr. Defnyddir un gair neu ymadrodd fel sbardun. Nodir y geiriau/ymadroddion i gyd yn y blwch yn y llyfr cwrs ond hefyd ond ceir cardiau yn Atodiad 1.

Rhannwch y dosbarth yn barau a rhannwch y cardiau i gyd rhwng y parau gwahanol – gyda mathau gwahanol o eiriau os yn bosib (e.e. berfenw, enw, cyfnod amser). Rhowch hyd at dair munud i bob pâr feddwl am gwestiwn i gyd-fynd â phob gair. Pan fydd un pâr wedi gorffen, dewch â'r gweithgaredd i ben. Yna gofynnwch, fesul pâr, am gwestiwn. Atebwch yn gryno.



Rhannwch y dosbarth yn barau a rhowch ddetholiad o'r geiriau/ymadroddion i bob pâr er mwyn llunio cwestiynau. Ewch dros y cwestiynau ar y diwedd.



Bydd angen i bawb feddwl am gwestiwn i bob gair yn y Gwaith cartref.

Cam 5

I gloi, tynnwch sylw pawb at ddyddiad yr arholiad, a'r dyddiad cau i gofrestru os byddwch yn gwneud yr uned hon cyn y dyddiad cofrestru.

Atodiad 1

byw	enw	heno
yn wreiddiol	teulu	yfory
gweithio	plant	wythnos nesa
gwyliau	car	amser sbâr
mynd	neithiwr	Lle/Ble
cerdded	ddoe	Pryd

darllen	wythnos diwetha	Sut
medru/gallu	penwythnos diwetha	Faint
hoffi	swper	Faint o'r gloch
tywydd	i frecwast	gwyliau

